#PrifAbertawe

Prifysgol Abertawe
Swansea University


astudio@abertawe.ac.uk
+44 (0)1792 295358
abertawe.ac.uk/ol-raddedig


ÔL-RADDEDIG 2022

Prifysgol Abertawe



Prifysgol Abertawe
Swansea University

PRIFYSGOL ABERTAWE

# ÔL-RADDEDIG 2022

DROS **£8 MILIWN**

O ariannu ar gael ar gyfer astudio ôl-raddedig



# CROESO I *Abertawe*

Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni Ôl-raddedig trwy archebu lle ar un o'n diwrnodau agored sydd ar ddod*.

**CADWA DY LE HEDDIW:** **abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**

*edrych ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.

## MHRIFYSGOL ABERTAWE

sgania i wylio

**10** UCHAF YN Y DU ÔL-RADDEDIG

WHATUNI? STUDENT CHOICE Awards 2020 — 10 UCHAF ÔL-RADDEDIG

(WhatUni 2020)

**90%** O'N HYMCHWIL YN ARWAIN YN RHYNGWLADOL

REF2014 Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**13** PWNC WEDI'U CYNNWYS

QS WORLD UNIVERSITY RANKINGS

(QS World University Rankings 2021)

**25** UCHAF YN Y DU

The Guardian PRIFYSGOL

(The Guardian University Guide 2021)

# CYNNWYS


04 YMCHWIL YM MHRIFYSGOL ABERTAWE
10 DEWIS GRADD ÔL-RADDEDIG
16 ISRADDEDIG I ÔL-RADDEDIG
18 ATEBION I DY GWESTIYNAU
20 GWNEUD GWAHANIAETH
22 YMUNA Â'N CYN-FYFYRWYR NEILLTUOL
24 ABERTAWE A'R RHANBARTH
26 BARN EIN MYFYRWYR
28 MAPIAU'R CAMPWS
32 LLETY
36 ARIANNU DY ASTUDIAETHAU
38 GYRFAOEDD, SGILIAU A CHYFLOGADWYEDD
40 ASTUDIO A GWEITHIO DRAMOR
42 MAINTEISION ASTUDIO TRWY'R GYMRAEG
44 ACADEMI HYWEL TEIFI
46 UNDEB Y MYFYRWYR
48 CHWARAEON
52 CYFLEUSTERAU
55 CYNALIADWYEDD
56 LLES A CHYMORTH MYFYRWYR
58 YN CEFNOGI DY YMCHWIL ÔL-RADDEDIG
60 CYRSIAU A–Y
173 CADW MEWN CYSYLLTIAD
174 FFIOEDD AC ARIANNU
176 YMGEISIO

























## Yr Is-ganghellor, yr Athro Paul Boyle

Mae ein Prifysgol wedi newid yn fawr dros y blynyddoedd, ond mae ein gwerthoedd yn parhau'n gryf ac yn gyson. Yn ystod y cyfnod heriol hwn, ein myfyrwyr yw ein blaenoriaeth o hyd. Rydym wedi buddsoddi'n helaeth yn niogelwch a lles ein myfyrwyr, gan gynnwys darparu cymorth ariannol, yn ogystal â chynnal ansawdd uchel y cyfleoedd addysgu ac ymchwil a gynigiwn.

Rydym ni'n gymuned yng ngwir ystyr y gair; rydym yn gwerthfawrogi ein pobl ac mae mewnbwn gwerthfawr ein myfyrwyr ôl-raddedig yn cyfrannu'n sylweddol at ein llwyddiant.

Mae ymchwil ac arloesi wrth wraidd profiad Abertawe ac yn bwydo'n uniongyrchol i ansawdd ein haddysgu. Yn y prosbectws hwn, byddi'n gweld llawer o gyfeiriadau at effaith ymarferol ein hymchwil, o weithgynhyrchu cynaliadwy i ddarparu brechlynnau di-boen. Mae ein hymchwil yn gyson yn llywio polisïau sy'n effeithio ar Gymru a'r Gymraeg, gydag ymchwil i effaith y twf mewn ail gartrefi yng Nghymru ymhlith y diweddaraf i ddylanwadu ar gynlluniau ein Llywodraeth.


Rydym yn croesawu barn newydd, a byddi di'n derbyn yr holl gefnogaeth sydd ei hangen arnat, yn uniongyrchol gan ein staff ymroddedig, a thrwy fynediad at ein hadnoddau, er mwyn cyflawni dy uchelgeisiau a chyfoethogi ein hamgylchedd ymchwil ar yr un pryd.

Mae Abertawe ymhlith y 10 Prifysgol Orau yng nghategori Ôl-raddedigion Gwobrau Dewis Myfyrwyr WhatUni 2020 – dyma gydnabyddiaeth arbennig gan y bobl sydd bwysicaf i ni. Rydym yn y 30 uchaf yn nau o dri phrif dabl cynghrair y DU – Complete University Guide a'r Guardian University Guide – ac rydym yn parhau i wella ein safle yn y tabl o brifysgolion gorau'r byd, y QS Rankings.

Yma, yn Abertawe, y derbyniais fy rôl academaidd gyntaf fel darlithydd ifanc a gallaf ddweud o brofiad personol fod ansawdd yr addysg a'r amgylchedd cefnogol heb eu hail.

Rwy'n gobeithio bod fy ffydd yn ein Prifysgol yn amlwg, ond paid â chymryd fy ngair i yn unig – cadwa le ar un o'n diwrnodau agored i ti gael dysgu mwy am y cyfleoedd gwych sydd yma yn aros amdanat.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**



# SBARDUNO RHAGORIAETH DRWY RANNU SYNIADAU

**O greu dur gwyrddach a glanach; troi plastig yn hydrogen; gwella iechyd y boblogaeth; gwarchod henebion hynafol i; herio a llunio polisi ynghylch tegwch a chydraddoldeb a sicrhau diogelwch unigolion a chymunedau ledled y byd, mae ein hymchwil yn helpu i atal gwrthdaro ac yn cynnig atebion i heriau byd-eang y byd modern.**

Mae Prifysgol Abertawe yn falch o gynnig ymchwil amlddisgyblaethol ym mhob maes, gan annog meddwl gwreiddiol a gweithio cydweithredol i greu canlyniadau arloesol.

Gelli helpu i newid y byd a goresgyn heriau byd-eang ym Mhrifysgol Abertawe, drwy weithio gydag academyddion byd-enwog, defnyddio cyfleusterau ymchwil blaenllaw a chydweithio â busnesau ac academyddion byd-eang.

**Sut mae Ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn gwneud gwahaniaeth?**




sgania i wylio

**30**
UCHAF YN Y DU
PRIFYSGOL YMCHWIL

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**90%**
O'N HYMCHWIL YN ARWAIN YN RHYNGWLADOL

(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)


abertawe.ac.uk/ymchwil

**Mae ein hymchwil yn llywio polisïau iechyd byd-eang ac yn galluogi arloesi dyfeisiau, gwasanaethau a diagnosisau i hybu iechyd a lles da. A chan fod cyfleusterau a staff GIG Cymru mor agos, gall ein hymchwilwyr fanteisio i'r eithaf ar arbenigedd rhyngddisgyblaethol a chyfleusterau o'r radd flaenaf.**

Mae ein hymchwil o'r radd flaenaf yn gweithio i wella prosesau rheoleiddio, profi a deall nanoronynnau ac mae'r gwaith hwn yn elwa o bresenoldeb y Ganolfan Nano-iechyd ryngddisgyblaethol gwerth miliynau o bunnoedd. Mae Banc Data SAIL yn caniatáu inni gysylltu a dadansoddi data o sawl ffynhonnell ac mae'n storfa ddiogel ar gyfer biliynau o gofnodion yn ymwneud ag unigolion, sy'n galluogi ymchwilwyr i ateb cwestiynau pwysig er budd cymdeithas. Mae ein hymchwil yn ymchwil drosi, gan drosglwyddo syniadau a dealltwriaeth o'r fainc ymchwil i erchwyn gwely cleifion ac yn ôl eto. Rydym yn arloesi ffyrdd newydd o drin ac atal afiechydon, gwrthdroi stigma, a lleihau pwysau ar y GIG.




sgania i wylio



## RYDYM YN ARLOESI MEWN DIAGNOSIS IECHYD, GWEITHDREFNAU A DYFEISIAU



abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/arloesi-ym-maes-iechyd



# RYDYM YN CREU ARLOESEDD MEWN DUR A’R BROSES CREU DUR




sganio i wylio

Mae ein hymchwil i ddur wedi arwain at ddatblygu dur ysgafnach, gwyrddach, mwy clyfar a phroses gynhyrchu lanach, gan helpu i frwydro yn erbyn newid yn yr hinsawdd.

Mae ein campws gwerth miliynau o bunnoedd, sy’n gartref i brosiectau fel SPECIFIC, ac yn agos at bartneriaid y diwydiant, Tata Steel, wedi ein galluogi i weithio ar draws disgyblaethau i greu a datblygu atebion posibl i’r argyfwng hinsawdd.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/arloesedd-dur**

**Mae ein hymchwil yn canolbwyntio ar lywodraethu amddiffyn busnesau bach canolig, hawliau dynol a chyfiawnder troseddol. Rydym yn cydweithio â’n gilydd; gydag ystod o unigolion mewn sefydliadau academaidd a chyrff llywodraethol, rhynglywodraethol ac anllywodraethol eraill.**

Mae ein hymchwil yn cael ei hwyluso gan grwpiau ymchwil a chanolfannau fel y Ganolfan Ymchwil i Seiberfygythiadau, y Sefydliad Cyfraith Llongau a Masnach Ryngwladol, yr Arsyllfa ar Hawliau Dynol Plant a’r Grŵp Ymchwil Llywodraethu a Hawliau Dynol.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/cyfiawnder-a-chydraddoldeb**



# RYDYM YN DOD O HYD I FFYRDD O GADW A DIOGELU’R BYD AR GYFER CENEDLAETHAU’R DYFODOL

sganio i wylio




**Rydym yn cydnabod yr heriau byd-eang yr ydym i gyd yn eu hwynebu.**

O gynnal prosiect adfer morwellt mwyaf y DU, i hedfan yn uchel gyda chondorau yn yr Ariannin gyda SLAM (Labordy Abertawe ar gyfer Symudiad Anifeiliaid) i wella dealltwriaeth o ymrannu mynyddoedd iâ yn Antarctica a chreu adeiladau sy’n harneisio ac yn storio eu hynni eu hunain. Mae’n cymuned academaidd angerddol yn gweithio i frwydro yn erbyn effeithiau’r argyfwng hinsawdd ar gyfer y dyfodol.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/dyfodol-cynaliadwy**



# RYDYM YN GWNEUD GWAHANIAETH I GYMDEITHAS, YN DIOGELU POBL, AC YN SICRHAU CYDRADDOLDEB



# RYDYM YN RHOI POBL WRTH WRAIDD DATBLYGIADAU DIGIDOL




sgania i wylio

**Mae ein hymchwil yn rhoi pobl wrth wraidd datblygiadau technolegol. Rydym yn creu amgylcheddau digidol mwy diogel sy'n integreiddio ac yn gwella ffyrdd o fyw pobl.**

Mae ein hymchwil yn cynnwys ffocws ar hygyrchedd ar gyfer defnyddwyr sydd â nam ar y synhwyrau; datblygu llwyfannau digidol i annog ymgysylltiad gwleidyddol; cadw plant yn ddiogel ar-lein a brwydro yn erbyn camddefnydd o'r cyfryngau ar-lein. Ym mhopeth a wnawn, rydym yn ceisio gwella grymuso unigolion wrth wireddu potensial technoleg ddigidol.


**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/dyfodol-digidol**



# RYDYM YN HELPU DIWYDIANT I FOD YN FWY CYNALIADWY

**Gan weithio gyda phartneriaid ac arbenigwyr yn eu maes, gall ein hymchwilwyr wneud prosesau gweithgynhyrchu'n fwy effeithlon i wella cynhyrchiant, gan leihau gwastraff ac arbed ynni ac arian.**

Yn gartref i brosiectau fel ASTUTE sy'n galluogi lefelau uwch o arloesedd busnes ym maes gweithgynhyrchu'r dyfodol ac yn datblygu technolegau uwch a chynaliadwy i'r dyfodol a chanolfannau rhagoriaeth byd-enwog fel Canolfan Zienkiewicz ar gyfer Peirianneg Gyfrifiadol, rydym yn helpu diwydiant i fod yn fwy cynaliadwy.




sgania i wylio

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/gweithgynhyrchu-clyfar**





# RYDYM YN DOD Â PHOBL AT EI GILYDD, YN DIOGELU HANES, AC YN DYLANWADU AR BOLISI




sgania i wylio

**Rydym yn gweithio gyda chymunedau lleol a byd-eang i ddiogelu hanes, dylanwadu ar bolisi ac annog diwylliannau agored a meithringar.**

O ddiogelu safleoedd treftadaeth ddiwylliannol; i lywio a gwella polisi addysg; hyrwyddo dealltwriaeth well o rôl cyfryngau digidol mewn bywyd cyfoes, mae ein hymchwil yn mynd i'r afael â'r materion a'r problemau allweddol.

Rydym yn gwbl ymrwymedig i ymchwil o safon sy'n arloesol yn ddeallusol ac sy'n cael effaith ar y byd go iawn hefyd. Mae ein canolfannau ymchwil, megis Canolfan y Celfyddydau a'r Dyniaethau Digidol, y Ganolfan Ymchwil Iaith, yr Arsyllfa Polisi Cyffuriau Byd-eang, yn ein galluogi i gyflawni ein huchelgais i greu byd cyfartal, diogel a chynaliadwy wedi'i adeiladu ar barch a dealltwriaeth.

**abertawe.ac.uk/ymchwil/ein-huchafbwyntiau/diwylliant-cyfathrebu-a-threftadaeth**

# DY OPSIYNAU ASTUDIO
# Ôl-raddedig

## GRADDAU A ADDYSGIR

Mae graddau ôl-raddedig a addysgir yn fwy heriol yn academaidd na rhaglenni israddedig. Mae angen mwy o ddysgu hunangyfeiriedig ac fe'u dyfernir i fyfyrwyr sy'n dangos dealltwriaeth estynedig o bwnc penodol. Caiff graddau Meistr eu cyflawni drwy gyfuniad o fodiwlau a addysgir a gwaith cwrs wedi'i asesu, a disgwylir i fyfyrwyr gwblhau prosiect ymchwil neu draethawd hir manwl.

Mae graddau meistr a addysgir yn gweithredu fel arfer ar sail modiwlau, sy'n golygu bod myfyrwyr yn dilyn cyfres o fodiwlau a addysgir sy'n werth cyfanswm o 180 o gredydau. Gellir ennill 120 o gredydau o fodiwlau a addysgir, a 60 o gredydau o'r traethawd hir.

Mae rhaglenni meistr a addysgir yn aml yn cynnwys cyrsiau sgiliau ymchwil a methodoleg a chyrsiau hyfforddi adrannol penodol, sy'n hanfodol i fyfyrwyr ar lefel meistr a'r rheini sy'n awyddus i barhau i astudio ar gyfer graddau uwch. Mae cyrsiau hyfforddi arbenigol ychwanegol hefyd ar gael yn ystod y flwyddyn academaidd. Er mwyn bod yn gymwys ar gyfer Diploma Ôl-raddedig, rhaid i fyfyrwyr anelu at 120 o gredydau, neu 60 o gredydau ar gyfer Tystysgrif Ôl-raddedig. (Mae rheoliadau penodol yn berthnasol – noder nad yw pob rhaglen yn cynnig y cymwysterau ymadael hyn.)

## DEWIS RHAGLEN

Mae'r Brifysgol yn cynnig amrywiaeth o raddau ôl-raddedig a addysgir, gan gynnwys MA, MSc ac LLM. Gelli ddilyn cwrs ôl-raddedig yn yr un pwnc â dy radd israddedig neu, mewn llawer o achosion, mewn pwnc arall.

## CYRSIAU TROSI

Os wyt ti am newid cyfeiriad dy astudiaethau neu lwybr gyrfa nad yw'n gysylltiedig â dy radd israddedig, rydym ni'n cynnig cyfle i ti astudio cwrs trosi. Mae'r cyrsiau hyn yn caniatáu i raddedigion o unrhyw faes pwnc astudio cwrs meistr ôl-raddedig heb unrhyw gymwysterau perthnasol blaenorol.

Mae gennym ddetholiad amrywiol o gyrsiau trosi ar gael ym maes cyllid, gwyddoniaeth, peirianneg, gwyddor iechyd, meddygaeth, y gyfraith, rheoli busnes a'r celfyddydau a'r dyniaethau.

## A ALLAF ASTUDIO'N RHAN AMSER?


Fel arfer, gellir astudio ar gyfer rhaglenni Meistr, Diplomâu Ôl-raddedig a Thystysgrifau Ôl-raddedig yn llawn amser neu'n rhan amser mewn amrywiaeth eang o feysydd pwnc. Fe dy anogir i gysylltu â'r adran academaidd dan sylw cyn gwneud cais. Cadwa lygad am y symbol RhA ar ein tudalennau cyrsiau.




### AI GRADD ÔL-RADDEDIG A ADDYSGIR YW'R DEWIS PRIODOL I MI?

**Ie, os wyt am wneud y canlynol:**

- Gwella dy ragolygon gyrfa
- Meithrin sgiliau newydd ac arbenigol
- Paratoi ar gyfer gradd ymchwil
- Datblygu dy wybodaeth bwnc o dy radd gyntaf
- Astudio pwnc newydd sbon






### ASESIAD DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Gelli gyflwyno gwaith ymchwil yn y Gymraeg os yw dy oruchwylwyr yn gallu goruchwylio gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg.




## GRADDAU YMCHWIL ÔL-RADDEDIG

Mae graddau ymchwil yn rhaglenni academaidd heriol sy'n gofyn i ti astudio pwnc yn fanwl am gyfnod parhaus o amser. Drwy ddyfarnu doethuriaeth neu radd ymchwil arall, cydnabyddir ymrwymiad ymgeiswyr llwyddiannus, y sgiliau lefel uchel a feithrinwyd ganddynt, a'u gallu i gyflwyno gwaith ymchwil gwreiddiol sy'n datblygu dealltwriaeth o'r pwnc dan sylw.

Fel myfyriwr ymchwil, byddi di'n ymgymryd â rhywfaint o hyfforddiant mewn dulliau ymchwil cyn dechrau ar dy raglen ymchwil. Bydd gen ti oruchwylydd academaidd a fydd yn llywio ac yn cefnogi cyfeiriad dy waith ymchwil drwy gydol y cwrs gradd, a bydd cyd-oruchwylydd yn cynnig cymorth ychwanegol fel y bo angen.

### DEWIS PWNC YMCHWIL

Mae graddau ymchwil, yn enwedig ar lefel MPhil a PhD, yn wahanol iawn i raglenni israddedig a rhaglenni Meistr a addysgir gan nad oes rhestr ddiffiniedig o gyrsiau i ddewis o'u plith. Gellir astudio graddau MPhil a PhD ar unrhyw bwnc academaidd, ar yr amod bod gan y coleg/ysgol rwyt yn gwneud cais iddo/iddi yr arbenigedd i lywio a goruchwylio dy astudiaethau.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ymchwil**

Hyd yn oed os wyt wedi meddwl am gynnig ymchwil mwy datblygedig, rydym yn argymell y dylet gysylltu â'r Tiwtor Derbyn perthnasol er mwyn cael cyngor.

Caiff darpar ymgeiswyr eu paru â darpar oruchwylwyr ar gam cynnar o'r broses. Mae hon yn hanfodol er mwyn sicrhau'r canlynol:

- Dy fod yn cael y cyngor a'r arweiniad sydd eu hangen arnat i benderfynu p'un ai gradd ymchwil ym Mhrifysgol Abertawe yw'r dewis cywir i ti.
- Bod y goruchwylydd yn frwdfrydig ynghylch y pwnc ac wedi'i gymell ganddo.
- Dy fod yn symud yn ddidrafferth i grŵp ymchwil priodol (lle y bo'n berthnasol).
- Dy fod yn cwblhau dy waith ymchwil ac yn ei ysgrifennu o fewn y terfyn amser gofynnol.

**Darganfydda fwy am ein hystod o gymunedau myfyrwyr ymchwil y brifysgol a'r gyfadran y gelli ymwneud â nhw fel myfyriwr ymchwil ôl-raddedig:**

**abertawe.ac.uk/ymchwil/gwnewch-ymchwil-gyda-ni/ymchwil-ol-raddedig/postgraduate-research-student-communities**

### AI GRADD YMCHWIL YW'R DEWIS PRIODOL I MI?

**Ie, os wyt am wneud y canlynol:**

- Dilyn gyrfa yn y byd academaidd neu ymchwil.
- Archwilio pwnc unigol yn fanwl.
- Meithrin sgiliau ymchwil helaeth ac arbenigol.
- Gwella dy ragolygon gyrfa.

### OES GEN TI UNRHYW GWESTIYNAU?

Mae'r Swyddfa Derbyn Ôl-raddedig yn hapus i dy gynghori ynghylch a yw dy gymwysterau'n addas ar gyfer mynediad i'r cwrs yr hoffet eu hastudio. Am ragor o wybodaeth anfona e-bost at:

**pgradmissions@abertawe.ac.uk**

### PA RADD YMCHWIL?

Mae'r Brifysgol yn cynnig nifer o raddau ymchwil, gan gynnwys:

**PhD:** Mae myfyrwyr PhD yn ymgymryd â gwaith ymchwil wedi'i oruchwylio dros gyfnod rhwng tair a phedair blynedd yn llawn amser neu rhwng chwech a saith mlynedd yn rhan amser. Wedyn, caiff y gwaith ymchwil ei gyflwyno ar ffurf thesis heb fod yn fwy na 100,000 o eiriau. Rhaid i'r thesis ddangos gallu'r myfyriwr i ymdrin â'r cynnig ymchwil gwreiddiol a dylai wneud cyfraniad penodol a sylweddol at y pwnc. Defnyddir y flwyddyn gofrestru gyntaf ar gyfer PhD fel cyfnod prawf swyddogol, a chaiff yr ymgeisydd ei asesu gan yr adran cyn y gall barhau â'r gwaith ymchwil.

**MPhil:** Gellir ei gwblhau drwy astudio am gyfnod rhwng dwy a thair blynedd yn llawn amser (rhwng pedair a phum mlynedd yn rhan amser). Mae'n ofynnol i ymgeiswyr gyflwyno thesis hyd at 60,000 o eiriau a chânt eu hasesu ar ffurf arholiad llafar (viva). Yn amodol ar ofynion academaidd, gall fod cyfleoedd i fyfyrwyr uwchraddio o'r radd MPhil i PhD yn ystod eu hastudiaethau.

**MA/MSc drwy Ymchwil:** Fel arfer, un flwyddyn yn llawn amser, rhwng dwy a thair blynedd yn rhan amser. Prosiect ymchwil unigol yw'r prosiect hwn a gaiff ei ysgrifennu i greu thesis o 30,000 o eiriau.

**MRes:** Nod MRes (Meistr Ymchwil) yw darparu hyfforddiant perthnasol er mwyn meithrin y wybodaeth, y technegau a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen ar gyfer gyrfa broffesiynol, neu er mwyn symud ymlaen i astudiaethau academaidd uwch, PhD fel arfer. Cyflawnir MRes drwy gyfuniad o fodiwlau a addysgir (gwerth 60 o gredydau) a thesis ymchwil sy'n cyflwyno canlyniad prosiect ymchwil sylweddol (gwerth 120 o gredydau).

**DBA:** Fel arfer, mae'r cwrs gradd DBA Rheoli yn rhaglen 4 blynedd ar sail ran amser sy'n cynnwys 6 modiwl a thraethawd ymchwil. Mae pob modiwl wedi'i strwythuro ar sail bloc addysgu dwys dros dri diwrnod yn ogystal ag amrywiaeth o gymorth ar-lein gan y timau addysgu a'r goruchwylwyr doethurol.

**EdD:** Mae'r cwrs gradd Doethuriaeth Broffesiynol mewn Addysg (EdD) yn rhoi cyfle i fyfyrwyr ymdrin â materion ym maes addysg mewn ffordd broffesiynol a beirniadol ar lefel ddoethurol. (Am wybodaeth am y cwrs – gweler tudalen 63)

**EngD:** Mae'r Ddoethuriaeth Peirianneg yn paratoi myfyrwyr Peirianneg ar gyfer gyrfaoedd arwain ym maes ymchwil a thechnoleg ac fe'i cefnogir yn llawn gan y Cyngor Ymchwil Peirianneg a Gwyddorau Ffisegol. Mae'r EngD yn gynllun pedair blynedd sy'n cynnwys blwyddyn o fodiwlau a addysgir wedi'i dilyn

gan brosiect ymchwil sy'n gysylltiedig â diwydiant.

**MD:** Yn ogystal â'r PhD, mae'r Ysgol Feddygol yn cynnig gradd ôl-raddedig Doethur mewn Meddygaeth (MD) drwy waith ymchwil wedi'i oruchwylio o fewn grwpiau ymchwil unigol.

**DProf:** Pedair blynedd yn llawn amser, chwe blynedd yn rhan amser fel arfer. Mae Doethuriaeth Broffesiynol yn radd ymchwil wedi'i strwythuro o amgylch maes arfer proffesiynol penodol. Byddi di'n dilyn rhaglen astudio o dan gyfarwyddyd, gan gynnwys cyfnodau o ymarfer a hyfforddiant proffesiynol/diwydiannol cymeradwy, ynghyd â rhaglen ymchwil. Mae'r trefniadau asesu yn cynnwys thesis hyd at 80,000 o eiriau.

Mae'r radd yn sicrhau bod proffesiwn a gweithle'r ymgeisydd yn rhyng-gysylltu drwy'r rhaglen gyfan, er mwyn sicrhau bod y gwaith ymchwil a gynhelir yn berthnasol i'w ymarfer a'i weithle.

## A ALLAF ASTUDIO'N RHAN AMSER?

Mae astudio'n rhan amser yn bosib i fyfyrwyr y DU a rhyngwladol*, ond anogwn i ti gysylltu â'r adran academaidd dan sylw i ofyn cyn cyflwyno cais.

Cadwa lygad am y symbol RhA ar ein tudalennau cyrsiau.

*Edrych ar ein gwefan i ddarllen yr amodau.

## DYFARNIAD RHAGORIAETH YMCHWIL ADNODDAU DYNOL

Mae Prifysgol Abertawe yn falch o ddal Dyfarniad Rhagoriaeth Ymchwil AD y Comisiwn Ewropeaidd mewn cydnabyddiaeth o'n hymrwymiad i gefnogi datblygiad gyrfa staff ymchwil.

Rydyn ni'n cydnabod y rôl hanfodol y mae staff ymchwil yn ei chwarae yn ein hymchwil sy'n rhagorol yn rhyngwladol ac yn arwain yn fyd-eang. Mae llwyddiant ein staff ymchwil yn sylfaen i'n huchelgais a fydd yn sbarduno ansawdd ymchwil, yn creu amgylchedd addas er mwyn i ymchwil ffynnu, gan sicrhau y caiff effaith ein hymchwil ei chynyddu i'r eithaf. I'r diben hwn, rydyn ni wedi ymrwymo i ddarparu amgylchedd a diwylliant sy'n wirioneddol gefnogol, lle gall ymchwilwyr ffynnu yn broffesiynol ac yn bersonol.


HR EXCELLENCE IN RESEARCH





# Dy Ganllaw

## I ADRAN Y CYRSIAU




### Talfyriadau a symbolau a weli di:

**SYMBOLAU**

- AU – Astudiaeth llawn amser
- ION – Mynediad ym mis Ionawr ar gael. Mae'r holl raglenni a restrwyd yn y tudalennau cyrsiau yn dechrau ym mis Hydref. Caiff y cyrsiau sy'n derbyn myfyrwyr newydd ym mis Ionawr eu nodi gan y symbol hwn. Mae pob rhaglen **Ymchwil Ôl-raddedig** (ac eithrio rhaglenni EngD ac MRes) yn cynnig dyddiadau cychwyn ym mis Hydref, mis Ionawr, mis Ebrill a mis Gorffennaf.
- RhA – Astudiaeth rhan amser
- – Bwrsariaethau Meistr Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru ar gael

**LLE BYDDI DI'N ASTUDIO**

CAMPWS Y BAE

CAMPWS PARC SINGLETON

**MATH O RADDAU**

| | |
|---|---|
| **DBA** | Doethur mewn Gweinyddu Busnes |
| **DProf** | Mae'r cwrs gradd Doethuriaeth mewn Astudiaethau Proffesiynol ar gyfer ymarferwyr uwch. Ar ôl gwblhau'r arholiad, byddi di ennill doethuriaeth a gellir cyfeirio atat fel Doctor. |
| **EdD** | Doethuriaeth mewn Addysg |
| **EngD** | Doethuriaeth mewn Peirianneg |
| **LLM** | Meistr mewn Y Gyfraith |
| **MA** | Meistr yn y Celfyddydau |
| **MBA** | Meistr mewn Gweinyddu Busnes |
| **MD** | Doethur mewn Meddygaeth |
| **MEng** | Meistr mewn Peirianneg |
| **MPhil** | Meistr mewn Athroniaeth |
| **MRes** | Meistr drwy Ymchwil |
| **MSc** | Meistr mewn Gwyddoniaeth |
| **PGCert** | Tystysgrif i Raddedigion |
| **PGDip** | Diploma Ôl-raddedig |
| **PhD** | Doethuriaeth mewn Athroniaeth. Gradd PhD yw'r radd lefel ddoethuriaeth a ddyfernir mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau. |

# ISRADDEDIG I

# Ôl-raddedig

**Mae llawer iawn o'r pedair mil o'n cymuned ôl-raddedig yn gyn-fyfyrwyr israddedig a wnaeth fwynhau eu hamser yn Abertawe cymaint, gwnaethant benderfynu aros!**

Mae llawer o fanteision i aros gyda ni yn Abertawe i astudio dy radd ôl-raddedig.

1. Byddi di eisoes yn gyfarwydd â'r Brifysgol, ei champysau a'r ardaloedd o amgylch.
2. Gan y byddi di eisoes wedi astudio gyda ni, byddi di'n gwybod am y lleoedd gorau i fyw, astudio, bwyta neu ymlacio!
3. Byddi di'n dal i allu cael mynediad at ystod eang o wasanaethau a gynigir gan adrannau megis Academi Cyflogadwyedd Abertawe, Academi Hywel Teifi, Y Ganolfan Llwyddiant Academaidd a MyUniHub.
4. Mae nifer o gyfleoedd i ti astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig gan roi mantais sylweddol i ti yn ariannol ac o ran dy gyflogadwyedd. Bydd parhau i astudio trwy'r Gymraeg wedi i ti astudio yn yr iaith ar lefel israddedig yn gam naturiol ymlaen i ti ac mae digon o gefnogaeth ar gael i dy alluogi i ddychwelyd at astudio yn y Gymraeg os na wnest ti hynny dros y blynyddoedd diwethaf.
5. Efallai dy fod eisoes yn adnabod sawl cyn-fyfyriwr ôl-raddedig, ac efallai y byddi di'n gallu parhau i fyw gyda'r bobl rwyt wedi rhannu fflat â nhw.
6. Mae ystod o gyrsiau trosi Abertawe yn dy alluogi i astudio ar gyfer dy radd ôl-raddedig mewn maes pwnc newydd sbon.
7. Os wyt yn dewis astudio'r un maes pwnc, gelli barhau i adeiladu ar dy berthynas waith gyda darlithwyr a mentoriaid academaidd, gan ddatblygu dy wybodaeth arbenigol.
8. Fel myfyriwr presennol yn Abertawe, byddi di'n cwblhau ffurflen gais fyrrach ar gyfer dy gwrs ôl-raddedig dewisedig.

**Mae rhai o'n myfyrwyr presennol yn rhannu eu profiadau o drosi o astudiaethau israddedig i ôl-raddedig isod:**



## ELIN JONES

**TAR Uwchradd gyda SAC: Mathemateg**

"Astudiais radd israddedig Mathemateg ym Mhrifysgol Abertawe a graddio gyda dosbarth cyntaf. Ers i mi fod yn ifanc roeddwn yn gwybod fy mod eisiau bod yn rhan o'r byd addysg. Roeddwn i'n gwybod yn syth mai parhau i astudio ym Mhrifysgol Abertawe oedd y dewis i mi. Mae'r campws yn gartrefol tu hwnt, y cyfleusterau addysgu yn rhagorol, darpariaeth a chefnogaeth addysgiadol ar gael trwy'r Gymraeg, a chymdeithas Gymraeg clos a bywiog. Mae'r cwrs TAR hwn wedi rhoi'r cyfle i mi fod yn rhan o grŵp astudio traws gwricwlaidd Cymraeg, cael gwersi Cymraeg i loywi fy iaith, ond yn bwysicach na dim, i fynychu ysgolion Cymraeg fel rhan o fy hyfforddiant ar leoliad ac i gwblhau ac ysgrifennu fy aseiniadau yn y Gymraeg hefyd. Gan fy mod wedi ennill gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg, rwyf am dderbyn grant cymhelliant o £20,000 gan Lywodraeth Cymru am hyfforddi i ddysgu Mathemateg yng Nghymru. Mae yna hefyd gyfle i dderbyn £5,000 ychwanegol gyda chynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory Llywodraeth Cymru os af i ymlaen i addysgu trwy'r Gymraeg. "

## HYWEL EVANS

**MPhys, Cyn-fyfyriwr Ffiseg**

"Gorffennais fy ngradd meistr Ffiseg (MPhys) a phenderfynais aros yn Abertawe ar gyfer PhD yn gweithio mewn labordy gwrthfater. Llwyddais i gael ysgoloriaeth ymchwil o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol a Choleg Gwyddoniaeth Prifysgol Abertawe i ariannu fy astudiaethau. Mwynheais allu trafod fy ngwaith gyda rhwydwaith o fyfyrwyr ac academyddion trwy gyfrwng y Gymraeg, a dysgu am ymchwil eraill. Bues i hefyd yn gweithio fel Arddangoswr Ôl-raddedig ar gyfer profiad addysgu ac arian ychwanegol. Mae bod yn ymchwilydd ôl-raddedig yn debyg i fod mewn swydd, ac felly roedd angen mwy o ymrwymiad amser na gyda fy astudiaethau cynt, ond mae'n baratoad da ar gyfer swydd lawn amser. Dysgais i lawer o sgiliau ymarferol, yn ogystal â chyflwyno i arbenigwyr mewn cynadleddau ledled y byd (Belffast, Dundee, Genefa a Belgrade). Mae hyn wedi gwella fy ngallu ac wedi helpu fi i lwyddo mewn cyfweliadau swydd. Roedd gan Brifysgol Abertawe yr holl adnoddau yr oeddwn eu hangen i lwyddo'n academaidd, ac mae wedi'i lleoli mor agos at barciau a thraethau gwych – doeddwn i ddim eisiau astudio unrhyw le arall!"





## BECKY GREENWAY

**Myfyriwr MA Newyddiaduraeth Ryngwladol**

"Dewisais gwblhau fy ngradd meistr ym Mhrifysgol Abertawe oherwydd y profiad rhyfeddol a gefais yn astudio fy ngradd israddedig yma. Hefyd, ffactor pwysig i mi wrth benderfynu ble i wneud fy nghwrs ôl-raddedig oedd cyflogadwyedd ac mae Abertawe yn adnabyddus am ei hymroddiad i gyflogadwyedd myfyrwyr. Y gwahaniaeth mwyaf rhwng fy mhrofiadau israddedig ac ôl-raddedig fyddai lefel yr anhawster ar y lefel uwch. Fodd bynnag, yn Abertawe mae help ar gael iti bob amser wrth dy ddarlithwyr, dy oruchwylwyr, staff y llyfrgelloedd, ac eraill sy'n dy helpu i deimlo dy fod yn cael cefnogaeth trwy gydol dy astudiaethau.

Fy nghyngor i ar gyfer israddedigion sy'n astudio yn Abertawe ar hyn o bryd ac sy'n ystyried aros ymlaen ar gyfer eu gradd ôl-raddedig fyddai mynd i Ddiwrnod Agored Ôl-raddedig i ddarganfod mwy am gyrsiau a chyfleoedd sydd ar gael i fyfyrwyr ôl-raddedig Abertawe.

# YR ATEBION I DY *gwestiynau*

Mae Prifysgol Abertawe wedi sgorio'n uchel yn gyson yn y rhestrau ar gyfer Boddhad Myfyrwyr, ac mae dy addysgu, dy ddysgu a dy brofiad cyffredinol o fod yn fyfyriwr yn flaenoriaeth inni.

Gyda phob prifysgol, rydyn ni'n defnyddio ffyrdd newydd o ddysgu ac addysgu er mwyn rhoi'r profiad gorau posib i ti ond rydyn ni'n deall efallai, ar hyn o bryd, yn fwy nag erioed o'r blaen, dy fod ti'n teimlo'n bryderus a bod gen ti lawer o gwestiynau o ran sut rydyn ni wedi addasu yn Abertawe.

Wrth i'n sefyllfa ni fel prifysgol ddatblygu, byddwn ni'n sicrhau ein bod ni'n rhoi'r wybodaeth ddefnyddiol ddiweddaraf i ti drwy ein canllaw holi ac ateb:

**abertawe.ac.uk/y-brifysgol/amdanom-ni/coronafeirws/darpar-fyfyrwyr-rhieni**

Gelli hefyd sgyrsio ar-lein ag un o'n llysgenhadon myfyrwyr cyfeillgar:

**abertawe.ac.uk/astudio/bywyd-myfyriwr/sgwrsio-llysgennad**

neu cysyllta â ni'n uniongyrchol:

**astudio@abertawe.ac.uk**

**+44 (0)1792 295111**

**C:** Sut beth fydd yr addysgu a'r dysgu?


**C:** Pa gyfleusterau fydd ar gael i'r myfyrwyr?

**C:** Pa gefnogaeth fydd ar gael i'r myfyrwyr o ran iechyd meddwl?

**C:** Alla dderbyn mynediad at fannau astudio ac adnoddau?

**C:** Alla i wneud chwaraeon?

**C:** Pa adnoddau digidol ychwanegol sydd ar gael i mi?



### C: Sut bydda i'n cael fy addysgu?

Ein hymrwymiad i ti yw rhoi'r addysgu o'r safon uchaf a'r profiad addysgu gorau posibl i ti.

Rydyn ni'n falch o roi profiad dysgu rhagorol ac rydyn ni'n hyrwyddo dysgu 'cyfunol' yma ym Mhrifysgol Abertawe. Mae hyn yn cynnwys defnyddio technolegau ar-lein/e-ddysgu i gefnogi, gwella a chyd-fynd ag addysgu wyneb-yn-wyneb traddodiadol.

Ni waeth a fydd yr addysgu'n cael ei gyflenwi ar-lein neu yn y fan a'r lle, byddwn ni'n sicrhau bod gen ti'r cyfle i adnabod dy academyddion yn dda a chynnal trafodaethau bywiog gyda dy gymheiriaid i ddyfnhau dy wybodaeth a gwella dy ddealltwriaeth.

Rydyn ni'n bwriadu i'n hymagwedd dysgu ac addysgu a addaswyd wella dy brofiad fel myfyrwyr gan roi mwy o hyblygrwydd ond, ar yr un pryd, gadw'r holl ansawdd y byddi di'n ei ddisgwyl gan addysg yn y brifysgol.

Anfonir gwybodaeth a diweddariadau manwl am ddechrau'r tymor yn uniongyrchol at yr ymgeiswyr.

Os bydd gen ti ymholiadau penodol, e-bostia:

**astudio@abertawe.ac.uk**

### C: Sut beth fydd bywyd myfyriwr?

Bydd gen ti'r cyfle i gwrdd â phobl ar dy gwrs, yn dy lety myfyrwyr a byddi di'n gwneud ffrindiau yn y gweithgareddau amrywiol y bydd Undeb y Myfyrwyr yn eu cynnal yn ystod yr wythnosau cyntaf. Mae'r cymdeithasau a arweinir gan fyfyrwyr yn ffordd wych o gwrdd â phobl sy'n rhannu'r un diddordebau ac maen nhw wedi bod yn arloesol ac yn greadigol wrth ymateb i'r sefyllfa bresennol.

Mynna gip ar sianeli cyfryngau cymdeithasol Prifysgol Abertawe ac Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe i weld sut beth fu bywyd prifysgol eleni i'r myfyrwyr:

**swanseaunisu**

**abertawe.ac.uk/astudio/bywyd-myfyriwr**

### C: Sut bydd hyn yn effeithio ar Ymchwil Ôl-raddedig?

Rydym yn cydnabod bod pandemig y coronafeirws yn ddigynsail ac felly rydym yn rhoi mesurau ar waith i gefnogi myfyrwyr ymchwil Ôl-raddedig.

Mae'r Brifysgol wedi gweithio i sicrhau bod y sefyllfa bresennol yn cael cyn lleied o effaith â phosib ar dy astudiaethau a dy waith ymchwil drwy symud gweithgareddau ar-lein. Mae hyn yn cynnwys goruchwyliaeth, asesu a dilyniant (gan gynnwys arholiadau Viva, cyflwyno traethodau estynedig a chadarnhau ymgeisyddiaeth).

Rydym yn monitro'r sefyllfa, felly gwiria'r wefan hon yn rheolaidd i gael y cyngor diweddaraf. Ar gyfer ymholiadau myfyrwyr, e-bostia:

**postgraduate-research@abertawe.ac.uk**

**myuni.abertawe.ac.uk/cwestiynau-cyffredin-coronafeirws/cwestiynau-cyffredin-myfyrwyr-ymchwil-olraddedig**

Mae'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y sesiwn Holi ac Ateb hon yn drosolwg o wybodaeth y mae'r Brifysgol yn ymwybodol ohoni yn yr Haf 2021. Gall yr wybodaeth yn y sesiwn Holi ac Ateb hon newid o ganlyniad i ffactorau y tu hwnt i reolaeth resymol y Brifysgol. Caiff unrhyw newid sylweddol yn yr wybodaeth yn y sesiwn Holi ac Ateb hon ei chyfleu i ddarpar-fyfyrwyr cyn gynted â phosib. Cyn cyflwyno cais, neu dderbyn cynnig gan y Brifysgol, dylet ti gyfeirio at yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael ar wefan Prifysgol Abertawe yn: **abertawe.ac.uk/y-brifysgol/amdanom-ni/coronafeirws/darpar-fyfyrwyr-rhieni**

# GWNEUD *Gwahaniaeth*

**Sefydlwyd Prifysgol Abertawe ym 1920 i ateb anghenion ein cymuned leol ac ehangach, trwy ymchwil a thrwy arloesedd: bu gwneud gwahaniaeth yn rhan o'n diwylliant ers dros 100 o flynyddoedd.**

Mae digwyddiadau diweddar wedi cael effaith fawr ar bob un ohonom, ond credwn fod llawer i'w ddysgu o'n sefyllfa, a llawer o ganlyniadau cadarnhaol. Rydym wedi darganfod ein bod yn gallu addasu – nid mewn modd digonol yn unig, ond hefyd mewn modd arbennig o dda – i ffyrdd newydd o astudio, gweithio a byw.

Hefyd rydym wedi darganfod pa mor wydn rydym ni o ran newid ac rydym wedi cael cyfle i roi arferion hyblyg ar waith yn y Brifysgol y credwn eu bod er gwell, i'n myfyrwyr ac i'n cymuned Brifysgol gyfan.

Rydym yn edrych ymlaen at y dyfodol ac rydym wedi ymrwymo'n llwyr i wneud Prifysgol Abertawe'n brofiad cadarnhaol a gwobrwyol i bob un o'n myfyrwyr.



### MYFYRIWR MATT YN DWEUD BOD COVID-19 WEDI'I ADDYSGU I DDEALL GWIR YSTYR BOD YN NYRS

Yn ddiweddar dyfarnwyd gwobr 'Myfyriwr Nyrs Mwyaf Ysbrydoledig y Flwyddyn' i Matt yn y nodedig Nursing Times (Gwobrau 2020).



Gwirfoddolodd dros 1000 o fyfyrwyr o Gyfadran Meddygaeth, Gwyddorau Iechyd a Bywyd i helpu cydweithwyr yn y gwasanaeth iechyd yn ystod y pandemig:

- Cyflwynwyd myfyrwyr Meddygaeth yn eu blwyddyn olaf yn feddygon ar ôl i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol gynnig cofrestriad cynnar dros dro
- Lleolwyd 662 o fyfyrwyr nyrsio yn y byrddau iechyd
- Cynorthwyodd holl fyfyrwyr Bydwreigiaeth y Brifysgol yn eu trydedd flwyddyn fydwragedd cymwysedig
- Cofrestrodd o leiaf 101 o fyfyrwyr Parafeddygaeth i weithio gyda Gwasanaeth Ambiwlans Cymru



**HELPU GYDAG YMCHWIL SY'N TORRI TIR NEWYDD** i ddod o hyd i ffyrdd o wella adfer o COVID-19. Gan ddefnyddio'r ddyfais law, fach hon, gallwn ni dargedu cyhyrau anadlu er mwyn eu cryfhau.



**MAE FFORDD CHWYLDROADOL NEWYDD O ROI BRECHLYNNAU** drwy glytiau croen micronodwydd wrthi'n cael ei phrofi ym Mhrifysgol Abertawe.



**ELUSEN DISCOVERY** yn derbyn cyllid i gynorthwyo yn ystod Pandemig COVID-19



Mae 'DISCOVERY' yn elusen a arweinir gan fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe sy'n rheoli ystod eang o brosiectau gwirfoddoli. Nod ein prosiectau yw cyfoethogi bywydau pobl ddifreintiedig ar draws Abertawe a gweithio gydag aelodau gwahanol o'r gymuned, boed hynny gyda phlant a phobl ifanc, unigolion ag anghenion ychwanegol, ffoaduriaid a theuluoedd sy'n ceisio lloches neu bobl hŷn. Mae gennym ystod eang o brosiectau y gelli fod yn rhan ohonynt; helpu i wneud gwahaniaeth, dysgu sgiliau newydd a chwrdd â ffrindiau newydd ar hyd y ffordd.

**abertawe.ac.uk/discovery**

**CWRDD Â GAIL:** MYFYRWRAIG YM MHRIFYSGOL ABERTAWE SY'N GWIRFODDOLI GYDA 'DISCOVERY'



**sgania i wylio**

# YMUNA Â'N *Cyn-fyfyrwyr Neilltuol*

Ym Mhrifysgol Abertawe, rydyn ni'n hynod o falch o'n graddedigion. Pan fyddi di'n astudio gyda ni, byddi di'n ymuno â miloedd o gyn-fyfyrwyr sydd wedi defnyddio eu profiadau yn Abertawe i osod eu marc ar y byd. Mae llawer ohonynt wedi mynd ati i brofi llwyddiant yn eu gyrfaoedd, gan ddod yn arweinwyr busnes, yn bencampwyr chwaraeon, cynnal ymchwil sy'n torri tir newydd, neu ddod o hyd i'w lle yng ngolwg y cyhoedd. Rydyn ni'n rhannu rhai o'u straeon ysbrydoledig yma.



## ANDREW TEILO,

***MA Cymraeg. Dosbarth 2021.***

ACTOR

"Penderfynais astudio am radd Meistr oherwydd roeddwn am ymestyn fy hun! Roeddwn hefyd am 'gymhwyso', rywfodd, yn y Gymraeg, neu, yn y man lleiaf, ddefnyddio'r Gymraeg fel cerbyd i'm hastudiaethau. Yr holl flynyddoedd hynny yn ôl, roeddwn yn rhy oriog fel disgybl ysgol i benderfynu ar lwybr bywyd i mi fy hun, ac yn fuan wedyn cymerai fy mywyd proffesiynol fy holl egni, a hynny am nifer fawr o flynyddoedd. Er hynny, ro'n i'n ymwybodol iawn ar hyd yr amser fy mod wedi 'gadael rhywbeth ar ei ôl'; gadael hefyd i ryw gyfle amhenodol ddianc trwy'm dwylo, fy mod heb wireddu rhyw 'botensial'. Yn fras, ymgais i unioni hynny oedd fy mhenderfyniad i geisio gradd MA i mi fy hun.

Mae astudio'n sbort! Dewisa faes sydd yn dy gynhyrfu, tafla dy hun i ganol y gwaith, a phaid â bod ofn arbrofi â syniadau a chyfeiriadau! Cei addysg, gofal a chyngor heb ei ail ym Mhrifysgol Abertawe, a phrofiadau addysgol fydd yn aros gyda ti am byth."



## RAWAN TAHA,

***MSc Iechyd Cyhoeddus a Hybu Iechyd. Blwyddyn Graddio 2018.***

DEILIAD YSGOLORIAETH EIRA FRANCIS DAVIES. CYMRAWD MATERION DYNGAROL. YMGYRCHYDD YN ERBYN NEWID HINSAWDD.

"Fel menyw Affricanaidd ysgolheigaidd ifanc, roeddwn i'n chwilio am brifysgol a oedd yn darparu cyfleoedd i arweinwyr ifanc fel fi.

Fy nghyngor i fyfyrwyr presennol yw i ddefnyddio eu hamser yn y Brifysgol i ddatblygu y tu hwnt i'w gradd, eu traethawd a'u trawsgrifiadau. Dim ond wedyn fyddi di'n gallu ennill swydd a chael bywyd sydd y tu hwnt i dy ddisgwyliadau."

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/rawan-taha**





## ANEIRIN KARADOG,

***PhD Cymraeg. Dosbarth 2020.***

BARDD. DARLLEDWR. PERFFORMIWR. IEITHYDD.

"Roedd y cyfle i fynd yn ôl i'r byd academaidd yn un apelgar iawn ac yn gyfle i ail ddarganfod lot amdanaf i fy hun. Ar ôl 11 mlynedd o fod yn y byd gwaith penderfynais astudio am ddoethuriaeth. Ar ôl gweithio fel ymchwilydd yn y byd teledu, roedd ymchwil yn ei natur o ddiddordeb i fi. Roedd cael ymchwilio'n ddyfnach ac ailddysgu technegau academaidd yn agor nifer o gyfleoedd i mi.

Maes fy ymchwil oedd barddoniaeth Gymraeg. Edrychais ar y berthynas rhwng y bardd, ei gyfrwng a'i gynulleidfa. Yn y pen draw, ceisiais ganfod a oes y ffasiwn beth â cherdd berffaith, a all drosgynnu'r holl gyfryngau a chynulleidfaoedd. Roedd cael y cyfle i ganolbwyntio ar ysgrifennu creadigol a gorfodaeth i wneud hynny fel rhan o'r radd yn nefoedd i rywun sy'n hoffi ysgrifennu, roedd rhaid englyna bob dydd! Roedd hefyd cyfleoedd i addysgu fel rhan o'r radd ddoethuriaeth – roedd hyn yn gyffrous.

Fy nghyngor i ddarpar-fyfyrwyr yw does dim anfanteision i astudio gradd ôl-raddedig. Os nad wyt ti'n siŵr o'r hyn rwyt eisiau ei wneud, gall hyn dy helpu i finiogi dy drywydd gyrfa a sianelu dy egni i elfen a maes penodol."



## KATE MCMURDO,

***Ymarfer Cyfreithiol LLM a Drafftio Uwch. Dosbarth 2019.***

YMGYRCH HAWLIAU ANABLEDD, GWEITHREDWRAIG ADDYSG, GORUCHWYLIAETH.

"Os oeddwn i am newid pethau a herio'r system mewn gwirionedd, sylweddolais i fod angen i mi ddeall y gyfraith a bod yn rhan o'r newid roeddwn i eisiau ei weld. Taswn i'n hyfforddi i fod yn fargyfreithiwr, roeddwn i'n meddwl efallai y gallwn i eirioli dros deuluoedd sy'n wynebu anghyfiawnder a gwahaniaethu.

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr/kate-mcmurdo**

**Gweler mwy o straeon cyn-fyfyrwyr ar ein gwefan:**

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/proffiliau-cyn-fyfyrwyr**

# ABERTAWE A’R *Rhanbarth*





### AR GARREG Y DRWS
Ar benrhyn Gŵyr, cei lonydd yn Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y Deyrnas Unedig, ymlacio ar draethau arobryn ac archwilio harddwch naturiol cefn gwlad, ac mae Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog 30 munud i ffwrdd yn unig yn y car. Mae’r rhanbarth yn cynnig rhai o leoliadau gorau’r DU ar gyfer cerdded ar lwybrau arfordirol, syrffio, beicio, chwaraeon dŵr, dringo creigiau a golff; i’r rhai sy’n mwynhau chwaraeon antur, neu os yw’n well gen ti dro hamddenol ar y traeth, mae rhywbeth at ddant pawb.

### Y MWMBWLS
Man geni Catherine Zeta-Jones, mae pentref pert y Mwmbwls yn cynnig amrywiaeth gwych o siopau, caffis, bariau gwin, tafarnau a bwytai. Cer am dro a mwynhau hufen iâ yn un o’r parlyrau niferus ar hyd y promenâd, neu beth am alw yn un o’r bwytai a chaffis glan môr newydd â golygfeydd dros Fae Abertawe.

### SIOPA
Gelli ddewis o siopau a brandiau mawr y stryd fawr a siopau bach annibynnol, siopau arbenigol ac arcedau traddodiadol. Gelli ymweld â siopau dillad dylunwyr yn y Mwmbwls, siopa am ddillad yr oes a fu yn Uplands, neu fachu bargen ym marchnad dan do fwyaf Cymru yng nghanol y ddinas.

## ARCHWILIA


Bannau Brycheiniog, Cymru

## DIWYLLIANT



### Y CELFYDDYDAU
Mae Abertawe’n ganolfan fywiog ar gyfer celf ac mae Oriel Glynn Vivian yn cael ei chydnabod yn eang fel prif leoliad arddangosfeydd celf yn y ddinas. Mae mynediad am ddim i holl amgueddfeydd ac orielau celf cenedlaethol Cymru, felly ymdrochi yn ein hanes, neu gymryd rhan yn un o’r teithiau niferus sy’n cael eu trefnu gan Undeb Myfyrwyr Prifysgol Abertawe.

### CANOLFAN Y CELFYDDYDAU TALIESIN
Mae Canolfan y Celfyddydau Taliesin yng nghanol Campws Parc Singleton yn dangos ffilmiau’n rheolaidd, rhai poblogaidd a rhai mwy amgen eu natur. Mae ganddi gaffi a bar ac yma ceir y Ganolfan Eifftaidd arobryn sy’n gartref i gasgliad o dros 5,000 o arteffactau o’r Hen Aifft.

## ADLONIANT

### CERDDORIAETH A GWYLIAU
Mae Cymru’n enwog fel ‘gwlad y gân’ ac fel myfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe, chei di ddim dy siomi gan y dewis o gerddoriaeth sydd ar gael yn y ddinas! Mae gan Abertawe amrywiaeth enfawr o leoliadau cerddoriaeth ac mae nifer o wyliau a digwyddiadau cerddorol yn cael eu cynnal yma drwy gydol y flwyddyn.

Disgwylir i arena gerddoriaeth newydd sbon Abertawe agor yn hydref/gaeaf 2021.



Delweddu pensaernïol


studentblogs.swan.ac.uk/cy/

**“Dwi wrth fy modd gyda marchnad dda ac wrth lwc, dwi’n byw yn Uplands sydd â marchnad fisol, lle mae tyfwyr, cynhyrchwyr, ffermwyr ac arlwywyr lleol yn gwerthu eu nwyddau. Mae hon yn farchnad fach hyfryd, felly os wyt yn dwlu ar fwyd a phethau tlws fel fi, mae’n werth ymweld â hi!”**

Joanna Wolton, myfyriwr PhD sy’n ysgrifennu blog

### CARTREF I DYLAN THOMAS
Mae gan y ddinas ger y lli ei llais barddonol ei hun. Fel y dywedodd mab enwocaf Abertawe, Dylan Thomas: “Abertawe yw’r gorau o hyd”, a gelli di ddilyn olion traed y bardd ledled y ddinas, o gaffis i dafarnau a pharciau.









# #EinHabertawe

**DILYN NI:** PrifysgolAbertawe Prif_Abertawe prifysgol_abertawe PrifAbertawe

# BARN *Ein Myfyrwyr*

Dysga fwy gan ein myfyrwyr ôl-raddedig presennol a'n myfyrwyr ôl-raddedig sydd newydd raddio a fydd yn rhannu eu profiadau eu hunain am fywyd academaidd a bywyd myfyriwr yma ym Mhrifysgol Abertawe.

Gwylia ein fideos i fyfyrwyr, gwrando ar ein podlediadau a dilyn ein sianeli cyfryngau cymdeithasol i gael awgrymiadau ar bopeth o fywyd ar ôl graddio, i'r Thesis Tair Munud, a'r hyn ydyw i fyw yn Abertawe.

## FLOGIAU MYFYRIWR PRIFYSGOL ABERTAWE






## #PrifAbertawe YouTube


### Sgania i wylio:












## CAMPWS PARC SINGLETON

**ACADEMI HYWEL TEIFI**

**CANOLFAN TALIESIN A'R GANOLFAN EIFFTAIDD**

**CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL**

**LLETY MYFYRWYR**

**LLYFRGELL PARC SINGLETON**

**MYUNIHUB**
Cynnig gwybodaeth, ac arweiniaid ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr; o arian, ymholiadau cwrs i dai

**PARC CHWARAEON BAE ABERTAWE**

**TŶ FULTON**
Bar Undeb y Myfyrwyr, Clwb nos, siopau, archfarchnad, Siop Dim Gwastraff, llefydd bwyd (gan gynnwys fegan)

**Y GYFADRAN MEDDYGAETH, GWYDDORAU IECHYD A BYWYD**

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH** (BIOWYDDORAU, CEMEG, DAEARYDDIAETH, FFISEG)

**UNDEB Y MYFYRWYR**

**BWS 24AWR** (yn ystod y tymor)
Tua 20 munud i Gampws y Bae, 10 munud i ganol y ddinas

**CYFLEUSTERAU ERAILL:**

- Caplaniaeth
- Doctor/Deintydd
- Golchdy
- Mosg

Costcutter

# CAMPWS Y BAE

**CWRT BWYD, THE CORE**

**CYFADRAN Y DYNIAETHAU A'R GWYDDORAU CYMDEITHASOL**
(YR YSGOL REOLAETH)

**LLETY MYFYRWYR**

**LLYFRGELL Y BAE**

**MYUNIHUB**
Cynnig gwybodaeth, ac arweiniaid ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyrwyr; o arian, ymholiadau cwrs i dai

**UNDEB Y MYFYRWYR,** Tafarn Tawe

**Y COLEG**

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH** (FFOWNDRI GYFRIFIADUROL - CYFRIFIADUREG A MATHEMATEG)

**Y GYFADRAN PEIRIANNEG A GWYDDONIAETH**

**Y NEUADD FAWR**

**BWS 24AWR** (yn ystod y tymor)
Tua 20 munud i Gampws Parc Singleton, 10 munud i ganol y ddinas

**CYFLEUSTERAU ERAILL:**

- Siop Goffi Coffeeopolis
- Lle i addoli
- Campfa a chyfleusterau chwaraeon
- Golchdy
- Archfarchnad



# DOES UNMAN YN DEBYG *i Gartref*

Fel myfyriwr ôl-raddedig sy'n ymuno â chymuned Prifysgol Abertawe, hoffem dy helpu ti i ddod o hyd i rywle y gelli ei alw'n gartref.

Darperir llety i ôl-raddedigion mewn pedair preswylfa: Campws y Bae, Campws Parc Singleton, Tŷ Beck yn ardal gyfagos Uplands, ac ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan. Yn gyffredinol, cynigir tenantiaethau ar sail sefydlog o 51 wythnos, ond gallwn hefyd gynnig rhai fflatiau penodol i ôl-raddedigion ar denantiaeth 40 wythnos ym Mhentref y Myfyrwyr ac ar Gampws y Bae.

### BYW AR Y CAMPWS

Mae byw yn un o breswylfeydd Campws Parc Singleton neu Gampws y Bae yn golygu dy fod yng nghanol bwrlwm bywyd y brifysgol. Mae llety hunanarlwyo yn cynnwys ystafelloedd wedi'u dodrefnu'n llawn ac en suite gyda chegin ac ardal fwyta wedi'u rhannu.

### BYW YM MHENTREF Y MYFYRWYR*

Mae Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan wedi'i leoli tua dwy filltir o'r campws. Mae'r Pentref yn darparu llety hunanarlwyo a chyfleusterau a rennir mewn fflatiau ar gyfer 7. Os byddi di'n dewis byw yn y Pentref, bydd gen ti dy ystafell dy hun ar gyfradd fforddiadwy sy'n cymharu'n ffafriol â llety yn y sector preifat.

Mae bywyd yn y Pentref yn gymdeithasol, yn gefnogol a bydd y canlynol ar gael:

- Golchdy ar y safle
- Mae parcio ar y safle ar gael i breswylwyr Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan a Thŷ Beck
- Tocyn bws First Group Unibus am ddim am gytundebau 13 wythnos

*Mae llety ym Mhentref Myfyrwyr Hendrefoelan ar gael ar gyfer y flwyddyn academaidd 2021/2022

### LLETYA Â SIARADWYR CYMRAEG ERAILL

Mae'r Brifysgol yn awyddus i gefnogi'r gymuned gref o siaradwyr Cymraeg sy'n fyfyrwyr yma. O ganlyniad, rydym wedi adnabod dwy neuadd ar gyfer darparu cyfle i fyfyrwyr rannu llety â siaradwyr Cymraeg eraill. Darperir llety en suite ac hunanarlwyo gyda gofodau cymdeithasu yn y neuaddau hyn.

### LLETY I DEULUOEDD YN NHŶ BECK

Mae gennym nifer o fflatiau i fyfyrwyr sengl yn ogystal ag i deuluoedd yn ein preswylfa dawel ddynodedig, Tŷ Beck, tua milltir o'r campws yn ardal fyfyrwyr boblogaidd Uplands. Oherwydd y tenantiaethau 51 wythnos, mae'r llety hwn yn fwyaf addas i fyfyrwyr ôl-raddedig a myfyrwyr rhyngwladol.

### PWYNTIAU ALLWEDDOL

- Rhyngrwyd diwifr am ddim
- Ceir rhwydwaith o fyfyrwyr, ResNet, sy'n byw yn y preswylfeydd ac sy'n dy gynrychioli o'u gwirfodd, sy'n sicrhau bod pob myfyriwr yn cael y profiad gorau posibl
- Mae'r ystafelloedd yn ystafelloedd sengl yn unig (ag eithrio fflatiau teuluol Tŷ Beck a nifer cyfyngedig o ystafelloedd â dau wely ar Gampws y Bae)
- Cyfleusterau golchi
- Ystafelloedd wedi'u haddasu ar gyfer myfyrwyr ag anghenion arbennig, gan gynnwys defnyddwyr cadeiriau olwyn – cysyllta â'r Swyddfa Anableddau am ragor o wybodaeth
- En suite ar gael






Edrych tu mewn
**abertawe.ac.uk/llety**

## COSTAU BYW NODWEDDIADOL

£91
**CYFARTALEDD RHENT WYTHNOSOL**
10 uchaf rhataf yn y DU am ddinas prifysgol (totallymoney.com 2019)

£22
**PRYD O FWYD I DDAU**
(yn seiliedig ar brif gwrs & diod mewn bwyty lleol)

£30 Y MIS
**TOCYN BWS MYFYRIWR**
Tocyn bws gyda theithio diderfyn

£6
**CAMPWS I'R DDINAS**
Tacsi o Gampws Parc Singleton i ganol y ddinas

**AELODAETH O'R GAMPFA**
£18.99 Y MIS
Parc Chwaraeon Bae Abertawe

## DOD O HYD I'R CARTREF PERFFAITH YN Y SECTOR PREIFAT

Os byddai'n well gen ti fyw oddi ar y campws, byddi di'n falch o wybod bod cyflenwad da o dai a fflatiau o ansawdd i fyfyrwyr yn y sector preifat yn Abertawe. Mae ein hasiantaeth prydlesu, Gwasanaethau Llety Myfyrwyr (SAS), yn rheoli 130 eiddo yn ardaloedd poblogaidd Brynmill, Uplands a Sgeti sy'n gyffredinol o fewn dwy filltir i'r campws ac yn St. Thomas a Phort Tennant, sy'n agos at Gampws y Bae. Mae'r ardaloedd hyn hefyd yn agos at gyfleusterau lleol megis siopau, bariau a siopau tecawê.

Mae ein cronfa ddata ar-lein, **Studentpad**, y gellir chwilio drwyddi yn amhrisiadwy. Mae'n dy alluogi i ddod o hyd i dai eraill sydd ar gael yn yr ardal ac yn ei gwneud hi'n haws chwilio am dŷ.

**saslettings.co.uk**

Darganfydda fwy:

**abertawe.ac.uk/llety**

**llety@abertawe.ac.uk**

**+44 (0)1792 295101**




Mae gennym rai ardaloedd tawel a rhai sy'n ddi-alcohol hefyd

Cymraeg

Os wyt ti'n siarad Cymraeg mae gennym lety penodol i siaradwyr Cymraeg fyw gyda'i gilydd

Gelli logi un o'n beiciau Santander. Gyda 100 o orsafoedd docio mewn chwe hyb ar hyd prif lwybr beicio'r ddinas, gelli fynd ar dy feic yn dy amser hamdden.



**santandercycles.co.uk/swansea**

Santander CYCLES | Prifysgol Abertawe Swansea University



## COSTAU LLETY

Bydd y rhent a deli yn dibynnu ar y preswylfa a'r ystafell rwyt ti'n ei dewis:

| LLETY | MATH O YSTAFELL | RHENT WYTHNOSOL* |
|---|---|---|
| Pentref Myfyrwyr Hendrefoelan | Safonol | £95 |
| Campws Parc Singleton | Safonol (hunanarlwyol)<br>En suite (hunanarlwyol)<br>Safonol (gyda'r cerdyn arlwyo)**<br>En suite (gyda'r cerdyn arlwyo)** | £130 – £136<br>£147 – £164<br>£143 – £150<br>£160 |
| Tŷ Beck | Safonol<br>En suite<br>Fflat Teuluol | £111<br>£128 – £141<br>£155 – £185 |
| Campws y Bae | En suite<br>Twin En suite | £153 – £159<br>£202 |
| Tai Preifat | Safonol | £82 – £120 |

* Mae'r ffioedd yma ar gyfer sesiwn academaidd 2021/2022. Sylwer y bydd graddfa ar gyfer mynediad 2022/2023 yn cael ei chyhoeddi ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant wedi'u cadarnhau.

** Gelli di ddefnyddio cerdyn talu am arlywaeth ymlaen llaw ym mannau arlwyo'r Brifysgol a bydd £28.00 yr wythnos ynghlwm wrtho. Mae'r credydau yn cael eu gosod bob tymor felly gelli di ddefnyddio cymaint neu gyn lleied ag y dymuna bob wythnos.




YouTube

Sgania i wylio:

| CAMPWS Y BAE | PARC SINGLETON |
|---|---|
| Bar Coffi | Canolfan y Celfyddydau Taliesin |
| Cyfleusterau Chwaraeon | Canolfan Iechyd |
| Diogelwch 24 awr | Cyfleusterau Chwaraeon |
| Golchdy | Deintyddfa a Meddyg |
| Lle i Addoli | Diogelwch 24 awr |
| Neuadd Fawr | Golchdy |
| Neuadd Fwyd | Lle i Addoli |
| Siop Fach | Neuadd Fwyd |
| Undeb y Myfyrwyr | Siop Fach |
| | Undeb y Myfyrwyr |

# *Ariannu* DY ASTUDIAETHAU

Rydyn ni'n ymrwymo i fuddsoddi'n sylweddol mewn addysg ôl-raddedig. Yn 2020/21, roedd dros £8 miliwn ar gael mewn ysgoloriaethau a bwrsariaethau er mwyn astudio cyrsiau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae Prifysgol Abertawe'n ymrwymedig i wobrwyo rhagoriaeth academaidd ac anacademaidd ac rydym yn cynnig amrywiaeth eang o ysgoloriaethau a bwrsariaethau i helpu tuag at gostau astudio.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer tri chynllun bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr o Gymru sy'n astudio cyrsiau Meistr cymwys yn Abertawe. Mae Bwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg, astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg neu Feddygaeth ac ar gael i fyfyrwyr o Gymru sy'n 60 oed a hŷn.

Mae bwrsariaethau ar sail incwm ar gael hefyd, ynghyd â chyllid tuag at astudio mewn gwlad arall os rwyt yn dewis gwneud hynny fel rhan o raglen gradd.

Am wybodaeth bellach, i wirio a wyt yn bodloni'r meini prawf cymhwyso neu i wneud cais, gweler:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu**

**DARGANFYDDA FWY**

Am fanylion pellach ar Ffioedd ac Ariannu, gweler tudalen 174



ARIANNU LLYWODRAETH SYDD AR GAEL AR GYFER RHAGLENNI MEISTR A PHD*

**ARIENNIER YN LLAWN**

YSGOLORIAETHAU PHD AR GAEL*

**£2,000**

BWRSARIAETHAU MEISTR STEMM LLYWODRAETH CYMRU*
(gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg, mathemateg a meddygaeth)

**£4,000**

BWRSARIAETHAU MEISTR LLYWODRAETH CYMRU
ar gyfer 60+ oed

**£1,000**

BWRSARIAETHAU MEISTR CYFRWNG CYMRAEG*

**£2,000**

YSGOLORIAETH RHAGORIAETH CHWARAEON*

**£1,000**

YSGOLORIAETH RHAGORIAETH CERDDOROL*
(Ar gael i fyfyrwyr meistr a addysgir yn unig)

*Gweler amodau a thelerau ar **abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

*Mae'r manylion ar gyfer cyllid 2022-23 i'w gadarnhau

# MEDDWL AM *Dy Ddyfodol*



## CYFLOGADWYEDD: DATBLYGU GYRFA AC ENTREPRENEURIAETH

Un o nodau sylfaenol y Brifysgol yw 'paratoi a hyrwyddo cyflogadwyedd ein myfyrwyr'.

Mae Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn darparu swyddogaeth hanfodol sy'n creu cyswllt rhwng busnesau a diwydiant a chreu cyfleoedd rhwydweithio i ti sy'n cael effaith wirioneddol.

Mae ein rhaglenni academaidd yn darparu cyfleoedd dysgu diddorol sy'n galluogi ein myfyrwyr i ddatblygu'r wybodaeth, sgiliau a dealltwriaeth y mae cyflogwyr a busnesau yn eu gwerthfawrogi. Rydym yn teilwra ein cyrsiau i sicrhau dy fod yn dysgu'r sgiliau proffesiynol, lefel uchel a fydd yn dy alluogi i ffynnu yn y byd cystadleuol sydd ohoni. Lle bynnag y bo modd, mae cyrsiau hefyd wedi'u hachredu gan gyrff proffesiynol.

Mae ein hanes hir o weithio gyda busnesau, diwydiant, masnach a'r sector cyhoeddus yn golygu y gallwn ychwanegu gwerth gwirioneddol at dy addysg. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr i ddarparu amrywiaeth o gyfleoedd am leoliadau a phrofiadau i helpu ein myfyrwyr i gyflawni'r hynny maent yn chwilio amdano ar ôl graddio.

### Y TÎM MENTERGARWCH

Gall y tîm Mentergarwch dy helpu i ddatblygu dy sgiliau, cael profiad gwerthfawr a rhoi dy syniadau ar waith drwy ein hystod o wasanaethau, gan gynnwys: gweithdai, cystadlaethau, cynlluniau a mentora busnes, ar y cyd â phartneriaid busnes â phrofiad helaeth o'r byd masnachol.

**enterprise@abertawe.ac.uk**

**myuni.abertawe.ac.uk/cyflogadwyedd-menter/menter-myfyrwyr**

## ADDYSGU A DYSGU YSBRYDOLEDIG

Mae'r gwaith ymchwil arloesol a wneir yn yr amrywiol gyfadrannau yn sail i'n haddysgu ardderchog. Mae'r ffaith eu bod yn rhan flaenllaw o unrhyw ddatblygiadau newydd a'u bod wedi'u cysylltu'n agos â diwydiant o fudd i bob un o'n cyrsiau, gan sicrhau bod ein graddedigion wedi'u paratoi'n drylwyr ar gyfer eu gyrfaoedd yn y dyfodol.

## SUT GALL PRIFYSGOL ABERTAWE FY HELPU I?

O'r eiliad pan fyddi di'n cyrraedd, bydd staff arbenigol yn Academi Cyflogadwyedd Abertawe yn dy helpu i gynllunio dy ddyfodol a pharatoi amdano.

**Cymorth sydd ar gael i ti:**

- Cyngor ac arweiniad gyrfaoedd un i un a ddarperir gan Ymgynghorwyr Gyrfaoedd â chymwysterau proffesiynol
- Gweithdai ysgrifennu CV a pharatoi at gyfweliadau
- Interniaethau tymor byr â thâl
- Bwrsariaethau tuag at weithgareddau cyflogadwyedd
- Cyfleoedd gwaith rhan amser fel y Cynllun Llysgennad Myfyrwyr
- Gelli gwblhau ein 'Cwrs Datblygu Gyrfa' ar-lein sy'n dy alluogi i baratoi ar gyfer dy fywyd proffesiynol a gwella dy ragolygon gyrfa
- Mentrau cyflogadwyedd sy'n benodol i'r cyfadrannau
- Ffair yrfaoedd flynyddol

## DARGANFYDDA FWY:

**abertawe.ac.uk/astudio/cyflogadwyedd**







Mae Letzee yn fusnes sy'n cynnig teithiau rhithwir 3D o eiddo i ddarpar denantiaid, gan alluogi landlordiaid i ddangos eu heiddo i ragor o ddarpar denantiaid heb orfod fod yn bresennol ar y pryd. Mae Letzee hefyd yn creu teithiau rhithwir 3D o fannau masnachol, megis teithiau o loriau siopau, swyddfeydd a llawer mwy.

Pan ofynnwyd iddo am gynnal busnes ochr yn ochr â'i astudiaethau, meddai Josh:

**"O ran cydbwyso'r busnes â'm hastudiaethau, rhaid i fi fod yn gynhyrchiol gyda fy amser a gwneud yn siŵr fy mod i ar y blaen i fy amserlenni. Pryd bynnag y bydda i'n teimlo'n rhy brysur, bydda i'n camu nôl ac yn ceisio edrych yn gadarnhaol ar yr hyn rwyf wedi'i gyflawni hyd yn oed cyn mynd i benrhyn Gŵyr i syrffio er mwyn clirio fy mhen!"**

Gwnaeth Josh gymryd rhan yn nigwyddiad blynyddol The Big Pitch sy'n cael ei gynnal gan y Tîm Mentergarwch ac **enillodd £3000 i'w fusnes!**

**"Mae lefel y cymorth gan y Brifysgol wedi bod yn anhygoel. Os oes gan unrhyw un ddiddordeb ac os hoffet ti siarad â fi am bethau, mae croeso i ti gysylltu. Yn olaf, rwy'n annog pawb i gadw llygad am ap a gwefan Letzee eleni, ein dilyn ni ar y cyfryngau cymdeithasol ac ymuno â ni wrth drawsnewid y broses o ddod o hyd i dŷ rhent"**

Mae Joshua wedi cael ei enwebu fel cynnig Prifysgol Abertawe ar gyfer Gwobrau Darpar Entrepreneuriaid Prifysgolion Santander 2021.

**Joshua Blackhurst**
Sefydlwyd Letzee ym mis Mawrth 2020

## CHYSYLLTIADAU Â CHYFLOGWYR

BBC, Admiral, Airbus, Microsoft, Rolls Royce, Cyfoeth Naturiol Cymru / Natural Resources Wales, Unilever, novo nordisk, gsk, Driver & Vehicle Licensing Agency, ReNeuron, sky, Fujitsu, Swansea City AFC, GIG Cymru / NHS Wales, Nuffield Foundation, Pfizer, Ospreys, Tata Steel, Sanofi, Santander Universities




# EWCH YN *Fyd-Eang*

Mae Prifysgol Abertawe yn cydnabod bod gwella cyflogadwyedd graddedigion i'r dyfodol yn bwysicach nag erioed. Wrth i fwy a mwy o fusnesau fynd ati i gyflogi talent o bob cwr o'r byd, mae'n hanfodol dy fod yn sefyll allan gyda sgiliau ychwanegol.

Mae cyflogwyr yn cydnabod gwerth profiad rhyngwladol yn fawr iawn, ac mae myfyrwyr sy'n treulio amser dramor yn meithrin ac yn dangos y rhinweddau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanyn nhw: ymwybyddiaeth o'r byd a diwylliannau eraill, aeddfedrwydd, hyder a'r gallu i addasu at amgylcheddau a heriau newydd.

Mae astudio a byw dramor yn:

- Rhoi agwedd a phrofiad rhyngwladol i ti
- Dy alluogi fagu hyder a dod yn fwy hunanddibynnol
- Dy helpu i ddatblygu annibyniaeth a blaengaredd

**DARGANFYDDA FWY**

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang**

*#SwanseaUniGlobal*

SwanUniGlobal **swanseauniglobal** swanseauniglobal

Fel myfyriwr Prifysgol Abertawe, mae cyfleoedd i gael profiad rhyngwladol drwy ein hamrywiaeth o raglenni diwylliannol, gwirfoddoli ac astudio nad ydynt yn dwyn credydau yn ystod y haf:

**abertawe.ac.uk/rhaglenni-haf**

At hynny, gallai rhai myfyrwyr gael cyfle i dreulio cyfnod dramor fel rhan o raglen Meistr Estynedig. Mae manylion am yr opsiynau hyn ar gael ar dudalennau cyrsiau penodol.

Mae yna ystod o gyfleoedd cyllido ar gael i gefnogi myfyrwyr sy'n dewis mynd dramor – cyfeiria at ein gwefan am y wybodaeth ddiweddaraf:

**abertawe.ac.uk/mynd-yn-fyd-eang/cyfleoedd-byd-eang/cyllid-ac-ariannu**



**Ulrike Leonhard**

Fel rhan o'r cwrs gradd MA mewn Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd Estynedig, treuliodd Ulrike semester yn Katholieke Universiteit Leuven a semester yn Université Catholique de Louvain, y ddwy ohonynt yng Ngwlad Belg.

**"Mae fy mlwyddyn dramor yng Ngwlad Belg wedi bod yn brofiad gwych. Rwyf wedi gwneud ffrindiau newydd o bob cwr o'r byd a ches i gyfle i deithio ledled Gwlad Belg. Mae'r Iseldiroedd, yr Almaen, Lwcsembwrg a Ffrainc oll o fewn pellter agos felly nid oes terfyn ar y cyfle i archwilio! Ni allai fy mhrofiad fel myfyriwr yn y ddwy brifysgol fod yn well."**

## PROFIADAU *Myfyrwyr*

**"Roedd astudio ar gyfer y Radd Meistr Estynedig yn gyfle ardderchog, gan gynnwys y cyfle i wneud cais i astudio dramor yn Ysgol Bush, Texas A&M. Bu'n brofiad anhygoel gan fod Ysgol Bush yn cynnig un o'r cyrsiau Cysylltiadau Rhyngwladol gorau gan ysgol gyhoeddus yn America. Yn ogystal ag ehangu fy nghyfleoedd gyrfa, bydd y cyfle hwn yn golygu y gallaf astudio fy nghwrs o safbwynt gwahanol. Rwyf wedi mwynhau pob munud o'm cwrs yn fawr ac rwy'n falch iawn fy mod wedi dewis astudio ymhellach ym Mhrifysgol Abertawe."**



**Natalie Pittman**

Astudiodd Natalie Pittman Radd Meistr Estynedig mewn Cysylltiadau Rhyngwladol a threuliodd semester dramor yn The Bush School ym Mhrifysgol Texas A&M.

# MANTEISION ASTUDIO *Trwy'r Gymraeg*

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Am fwy o wybodaeth a chanllawiau ymgeisio gweler **colegcymraeg.ac.uk**

Mae astudio cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg yn y Brifysgol yn gyfle arbennig i ddatblygu dy sgiliau ac i fanteisio ar gyfleoedd a fydd yn helpu agor y drws i ddyfodol disglair.

### MANTAIS ARIANNOL

Gall astudio rhan o dy gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg fod o fantais i ti yn ariannol gyda nifer o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i fyfyrwyr sy'n dewis gwneud. Gelli ymgeisio am ysgoloriaethau cyfrwng Cymraeg cyn cofrestru ym Mhrifysgol Abertawe neu ar ôl i ti gyrraedd. Mae ymchwil hefyd yn awgrymu bod modd i unigolion sy'n ddwyieithog ennill cyflog uwch ar gyfartaledd na chyfoedion sydd yn siarad dim ond un iaith.

### RHAGOLYGON GYRFA

Mae cyflogwyr yng Nghymru yn chwilio am unigolion sydd â sgiliau yn yr iaith Gymraeg a gall astudio rhan o dy gwrs trwy gyfrwng y Gymraeg fod yn hynod fanteisiol felly. Bydd nodi'r sgiliau hyn yn ychwanegiad atyniadol iawn ar dy CV ac yn rhoi mantais gystadleuol i ti mewn nifer o achosion. Yn ogystal â hyn mae Prifysgol Abertawe yn cynnig cyfleoedd i ddatblygu sgiliau cyfrwng Cymraeg yn y gweithle ac i ennyn cysylltiadau a phrofiadau gwerthfawr ar gyfer y dyfodol.

### Y GYMDEITHAS GYMRAEG (GYMGYM)

Mae'r GymGym yn rhoi cyfleoedd amrywiol i ti gymdeithasu â siaradwyr Cymraeg eraill mewn amgylchedd anffurfiol. Mae'n gyfle gwych i wneud ffrindiau newydd. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn cwrdd yn rheolaidd gan drefnu llu o weithgareddau cymdeithasol trwy gyfrwng y Gymraeg gan gynnwys tripiau rygbi, gigs, a crôls, Eisteddfodau Rhyng-gol a llawer mwy. Mae'r Gymdeithas Gymraeg yn gweithio'n glos gyda Changen Abertawe o'r Coleg Cymraeg gan hefyd gefnogi Clwb Rygbi Tawe a Phêl Rwyd Tawe.



**Gwern Dafis,**
Swyddog Materion Cymraeg
Undeb Myfyrwyr
Prifysgol Abertawe

**"Yn fy rôl fel Swyddog Materion Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe, byddaf yn cynrychioli'r myfyrwyr cyfrwng Cymraeg. I wneud hyn, byddaf yn gwneud yn siŵr bod yr un cyfleoedd yn cael eu cynnig i fyfyrwyr Cymraeg â sy'n cael eu cynnig i holl fyfyrwyr eraill y Brifysgol.**

**Yn ystod y flwyddyn i ddod, byddaf yn sicrhau bod yna gysondeb yn hyrwyddo'r iaith Gymraeg a'i defnydd ar draws ein campysau. Drwy gynnig cyfleoedd academaidd a chymdeithasol, mi fydd cyfleoedd i siaradwyr rhugl a dysgwyr gymdeithasu. Mae'n bwysig bod presenoldeb yr iaith a'r diwylliant Cymreig yn rhan annatod o brofiad pob myfyriwr sy'n ymweld ag Abertawe, ac felly trwy gynnal dathliadau a digwyddiadau yn ystod y flwyddyn mi fydd hyn yn gyflawnadwy."**

### BWRSARIAETHAU MEISTR CYFRWNG CYMRAEG LLYWODRAETH CYMRU (£1,000)*

Bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gradd Meistr a addysgir gwerth 180 credyd llawn ac sy'n dewis astudio 40 credyd neu fwy o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Cer i dudalen 174 am fanylion.

*Mae'r manylion ar gyfer cyllid 2022-23 i'w gadarnhau

## MAE GEN I HAWL

Mae gen ti hawl gyfreithiol i dderbyn gwasanaethau yn y Gymraeg. Mae'r hawliau yma wedi cael eu creu o ganlyniad i osod 'Safonau' ar y Brifysgol.

| | |
|---|---|
| **LLYTHYRAU** yn y Gymraeg | **GWASANAETH CWNSELA** yn y Gymraeg |
| **CAIS AM GYMORTH ARIANNOL** yn y Gymraeg | **CYFARFODYDD** yn y Gymraeg |
| **LLYFRYN CAIS AM GYMORTH ARIANNOL** yn y Gymraeg | **TYSTYSGRIFAU** yn y Gymraeg |
| **PROSBECTWS** yn y Gymraeg | **CYFLWYNO GWAITH YSGRIFENEDIG** yn y Gymraeg |
| **TIWTOR PERSONOL** sy'n siarad Cymraeg | **FFURFLENNI** yn y Gymraeg |



**Elisa Jenkins,**
LLM Ymarfer Cyfreithiol ac Uwch Ddrafftio

**"Roedd astudio fy nghwrs ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe yn gysur i mi. Teimlais fy mod yn gallu cyrraedd fy llawn botensial oherwydd fy mod yn fwy cyfforddus yn ysgrifennu yn y Gymraeg. Mae hefyd wedi cryfhau fy rhagolygon gyrfaol. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o gwmnïau'n chwilio am unigolion sy'n gallu cyfathrebu'n Gymraeg yn ysgrifenedig ac ar lafar. Mae medru'r Gymraeg hefyd yn fuddiol i gyfathrebu gyda chwsmeriaid a/neu gleientiaid sydd eisiau defnyddio'r Gymraeg. Mae cael unigolyn dwyieithog yn ddeniadol i gwmni.**

**Derbyniais Bwrsari Llywodraeth Cymru gwerth £1,000 sydd wedi fy helpu i mewn sawl ffordd. Astudiais fy nghwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) ochr yn ochr â fy ngradd Meistr ôl-raddedig a bu'r bwrsari hwn o gymorth imi dalu am wahanol bethau fel gwerslyfrau adolygu."**

# ACADEMI *Hywel Teifi*

### ASTUDIO A CHYMDEITHASU DRWY GYFRWNG Y GYMRAEG

Mae gan Brifysgol Abertawe nifer o gyfleoedd ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig ac mae Academi Hywel Teifi yma i dy gefnogi i wneud hynny trwy gydol dy amser gyda ni. Bydd parhau i astudio trwy'r Gymraeg wedi i ti astudio drwy'r iaith ar lefel israddedig yn gam naturiol ac o fantais sylweddol ac fe gei di gefnogaeth ac anogaeth lawn i wneud hynny er mwyn ychwanegu at dy gyflogadwyedd, i feithrin sgiliau dadansoddi ac i ddangos y gallu i weithio mewn mwy nag un iaith.

Mae Academi Hywel Teifi yn bwerdy ar gyfer y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Prif nod yr Academi yw cefnogi, cynyddu a chyfoethogi darpariaeth addysg ac ymchwil cyfrwng Cymraeg y Brifysgol er mwyn sicrhau y bydd ein myfyrwyr yn cael y gorau o ddau fyd – profiad Cymraeg a Chymreig mewn prifysgol sydd â chysylltiadau amlddiwylliannol a rhyngwladol heb eu hail.

Mae'r Academi yn darparu cymuned i'r miloedd o fyfyrwyr sy'n siarad Cymraeg yma, ac i staff cyfrwng Cymraeg y Brifysgol. Drwy gefnogi adrannau'r Brifysgol mae'r Academi wedi galluogi cynnydd sylweddol yn nifer y pynciau sydd yn cael eu dysgu trwy'r Gymraeg yn Abertawe. Ymhlith y datblygiadau diweddaraf mae ein Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) er mwyn hyfforddi Athrawon Uwchradd y dyfodol mewn ystod o feysydd, ac mae'r cwrs Meddygaeth i ôl-raddedigion yn un uchel iawn ei barch.

Ers 2011, bu cynnydd o 35% yn nifer y myfyrwyr sy'n astudio 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ac mae ein data TEF* dros y ddwy flynedd ddiwethaf yn dangos bod myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn gyflawnwyr uchel o ran cyflogadwyedd. Mae'r ddarpariaeth Gymraeg yn rhan annatod o'r addysgu safon aur a gynigir yma.

### CANGEN PRIFYSGOL ABERTAWE, COLEG CYMRAEG CENEDLAETHOL

Mae Prifysgol Abertawe yn gweithio mewn partneriaeth â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac mae cangen y Brifysgol wedi'i lleoli yn Academi Hywel Teifi. Mae Cynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn cefnogi myfyrwyr sy'n astudio ar gyfer doethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ysgoloriaethau doethuriaeth diweddar a gyd-ariannwyd gan y Coleg Cymraeg a Phrifysgol Abertawe yn cynnwys meysydd Seicoleg, Cyfieithu, Cymraeg, Cemeg a Gwyddorau Biofeddygol. Am fwy o wybodaeth cer i:

**abertawe.ac.uk/cangen-abertawe**

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU


Mae cynllun Ysgoloriaethau a Bwrsariaethau cyfrwng Cymraeg Academi Hywel Teifi yn agored i fyfyrwyr sydd eisoes wedi dewis dod i Brifysgol Abertawe ac sydd yn dewis astudio trwy gyfrwng y Gymraeg lle bo cyfle, yn hytrach na thrwy'r Saesneg. Am fwy o wybodaeth ac i weld y pynciau sy'n gymwys cer i:

**abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi/dysgu/ysg-cym-olradd**

Academi Hywel Teifi | Prifysgol Abertawe Swansea University

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

AcademiHywelTeifi | @AcademiHTeifi | AcademiHywelTeifi | abertawe.ac.uk/academi-hywel-teifi



## Arwain

Download on the App Store | Google play

**Lawrlwytha ap Arwain er mwyn derbyn y diweddaraf am ein cyrsiau a'n modiwlau cyfrwng Cymraeg, ynghŷd â gwybodaeth am y gefnogaeth ariannol gan Academi Hywel Teifi a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Cei wybodaeth hefyd am y cyfleoedd i fyw a chymdeithasu yn y Gymraeg tra'n astudio yma.**

### BWRSARIAETHAU MEISTR CYFRWNG CYMRAEG LLYWODRAETH CYMRU (£1,000)**

Bwrsariaeth ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gradd Meistr a addysgir gwerth 180 credyd llawn ac sy'n dewis astudio 40 credyd neu fwy o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg. Cer i dudalen 174 am fanylion.

### EDRYCHA AM Y LOGO

ar y tudalennau cwrs sy'n dynodi argaeledd ysgoloriaethau a chyfleoedd ar gyfer myfyrwyr sy'n dewis astudio cwrs yn gyfan gwbl neu'n rhannol trwy gyfrwng y Gymraeg!

**Mae'r manylion ar gyfer cyllid 2022-23 i'w gadarnhau

*Canlyniadau TEF Prifysgol Abertawe 2017 a 2018.



# UNDEB Y *Myfyrwyr*

swanseaunisu   swanseaunisu   susu_official



**Katie Phillips**
Llywydd Undeb y Myfyrwyr
2021-2022

SWANSEA UNIVERSITY STUDENTS' UNION
UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE

Caiff Undeb y Myfyrwyr ei gynnal gan fyfyrwyr, ar gyfer myfyrwyr. Rydym yn elusen gofrestredig sy'n cefnogi ac yn cynrychioli'r holl fyfyrwyr ym Mhrifysgol Abertawe. Rydym yn ethol swyddogion amser llawn bob blwyddyn, sy'n cynrychioli myfyrwyr ym mhopeth sy'n ymwneud â'r brifysgol; o Gymdeithasau a Gwasanaethau i Chwaraeon, materion Cymraeg a Lles ac Addysg.

Mae gennym gynrychiolwyr colegau a phynciau hefyd – dyma'r myfyrwyr sy'n gweithio gyda'r Brifysgol i ymdrin â phroblemau sydd gan fyfyrwyr ar eu cwrs.

Rydym hefyd yn gyfrifol am y siopau a barrau ar y campws – JC's, Tafarn Tawe, Rebound, Root Zero, Costcutter a Fulton Outfitters. Mae'r holl arian sy'n cael ei wario yn y lleoliadau hyn yn mynd yn syth yn ôl i brofiad y myfyrwyr.

Mae Undeb y Myfyrwyr hefyd yn trefnu Pythefnos y Glas, Dawns yr Haf, Varsity, Tooters a llu o ddigwyddiadau gwych eraill i ti eu mwynhau!

## MAE UNDEB MYFYRWYR PRIFYSGOL ABERTAWE YN CYNNIG:

- Dros 150 o gymdeithasau a dros 50+ o glybiau chwaraeon
- Union Collective, platfform i helpu myfyrwyr gydag arian ac adnoddau i gymryd eu syniadau busnes ar lawr gwlad
- Cyfle i weithio ar gyfer y papur newydd myfyrwyr, gorsaf deledu a gorsaf radio
- Canolfan Gynghori a Chymorth yn helpu gyda phopeth o landlordiaid i anghyfodau academaidd
- Meithrinfa ar y campws sy'n hyblyg o gwmpas darlithoedd myfyrwyr
- Llais i fyfyrwyr yn y Brifysgol, gan sicrhau bod barn myfyrwyr yn cael ei glywed ar bob lefel








## YN DY GEFNOGI

Mae ein tîm yn cynnal ymgyrchoedd trwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o faterion, a mentrau hynod bwysig i dy gefnogi di! Dyma ychydig yn unig:

**Cymorth Astudio:** Gwasanaethau am ddim i dy helpu i ymdopi â chyfnodau astudio dwys (gan gynnwys ymweliad gan gŵn bach cudd gan ein ffrindiau yn Achub Milgwn Cymru).

**Rho Rywbeth Diangen:** Ar ddiwedd pob blwyddyn, rydyn ni'n mynd â dy eitemau diangen fel nad ydyn yn mynd i safleoedd tirlenwi a'u cynnig i fyfyrwyr newydd ym mis Medi. Potiau, sosbenni, seigiau – gallwn ni helpu!

**Tashwedd:** Yn ystod Tashwedd, rydym ni'n rhoi cymuned o Mo Bros a Mo Sisters ar waith sy'n gwneud gwahaniaeth drwy godi arian a hybu ymwybyddiaeth o iechyd meddwl ac atal hunanladdiad, canser y prostad a chanser y ceilliau. Dyma un o'n hymgyrchoedd mwyaf, ac mae bob amser yn sioe ledled y Brifysgol.

Gelli ddilyn ein tîm o swyddogion ar Instagram **@susuofficers** i ddarganfod beth arall maen nhw'n ei wneud! Os wyt ti am ein dilyn i gael y wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd i ddod a sut brofiad yw bod yn fyfyriwr yn Abertawe, rydyn ni ar Instagram, TikTok, Facebook, a Twitter, gelli ddod o hyd i ni fel @SwanseaUniSU.



# Chwaraeon I BAWB

CHWARAEON ABERTAWE | SPORT SWANSEA
Prifysgol Abertawe | Swansea University

**Yma ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn ymfalchïo yn ein hymroddiad a'n hymrwymiad i chwaraeon a ffyrdd actif o fyw. Mae gennym gyfleoedd chwaraeon sy'n addas i bob un o'n myfyrwyr, o'r athletwyr elît/rhyngwladol i'r rhai sy'n dechrau o'r dechrau, mae rhywbeth at ddant pawb.**

**abertawe.ac.uk/chwaraeon**

## CYFLEUSTERAU

Gydag ystod helaeth o gyfleusterau chwaraeon ar gael i fyfyrwyr ym Mharc Chwaraeon Bae Abertawe ar bwys Campws Singleton ac ar Gampws y Bae hefyd, mae'r Brifysgol yn darparu amrywiaeth eang o weithgareddau dan do a rhai awyr agored.

Mae gan y ddau gampws gyfleusterau iechyd a ffitrwydd ardderchog, gan gynnwys offer a dosbarthiadau o'r radd flaenaf. Mae'r Brifysgol hefyd yn cynnig cyfleuster cryfder a chyflyru o'r radd flaenaf (Y Sied) sydd ar gael i athletwyr elît a thimau.

Mae Crysau Duon Seland Newydd wedi defnyddio ein cyfleusterau chwaraeon i hyfforddi ar gyfer Cwpan Rygbi'r Byd, ac mae ein pwll cenedlaethol 50m wedi'i ddefnyddio gan athletwyr wrth baratoi ar gyfer gemau Olympaidd a Pharalympaidd ac ar hyn o bryd mae'n gartref i raglen perfformiad uchel Nofio Cymru.

Mae ein timau pêl-droed yn cael defnyddio cyfleuster hyfforddi o safon fyd-eang yn Fairwood, sy'n brif gae hyfforddi i Glwb Pêl-droed Dinas Abertawe.

**Mae ein hystod eang o gyfleusterau chwaraeon i fyfyrwyr yn cynnwys:**

- Cae Artiffisial ar sail dŵr
- Caeau Chwarae
- Cyrtiau tennis
- Neuaddau chwaraeon amlbwrpas ac ardaloedd gemau awyr agored
- Gwasanaeth llogi beiciau a llwybrau rhedeg
- Pafiliwn chwaraeon
- Pwll Cenedlaethol Cymru Abertawe
- Trac a chae athletau
- Trac athletau dan do

## AELODAETH O'R GAMPFA

Fel rhan o ffordd o fyw gytbwys ac iach ym Mhrifysgol Abertawe, gall myfyrwyr ymaelodi â'r gampfa a chael nifer o fanteision am bris llai. Mae bod yn aelod hefyd yn rhoi i ti'r manteision canlynol:

- Y gallu i ddefnyddio 69 o gampfeydd yn y DU fel rhan o gynllun UNIversal BUCS.
- Mynediad at gyfleusterau campfeydd ar Gampws y Bae ac ar Gampws Singleton
- Dosbarthiadau ffitrwydd, gan gynnwys mynediad at yr holl ddosbarthiadau rhithwir
- WiFi am ddim wrth i ti hyfforddi

Parc Chwaraeon Bae Abertawe
Swansea Bay Sports Park



**Alun Wyn Jones**
Llewod Prydain ac Iwerddon, Capten Cymru a'r Gweilch a chyn-fyfyriwr y Gyfraith Abertawe

**"O ganlyniad i'r Ysgoloriaeth Chwaraeon yn y brifysgol, ces i gyfle i ddilyn dau lwybr gyrfaol ar yr un pryd. Mae gen i atgofion melys o'm hamser ym Mhrifysgol Abertawe, yn enwedig ennill Gêm y Prifysgolion. Dwi'n gwybod na fydd gyrfa mewn chwaraeon yn para am byth, felly dwi'n fodlon ystyried dychwelyd i wella fy nghymwysterau yn y dyfodol."**



YN OGYSTAL Â'N LLEOLIAD ARFORDIROL RHAGOROL MAE ABERTAWE'N CYNNIG RHAI O'R CHWARAEON GORAU MEWN UNRHYW BRIFYSGOL YM MHRYDAIN



# VARSITY ABERTAWE VS CAERDYDD

Gemau'r Prifysgolion yw'r digwyddiad mwyaf i fyfyrwyr yng Nghymru, a'r ail fwyaf o blith Gemau Varsity Prifysgolion Prydain, tu ôl i'r gêm rhwng Rhydychen a Chaergrawnt. Yn ystod Gemau'r Prifysgolion, mae Prifysgol Abertawe a Phrifysgol Caerdydd yn cystadlu mewn dros 30 o gampau gwahanol, o bêl-fasged, rhwyfo, golff a hoci i gleddyfaeth, sboncen a Ffrisbi Eithafol. Gwylia uchafbwyntiau Gemau'r Prifysgolion yma:

**abertawe.ac.uk/y-brifysgol/chwaraeon/cymru-varsity**

**SWANSEA VS CARDIFF VARSITY** YouTube




## RHAGLEN PERFFORMIAD UCHEL

Mae ein Rhaglen Perfformiad Uchel yn cynnig cymorth i athletwyr elît mewn ystod o gampau gwahanol. Cyflawnir pob rhaglen ar y cyd â chlwb chwaraeon proffesiynol neu gorff llywodraethu cenedlaethol ar gyfer partner chwaraeon.

Ar hyn o bryd mae ein rhaglen yn cefnogi chwe champ ac mae'n tyfu bob blwyddyn. Mae pob camp yn derbyn hyfforddiant perfformiad uchel, gwasanaethau ym maes y gwyddorau chwaraeon, rheoli ffordd o fyw athletwyr, ffisiotherapi a chymorth cryfder a chyflyru. Ar hyn o bryd, dyma'r chwaraeon:

- Hoci
- Nofio
- Pêl-droed
- Pêl-rwyd
- Rygbi
- Tenis bwrdd

## YSGOLORIAETHAU

DUAL CAREER ACCREDITED tass

Mae'r Brifysgol yn cynnig Cynllun Ysgoloriaethau i Athletwyr Dawnus (TASS) i athletwyr dawnus iawn a phecyn cymorth gwerth hyd at £2,000 y flwyddyn a allai gynnwys; hyfforddiant cryfder a chyflyru, ffisiotherapi, cymorth seicolegol a chyngor maethol – a darperir pob un ohonynt gan ymarferwyr cymwys. Gall buddion eraill gynnwys aelodaeth o gyfleusterau am ddim a hawlen i barcio ar y campws.

## DARGANFYDDA FWY

**abertawe.ac.uk/israddedig/ysgoloriaethau**

## CHWARAEON CYSTADLEUOL

Ni yw'r Brifysgol sy'n gwella gyflymaf yn nhablau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) ac rydym yn yr 18fed safle ar hyn o bryd yn nhabl 2018-19. Ceir ystod eang o gyfleoedd i ti gynrychioli'r Brifysgol yn gystadleuol yng ngemau Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain a chystadlaethau domestig allweddol oherwydd cei ymaelodi â dros 50 o glybiau chwaraeon. Mae ein clybiau yn darparu ystod o sesiynau hyfforddi dan arweiniad hyfforddwyr i roi'r cyfle i ti gyflawni dy nodau chwaraeon.

**18** FED **SAFLE BUCS**

Tabl Chwaraeon Prifysgolion a Cholegau Prydain (BUCS) 2018-19





































School of Management
Yr Ysgol Reolaeth
















# GWNEUD CYNALIADWYEDD YN RHAN HANFODOL O *Fywyd Myfyrwyr*

Yma ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn ffodus bod gennym amrywiaeth eang o gynefinoedd i'w mwynhau, o draethau i goetir a pharciau, ac rydym yn angerddol am ddatblygu cynaliadwy er lles ein cymuned leol, y DU a'r byd ehangach.

Fel myfyriwr, bydd digon o gyfleoedd i ti gyfrannu at gadwraeth ymarferol. Gelli wirfoddoli i helpu i gadw'r ardaloedd hyn yn arbennig drwy gymryd rhan yn ein sesiynau rheolaidd i lanhau'r traethau, ein partïon gwaith a monitro bywyd gwyllt. Yn ogystal â helpu'r amgylchedd, byddi di'n dysgu sgiliau newydd ac yn cwrdd â ffrindiau newydd ar yr un pryd.

## GWOBR CYNALIADWYEDD

Os oes gen ti ddiddordeb mewn ailgylchu, bioamrywiaeth, lles neu unrhyw beth yn y canol, mae gennym ni rywbeth i ti!

Ein rhaglen ymgysylltu â myfyrwyr flaenllaw yw'r **Wobr Gynaliadwyedd.** Gall myfyrwyr sy'n astudio unrhyw bwnc, mewn unrhyw flwyddyn ar eu cwrs gradd weithio tuag at y wobr hon drwy gydol eu cyfnod gyda ni ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae cwblhau'r wobr yn cyfrannu at dy gofnod academaidd ac mae'n addysgu ystod eang o sgiliau i ti.

**abertawe.ac.uk/cynaliadwyedd**

Green Flag Award
Gwobr Y Faner Werdd

**10** UCHAF YN Y DU
**Y BRIFYSGOL WYRDDAF**

(Guardian People & Planet University league 2019)



**"Plastigau, gan gynnwys poteli plastig untro, yw'r math o sbwriel a ddarganfyddir amlaf ar draethau'r DU ac nid oes rhaid i ti edrych yn bell i'w canfod yn sbwriel ein trefi a'n mannau gwyrdd hefyd.**

**Mae Prifysgol Abertawe yn brifysgol gynaliadwy flaenllaw ac rydym wrth ein bodd yn gallu cefnogi Refill (cynllun sy'n darparu gorsafoedd ail-lenwi dŵr mewn lleoliadau ledled Abertawe a'r Brifysgol) gyda'n partneriaid yn Abertawe Plastig Am Ddim ac Undeb Myfyrwyr. Mae Swyddogion Undeb Myfyrwyr wedi bod yn brysur iawn yn cefnogi lansio'r ymgyrch; bellach, mae gennym o leiaf 30 o orsafoedd Adnewyddu ar draws ein campysau Bae a Pharc Singleton i'r gymuned gyfan eu defnyddio."**

**Teifion Maddocks**
Swyddog Cynaliadwyedd a Lles,
Prifysgol Abertawe

# RYDYM YMA *i dy Helpu*

Gelli fanteisio ar amrywiaeth o wasanaethau cymorth myfyrwyr yn ystod dy astudiaethau ôl-raddedig, gan sicrhau bod dy amser yma ym Mhrifysgol Abertawe mor ddi-straen a hwylus â phosib.

### HYB Y MYFYRWYR

SUT GALLWN DY HELPU?

Mae Hyb y Myfyrwyr yn cynnig gwybodaeth ac arweiniad ar unrhyw agwedd ar fywyd myfyriwr o gofrestru i raddio. Mae'r tîm hefyd yn darparu cyngor, arweiniad ac atgyfeiriadau ar gyfer dy holl ofynion cymorth yn ystod dy amser ym Mhrifysgol Abertawe. Gelli ymweld â'n timau profiadol a chyfeillgar ar Gampws Singleton a Bae.




"Rwyf wedi tyfu cymaint fel person trwy gydol fy nghyfnod fel myfyriwr israddedig yn Abertawe a nawr yn ystod fy nghyfnod fel myfyriwr ôl-raddedig yn ogystal ac rwy'n teimlo'n llawer mwy hyderus yn fy hun. Rwyf wedi sylweddoli cymaint fy mod yn dwlu ar ddysgu o'i gymharu â fy nghyfnod yn yr ysgol am fy mod wedi dewis astudio rhywbeth sy'n llawer mwy pleserus nag astudio ar gyfer arholiadau TGAU neu Safon Uwch lle teimlais nad oedd modd i mi ddysgu am y pethau yr oeddwn yn dymuno dysgu amdanynt.

Rwyf wedi bod yn rhan o gymdeithasau ers y pedair blynedd diwethaf ac maent wedi gwella fy nghyfnod yn y Brifysgol mewn ffordd na allwn fod wedi'i dychmygu. Mae cynifer o bethau ar gael ac mae cychwyn dy gymdeithas dy hun yn hawdd iawn os nad oes rhywbeth at dy ddant. Trwy fod yn aelod o bwyllgor rwyf wedi gwella fy sgiliau arweinyddiaeth a threfnu a byddwn yn ailadrodd hyn mewn chwinciad.

Mae'r adborth academaidd yn dda iawn, caiff gwaith ei farcio'n brydlon ac fel arfer cei sylwadau ac awgrymiadau sy'n ddefnyddiol iawn ar gyfer y dyfodol. Rwyf wedi defnyddio canolfan gyngor y Brifysgol ar sawl achlysur ac mae'r staff wedi bod yn anhygoel. Roedd modd i mi weld rhywun ymhen ychydig o ddyddiau a derbyniais gyngor a chymorth defnyddiol iawn."

**Caroline**
(Myfyriwr Ôl-raddedig Prifysgol Abertawe, adolygiad WhatUni)

★★★★★

WHAT UNI?

www.whatuni.com



# YN DY GEFNOGI

## CYMORTH DYNODEDIG I TI FEL MYFYRIWR ÔL-RADDEDIG:

- Meithrinfa ar y campws gydag opsiynau gofal plant hyblyg
- Cymorth ychwanegol ar gyfer dysgwyr/myfyrwyr aeddfed gyda chyfrifoldebau gofalu
- Rhaglenni hyfforddiant sgiliau penodol ar gyfer myfyrwyr ymchwil ac ôl-raddedig a addysgir
- Swyddogion Undeb y Myfyrwyr dynodedig i gynrychioli cymuned ôl-raddedig Abertawe sy'n tyfu

### DARGANFYDDA FWY

abertawe.ac.uk/astudio/adran-gwasanaethau-cymorth-i-fyfyrwyr



**£1.5m**
CYMORTH LLES MYFYRWYR
Diogelwyd gan Lywodraeth Cymru (2020)

## GWYBODAETH AM IECHYD

Mae gofal deintyddol y Brifysgol yn cynnig ystod lawn o driniaethau'r GIG a phreifat i fyfyrwyr. Lleolir Meddygfeydd Deintydd a Meddygon ar y campws.

## SWYDDFA ANABLEDDAU

Yn sicrhau'r un profiad i'r holl fyfyrwyr. Mae Canolfan Drawsgrifio Prifysgol Abertawe yn wasanaeth trawsgrifio arbenigol sy'n darparu adnoddau dysgu hygyrch i'w hargraffu ar gyfer myfyrwyr anabl.

## GWASANAETHAU LLES



Amrywiaeth o wasanaethau am ddim sy'n hybu ac yn edrych ar ôl lles myfyrwyr, gan gynnwys gwasanaeth cymorth iechyd meddwl.

## ARIAN (BYWYDCAMPWS)

Mae'r tîm hwn bob amser wrth law i dy helpu i wneud y gorau o dy arian a chadw llygad ar dy gyllideb.



# Yn cefnogi
# DY YMCHWIL ÔL-RADDEDIG



Mae Abertawe'n gartref i gymuned ymchwil ffyniannus sy'n cyfuno ymchwil o safon fyd-eang ag ethos croesawgar, cynhwysol a chydweithredol ynghyd â phwyslais ar ymchwil sy'n cynnig buddion go iawn i'n byd.

Mae ein swyddfa ymchwil ôl-raddedig yn cydlynu gweithgareddau ôl-raddedig rhyngddisgyblaethol a chymorth ar draws y Brifysgol. Rydym yn gweithio i sicrhau bod myfyrwyr yn cael y profiad gorau posib drwy ddarparu mynediad at gyfleoedd cyllid a datblygu, darparu hyfforddiant ac adnoddau i dy gefnogi i ddatblygu dy sgiliau proffesiynol ac ymchwil a thrwy gefnogi digwyddiadau a gweithgareddau a arweinir gan fyfyrwyr.

## DY GEFNOGI I DDATBLYGU

Rydym yn cynnig rhaglen hyfforddi a datblygu gynhwysfawr i ymchwilwyr ôl-raddedig, gan dy gefnogi i ddatblygu'r sgiliau, yr wybodaeth a'r rhinweddau i ragori yn dy ymchwil a dy yrfa yn y dyfodol.

## FFRAMWAITH HYFFORDDIANT

Mae ein fframwaith hyfforddiant, sy'n cynnwys deg thema wahanol, wedi'i gynllunio i gefnogi dy ddatblygiad fel ymchwilydd a dy ddatblygiad proffesiynol ar bob cam yn dy ymgeisyddiaeth.

## Y 10 THEMA HYFFORDDIANT:

- Addysgu ac arddangos
- Arweinyddiaeth a gweithio gydag eraill
- Cyflwyno ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Cynllunio gyrfa a chynnydd
- Diogelwch, uniondeb a moeseg
- Dulliau Ymchwil
- Effaith a masnacheiddio
- Gwytnwch, datrys problemau ac effeithiolrwydd personol
- Rheoli gwybodaeth a data
- Ysgrifennu academaidd

Mae pob thema yn cynnwys gweithdai, adnoddau a chyfleoedd ar lefelau gwahanol, yn unol â cham dy ymgeisyddiaeth neu lefel dy brofiad:

**Ymgysylltu –** Cyflwyno myfyrwyr sydd newydd ddechrau eu hymgeisyddiaeth i'r offer angenrheidiol i sicrhau bod eu taith ymchwil yn dechrau yn y ffordd orau bosib.

**Archwilio –** Datblygu sgiliau i'r rhai sydd yng nghanol eu hymgeisyddiaeth, gan gyflwyno technegau ac offer ymchwil newydd, archwilio effaith ymchwil a'u cefnogi i ymgysylltu â'r gymuned ymchwil ehangach.

**Ehangu –** Cefnogi myfyrwyr sy'n agos at ddiwedd eu gradd ymchwil i gwblhau eu hymchwil a chynllunio am eu dyfodol, boed yn y byd academaidd neu ar lwybr arall.

## RHAGLEN SGILIAU A DATBLYGIAD

Mae ein rhaglen datblygiad yn cynnwys amrywiaeth o elfennau, o hyfforddiant ffurfiol i weithdai gydag arbenigwyr allanol i gyfleoedd ymdrochi sy'n rhoi cyfle i ti roi dy sgiliau ar waith a myfyrio arnynt. Mae'r tîm ôl-raddedig yn gweithio'n agos gyda thimau arbenigol ar draws y brifysgol i ddarparu cymorth a gweithgareddau lles a gyrfaoedd sydd wedi'u teilwra i anghenion ymchwil ôl-raddedig. Hefyd, gall ymchwilwyr ôl-raddedig fanteisio ar gymorth pwrpasol i unigolion o bob rhan o'r sefydliad ar amrywiaeth o agweddau, gan gynnwys ymchwil, sicrhau grantiau a chyllid, a chyflogadwyedd.

## CYFLEOEDD CYFLOGADWYEDD

Gall myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig yn Abertawe fanteisio ar nifer o gyfleoedd sy'n gwella eu sgiliau ymchwil a'u cyflogadwyedd, yn y Brifysgol a chyda phartneriaid allanol, gan gynnwys interniaethau a lleoliadau gwaith.

Yn ogystal, mae gan y Brifysgol nifer o rolau cynorthwy-ydd addysgu â thâl ar gyfer myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig sy'n gweithio dan gyfarwyddyd arweinwyr modiwlau i ddarparu profiadau dysgu rhyngweithiol o safon uchel. Mae'r rolau hyn yn cynnig cyfle ardderchog i fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig i dy alluogi i ddatblygu dy sgiliau addysgu ac ehangu dy wybodaeth am ddysgu ac addysgu mewn addysg uwch, gan ddatblygu sgiliau cyflogadwyedd allweddol a dy baratoi am rôl academaidd yn y dyfodol.

Bydd cyfleoedd eraill i gyfrannu at brosiectau allgymorth, gan rannu dy ymchwil â disgyblion ysgol i'w hysbrydoli am y llwybrau a allai fod ar agor iddynt yn y dyfodol.

## RHAGORIAETH ACADEMAIDD

Mae Abertawe'n gartref i rai o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig mwyaf disglair y DU, ac rydym yn cynnig nifer o gyfleoedd ymchwil ôl-raddedig wedi'u hariannu'n llawn i fyfyrwyr sydd am astudio am PhD, MPhil, MRes neu radd Meistr drwy Ymchwil mewn amrywiaeth o ddisgyblaethau.

## PARTNERIAETHAU A CHANOLFANNAU HYFFORDDIANT DOETHUROL

Trwy gydweithio â phrifysgolion blaenllaw eraill a phartneriaid mewn diwydiant, rydym yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o ymchwilwyr arloesol mewn disgyblaethau sy'n rhoi pwyslais ar y dyfodol – o ddeallusrwydd artiffisial a gweithgynhyrchu deunyddiau, i'r gwyddorau cymdeithasol a pholisi.

Fel un o sefydliadau ymchwil mwyaf blaenllaw'r byd, rydym yn rhan o nifer o fentrau doethurol nodedig a ariennir gan UKRI sy'n dod ag ymchwilwyr ynghyd ac yn cefnogi ein myfyrwyr doethurol i ddod yn ymchwilwyr blaenllaw'r dyfodol, mewn amgylchedd cefnogol sy'n cynnig cyfleoedd datblygu ychwanegol, megis gweithio neu astudio dramor a lleoliadau gwaith gyda phartneriaid diwydiannol.

## Y GYMUNED YMCHWIL

Mae'r Brifysgol yn gartref i gymuned amrywiol a chroesawgar o ymchwilwyr ôl-raddedig lle mae digwyddiadau rheolaidd sy'n cynnwys y brifysgol gyfan yn cynnig cyfle i rwydweithio a meithrin cysylltiadau y tu allan i dy arbenigedd.

Bydd ymchwilwyr ôl-raddedig hefyd yn ymuno â staff wrth gymryd rhan yn ein cystadleuaeth flynyddol, Ymchwil fel Celf, lle byddi'n cyfleu dy ymchwil mewn un llun a disgrifiad 150 o eiriau, gan ddarparu cyfrwng i esbonio pwysigrwydd dy ymchwil a helpu i ennyn diddordeb eraill mewn ymchwil.

## DATHLU YMCHWILWYR ÔL-RADDEDIG

Caiff gwaith a chyflawniadau myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig eu dathlu yn ein digwyddiad Arddangos Ymchwil Ôl-raddedig, cyfle i ymchwilwyr ôl-raddedig rannu eu gwaith â'r gymuned ymchwil gyfan, a chynhelir seremoni wobrwyo ar y diwedd.

Mae'r Digwyddiad Arddangos Ymchwil Ôl-raddedig hefyd yn cynnwys y gystadleuaeth Thesis Tair Munud lle mae ymchwilwyr o bob rhan o'r brifysgol yn cyflwyno eu hymchwil i gynulleidfa amlddisgyblaethol mewn tair munud yn unig. Mae'r digwyddiad hwn hefyd yn cynnig cyfle i ymchwilwyr ôl-raddedig gyflwyno eu hymchwil ar ffurf weledol drwy gymryd rhan yn y Gystadleuaeth Poster Ymchwil Ôl-raddedig.

Cydnabyddir cyfraniad ein myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig gan y brifysgol gyfan. Mae ein Gwobrau Ymchwil ac Arloesi yn cynnwys gwobr ar gyfer ymchwilwyr ôl-raddedig, sef y wobr am Seren Arloesedd Ymchwil y Dyfodol, mae cylchgrawn ymchwil y brifysgol, Momentwm, sy'n cael ei gyhoeddi bob tri mis, yn cynnwys erthygl reolaidd 'Sylw ar Ymchwil Ôl-raddedig', a chaiff ymchwil a chyflawniadau ein hymchwilwyr ôl-raddedig eu hamlygu'n rheolaidd ar draws y brifysgol.

## DARGANFYDDA FWY:

**abertawe.ac.uk/ymchwil/gwnewch-ymchwil-gyda-ni/ymchwil-ol-raddedig**

# ADDYSG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**Rydym yn cyflawni gwaith ymchwil rhyngwladol ardderchog, yn datblygu partneriaethau rhyngwladol clodfawr ac yn cydweithio â gwasanaethau addysg rhanbarthol arloesol. Mae ein rhaglenni'n meithrin graddedigion byd-eang sydd â phrofiad addysgol perthnasol ac eang, wedi'i gyfuno â phrofiad ymarferol iawn. Rydym yn arwain y ffordd o ran ymchwil sy'n seiliedig ar dystiolaeth er mwyn cefnogi ymarferwyr addysg ar bob lefel. Mae ein gwaith ymchwil hefyd yn canolbwyntio ar bolisi ac mae'n ymatebol i bolisi. Yn fyd-eang, mae addysg yn wynebu newidiadau hollol newydd a diwygiadau sylweddol ym maes addysg mewn nifer o wledydd. Mae cyfleoedd o'r fath yn gwneud hon yn adeg gyffrous i astudio gradd ôl-raddedig mewn Addysg ym Mhrifysgol Abertawe.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1, neu radd uwch, neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe.

**Addysg (Cymru) MA**

Rhaid i ymgeiswyr feddu ar Statws Athro Cymwysedig a bod yn gyflogedig yn y sector addysg orfodol yn y DU ar hyn o bryd. Gall ymgeiswyr ddefnyddio hyd at 60 credyd o ddysgu blaenorol cymeradwy tuag at y radd meistr. Cysyllta â'r adran am ragor o fanylion.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### ADDYSG MA (AU) (RhA)

Mae hon yn rhaglen gyfoes, hyblyg ac arloesol a gynlluniwyd er mwyn cynnig cyfleoedd cyffrous i weithwyr proffesiynol feithrin a dyfnhau eu gwybodaeth am addysg a'u diddordebau yn y maes. Mae'r rhaglen MA yn cynnig cyfle i ti feithrin dealltwriaeth o'r tueddiadau, trafodaethau a gwaith ymchwil diweddaraf ym myd addysg, a fydd yn llywio, yn herio ac yn cyfoethogi dy ymarfer proffesiynol dy hun. Caiff y rhaglen ei harwain gan ymchwilwyr sy'n adnabyddus yn rhyngwladol ym maes addysg ac sy'n arbenigo mewn amrywiaeth eang o feysydd arbenigol. Mae ein holl staff addysgu wedi cyhoeddi llawer o waith ac maent yn arwain eu prosiectau ymchwil eu hunain, a hynny'n genedlaethol ac yn rhyngwladol. Anogir darpar fyfyrwyr i gysylltu â chyfarwyddwr y rhaglen MA, yr Athro Alma Harris – alma.harris@abertawe.ac.uk

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Addysg ac Anghydraddoldeb
- Addysg ac Ymarfer Digidol
- Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant
- Arwain a Rheoli Newid ym Myd Addysg
- Cwricwlwm, Addysgeg ac Asesu
- Dulliau Ymchwil ym Myd Addysg

### ADDYSG (CYMRU) MA (RhA)

Mae'r MA mewn Addysg Genedlaethol (Cymru) yn rhaglen gwbl weddnewidiol sy'n arwain y sector ar gyfer gweithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru, o athrawon ar ddechrau eu gyrfaoedd i uwch-arweinwyr. Mae'r dirwedd addysgol yng Nghymru'n newid yn gyflym. Mae angen meistroli set o sgiliau cymhleth i arwain, ysgogi a hwyluso dysgu myfyrwyr, ond hefyd y gallu i ymchwilio i ymarfer proffesiynol er mwyn ei wella. Mae'r MA mewn Addysg Genedlaethol (Cymru) wedi cael ei lunio ar y cyd rhwng saith prifysgol yng Nghymru, drwy ymgysylltu uniongyrchol ag amrywiaeth o randdeiliaid allweddol gan gynnwys Llywodraeth Cymru, a bydd yn sicrhau bod yr holl weithwyr addysg proffesiynol yng Nghymru'n meddu ar yr un cyfleoedd o safon i wella eu gwybodaeth broffesiynol, ymgymryd ag ymchwil a gwella eu hymarfer proffesiynol. Dylai darpar fyfyrwyr gysylltu â'r Athro Michelle Jones - michelle.s.jones@abertawe.ac.uk

**Mae'r modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Arwain Newid Sefydliadol
- Llunio a Gwireddu'r Cwricwlwm
- Sgiliau Ymchwil a Holi Uwch
- Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth
- Ymarfer Ystafell Ddosbarth Gynhwysol

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**



### CYRSIAU TYSTYSGRIF ADDYSG I RADDEDIGION UWCHRADD GYDA SAC (SAFON ATHRO CYMWYSEDIG)

**Gofynion Mynediad**

Yn nodweddiadol, gradd anrhydedd 2:2 o leiaf mewn pwnc perthnasol, neu bwnc cysylltiedig ag o leiaf 50% o gynnwys pwnc perthnasol; TGAU gradd B mewn Cymraeg/Saesneg iaith neu Lenyddiaeth Gymraeg/Saesneg (bydd angen i fyfyrwyr sy'n gwneud cais am y rhaglen cyfrwng Cymraeg feddu ar gymhwyster TGAU Cymraeg); TGAU gradd B mewn Mathemateg.

Mae profion cywerthedd ar gael i ymgeiswyr addas.

### TAR UWCHRADD GYDA SAC (SAFON ATHRO CYMWYSEDIG) (AU)

Caiff y rhaglen Tystysgrif Addysg i Raddedigion (TAR) arloesol hon sy'n arwain at Statws Athro Cymwysedig (SAC) ei chyflwyno mewn partneriaeth ag ysgolion ledled Cymru. Mae Partneriaeth Ysgolion Prifysgol Abertawe (PYPA) wedi cynllunio'r rhaglen i greu athrawon sy'n hyddysg mewn ymchwil ac yn gallu myfyrio ar eu hymarfer er mwyn gwella pob agwedd ar ddysgu myfyrwyr. Mae'r rhaglen yn creu athrawon a fydd yn ymuno â'r proffesiwn yn meddu ar wybodaeth bwnc, gwybodaeth addysgegol a gwybodaeth ymchwil. Byddant yn barod i fod yn weithwyr proffesiynol gydol gyrfa sy'n gallu ymateb i natur newidiol gwybodaeth mewn cymdeithas a byddant yn arbenigo mewn addysgu myfyrwyr. Rydym yn cynnig rhaglenni TAR uwchradd yn y meysydd pwnc canlynol:

- Bioleg
- Cemeg
- Cyfrifiadureg
- Cymraeg
- Dylunio a Thechnoleg
- Ffiseg
- Ieithoedd Tramor Modern (Ffrangeg a Sbaeneg)
- Mathemateg
- Saesneg
- Llwybrau cyfrwng Saesneg a Chymraeg ar gael.

Mae gan PYPA ddisgwyliadau uchel o athrawon dan hyfforddiant a rhaid i ymgeiswyr ddangos i banel cyfweld bod ganddynt y rhinweddau deallusol, yr agweddau a'r gwerthoedd sydd eu hangen i addysgu yn y sector uwchradd. Rhaid i ymgeiswyr hefyd feddu ar y priodoleddau personol a fydd yn eu galluogi i ddatblygu'n ymarferwyr myfyriol sy'n hyddysg mewn ymchwil a'r gwydnwch i addasu'n dda i ofynion y rhaglen.

Anogir darpar fyfyrwyr i gysylltu â Dr Helen Lewis neu Dr Neil Lucas – pgce-enquiries@abertawe.ac.uk i drafod gofynion y rhaglen neu llanwa ffurflen ymholi trwy ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/addysg/astudiaethau-ol-raddedig-yr-ysgol-addysg/tar/ymholiad**



"Rwyf wedi mwynhau pob eiliad o'r cwrs TAR Mathemateg eleni, hyd yn oed gyda'r newidiadau a chyfyngiadau a achoswyd gan COVID-19. Mae hyn o ganlyniad i'r cynllunio manwl sydd wedi mynd at greu'r cwrs gan Brifysgol Abertawe. Rwyf wedi derbyn swydd mewn ysgol uwchradd gyfrwng Cymraeg yn Sir Powys ac edrychaf ymlaen at gael dechrau addysgu yn yr ysgol ym mis Medi.

Er i'r pandemig greu heriau newydd yn ystod y flwyddyn, ni chafodd hyn effaith ar strwythur a diben y cwrs. Mae Prifysgol Abertawe wedi sicrhau bod y cwrs TAR yn cynnwys yr holl brofiadau sydd eu hangen ar ddarpar athrawon i ddatblygu i fod yn athrawon llwyddiannus. Prif ffocws y cwrs yw datblygu ymarferwyr myfyriol sy'n cael eu cyfeirio gan ymchwil ac mae'r darlithwyr arbenigol yna i dy gefnogi a chynnig arbenigaeth, pob cam o'r ffordd. Gyda'r Cwricwlwm Newydd i Gymru yn dod i rym yn 2022, does dim cyfle gwell i unigolion ymuno â Phrifysgol Abertawe er mwyn cael y dechrau gorau i'w gyrfa addysgu!

Trwy wybod y byddaf yn cael fy nghefnogi gan Brifysgol Abertawe gyda gwersi gloywi iaith Gymraeg a thrwy glywed bod yna alw gan Lywodraeth Cymru am athrawon sy'n medru addysgu trwy'r Gymraeg, roedd penderfynu astudio yma yn un hawdd a naturiol. Teimlaf fy mod wedi gwneud ffrindiau gydol oes ac yn sicr teimlaf fy mod wedi derbyn y cymorth angenrheidiol i ddatblygu i fod yr athrawes yr wyf erbyn heddiw. Roedd dyddiau heriol yn ystod y flwyddyn ond gyda chymorth fy mentor pwnc yn yr ysgol ac yn y brifysgol, rydw i wedi goroesi'r heriau ac rwy'n falch iawn o fy hun.

Yn ogystal ag ennill bwrsariaeth STEMM Llywodraeth Cymru gan i mi raddio gyda gradd dosbarth cyntaf mewn Mathemateg, rwyf hefyd wedi derbyn cymorth ariannol o dan gynllun cymhelliant Iaith Athrawon Yfory gan i mi gwblhau'r cwrs TAR yn llwyddiannus trwy gyfrwng y Gymraeg.

Byddwn yn annog unrhyw un sy'n ystyried gyrfa addysgu i fynd amdani – mae'n yrfa mor foddhaol a gwerth chweil."

## Catrin Jones

TAR MATHEMATEG



## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**Addysg MPhil/Phd:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf (neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe).

Yn amodol ar y prosiect ymchwil, mae rhai cynigion yn amodol ar dderbyn Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad rhyngwladol cyfatebol gan yr Heddlu.

**Doethuriaeth Broffesiynol mewn Addysg:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr (EdD) feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf.

**Achredu Dysgu Blaenorol (APL):** Yn gyffredinol, ni dderbynnir APL.

**Cyfweliadau:** Bydd y Cyfarwyddwr Astudiaethau neu rywun a benodir ganddo'n cyfweld â phob ymgeisydd.

Yn ogystal â chymwysterau academaidd, gellir seilio penderfyniadau ynghylch derbyn myfyrwyr ar ffactorau eraill, gan gynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i: safon y crynodeb/cynnig ymchwil, perfformiad yn ystod y cyfweliad, lefel y gystadleuaeth am leoedd cyfyngedig a phrofiad proffesiynol perthnasol.

### ADDYSG MPhil/PhD AU RhA

Croesawn geisiadau gan fyfyrwyr sydd am wneud ymchwil lefel graddedig. Anogir darpar fyfyrwyr i gysylltu â Dr Janet Goodall, j.s.goodall@abertawe.ac.uk i drafod pynciau goruchwylio a meysydd ymchwil posibl. Mae meysydd arbenigol Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe yn cynnwys:

- Addysg Athrawon
- Addysg Oedolion
- Anghenion Dysgu Ychwanegol
- Arweinyddiaeth
- Dysgu Proffesiynol
- Ehangu Cyfranogiad
- Plentyndod Cynnar
- Sgiliau Digidol
- Ymgysylltu â Rhieni

### DOETHURIAETH BROFFESIYNOL MEWN ADDYSG (EdD) AU RhA

Mae EdD ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio amser llawn ym myd Addysg, ac sydd eisiau archwilio damcaniaeth ac ymarfer addysgol ar lefel ddoethurol, yn rhan amser dros gyfnod o chwe blynedd.

Mae dwy ran i'r EdD: cam a addysgir, a cham traethawd hir.

Mae'r cam addysgu'n galluogi ymgeiswyr yr EdD i fynd i'r afael â materion pwysig ym myd addysg heddiw, er enghraifft Ymchwil Addysgol, Arweinyddiaeth ac Addysg er Tegwch. Dros bedair blynedd, bydd ymgeiswyr yn astudio pedwar modiwl, a addysgir ym Mhrifysgol Abertawe, dros wythnos ym mis Gorffennaf.

Ar ôl cwblhau pedwar modiwl, bydd ymgeiswyr yn symud i gam y traethawd hir. Bydd gan ymgeiswyr ddau oruchwylydd i'w cefnogi gyda'u gwaith ymchwil gan ymgymryd ag arholiad llafar ar ddiwedd cam y traethawd hir.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Addysg er Tegwch
- Arweinyddiaeth mewn Sefydliadau a Systemau
- Materion Cyfoes mewn Ymchwil Addysgol

Mae cysylltiad agos rhwng y rhaglen Addysg a chryfderau ymchwil y staff academaidd sy'n cymryd rhan yn y grŵp ymchwil 'Polisi ac Ymarfer Addysg' ac yn ehangach mewn meysydd eraill ym maes addysg. Mae staff academaidd yn Ysgol Addysg Prifysgol Abertawe yn cyflawni gwaith ymchwil o'r radd flaenaf mewn amrywiaeth eang o feysydd sy'n gysylltiedig ag addysg ac yn ceisio hybu cydweithio rhwng ysgolheigion, addysgwyr, athrawon, arweinwyr ysgolion a llunwyr polisïau. Gan weithio ar y lefel academaidd uchaf, byddi di'n gwneud gwaith ymchwil gwreiddiol sy'n fawr ei effaith ac yn gyhoeddadwy.

Mae pob myfyriwr ymchwil addysg yn perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, a hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig o 200 o fyfyrwyr.



"Mae astudio'r cwrs TAR ym Mhrifysgol Abertawe wedi bod yn brofiad hwylus iawn! Roeddwn yn benderfynol o wneud fy TAR trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gan Brifysgol Abertawe enw da ac adnoddau safon uchel megis labordai gwyddoniaeth modern. Er fy mod i wedi bod allan o addysg Gymraeg ers pedair blynedd cyn dychwelyd i Gymru i wneud y TAR, roeddwn i'n fawr o dro yn dod i afael yn yr iaith unwaith eto. Mae'r cwrs yn un hyblyg iawn yn nhermau'r Gymraeg, nid yn unig wrth ddewis gwneud dy waith fel y Pasbort Dysgu Proffesiynol a Thraethodau trwy'r Gymraeg, ond hefyd am leoliadau - gan fod rhai ysgolion yn ddwyieithog (yn enwedig CA4/Lefel A) ac eraill yn unieithog, sy'n rhoi cyfle i feithrin hyder yn dy Gymraeg wrth barhau i ddysgu trwy'r Gymraeg neu'r Saesneg.

Derbyniais swydd ym mis Rhagfyr, sy'n dangos yr angen dirfawr am athrawon gwyddoniaeth sy'n gallu siarad Cymraeg. O'r chwe gwyddonydd Cymraeg TAR yn Abertawe cafodd pob un ohonom swydd erbyn mis Mai, tra bod nifer mawr o swyddi'n dal i gael eu hysbysebu hyd at wyliau'r haf. Diwrnod ar ôl cwblhau'r cwrs TAR, roeddwn i'n gwneud gwaith cyflenwi cyn y gwyliau haf yn yr ysgol y byddaf yn gweithio ynddi fis Medi. Roedd yn gyfle i mi ddod i 'nabod yr ysgol, plant a'r staff cyn mis Medi.

Roeddwn i ychydig yn amheus am ymuno ag addysg ond fel llawer o bobl, pandemig COVID-19 wthiodd fi i wneud y naid i faes dysgu, ac un o'r ffactorau mwyaf deniadol o ddysgu oedd diogelwch swydd a'r hyblygrwydd i ddysgu bron unrhyw le. Mae hwn, ynghyd â'r cymhelliant ar gyfer dysgu gwyddoniaeth yn meddwl bod gen i gyfle i fyw yn agos at fy nheulu, prynu tŷ a sicrhau fy nyfodol. Roeddwn yn ffodus i dderbyn cefnogaeth ariannol drwy'r Cymhelliant Hyfforddi Athrawon Mathemateg a Gwyddoniaeth a Chymhelliant Iaith Athrawon Yfory."

## Dafydd Prys Roberts

TAR FFISEG



# ASTUDIAETHAU AMERICANAIDD

CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae deall yr hyn sydd wedi creu ac sy'n parhau i lywio America yn ein helpu i wneud synnwyr o'n byd ni heddiw. Mae'r astudiaeth gymharol o hanes a diwylliant yr Unol Daleithiau yn mynd i'r afael â themâu fel mewnfudo, democratiaeth, caethwasiaeth, imperialaeth, amlddiwylliannaeth, hil ac ethnigrwydd, hanes trefol, yr economi a therfysgaeth. Nid oes a wnelo'r materion hyn â'r gorffennol yn unig – maent yn uniongyrchol berthnasol i'r byd rydym yn byw ynddo.**

**Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2014), barnwyd bod 70% o ymchwil ein staff o'r radd flaenaf (4*) neu'n rhyngwladol ardderchog (3*).**

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MA drwy Ymchwil:** Dylai ymgeiswyr feddu neu ddisgwyl cyflawni ar radd anrhydedd ail ddosbarth uwch (2:1) o leiaf, neu gymhwyster cyfatebol, mewn pwnc cysylltiedig, neu dylet fod wedi ymgymryd â phrofiad gwaith perthnasol.

**MPhil:** Rhaid i ymgeiswyr sy'n dymuno astudio MPhil feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe.

**Phd:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr ar gyfer cwrs PhD feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf. Fel arall, bydd ymgeiswyr sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf (neu radd gyfatebol o'r tu allan i'r DU fel y'i diffinnir gan Brifysgol Abertawe) nad oes ganddynt radd meistr yn cael eu hystyried ar sail unigol.

### ASTUDIAETHAU AMERICANAIDD MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

Croesawn gynigion ar gyfer prosiectau ymchwil ôl-raddedig sy'n ategu diddordebau ymchwil staff.

**Cryfderau Ymchwil:**
Mae diddordebau ymchwil staff yn cwmpasu disgyblaethau craidd Astudiaethau Americanaidd: llenyddiaeth, hanes, gwleidyddiaeth a ffilm. Ymhlith y cryfderau ymchwil penodol mae:

- Ardal Ddeheuol America
- Dadeni Harlem
- Effaith Rhyfel ar Gymdeithas Americanaidd
- Ffilmiau Hollywood a Chymdeithas Americanaidd
- Gorllewin America
- Gwleidyddiaeth a Llywodraeth Americanaidd
- Gwyliadwriaeth ac America Drefol
- Hil, Ethnigrwydd ac Amlddiwylliannaeth Americanaidd
- Llenyddiaeth a Diwylliant Affricanaidd-Americanaidd
- Llenyddiaeth Americanaidd Gyfoes
- Polisi Cyfffuriau'r Cenhedloedd Unedig a Gwledydd Rhyngwladol
- Polisi Tramor yr UD
- "Rhyfel ar Gyffuriau" yr UD
- Rhyfel Cartref America
- Sinema Fud a Diwylliant Poblogaidd
- Sut y Cynrychiolir Rhyfel Fiet-nam
- Y Ddinas Americanaidd

Mae ein Hadran Astudiaethau Americanaidd ynghlwm wrth brosiectau ymchwil cydweithredol gyda sawl prifysgol ledled yr Unol Daleithiau ac mae rhaglen o siaradwyr gwadd o Brydain ac UDA. Mae staff wedi ysgrifennu a golygu astudiaethau hyd llyfr o lenyddiaeth, diwylliant poblogaidd, barddoniaeth fodern, hanes trefol, rhyfel a chof, arweinwyr llafur, prosesau gwleidyddol ac athroniaeth Americanaidd.

Mae ein llyfrgell helaeth yn diwallu ein hanghenion ymchwil. Cryfder arbennig yw Casgliad Allan Milne o ryw 3,000 o weithiau sy'n ymwneud â Rhyfel Cartref America, a roddwyd i Astudiaethau Americanaidd yn 2010 ac sy'n parhau i dyfu. Fel un o'r mwyaf o'i fath yn y Deyrnas Unedig, mae Casgliad Milne yn amrywiol iawn a cheir detholiad arbennig o ddeunyddiau ffynhonnell sylfaenol ac eilaidd sy'n dogfennu llawer o agweddau cymdeithasol, gwleidyddol, economaidd a milwrol ar hanes a gwleidyddiaeth America rhwng canol a diwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

**YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU**

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyllido ar gyfer graddau ymchwil ac yn ddiweddar rydym wedi sicrhau swm sylweddol o gyllid gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) er mwyn cynnig ysgoloriaethau ôl-raddedig.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Canolfan Ymchwil Raddedig**

Mae ein Canolfan Ymchwil Raddedig yn cynnig amgylchedd bywiog a chefnogol i fyfyrwyr sy'n gwneud gwaith ymchwil ôl-raddedig. Rydym yn cynnig hyfforddiant er mwyn gwella dy ddatblygiad academaidd a phroffesiynol. Byddi di'n gallu defnyddio ardal astudio bwrpasol a chyfforddus sydd â chyfleusterau TG. Cei dy annog i gymryd rhan yng nghymuned ymchwil ehangach yr adran drwy fynychu rhaglenni seminarau ymchwil rheolaidd a chymryd rhan yng ngweithgareddau ein canolfannau ymchwil niferus.

Ymhlith y canolfannau a grwpiau ymchwil mae:

- Astudiaethau Rhyngwladol, Gwrthdaro a Diogelwch (ISCAS)
- Canolfan y Celfyddydau a'r Dyniaethau Digidol (CODAH)
- CRAM: Grŵp Ymchwil ar gyfer Gwrthdaro, Ail-lunio a'r Cof
- Dadansoddi a Llywodraethu Gwleidyddol (PAG)
- Yr Arsyllfa Polisi Cyffuriau Byd-eang





# ASTUDIAETHAU GWLEIDYDDOL A DIWYLLIANNOL

CAMPWS PARC SINGLETON

**20**
UCHAF YN Y DU EFFAITH YMCHWIL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae astudiaethau gwleidyddol, polisi cyhoeddus, cysylltiadau rhyngwladol, athroniaeth a datblygu yn ddisgyblaethau sydd wedi archwilio gwahanol weledigaethau ar gyfer cymdeithas fwy cyfiawn ers miloedd o flynyddoedd, ac o ganlyniad gallant ymdrin â rhai o heriau mwyaf dybryd ein byd heddiw. P'un a oes gen ti ddiddordeb mewn theori, astudio llywodraeth a gwleidyddiaeth neu gydberthnasau rhyngwladol, mae'r rhain yn ddisgyblaethau sy'n gallu cynnal y safonau uchaf yn y gwyddorau cymdeithasol.**

**Rydym yn rhoi llawer o bwyslais ar gynhyrchu ymchwil wreiddiol. Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2014), barnwyd bod 70% o ymchwil staff o'r radd flaenaf (4*) neu'n rhyngwladol ardderchog (3*). Mae'r pynciau hyn yn gofyn y cwestiynau ymchwil allweddol y mae angen i ni fynd i'r afael â nhw wrth ddatblygu ysgolheictod rhyngwladol.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 (gyda 55% neu uwch ar gyfartaledd) y gofynion mynediad arferol yw gradd mewn unrhyw gefndir neu gymhwyster cyfatebol.

**YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU**

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL MA ALl RhA

Mae'r radd MA hon yn cynnig ymchwil uwch mewn Cysylltiadau Rhyngwladol, gan helpu myfyrwyr i feithrin dealltwriaeth fanwl o'r system ryngwladol, materion allweddol, y prif ffigyrau, a dulliau amgen o ddadansoddi a dehongli'r pwnc. Gyda gwerthfawrogiad o'r ddynameg fyd-eang ar waith, cei wedyn y cyfle i arbenigo mewn archwilio rhannau penodol o'r byd.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Diogelwch Critigol
- Dulliau Gweithredu o ran Cysylltiadau Rhyngwladol
- Hawliau Dynol ac Ymyriad Dyngarol
- Llywodraethu Cyffuriau yn Fyd-Eang
- Ôl-Wladychiaeth, Dwyreinioldeb ac Ewroganolaeth
- Trais, Gwrthdaro a Datblygu

### CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL MA (ESTYNEDIG) ALl RhA

Mae'r rhaglen MA Estynedig hon yn cyfuno'r MA Cysylltiadau Rhyngwladol â chyfnod o astudio dramor. Mae'r cyfnod o astudio dramor yn un tymor ychwanegol a dreulir yn Ysgol Llywodraeth a Gwasanaeth Cyhoeddus Bush yn A&M Texas, UDA. Mae'r tymor ychwanegol yn gwneud yr MAE yn gyfwerth ag MA Ewropeaidd o ran credydau.

### DATBLYGU A HAWLIAU DYNOL MA ALl RhA

Mae'r radd MA hon yn gynllun amlddisgyblaethol sy'n cyfuno dealltwriaeth o'r meysydd astudiaethau datblygu, gwleidyddiaeth/theori wleidyddol a chyfraith ryngwladol. Mae'r rhaglen yn archwilio'r rhyngwyneb cymharol newydd rhwng hawliau dynol a datblygu rhyngwladol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyfraith Hawliau Dynol Ryngwladol
- Diogelwch Critigol
- Dulliau Datblygu Seiliedig ar Hawliau

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# ASTUDIAETHAU GWLEIDYDDOL A DIWYLLIANNOL

CAMPWS PARC SINGLETON

- Dulliau Gweithredu o ran Cysylltiadau Rhyngwladol
- Hawliau Dynol ac Ymyriad Dyngarol
- Llywodraethu Cyffuriau yn Fyd-Eang
- Rhyfel, Hunaniaeth a Chymdeithas
- Trais, Gwrthdaro a Datblygu

### DIOGELWCH A DATBLYGU RHYNGWLADOL MA AU RhA

Mae materion diogelwch, trais a gwrthdaro wedi dod yn rhan ganolog o wleidyddiaeth ryngwladol a datblygu polisi a thrafodaethau. Er mwyn deall y byd modern, rhaid meithrin gwerthfawrogiad llawn o realiti gwrthdaro a thrais.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Diogelwch Critigol
- Dulliau Datblygu Seiliedig ar Hawliau
- Hawliau Dynol ac Ymyriad Dyngarol
- Llywodraethu Cyffuriau yn Fyd-Eang
- Ôl-Wladychiaeth, Dwyreinioldeb ac Ewroganoliaeth
- Trais, Gwrthdaro a Datblygu

### DIOGELWCH A DATBLYGU RHYNGWLADOL MA (ESTYNEDIG) AU RhA

Mae'r rhaglen MA Estynedig hon yn cyfuno'r MA Diogelwch a Datblygu Rhyngwladol â chyfnod o astudio dramor. Mae'r cyfnod o astudio dramor yn un tymor ychwanegol a dreulir yn Adran Astudiaethau Rhyngwladol ac Ardal ym Mhrifysgol Oklahoma, UDA. Mae'r tymor ychwanegol yn gwneud yr MAE yn gyfwerth ag MA Ewropeaidd o ran credydau.

### GWLEIDYDDIAETH MA AU RhA

Mae'r MA mewn Gwleidyddiaeth yn darparu cyflwyniad cyffredinol i astudio gwleidyddiaeth, gan gwmpasu strwythurau a phrosesau gwleidyddiaeth gyfoes. Yna mae'n galluogi myfyrwyr i ddewis opsiynau sy'n canolbwyntio ar wleidyddiaeth fyd-eang, gymharol a/neu Brydeinig, yn ogystal â theori ac athroniaeth wleidyddol. Cyfoethogir y radd gan gyfleoedd posibl (a ddyfernir ar sail gystadleuol) i ddysgu mewn lleoliadau gwaith mewn amrywiaeth o sectorau llywodraethol ac anllywodraethol yng Nghymru.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Datganoli o Safbwynt Cymharol
- Democratiaeth a Chynllun Cyfansoddiadol
- Diogelwch Critigol
- Gwleidyddiaeth ym Mhrydain Gyfoes
- Llywodraethu Cyffuriau yn Fyd-Eang
- Llywodraethu Cymharol mewn Systemau Cymhleth
- Trais, Gwrthdaro a Datblygu
- Y Broses Llunio Polisi

### POLISI CYHOEDDUS MA AU RhA

Mae'r MA mewn Polisi Cyhoeddus yn darparu sail gadarn yn y dulliau damcaniaethol allweddol o astudio polisi cyhoeddus, ac mae'n ceisio meithrin gwybodaeth a sgiliau'r rheini sydd am astudio ymhellach yn y byd academaidd. Ar yr un pryd mae'n canolbwyntio ar y sgiliau sydd eu hangen i weithio mewn tirwedd polisi cyhoeddus, a nodweddir fwyfwy bellach gan newid a rhyngddibyniaeth. O ganlyniad, bydd hefyd yn meithrin gwybodaeth a sgiliau'r rheini sydd am ddilyn gyrfa mewn ymchwil polisi cyhoeddus, cyngor polisi, lobïo, rheoli sector cyhoeddus neu newyddiaduraeth, neu sy'n gwneud hynny eisoes.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Datganoli o Safbwynt Cymharol
- Democratiaeth a Chynllun Cyfansoddiadol
- Diogelwch Critigol
- Gwleidyddiaeth ym Mhrydain Gyfoes
- Hawliau Dynol ac Ymyriad Dyngarol
- Llywodraethu Cyffuriau yn Fyd-Eang
- Llywodraethu Cymharol mewn Systemau Cymhleth
- Rhyfel, Hunaniaeth a Chymdeithas
- Y Broses Llunio Polisi

### POLISI CYHOEDDUS MA (ESTYNEDIG) AU RhA

Mae'r rhaglen MA estynedig hon yn cyfuno'r MA Polisi Cyhoeddus â chyfnod o astudio dramor. Mae'r cyfnod hwn o astudio dramor yn un tymor ychwanegol a dreulir yn Ysgol Llywodraeth a Gwasanaeth Cyhoeddus Bush yn A&M Texas, UDA. Mae'r tymor ychwanegol yn gwneud yr MAE yn gyfwerth ag MA Ewropeaidd o ran credydau.



## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd meistr neu radd israddedig anrhydedd 2:1 o leiaf (neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe) sydd wedi cynnwys hyfforddiant ymchwil sy'n briodol i'r traethawd estynedig arfaethedig. Anogir ymgeiswyr i gysylltu â'r adran yn anffurfiol i drafod eu cynigion a gallant gysylltu â'r Cyfarwyddwr Ymchwil, Dr Dennis Schmidt (d.r.schmidt@abertawe.ac.uk), er mwyn datblygu cynigion ymchwil a nodi timau goruchwylio posibl.

### ASTUDIAETHAU DATBLYGU MPhil/PhD AU RhA

### ATHRONIAETH MA drwy Ymchwil/PhD AU RhA

### CYSYLLTIADAU GWLEIDYDDOL A RHYNGWLADOL MPhil/PhD AU RhA

### CYSYLLTIADAU RHYNGWLADOL MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### DATBLYGU RHYNGWLADOL MA drwy Ymchwil AU RhA

### GWLEIDYDDIAETH MA drwy Ymchwil AU RhA

Mae ymchwil bresennol yn cynnwys prosiectau hynod gyfoes ar faterion fel Brexit, gwleidyddiaeth ddigidol, ymgyrchoedd gwleidyddol ac ymddygiad pleidleisio, y system wleidyddol ryngwladol, technolegau a dulliau rhyfela newydd, polisi trais ar sail rhywedd, seilwaith datblygu, polisi a chyfundrefnau datblygu cyffuriau rhyngwladol, gwleidyddiaeth bygythiadau i iechyd y cyhoedd a chynnydd terfysgaeth ac achosion o ladd wedi'u targedu. Croesawn gynigion newydd ar gyfer prosiectau ymchwil ôl-raddedig sy'n ategu diddordebau ymchwil staff.

**Mae diddordebau ymchwil staff yn cwmpasu tri maes eang:**

- Theori wleidyddol a diwylliannol: Mae hwn yn canolbwyntio ar theori ac athroniaeth wleidyddol sy'n ymwneud â datblygiadau ym meysydd globaleiddio, democratiaeth, diwylliant rhyddfrydol, sofraniaeth, cymdeithas sifil, crefydd a thechnolegau cyfryngau newydd. Mae arbenigeddau'n cynnwys: rhyddfrydiaeth a'i beirniaid, hawliau dynol, meddylfryd gwleidyddol y cyfandir, ôl-strwythuriaeth; a damcaniaethau rhywedd a gwrywdod.
- Dadansoddi a Llywodraethu Gwleidyddol: Mae hwn yn canolbwyntio ar astudiaethau empirig o lywodraeth, gwleidyddiaeth a pholisi cyhoeddus gyda diddordeb cryf mewn theori a dulliau. Mae arbenigeddau'n cynnwys: gwleidyddiaeth gymharol, gwleidyddiaeth ranbarthol, astudiaethau polisi, gwleidyddiaeth ddatblygu, cyfranogiad sifil yn Ewrop, yr UE, Dwyrain Ewrop a'r economi wleidyddol, gwleidyddiaeth America, gwleidyddiaeth y DU, datganoli a llywodraeth leol, dulliau meintiol, poblyddiaeth, etholiadau.
- Gwleidyddiaeth ryngwladol a chyfathrebu rhyngddiwylliannol: Mae hwn yn canolbwyntio ar astudio dimensiynau amrywiol gwrthdaro, pŵer ac ymerodraeth. Mae arbenigeddau'n cynnwys: damcaniaeth Rhyfel Gyfiawn, astudiaethau diogelwch a therfysgaeth, polisi gofod, gwleidyddiaeth o dan Ymerodraeth ac mewn gwladwriaethau ôl-drefedigaethol, ailadeiladu yn dilyn gwrthdaro, polisi cyffuriau rhyngwladol, addysg gwrthdaro, a rhyfeloedd cartref a hil-laddiadau. Ymhlith yr arbenigeddau ardal mae; De-ddwyrain Asia; y Dwyrain Canol ac Affrica.

**YR AMGYLCHEDD YMCHWIL**

Mae ochr ymchwil yr Adran Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol yn ganolog i bedwar grŵp ymchwil, gyda phob grŵp yn cynnwys staff â'u myfyrwyr ymchwil yn unol â meysydd arbenigedd sy'n gorgyffwrdd. Gall myfyrwyr ymchwil ôl-raddedig ymgysylltu ag ystod eang o ddigwyddiadau hyfforddiant a lledaenu drwy'r grwpiau hyn, yn ogystal â chymryd rhan yn y gwaith o'u llywodraethu. I gael manylion am bob un o'r grwpiau hyn, gweler y wybodaeth isod:

**CANOLFANNAU YMCHWIL**

- Astudiaethau Rhyngwladol, Gwrthdaro a Diogelwch (ISCAS)
- Canolfan y Celfyddydau a'r Dyniaethau Digidol (CODAH)
- Dadansoddi a Llywodraethu Gwleidyddol (PAG)
- Yr Arsyllfa Polisi Cyffuriau Byd-Eang

Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil Astudiaethau Gwleidyddol, Cysylltiadau Rhyngwladol, Diogelwch Rhyngwladol, Athroniaeth, Polisi Cyhoeddus a Datblygu yn perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, a hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig o 200 o fyfyrwyr.

Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil Astudiaethau Gwleidyddol, Cysylltiadau Rhyngwladol, Diogelwch Rhyngwladol, Polisi Cyhoeddus a Datblygu hefyd yn cael mynediad at adnoddau hyfforddi Canolfan Hyfforddiant Doethurol Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol Cymru. Bob blwyddyn trefnir rhaglen o gynadleddau a seminarau ar y cyd â Phrifysgolion Caerdydd ac Aberystwyth.

# BIOWYDDORAU

CAMPUS PARC SINGLETON

**7FED YN Y DU**
**EFFAITH YMCHWIL**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae Abertawe yn lle gwych i astudio biowyddorau. Mae amrywiaeth o gynefinoedd yn ardal gyfagos Penrhyn Gŵyr (safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, ac Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol gyntaf y DU), yng Nghwm Tawe ac ym Mharc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.**

**Rydym yn defnyddio Cwch Ymchwil Mary Anning ar gyfer dysgu ac addysgu ym maes gwyddor môr ac mae gennym fiowyddonwyr o'r radd flaenaf sydd â chysylltiadau cryf â sefydliadau allanol a safleoedd ymchwil ledled y byd. Fel myfyriwr ôl-raddedig, byddi di'n gallu cael budd o ymchwil ar y cyd â chyfleoedd o ran lleoliadau.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 (â 55% ar gyfartaledd) neu uwch mewn biowyddorau neu bwnc cysylltiedig, neu gymhwyster cyfatebol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### BIOLEG AMGYLCHEDDOL: CADWRAETH A RHEOLI ADNODDAU MSc ALl RhA

Mae ein rhaglen MSc yn canolbwyntio ar y berthynas rhwng organebau byw a'r amgylcheddau tiriogaethol, dŵr croyw a morol, ynghyd â'r rhyngweithio sy'n deillio o brosesau naturiol ac anthropogenig. Cei fudd o hyfforddiant lefel uwch ar ddehongli materion amgylcheddol lleol a byd-eang, agweddau maes a damcaniaethol ar fioleg ac ecoleg a sgiliau dadansoddol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Adolygiadau ym Maes Biowyddorau
- Bioamrywiaeth ac Ecoleg Iechyd
- Ecosystemau, Ecoleg, Cadwraeth a Rheoli Adnoddau
- Gwaith Asesu a Rheoli Amgylcheddol
- Gwarchod Adnoddau Dyfrol
- Gwyddor a Pholisi Hinsawdd
- Modelu Systemau Daear
- Prosiect Ymchwil mewn Bioleg Amgylcheddol gyda Ffocws ar Gadwraeth a Rheoli Adnoddau
- Sgiliau Gwyddoniaeth a Dulliau Ymchwil
- Synhwyro o Bell Lloeren
- Systemau Gwybodaeth Daearyddol

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**



## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MPhil/PhD:** Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu radd meistr â 'Theilyngdod' mewn Biowyddorau neu bwnc cysylltiedig, neu gymhwyster cyfatebol.

**MRes:** Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 mewn Biowyddorau neu bwnc cysylltiedig, neu gymhwyster cyfatebol.

### BIOWYDDORAU MRes ALl RhA

### GWYDDORAU BIOLEGOL MPhil/PhD ALl RhA

Mae'r Adran Biowyddorau yn gwneud gwaith ymchwil ar amrywiaeth o bynciau yn y gwyddorau naturiol, gan gyfuno gwyddoniaeth sylfaenol a chymhwysol i greu amgylchedd ymchwil cyflawn. Mae ein hymchwil yn canolbwyntio ar bedair thema, sydd wedi'u hintegreiddio yn ein cenhadaeth addysg.

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr sy'n llawn cymhelliant ac sy'n meddu ar gymwysterau addas i wneud gwaith ymchwil ôl-raddedig ar ein cyrsiau MRes Biowyddorau (rhaglen ALl blwyddyn o hyd), MPhil (rhaglen ALl dwy flynedd o hyd) neu PhD (rhaglen ALl hyd at bedair blynedd o hyd). Bydd myfyrwyr MRes yn cwblhau tri modiwl a addysgir yn y tymor cyntaf, gan gynnwys 'Sgiliau Gwyddoniaeth a Dulliau Ymchwil' a gwblheir gan bob ymchwilydd ôl-raddedig.

Prif elfen ein holl raddau ymchwil ôl-raddedig yw'r traethawd ymchwil, sydd wedi'i ymgorffori mewn un neu ragor o'n themâu ymchwil, lle'r byddi di'n meithrin gwybodaeth fanwl am ein meysydd arbenigol.

**Ein themâu ymchwil yw:**

**Systemau Morol a Dŵr Croyw**
Rydym yn dilyn dull amlddisgyblaethol ac yn adeiladu ar hanes cryf o ymchwil ddyfrol ym Mhrifysgol Abertawe er mwyn ateb cwestiynau ymchwil sylfaenol a chymhwysol sydd â'r nod o gynnal gwasanaethau ecosystem o amgylcheddau morol a dŵr croyw. Rydym hefyd yn ystyried natur gydgysylltiedig amgylcheddau dŵr croyw, aberol a morol gwahanol a bodau dynol fel elfennau allweddol o'r systemau hyn.

**Ecoleg ac Esblygiad Ymddygiadol**
O raddfa foleciwlaidd i raddfa facro-esblygol, rydym yn ymchwilio i sail addasiadau ymddygiadol a morffolegol. Rydym yn canolbwyntio ar ddeall cymdeithasoldeb anifeiliaid, ecoleg symud ac ysgogiadau a dulliau esblygol ymddygiad.

**Bioamrywiaeth ac Ecosystemau**
Mae newid amgylcheddol byd-eang yn addasu ac yn effeithio ar ecosystemau a bioamrywiaeth, a'r swyddogaethau a'r gwasanaethau cynnal bywyd a ddarperir ganddynt. Ein nod yw deall y dulliau a'r swyddogaethau sy'n ysgogi patrymau bioamrywiaeth a dynameg ecosystemau, er mwyn llywio gwaith rheoli a pholisi'n well o raddfa leol i raddfa fyd-eang. Mae ein cryfderau'n deillio o synergeddau cyfuno dulliau arbrofol, maes a damcaniaethol, o lefel unigolion i lefel poblogaeth a chymuned. Mae ein gwaith yn cwmpasu ecosystemau o bob cwr o'r byd, o ynysoedd trofannol i arfordiroedd a riffiau tymherus; o Goedwig yr Iwerydd i ecosystemau boreal.

**Cynhyrchion Naturiol ac Adnoddau Amgylcheddol**
Nod ein hymchwil yw manteisio i'r eithaf ar fuddiannau adnoddau naturiol gan darfu cyn lleied â phosibl ar yr amgylchedd. Rydym yn mynd i'r afael â heriau amgylcheddol a chymdeithasol drwy ymchwil gymhwysol a, thrwy wneud hynny, rydym yn hyrwyddo ecosystemau iach a chynaliadwy. Mae ein ffocws yn eang, ac yn amrywio o ddefnyddio systemau microbaidd ar gyfer datblygu cynhyrchion a phrosesau newydd (biofforio, bioadfer), i fynd i'r afael â diogelwch bwyd dyfrol a thiriogaethol (dyframaeth, bioreolaeth, ecoleg afiechyd), a stiwardiaeth amgylcheddol (rheoli rhywogaethau ymledol; rhyngweithio rhwng pobl a'r amgylchedd). Mae cydweithio rhwng disgyblaethau ag academyddion, busnesau a llunwyr polisïau yn rhan ganolog o'n gwaith ymchwil.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymchwil ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/biowyddorau/ymchwil-ac-effaith**



“Y peth mwyaf a helpodd i mi gyrraedd lle rydw i heddiw oedd y cyfleoedd a gefais gan Brifysgol Abertawe o ran cyflwyno gerbron fy nghyd-fyfyrwyr a’n darlithwyr mewn seminarau megis Cyfres Seminarau i Ôl-raddedigion a alluogodd i mi ddatblygu fy sgiliau a lleddfu fy mhryderon mewn awyrgylch ddiogel lle nad oeddwn yn cael fy meirniadu.

Pe bai rhywun wedi dweud wrthyf y byddwn i’n cael fy mhenodi’n ‘Gynrychiolydd Allgymorth Ysgolion’ pan oeddwn i yn y brifysgol ni fyddwn wedi’i gredu. Trwy gydol fy ngradd israddedig ym Mhrifysgol Abertawe roedd cyflwyno a siarad gerbron pobl yn codi ofn enfawr arnaf ac roeddwn i’n osgoi hynny cymaint â phosib. Fodd bynnag, derbyniais i hyfforddiant rhagorol gan ddarlithwyr yn yr Adran Biowyddorau ar ddiwedd fy nghwrs gradd BSc ac yn ystod fy nghwrs gradd MSc gan fy helpu i fynd i’r afael â’m hofnau a dechrau magu fy hyder.”

## Chloe Robinson

MSc BIOLEG AMGYLCHEDDOL,
PhD GWYDDORAU BIOLEGOL



# CEMEG

CAMPWS PARC SINGLETON

YN Y **400** UCHAF YN Y BYD (Times Higher Education World University Rankings 2021)

**Mae gennym seilwaith ymchwil a labordai modern pwrpasol, rhagorol ac amrywiol. Mae ymchwil cemeg o ansawdd da sy'n fawr ei heffaith hefyd yn ffynnu yng nghanolfannau'r Brifysgol sydd o'r radd flaenaf fel y Ganolfan Nanolechyd, y Sefydliad ar gyfer Sbectrometreg Màs, y Sefydliad Gwyddor Bywyd, Sefydliad Ymchwil Diogelwch Ynni, y Ganolfan Nanodechnoleg Amlddisgyblaethol, Canolfan Argraffu a Chaenu Cymru, y Ganolfan Technolegau Dŵr Uwch ac Ymchwil Amgylcheddol a'r Ganolfan Ymchwil i Ddefnyddiau.**

**Rydym yn cydweithio'n agos gyda'r Gyfadran Peirianneg a Gwyddoniaeth ac Ysgol Feddygaeth Prifysgol Abertawe i greu amgylchedd o ragoriaeth ymchwil. Mae hyn yn galluogi myfyrwyr a staff i ddyfeisio, arloesi a datblygu cynhyrchion i gymryd camau breision a gaiff effaith ar heriau byd-eang cyfredol.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth neu uwch mewn gradd Gwyddoniaeth neu Beirianneg berthnasol neu o leiaf 5 mlynedd o brofiad blaenorol mewn ymchwil/diwydiant lled-ddargludyddion.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil. Yn ddiweddar rydym wedi sicrhau cyllid gan sefydliadau fel Cyngor Ymchwil Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg (EPSRC) ar gyfer ysgoloriaethau ôl-raddedig.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### TECHNOLEG A CHYMWYSIADAU LLED-DDARGLUDYDDION MSc AU

Mae lled-ddargludyddion ym mhob man – o’r prosesydd a’r sglodion Deallusrwydd Artiffisial yn ein ffonau clyfar i ddyfeisiau electronig ar gyfer cerbydau trydan ac awtonomaidd, i synwyryddion newydd ar gyfer gofal iechyd. Mae’r radd MSc mewn Technoleg a Chymwysiadau Lled-ddargludyddion yn gwrs cyffrous iawn sy’n astudio pob agwedd ar ddeunyddiau a thechnolegau lled-ddargludol o silicon i led-ddargludyddion cyfansawdd, i led-ddargludyddion y genhedlaeth nesaf (electroneg blastig a deunyddiau 2D). Bydd myfyrwyr yn dysgu sut i ddylunio a chreu dyfeisiau lled-ddargludol a sut mae’r technolegau hyn yn cael eu defnyddio mewn cymwysiadau gan gynnwys cyfathrebiadau, Deallusrwydd Artiffisial, synhwyro modurol, ffotoneg a deallusrwydd a mwy.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Prosesu a Chreu Lled-ddargludyddion
- Deunyddiau Lled-ddargludol Presennol a’r Genhedlaeth Nesaf
- Dyfeisiadau Lled-ddargludol
- Dylunio, Profi a Nodweddu Dyfeisiadau
- MEMS a Synwyryddion
- Ystod Eang o Gymwysiadau (Electroneg pŵer, PV, Ynni Glân, Deallusrwydd Artiffisial, Modurol, Ffotoneg, Synhwyro Deallus, Technolegau Gofal Iechyd)
- Prosiect Ymchwil sy’n seiliedig ar Ddiwydiant

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# CEMEG
CAMPWS PARC SINGLETON

**CYRSIAU YMCHWIL**

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu radd meistr â 'Theilyngdod' mewn cemeg neu bwnc cysylltiedig.

**CEMEG MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar themâu Cemeg Arwyneb a Sbectrosgopi; Cemeg Defnyddiau; Cemeg Iechyd, Bwyd a Chyffuriau; Cemeg Lled-ddargludyddion; Cemeg Ynni.

**Cemeg Arwyneb: Bioelectroneg a Synhwyro**
- Addasu Arwynebau
- Electrocemeg
- Electroneg Organig
- Synwyryddion a Biosynwyryddion

Mewn cydweithrediad â'r Grŵp Bioreolaeth a Chynhyrchion Naturiol (BANP) yn yr Adran Biowyddorau, ceir hefyd gyfleoedd ymchwil ym meysydd cymeriadu a chymhwyso cynhyrchion naturiol, yn benodol y rhai sy'n deillio o ffyngau a microalgâu, i ddarparu therapiwteg a maethyllolion a gweithredu fel cyfryngau ar gyfer bioreolaeth a bioadfer.

**Cemeg Arwyneb: Delweddu a Sbectrosgopi**
- Delweddu Fflworoleuedd
- Microsgopeg Electronau (SEM a TEM)
- Microsgopeg Twnelu a Sganio (STM)
- Migrosgopeg Grymoedd Atomig (AFM)
- NMR
- Sbectrosgopi ffoto-electronau Pelydr-X (XPS)
- Sbectrosgopi Raman ac FTIR

**Cemeg Defnyddiau**

Ymhlith y meysydd ymchwil mae:
- Ailgylchu Defnyddiau
- Bioddefnyddiau a Pheirianneg Meinweoedd
- Defnyddiau 2D, Graffen a Defnyddiau Electronig
- Delweddu
- Microhylifegau
- Microstrwythurau a Nanostrwythurau
- Sgaffaldiau Deallus
- Synthesis Polymerau

**Cemeg Iechyd, Bwyd a Chyffuriau**

Mae ymchwil cemeg yn darparu llwybrau newydd i therapïau mwy effeithiol, rhatach a llai gwenwynig ac i adnoddau canfod clefydau a gwneud diagnosis nad ydynt yn ymwthiol. Bydd yn arwain at drawsnewid y tirlun cyfan o ran darganfod cyffuriau, eu datblygu a gofal iechyd, nad yw'n fforddiadwy ar hyn o bryd ac y mae angen iddo fod o fudd i fwy o gleifion.

Mae ein hymchwil a hyfforddiant ôl-raddedig yn y meysydd canlynol:
- Cemeg Coloid
- Cyflenwi Cyffuriau
- Cynhyrchion Fferyllol
- Gronynnau Cyffuriau
- Therapiwteg Aml-effaith

**Cemeg Lled-ddargludyddion**

Ymhlith y meysydd ymchwil mae:
- Cemeg Ffilmiau Tenau
- Cemeg Plasma
- Dyfeisiau a Phrosesu Silicon
- Electroneg Organig
- Ffotocemeg a Lithograffi
- Optoelectroneg a Ffotoneg

**Cemeg Ynni**

Un o'r meysydd allweddol lle bydd angen datblygiadau ym maes cemeg yw cynnig atebion i'r her ynni fyd-eang. Ymhlith y meysydd ymchwil mae:
- Batris ac Uwchgynwysyddion
- Cemeg Olew a Nwy
- Cemeg Werdd
- Ffotocemeg, Catalyddion ac Ailffurfio Biomas gan Ddefnyddio Ynni Solar
- Storio a Chynhyrchu Ynni

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymchwil ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/cemeg/ymchwil-ac-effaith**





# Y CLASURON, HANES YR HENFYD AC EIFFTOLEG
CAMPWS PARC SINGLETON

FED 10 YN Y DU ANSAWDD YMCHWIL (The Complete University Guide 2022*)

**'Byddwch anwybodus o'r hyn a ddigwyddodd cyn eich geni a byddwch blentyn byth bythoedd' (Cicero).**

**O arwrgerddi Homer a Fyrsil i'r nofelau cyntaf, o hud a lledrith yr Aifft a mytholeg Gwlad Groeg i athroniaeth Platon ac Aristotlys a thwf Cristnogaeth, o ffaroaid yr Aifft a democratiaeth Athenaidd i gwymp yr Ymerodraeth Rufeinig, mae gwareiddiadau henfydoedd yr Aifft, Gwlad Groeg a Rhufain wrth wraidd ein diwylliant a'n meddylfryd modern.**

**CYRSIAU A ADDYSGIR**

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd 2:1, neu gymhwyster cyfatebol, yn y clasuron, gwareiddiad clasurol, hanes yr henfyd neu ddisgyblaeth perthnasol.

**YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU**

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

*Safle wedi'i ddyfarnu ar sail darpariaeth i is-raddedigion sy'n cynnwys asesiad o ansawdd ymchwil y sefydliad.

**Y CLASURON MA** AU RhA

Mae'r MA mewn y Clasuron yn astudio Groeg a Lladin, a llenyddiaeth a gwareiddiad. Mae'r MA yn dy alluogi ti i feithrin dy sgiliau darllen mewn dwy iaith hynafol a'u defnyddio wrth astudio detholiad o rai o'r testunau llenyddol pwysicaf o'r henfyd.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Archeoleg a Thopograffeg Rhufain Hynafol
- Barddoniaeth Ffeithiau: Hanes yn yr Adnod
- Fforwyr, Teithio a Daearyddiaeth yn yr Henfyd
- Hen Roeg neu destunau Groeg
- Lladin neu destunau Lladin
- Rhamant Blŷg ac Adnewyddu Nofelau
- Theori a Genres Naratif
- Traethawd Hir mewn Hanes yr Henfyd a/neu Lenyddiaeth Glasurol
- Y Da a'r Drwg yn y Cynfyd Diweddar Cristnogol

**HANES YR HENFYD A DIWYLLIANT CLASUROL** AU RhA

Mae'r radd MA hon yn dy alluogi astudio ystod eang o bynciau sy'n ymwneud â hanes a diwylliant y byd Clasurol, o'r byd Myseneaidd i'r cynfyd diweddar. Mae'r amrywiaeth o opsiynau yn dy alluogi i arbenigo mewn hanes neu lenyddiaeth, neu gyfuno astudio'r ddau.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Archeoleg a Thopograffeg Rhufain Hynafol
- Barddoniaeth Ffeithiau: Hanes yn yr Adnod
- Cyrraedd y Cyhoedd: Amgueddfeydd a Thrin Gwrthrychau
- Fforwyr, Teithio a Daearyddiaeth yn yr Henfyd
- Gair, Trosiad ac Alegori
- Hen Roeg neu Ladin
- Rhamant Blŷg ac Adnewyddu Nofelau
- Traethawd Hir mewn Hanes yr Henfyd a/neu Lenyddiaeth Glasurol
- Y Da a'r Drwg yn y Cynfyd Diweddar Cristnogol

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# Y CLASURON, HANES YR HENFYD AC EIFFTOLEG

CAMPWS PARC SINGLETON

**LLÊN NARATIF YR HENFYD MA** AU RhA

Mae'r radd MA hon yn canolbwyntio ar naratifau'r hen Roegiaid a Rhufeiniaid, yn ffuglennol ac yn ffeithiol, mewn amrywiaeth o ffurfiau llenyddol, gan gynnwys y nofel, arwrgerddi, mytholeg, hanesyddiaeth a bywgraffiad. Mae'r rhaglen yn cyflwyno ti i gysyniadau allweddol theori lenyddol a diwylliannol a gysylltir â naratif ac yn dy annog i archwilio ffyrdd newydd o ddarllen testunau hynafol. Yn ogystal â rhai o'r clasuron o lenyddiaeth hynafol, mae hefyd yn archwilio rhai testunau llai cyfarwydd sy'n cyfleu graddau creadigol llawn dychymyg llenyddol yr henfyd.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Barddoniaeth Ffeithiau: Hanes yn yr Adnod
- Fforwyr, Teithio a Daearyddiaeth yn yr Henfyd
- Gair, Trosiad ac Alegori
- Hen Roeg neu Ladin
- Rhamant Blŷg ac Adnewyddu Nofelau
- Theori a Genres Naratif
- Traethawd Hir mewn Hanes yr Henfyd a/neu Lenyddiaeth Glasurol
- Y Da a'r Drwg yn y Cynfyd Diweddar Cristnogol

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**Meistr drwy Ymchwil:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd anrhydedd ail ddosbarth uwch 2:1 o leiaf, neu gymhwyster cyfatebol, mewn pwnc cysylltiedig, neu dylet fod wedi ymgymryd â phrofiad gwaith perthnasol.

**Y Clasuron MPhil/PhD:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf (neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe).

**Eifftoleg MPhil/PhD:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf (neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe).

**Hanes yr Henfyd MPhil/PhD:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf (neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe).

**Y CLASURON MA drwy Ymchwil/ MPhil/PhD** AU RhA

Astudio ieithoedd, llenyddiaeth, athroniaeth a diwylliant y byd Clasurol, o Homer i'r Ymerodraeth Rufeinig ddiweddarach, a derbyn yr henfyd mewn diwylliant modern.

**EIFFTOLEG MA drwy Ymchwil/ MPhil/PhD** AU RhA

Astudio hanes, archaeoleg, crefydd, ieithoedd, llenyddiaeth a diwylliant yr Aifft Pharaonig a'r Swdan. Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil. Mae diddordebau ymchwil staff yn cwmpasu disgyblaethau craidd diwylliant, crefydd, iaith, llenyddiaeth, hanes, ac archaeoleg.

**HANES YR HENFYD MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD** AU RhA

Mae'r rhaglenni hyn yn fodd i astudio hanes, diwylliant neu archaeoleg y byd clasurol yn fanwl, o Wlad Groeg Fyseneaidd i'r cynfyd diweddar.

**Ymhlith y cryfderau ymchwil penodol mae:**
- Ail Gyfnod Canolradd yr Aifft a Nwbia
- Archaeoleg yr Aifft Rufeinig
- Athroniaeth Cyn Socrataidd
- Bywyd Pob Dydd yn yr Hen Aifft
- Crefydd yr Hen Aifft
- Cysylltiadau Tramor yr Hen Aifft
- Demonoleg yr Hen Aifft
- Dychan Rhufeinig
- Hanes Cyfnodau Ramesside Diweddar, Trydydd Canolraddol a Hwyr yr Aifft
- Hanes Cymdeithasol Groegaidd (Hynafol i Helenistaidd)
- Hanes Gweriniaethol ac Ymerodrol Rhufeinig
- Hanes Milwrol Rhufeinig
- Hanes, Cymdeithas a Diwylliant y Cynfyd Diweddar
- Hanesyddiaeth
- Hen Gyprus
- Hen Nwbia a'r Swdan
- Llenyddiaeth Naratif Hynafol a'r Nofel Hynafol
- Plato
- Rhywedd yn yr Hen Aifft
- Technoleg Hynafol
- Trasiedi Groegaidd
- Trefoli Groeg-Rufeinig

(Pompeii yn benodol)

**KYKNOS: Canolfan Ymchwil i Lenyddiaeth Naratif Hynafol**

Mae KYKNOS (y gair Groeg am Alarch) yn ysgogi, yn cydlynu ac yn hyrwyddo ymchwil i lenyddiaeth naratif y cynfyd.

**OLCAP: Y grŵp ymchwil ar gyfer Ymagweddau a Ganolbwyntir ar Wrthrychau a Thirwedd tuag at y Gorffennol.**

Prif nod y grŵp yw hyrwyddo a chefnogi ymchwil, addysgu, a hyfforddiant sydd wedi'i gynnwys i ryw raddau ym meysydd astudiaethau diwylliant materol a thirwedd yn enwedig lle maent yn gysylltiedig â'r byd hynafol.

**Y Ganolfan Eifftaidd**

Mae Seminarau Ymchwil Canolfan yr Aifft yn darparu gofod anffurfiol i drafod ymchwil arloesol yn ymwneud ag Eifftoleg ac amgueddfeydd, yn ogystal â phontio'r bwlch gwybodaeth rhwng academyddion a'r rheini nad ydynt yn academyddion.

**Cyfleusterau eraill**

Mae llyfrgell y Brifysgol yn llawn testunau gwreiddiol, llenyddol a dogfennol, ac mae'n tanysgrifio i ystod eang o gyfnodolion cyffredinol ac arbenigol. Gellir cael mynediad ar-lein i lyfryddiaethau a mynegai cyfeirnodi allanol. Ymhlith yr adnoddau mae: JSTOR, Dyabola, Thesaurus Linguae Graecae, Loeb Classical Library, Patrologia Latina a Teubner Latin sy'n destunau ar-lein, yr Online Egyptological Bibliography, a chronfa ddata Gnomon.

Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil Clasuron, Hanes yr Henfyd ac Eifftoleg yn perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sydd yn darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, a hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig o 200 o fyfyrwyr.



# CYFRIFEG A CHYLLID

## CAMPWS Y BAE

**30**
UCHAF YN Y DU YSGOL BUSNES AM RAGORIAETH YMCHWIL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Rydym yn cynnig rhaglenni a fydd yn dy helpu i feithrin y wybodaeth a'r arbenigedd i ffynnu mewn amrywiaeth o amgylcheddau busnes ac ariannol dynamig. Mae'r gyfres gyntaf o raglenni ar gyfer myfyrwyr ag unrhyw radd israddedig sydd am ddilyn gyrfa ym maes cyfrifeg neu gyllid. Mae'r ail yn gyfres o raglenni MSc lefel uwch ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes wedi astudio peth cyfrifeg a/neu gyllid ar lefel israddedig ac sydd nawr am arbenigo er mwyn gwella eu cyflogadwyedd a'u rhagolygon gyrfa.**

**Mae llawer o'n modiwlau yn cynnig achrediad proffesiynol gan Gymdeithas y Cyfrifwyr Ardystiedig Siartredig (ACCA). Hefyd, mae gennym gysylltiadau cryf â'r Sefydliad Ariannol Siartredig (CFA), felly bydd ein rhaglenni yn helpu i dy roi ar lwybr carlam ym maes cyfrifeg a chyllid drwy dy gysylltu â chyrff proffesiynol neu dy eithrio rhag arholiadau proffesiynol allweddol. Byddi di'n cael budd o fod wedi dy gydleoli â diwydiant ar Gampws arloesol y Bae, gan weithio ochr yn ochr â chwmnïau fel Fujitsu.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MSc Cyfrifeg a Chyllid Rhyngwladol; Cyllid a Dadansoddeg Data Mawr; Rheoli Ariannol Rhyngwladol; Technoleg Ariannol:** Gradd anrhydedd 2:2 neu uwch mewn unrhyw bwnc neu gymhwyster cyfatebol.

**MSc Cyllid Rhyngwladol; Bancio a Chyllid Rhyngwladol; Rheoli Buddsoddiadau:** Gradd anrhydedd 2:2 neu uwch â chynnwys cyfrifeg neu gyllid sylweddol neu gymhwyster cyfatebol.

**MSc Cyfrifeg Strategol:** Gradd anrhydedd 2:2 neu uwch â chynnwys cyfrifeg neu gyllid sylweddol yn ogystal â'r eithriadau perthnasol o bapurau F1 i F9 ACCA.

**MSc Cyfrifeg Proffesiynol:** Bydd myfyrwyr yn derbyn 120 o gredydau ar gyfer dysgu blaenorol, h.y. wedi cymhwyso'n gyfrifydd gyda chyrff proffesiynol yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig cymorth ariannol i sêr mwyaf disglair y dyfodol. Nid dim ond rhagoriaeth academaidd a wobrwywn – rydym hefyd yn cydnabod ac yn annog angerdd dros astudio a chyfrannu at fywyd myfyriwr.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd cyllido ar gael ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### RHAGLENNI I FYFYRWYR O UNRHYW GEFNDIR PWNC

Mae'r rhaglenni hyn yn ddelfrydol os hoffet ddilyn gyrfa ym maes cyfrifeg neu gyllid. Mae pob un ohonynt yn cwmpasu egwyddorion allweddol cyllid a'r methodolegau meintiol sy'n ymwneud â'r maes cyfrifeg a chyllid.

### CYFRIFEG A CHYLLID RHYNGWLADOL MSc ALI

Wedi'i chynllunio'n benodol i wella rhagolygon cyflogaeth drwy gynnig cyfle i ti feithrin dealltwriaeth ddatblygedig a manwl o bynciau cyfrifeg a chyllid allweddol. Bydd graddedigion y rhaglen hon yn meddu ar wybodaeth ddatblygedig o adnoddau a thechnegau allweddol ym maes cyfrifeg a chyllid, modelu ariannol, a chyfrifeg ariannol a chyfrifeg rheoli. Gall myfyrwyr hefyd gael eu heithrio rhag gorfod sefyll hyd at saith arholiad sylfaenol ACCA ar y rhaglen hon.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Cyfrifeg Ariannol Ryngwladol
- Cyfrifeg Rheoli
- Cyllid Ymddygiadol
- Marchnadoedd Ariannol Rhyngwladol
- Paratoi a Dadansoddi Datganiadau Ariannol

### CYLLID A DADANSODDEG DATA MAWR MSc ALI

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i baru meysydd allweddol dadansoddi cyllid a busnes, ac mae'n mynd ati i ddadansoddi marchnadoedd ariannol a gwybodaeth sefydliadol ar sail data. Mae hefyd yn cwmpasu egwyddorion allweddol cyllid, modelu ariannol a marchnadoedd ariannol ac yn dy alluogi i weithio ym meysydd data cyllid a rheoli ariannol. Gelli hefyd gael eu heithrio rhag gorfod sefyll hyd at bum arholiad sylfaenol ACCA ar y rhaglen hon.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Blockchain, Cryptoarian a Chontractau Clyfar
- Dadansoddi Data Cymhwysol
- Data Mawr ym Maes Cyllid
- Egwyddorion Cyllid Rhyngwladol
- Marchnadoedd Ariannol Rhyngwladol

### TECHNOLEG ARIANNOL (FINTECH) MSc ALI

Bydd y rhaglen hon yn ystyried defnydd technoleg ariannol ym myd bancio, yswiriant, rheoli asedau a llawer o sectorau ariannol eraill. Byddi di'n cael gwybodaeth arloesol am ddefnydd technoleg 'blockchain', arian digidol, Data Mawr a deallusrwydd artiffisial yn y byd ariannol.

Hefyd, byddi di'n meithrin dealltwriaeth fanwl o amgylchedd technoleg ariannol, yn meithrin sgiliau o ran rhaglennu, dysgu gan beiriannau a diogelwch rhwydweithiau yn ogystal â gwybodaeth am sefydliadau a systemau'r marchnadoedd ariannol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Cyflwyniad i Raglennu yn Java
- Data Mawr ym Maes Cyllid
- Diogelwch Rhwydwaith
- Yr Amgylchedd Technoleg Ariannol

### RHEOLI ARIANNOL RHYNGWLADOL PGDip/MSc ALI

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb mewn newid i yrfa ym maes cyllid, ac mae'n cyfuno theori academaidd cyllid â safbwynt ymarferol cadarn, gan hwyluso dealltwriaeth gadarn o gyllid a disgyblaethau cysylltiedig. Gelli hefyd gael eu heithrio rhag gorfod sefyll hyd at bum arholiad sylfaenol ACCA ar y rhaglen hon.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Marchnadoedd Ariannol Rhyngwladol
- Modelu Ariannol
- Paratoi a Dadansoddi Datganiadau Ariannol
- Prosiect Annibynnol
- Rheoli Asedau

*Mae'r rhaglenni uchod yn cynnwys llawer mwy o amser cyswllt er mwyn dy alluogi i drosi i gyfrifeg neu gyllid mewn blwyddyn. Dylai myfyrwyr sydd am astudio cyllid ochr yn ochr ag arbenigedd ym maes rheoli gyfeirio at y rhaglen MSc Rheoli (Cyllid) ar dudalen 160.*

### RHAGLENNI I FYFYRWYR Â CHEFNDIR CYFRIFEG NEU GYLLID NEU DDISGYBLAETH GYSYLLTIEDIG

Mae'r rhaglenni hyn wedi'u cynllunio i wella dy astudiaethau israddedig a rhoi dy yrfa ar lwybr carlam. Er mwyn ymuno â'r rhaglenni hyn, rhaid bod myfyrwyr wedi astudio cyfrifeg neu gyllid. Nid oes angen i hyn o reidrwydd fod yn radd â 'Cyfrifeg a Chyllid' yn y teitl, ond gallai fod yn economeg, busnes, neu unrhyw raglen gyffredinol â swm sylweddol o gynnwys cyfrifeg neu gyllid.

### CYFRIFEG BROFFESIYNOL MSc ALI

Bydd MSc mewn Cyfrifeg Broffesiynol yn caniatáu i gyfrifwyr cymwysedig ymuno â modiwl prosiect annibynnol i ennill yr MSc. Mae'n rhaid dy fod wedi ennill dy gymhwyster fel cyfrifydd gyda chyrff proffesiynol yn ystod y pum mlynedd diwethaf, a bydd gen ti gredydau o dy ddysgu blaenorol fel cyfrifydd cymwysedig.

Bydd gofyn i ti hefyd gwblhau ail fodiwl mewn Dulliau Ymchwil Meintiol i dy baratoi ar gyfer y prosiect annibynnol a fydd ar gael o bell, gan ganiatáu i fyfyrwyr gwblhau fel dysgwyr o bell.

**Mae modiwlau'n cynnwys:**
- Dulliau Ymchwil
- Prosiect Annibynnol

### CYFRIFEG STRATEGOL MSc ALI ION

Bydd gen ti radd gyntaf berthnasol yn barod a byddi di wedi llwyddo yn dy arholiadau ACCA sylfaenol cyn dechrau ar y rhaglen hon. Fel rhan o'r radd meistr fanwl hon, byddi di'n dysgu'r damcaniaethau a'r arferion diweddaraf a sut i'w cymhwyso fel cyfrifydd proffesiynol, wrth i ti baratoi ar gyfer arholiadau proffesiynol ACCA.

Ni fydd angen i fyfyrwyr sy'n ennill y radd MSc hon ac yn llwyddo yn eu holl arholiadau ACCA proffesiynol astudio ymhellach a byddant yn gallu canolbwyntio'n llwyr ar eu gyrfa.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Adroddiadau Corfforaethol
- Archwilio a Sicrwydd Uwch
- Arweinydd Busnes Strategol
- Rheoli Perfformiad Uwch

### CYLLID RHYNGWLADOL MSc ALI

Wedi'i chynllunio ar gyfer graddedigion sy'n chwilio am raglen arbenigol er mwyn gallu dilyn llwybr carlam i yrfa gyllid, mae'r rhaglen hon yn cyfuno theori academaidd cyllid â safbwynt ymarferol cryf, gan ddefnyddio tueddiadau presennol ac arferion o fewn y diwydiant er mwyn llywio'r gwaith addysgu a thrafod. Byddi di'n meithrin dealltwriaeth gadarn o rôl a phwysigrwydd gwybodaeth gyfrifeg yn nhermau rheoli ariannol sefydliadau cymhleth ac yn graddio â dealltwriaeth gadarn o gyllid a'i ddisgyblaethau cysylltiedig.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# CYFRIFEG A CHYLLID

CAMPWS Y BAE

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Adroddiadau Ariannol a Dadansoddi Datganiadau
- Cyllid Empiraidd
- Econometreg
- Llywodraethu Corfforaethol Rhyngwladol a Moeseg
- Marchnadoedd a Sefydliadau Ariannol Rhyngwladol

### CYLLID A BANCIO RHYNGWLADOL MSc AU

Mae'r rhaglen hon ar gyfer graddedigion sydd am ddatblygu sylfaen gadarn mewn cyllid a bancio rhyngwladol er mwyn eu paratoi ar gyfer gyrfa mewn bancio, masnachu neu ddadansoddi ariannol. Bydd yn galluogi myfyrwyr i feithrin dealltwriaeth ddatblygedig o egwyddorion a thechnegau cyllid rhyngwladol, datblygu, masnach a bancio, gwybodaeth am weithgareddau marchnadoedd a sefydliadau ariannol mewn economïau datblygedig ac sy'n dod i'r amlwg, a gwerthfawrogiad o rôl rheoli risg mewn sefydliadau cymhleth.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Bancio a Rheoleiddio Rhyngwladol
- Cyllid Corfforaethol Rhyngwladol
- Dulliau Meintiol ac Economeg
- Marchnadoedd a Sefydliadau Ariannol Rhyngwladol
- Rheoli Risg mewn Bancio

### RHEOLI BUDDSODDIADAU MSc AU

Mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar reoli ariannol a rheoli buddsoddiadau ac mae wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ariannol Siartredig (CFA) ac mae gan y rhaglen statws Prifysgol Gysylltiol. Bydd myfyrwyr yn meithrin dealltwriaeth ddatblygedig o reoli asedau a risg mewn sefydliadau cymhleth, gan dy baratoi i ddod yn fasnachwyr ac yn rheolwyr buddsoddi yn y dyfodol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Adroddiadau Ariannol a Dadansoddi Datganiadau
- Cyllid Corfforaethol Rhyngwladol
- Data Mawr ym Maes Cyllid
- Marchnadoedd a Sefydliadau Ariannol Rhyngwladol
- Rheoli Risg Byd-eang a Deilliadau

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**PhD:** Gradd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf.

### CYLLID PhD AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil.

Anogir ymgeiswyr i archwilio'n harbenigedd ymchwil er mwyn sicrhau cyfatebiaeth dda rhwng cynigion PhD a darpar oruchwylwyr. Gellir cael gwybodaeth am y grwpiau ymchwil presennol yn:

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/ymchwil**

### GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD

Mae gan Brifysgol Abertawe dîm gyrfaoedd penodedig sydd wedi'i deilwra'n benodol i ti fel myfyriwr rheoli. Nod y gwasanaeth hwn yw sicrhau bod cyflogadwyedd yn cael ei hybu ac yn parhau i fod yn ffocws pwysig drwy gydol dy astudiaethau. Mae gan y tîm hanes ardderchog o sicrhau cyflogaeth i fyfyrwyr ac eisoes wedi helpu llawer o fyfyrwyr i gael eu swyddi a'u lleoliadau delfrydol.

Dyma ble y bydd angen i ti droi i gael:

- Cyngor ar leoliadau
- Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu CV
- Awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau (cyfweliadau cyffredinol a phrofion seicometrig)


Bydd y tîm hyd yn oed yn ymchwilio i'r cwmnïau rwyt am weithio iddynt ac yn rhoi cyngor i ti ar fformat eu cyfweliadau

**MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:**

**AELODAETH:**







"Roedd yn hanfodol cael addysg fwy trylwyr i'm helpu i baratoi ar gyfer gyrfa mewn cyfrifeg yn fy marn i. Cefais yr wybodaeth angenrheidiol i wella a datblygu fy ngallu yn rhan o'r cwrs.

Mae cynnwys y cwrs wedi'i strwythuro o amgylch arholiadau cyfrifeg broffesiynol, ac rwyf eisoes wedi llwyddo mewn tri o'r arholiadau ACCA allanol drwy'r gwaith paratoi a ddarparwyd yn y modiwlau perthnasol.

Adrodd Corfforaethol ac Uwch-reoli Perfformiad yw fy hoff fodiwlau; mae'r darlithydd yn dda iawn ac fe'm helpodd i ddeall y pwnc go iawn.

Es i rai gweithgareddau a gynhaliwyd gan Gymdeithas Hong Kong gan mai dyma'r tro cyntaf i mi astudio dramor, ac roeddwn i'n gallu cwrdd â nifer o fyfyrwyr eraill o'm gwlad gartref ac ymgyfarwyddo ag ardal Abertawe."

## Wing Man Natalie KO

MSc CYFRIFEG STRATEGOL

# CYFRIFIADUREG
## CAMPWS Y BAE

**8FED YN Y DU**
YN GYFFREDINOL A'R UCHAF YNG NGHYMRU
(Times & Sunday Times University Guide 2020)

**Mae Cyfrifiadureg ym Mhrifysgol Abertawe yn ehangu ac mae bellach wedi'i leoli yn adeilad newydd gwerth £32.5 miliwn y Ffowndri Gyfrifiannol, sydd â chyfleusterau o'r radd flaenaf er mwyn galluogi ein myfyrwyr a'n staff i wneud gwaith ymchwil cyfrifiannol a mathemategol trawsnewidiol.**

**Mae ein labordai rhwydwaith llawn yn rhedeg Windows a Linux ac yn cefnogi ystod eang o feddalwedd gan gynnwys ieithoedd rhaglennu Java, C# a fframwaith .NET, C, C++, Haskell a Prolog. Hefyd, ceir amgylcheddau datblygu rhaglenni integredig fel Visual Studio, Eclipse; Pecyn Microsoft Office a ddefnyddir yn eang; adnoddau mynediad i'r we a llawer o adnoddau meddalwedd diben arbennig gan gynnwys adnoddau rendro a delweddu graffigol. Mae'r holl feddalwedd yn feddalwedd ffynhonnell agored sydd ar gael am ddim neu'n cael ei darparu.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu 2:2 neu uwch mewn cyfrifiadureg neu bwnc cysylltiedig, yn dibynnu ar y cwrs dan sylw. (Nid yw gradd cyfrifiadureg yn ofynnol i ddilyn y cwrs MSc Cyfrifiadureg).

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir. Yn ddiweddar rydym wedi sicrhau cyllid gan sefydliadau fel Cyngor Ymchwil Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg (EPSRC) ar gyfer ysgoloriaethau ôl-raddedig.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### CYFRIFIADUREG MSc AU RhA ION

Mae'r cwrs MSc mewn Cyfrifiadureg i ti os wyt wedi graddio mewn un o blith ystod eang o ddisgyblaethau a dy fod am newid cyfeiriad neu, oherwydd anghenion dy ddewis yrfa, fod angen sail gadarn mewn Cyfrifiadureg arnat. Bydd pob myfyriwr yn dilyn modiwl mewn Dulliau Ymchwil Prosiect Cyfrifiadureg cyn cyflawni prosiect unigol dros yr haf.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Adnabod Delweddau a Dysgu Dwfn gan Gyfrifiadur
- Caledwedd a Dyfeisiau
- Cyfrifiadura Perfformiad Uchel mewn C/C++
- Cynllunio System wedi'i Mewnblannu
- Cysyniadau ac Effeithlonrwydd Meddalwedd
- Cysyniadau System Gyfrifiadurol
- Dadansoddi Gweledol
- Data Mawr a Chloddio Data
- Data Mawr a Dysgu Peirianyddol
- Datblygu Cymwysiadau Gwe
- Delweddu Data
- Egwyddorion Peirianneg Meddalwedd
- Profi Meddalwedd
- Rhaglennu Java
- Rhaglennu Prosesu Graffeg
- Rhesymeg mewn Cyfrifiadureg
- Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron
- Systemau Critigol
- Systemau Cronfa Ddata Perthynol a Gwrthrych-Gyfeiriadol
- Systemau Gweithredu a'u Seilwaith
- Technegau Modelu a Dilysu

### CYFRIFIADUREG: INFORMATIQUE MSc (LLWYBRAU ABERTAWE A GRENOBLE) AU

Mae Prifysgol Abertawe ac Université Grenoble Alpes yn cynnig dwy radd MSc Dyfarniad Deuol mewn Cyfrifiadureg: Informatique. Mae'r ddwy yn arwain at raddau o'r ddwy Brifysgol ac mae'r ddwy yn para dwy flynedd – blwyddyn yn Abertawe, a blwyddyn yn Grenoble. Addysgir y graddau drwy gyfrwng y Saesneg fel arfer ond gelli ddewis eu hastudio yn Ffrangeg os wyt yn ddigon rhugl.

Mae cynllun **llwybr Grenoble** yn dechrau yn Grenoble ac yn gorffen yn Abertawe – a'r arbenigeddau sydd ar gael yw:
- Data Mawr, Graffeg a Delweddu
- Systemau Symudol
- Technoleg Meddalwedd
- Theori a Sylfeini

Mae **llwybr Abertawe** yn dechrau yn Abertawe ac yn gorffen yn Grenoble – a'r arbenigeddau sydd ar gael yw:
- Deallusrwydd Artiffisial a'r We
- Graffeg, Lluniau a Roboteg
- Gwyddor Data
- Systemau Gwybodaeth Uwch a Pheirianneg Meddalwedd

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**



- Systemau Hollbresennol a Rhyngweithiol
- Systemau Paralel, Dosbarthedig a Mewnblanedig
- Systemau Seiberffisegol a Mewnblanedig Hyder Uchel

### CYFRIFIADUREG UWCH MSc AU RhA ION

Ar y cwrs MSc Cyfrifiadureg Uwch byddi di'n gwbl barod i ddilyn gyrfa mewn TG neu ddiwydiannau cysylltiedig. Mae'r cwrs i ti os wyt wedi graddio mewn Cyfrifiadureg neu os wyt wedi ennill profiad o gyfrifiadura a rhaglennu mewn gradd gyntaf wahanol.

Bydd pob myfyriwr yn dilyn modiwl mewn Dulliau Ymchwil Prosiect Cyfrifiadureg cyn cyflawni prosiect unigol dros yr haf.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Adnabod Delweddau a Dysgu Dwfn gan Gyfrifiadur
- Blockchain, Cryptoarian a Chontractau Clyfar
- Caledwedd a Dyfeisiau
- Cyfrifiadura Perfformiad Uchel mewn C/C++
- Cynllunio System wedi'i Mewnblannu
- Dadansoddi Gweledol
- Data Mawr a Chloddio Data
- Data Mawr a Dysgu Peirianyddol
- Datblygu Cymwysiadau Gwe
- Delweddu Data
- Diogelwch TG: Cryptograffeg a Diogelwch Rhwydweithiau
- Gwendidau Diogelwch a Phrofi Treiddiad
- Profi Meddalwedd
- Pynciau Uwch: Deallusrwydd Artiffisial a Seiberddiogelwch
- Rhaglennu Prosesu Graffeg
- Rheoli Diogelwch Gwybodaeth
- Rhesymeg mewn Cyfrifiadureg
- Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron
- Systemau Critigol
- Systemau Gweithredu a'u Seilwaith
- Technegau Modelu a Dilysu

### DATA MAWR A DEALLUSRWYDD ARTIFFISIAL O SAFBWYNT DEFNYDDWYR MSc AU

Cei hyfforddiant ar wyddor gyfrifiannol anturus a chyffrous, gan weithio ar heriau go iawn a fydd yn gweddnewid cymdeithas a'r economi. Er bod pryderon dilys ynglŷn ag effaith bosibl data mawr a deallusrwydd artiffisial ar unigolion, cymunedau, swyddi a chymdeithas, mae'r rhaglen hon yn canolbwyntio ar botensial, anghenion, dyheadau a phryderon bodau dynol, a sut y gellir defnyddio'r cymhellion hyn i sbarduno arloesedd.

Byddi di'n cyflawni dy brosiect mawr ar y cyd ag un o'n partneriaid o'r radd flaenaf (gan gynnwys Google, Facebook, y GIG, Tata Steel, Ford, Microsoft a llawer mwy), a hefyd yn cymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau ychwanegol i wella sgiliau, megis blychau tywod, enciliadau a digwyddiadau hyfforddi â ffocws pendant. Fel rhan o gohort clòs, bydd myfyrwyr yn dysgu dulliau sy'n canolbwyntio ar fodau dynol, wedi'u seilio ar amrywiaeth eang o safbwyntiau damcaniaethol, arbrofol, arbenigol a methodolegol er mwyn deall sut y gall y rhain ddatblygu a gwella potensial bodau dynol ym meysydd data mawr a Deallusrwydd Artiffisial.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Astudiaethau Achos o Bartneriaid Diwydiannol
- Camddefnyddio, Tueddiadau a Bendithion Data
- Dadansoddi Gweledol
- Data Mawr a Dysgu Peirianyddol
- Deallusrwydd Artiffisial
- Dewis o Bynciau sy'n Gysylltiedig â'r Gyfraith, Gofal Iechyd, a Ffatrïoedd y Dyfodol
- Gwerthuso a Dadansoddi sy'n Canolbwyntio ar Fodau Dynol
- Rhyngwynebau a Moddolrwyddau
- Safbwyntiau a Dulliau sy'n Canolbwyntio ar Fodau Dynol
- Systemau Critigol
- Strwythurau Data a'u Seilwaith
- Ymddiriedaeth, Ymresymu a Gwirio

### GWYDDOR DATA MSc AU RhA ION

Bydd y rhaglen hon yn rhoi sail gadarn i ti mewn cysyniadau a thechnolegau gwyddor data ar gyfer echdynnu gwybodaeth a chreu gwybodaeth o ddata. Byddi di'n astudio egwyddorion, dulliau a systemau cyfrifiadura ar gyfer amrywiaeth o gymwysiadau go iawn sy'n galw am sylfeini mathemategol, sgiliau rhaglennu, meddwl beirniadol, a dyfeisgarwch. Bydd meithrin sgiliau ymchwil yn rhan hanfodol o'r rhaglen, gan dy alluogi i ymdrin â gwyddor data cyfredol o safbwynt beirniadol a chymhwyso hyn at ddatblygiadau yn y dyfodol mewn amgylchedd technolegol sy'n newid yn gyflym.

Bydd pob myfyriwr yn dilyn modiwl mewn Dulliau Ymchwil Cyfrifiadureg cyn cyflawni prosiect unigol dros yr haf.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Adnabod Delweddau a Dysgu Dwfn gan Gyfrifiadur
- Cyfrifiadura Perfformiad Uchel mewn C/C++
- Cysyniadau System Gyfrifiadurol
- Dadansoddi Gweledol
- Data Mawr a Chloddio Data
- Data Mawr a Dysgu Peirianyddol
- Delweddu Data
- Rhaglennu Prosesu Graffeg
- Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron
- Sgiliau Mathemategol ar gyfer Gwyddonwyr Data
- Systemau Gweithredu a'u Seilwaith
- Technegau Modelu a Dilysu

### SEIBERDDIOGELWCH MSc AU RhA ION

Mae ein byd fwyfwy cysylltiedig yn cyflwyno bygythiadau diogelwch newydd a difrifol yn barhaus. O dorri rheolau preifatrwydd (hacio,

monitro gohebiaeth, rhannu data sensitif, dwyn a chyhoeddi gwybodaeth breifat) i'r farchnad gyffuriau, masnachu mewn pobl er mwyn manteisio arnynt yn rhywiol a therfysgaeth, gall staff arbenigol Cyfrifiadureg Abertawe ddarparu'r technegau sydd eu hangen i liniaru risgiau o'r fath er mwyn sicrhau systemau diogel a dibynadwy y gellir ymddiried ynddynt.

Fel rhan o'r radd MSc hon rydym yn mabwysiadu dull cyfannol a rhyngddisgyblaethol o weithredu, gan ddwyn ynghyd fodiwlau ar bynciau amrywiol megis profi treiddiad, modelu ffurfiol, rheoli diogelwch gwybodaeth, cryptograffeg a deallusrwydd artiffisial er mwyn sicrhau bod gan ein myfyrwyr feddylfryd addas ar gyfer gyrfa ym maes seiberddiogelwch.

Mae ein Labordy Seiberddiogelwch yn ddelfrydol ar gyfer ymchwilio i'r dirwedd diogelwch, gan alluogi myfyrwyr a staff i gynnal arbrofion ym maes seiberddiogelwch a diogelwch symudol, ac archwilio bygythiadau a dulliau amddiffyn yng nghyd-destun Rhyngrwyd y Pethau. Yn dilyn elfen a addysgir y cwrs, bydd myfyrwyr yn ymgymryd â phrosiect ymchwil helaeth sy'n cynnwys defnyddio ac archwilio technegau ar gyfer nodi, datblygu, dilysu a defnyddio systemau yn erbyn meini prawf diogelwch. Bydd myfyrwyr yn cael budd o'n hystod eang o bartneriaid diwydiannol ac arbenigedd ymchwil sy'n arwain yn rhyngwladol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Blockchain, Cryptoarian a Chontractau Clyfar
- Cynllunio System wedi'i Mewnblannu
- Datblygu Cymwysiadau Gwe
- Diogelwch TG: Cryptograffeg a Diogelwch Rhwydweithiau
- Dychymyg ac Arloesedd ym Maes Cyfrifiadura
- Gwendidau Diogelwch a Phrofi Treiddiad
- Pynciau Uwch: Deallusrwydd Artiffisial a Seiberddiogelwch
- Rheoli Diogelwch Gwybodaeth
- Systemau Critigol

### TECHNOLEG MEDDALWEDD UWCH MSc AU RhA

Mae'r cwrs hwn yn addas i ti os wyt wedi graddio mewn Cyfrifiadureg neu os wyt wedi ennill rhywfaint o brofiad o gyfrifiadura a rhaglennu sylfaenol yn dy radd gyntaf. Bydd y rhaglen hon hefyd o ddiddordeb i ti os oes gen ti brofiad perthnasol sylweddol o weithio mewn amgylchedd cyfrifiadurol am beth amser a dy fod am ddiweddaru neu ehangu dy wybodaeth.

Bydd pob myfyriwr yn dilyn modiwlau mewn Cynllunio a Rheoli Prosiect Peirianneg Meddalwedd, a Phrofi Meddalwedd, yn ogystal â chyflawni Prosiect Tîm Meddalwedd cyn gweithio ar brosiect meddalwedd unigol dros yr haf.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Adnabod Delweddau a Dysgu Dwfn gan Gyfrifiadur
- Blockchain, Cryptoarian a Chontractau Clyfar
- Caledwedd a Dyfeisiau
- Cyfrifiadura Perfformiad Uchel mewn C/C++
- Cynllunio System wedi'i Mewnblannu
- Dadansoddi Gweledol
- Data Mawr a Chloddio Data
- Data Mawr a Dysgu Peirianyddol
- Datblygu Cymwysiadau Gwe
- Delweddu Data
- Diogelwch TG: Cryptograffeg a Diogelwch Rhwydweithiau
- Gwendidau Diogelwch a Phrofi Treiddiad
- Profi Meddalwedd
- Pynciau Uwch: Deallusrwydd Artiffisial a Seiberddiogelwch
- Rhaglennu Prosesu Graffeg
- Rheoli Diogelwch Gwybodaeth
- Rhesymeg mewn Cyfrifiadureg
- Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron
- Systemau Critigol
- Systemau Gweithredu a'u Seilwaith
- Technegau Modelu a Dilysu



## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu radd meistr â 'Theilyngdod' mewn cyfrifiadureg neu bwnc cysylltiedig.

### CYFRIFIADURA A THECHNOLEGAU RHYNGWEITHIO'R DYFODOL MRes AU RhA

Addysgir yr MRes gan Lab Technoleg Rhyngweithio'r Dyfodol (FIT) o fewn Cyfrifiadureg.

Cenhadaeth Lab FIT yw archwilio a chymhwyso Cyfrifiadureg Uwch er mwyn gwneud technolegau rhyngweithio yn ddibynadwy, yn effeithiol ac yn llawn mwynhad. At hynny, anelwn at weithio ar heriau mawr, fel gwella diogelwch ym maes gofal iechyd, neu ddatblygu technoleg i gyrraedd miliynau o bobl a'n helpu i fyw bywydau mwy effeithiol a chynaliadwy.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Caledwedd a Dyfeisiau
- Cynllunio Systemau Rhyngweithiol
- Dadansoddi Gweledol sy'n Canolbwyntio ar Fodau Dynol
- Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron

Gan arwain at brosiect ymchwil terfynol.

### CYFRIFIADURA GWELEDOL MRes AU RhA

Mae MRes yn gam delfrydol tuag at yrfa ymchwil neu arbenigo yn y maes a gaiff ei astudio. Yn arbennig, mae'r MRes mewn Cyfrifiadura Gweledol yn anelu at dy baratoi ar gyfer ymchwil bellach ym meysydd Graffeg Cyfrifiadurol, Lluniau Cyfrifiadurol, Delweddu Meddygol, a Delweddu Gwyddonol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Adnabod Delweddau a Phatrymau gan Gyfrifiadur
- Caledwedd a Dyfeisiau
- Dadansoddi Data
- Delweddu Data
- Rhaglennu Prosesu Graffeg

Gan arwain at brosiect ymchwil terfynol.

### RHESYMEG A CHYFRIFIANNU MRes AU RhA

Ar y cwrs MRes mewn Rhesymeg a Chyfrifiannu byddi di'n dysgu am dechnegau datblygedig mewn rhesymeg a ffyrdd o'u rhoi ar waith.

Cei addysg o'r radd flaenaf sy'n uniongyrchol berthnasol i broblemau ymchwil a datblygu ym maes technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) gyfoes.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Rhesymeg mewn Cyfrifiadureg
- Systemau critigol
- Technegau modelu a dilysu

Gan arwain at brosiect ymchwil terfynol.

### CYFRIFIADUREG MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### CYFRIFIADUREG DDAMCANIAETHOL MSc drwy Ymchwil AU RhA

### CYFRIFIADURA GWELEDOL A RHYNGWEITHIOL MSc drwy Ymchwil AU RhA

### RHYNGWEITHIO RHWNG POBL A CHYFRIFIADURON MSc drwy Ymchwil AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn gysylltiedig â'n themâu:

**Grŵp Cyfrifiadura Gweledol a Rhyngweithiol**

Ers 1992, pan gafodd ei sefydlu, mae'r grŵp wedi tyfu i fod yn dîm a welir yn rhyngwladol, sydd, ar hyn o bryd, yn cynnwys chwe academydd, wyth ymchwilydd, 14 o fyfyrwyr PhD/MPhil a phum aelod o staff cysylltiedig. Mae'r grŵp yn dilyn rhaglen uchelgeisiol ac ymchwilgar i ddatblygu algorithmau a dulliau newydd, yn ogystal â thechnegau ac adnoddau feddalwedd datblygedig, ar gyfer graffeg gyfrifiadurol, delweddu a systemau rhyngweithiol.

**Grŵp Rhesymeg a Chyfrifiannu**

Un o'r grwpiau mwyaf o wyddonwyr cyfrifiadurol damcaniaethol yn y DU, sydd â rhaglen ymchwil fawr yn cynnwys llawer o gydweithredwyr rhyngwladol. Dros y deugain mlynedd diwethaf, mae damcaniaethwyr Abertawe wedi gwneud darganfyddiadau anhygoel ac arloesol o ran theori data, algorithmau, prosesau, ieithoedd rhaglennu, ieithoedd manylebau, ymresymu a dilysu systemau.

**Grŵp Technoleg Rhyngweithio'r Dyfodol**

Ein nod yw sicrhau bod pobl wrth wraidd arloesedd technolegol – creu platfformau, dyfeisiau a gwasanaethau sydd nid yn unig yn ymarferol ond yn ddefnyddiadwy, yn effeithlon ac yn bleserus. Ers iddo agor yn 2006, mae Lab Technoleg Rhyngweithio'r Dyfodol (Lab FIT) wedi tyfu'n ganolfan a gydnabyddir yn rhyngwladol fel canolfan ymchwil o'r radd flaenaf ar gyfer Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron.

**Grŵp Diogelwch**

Mae diogelwch yng nghyd-destun Cyfrifiadureg yn cwmpasu agweddau technegol fel diogelu ein bywyd digidol rhag amrywiaeth o ymosodiadau a gwarantau mewn perthynas ag agweddau cymdeithasol fel preifatrwydd a defnyddio polisïau. Mae gwyddonwyr cyfrifiadurol ym Mhrifysgol Abertawe wedi cyfrannu at y maes ac maent yn parhau i wneud hynny – e.e. yr economi ddigidol, cudd-arian cyfred, diogelwch a phreifatrwydd data personol, seiberderfysgaeth a seiberdroseddu a diogelwch symudol, ymhlith llawer mwy.

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymchwil ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/cyfrifiadureg/ymchwil-ac-effaith**

# Y CYFRYNGAU, CYFATHREBU A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

CAMPWS PARC SINGLETON

**LLEOLIAD GWAITH**

CYFLEOEDD LLEOLIAD GWAITH WEDI'U HINTEGREIDDIO FEL RHAN O DY GWRS

**O gyfryngau print a darlledu traddodiadol i ffilm a theledu, cyhoeddi digidol, rhwydweithio cymdeithasol, a chysylltiadau cyhoeddus, mae'r cyfryngau yn diffinio'r ffordd rydym yn rhyngweithio â chymdeithas fwyfwy. Maent yn llywio'r ffordd rydym yn gweld ein hunain ac eraill, a gallant fod yn adnodd pwerus ar gyfer newid cymdeithasol, er gwell neu er gwaeth.**

**Rydym yn dilyn dulliau ymchwil, ymarferol a rhyngwladol sy'n adlewyrchu heriau ein byd cyfryngau-gyfoethog. Mae gan ein staff arbenigedd damcaniaethol penodol yn y cyfryngau digidol, cysylltiadau cyhoeddus, newyddiaduraeth ac astudiaethau ffilm. Caiff addysgu yn y meysydd hyn ei lywio gan ymchwil staff a'n cryfderau hirsefydledig yn y meysydd pwnc hyn. Ar sail yr ymagweddau damcaniaethol hyn, ceir elfen ymarferol amlwg hefyd (o ran yr addysgu a lleoliadau gwaith) mewn newyddiaduraeth, cysylltiadau cyhoeddus, tirlun y cyfryngau digidol a gwneud ffilmiau.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 (gyda 55% neu uwch ar gyfartaledd) neu gymhwyster cyfatebol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael. Am ragor o fanylion, gweler:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### CYFLEOEDD LLEOLIADAU GWAITH

Rydym yn gweithio gydag amrywiaeth o sefydliadau'r cyfryngau a diwydiannau cysylltiedig eraill i gynnig amrywiaeth o leoliadau cyfryngau, marchnata a chyfathrebu i'n myfyrwyr cyfryngau MA ar ein holl raglenni. Fel rheol mae'r rhain yn ychwanegol at y rhaglenni a addysgir, er, yn achos rhai myfyrwyr, gallant gael eu hintegreiddio â'u prosiect haf.

### CYFATHREBU A NEWYDDIADURAETH CHWARAEON MA AU RhA

Mae'r MA mewn Cyfathrebu a Newyddiaduraeth Chwaraeon yn cyfuno astudiaeth ymarferol ac academaidd o gyfathrebu proffesiynol cyfoes, newyddiaduraeth a chysylltiadau cyhoeddus mewn cyd-destun sy'n gysylltiedig â chwaraeon. Mae'r rhaglen yn cynnig pum modiwl gorfodol, un modiwl dewisol a thraethawd hir neu brosiect ymarfer. Mae'r prosiect yn ymgorffori ymarfer cyfryngau a lleoliad gwaith byr i roi sgiliau cyfathrebu chwaraeon trosglwyddadwy ar waith.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Busnes a Gwleidyddiaeth y Cyfryngau Digidol
- Cyfathrebu Chwaraeon – Newyddiaduraeth a Hyrwyddo
- Cysylltiadau Cyhoeddus, Brandio a Hyrwyddo
- Newyddiaduraeth Gymharol
- Portffolio Newyddiaduraeth Ddigidol
- Ymarfer Technoleg Symudol
- Ysgrifennu Hyrwyddo a Phroffesiynol

### CYFATHREBU, YMARFER YN Y CYFRYNGAU A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS MA AU RhA ION

Mae'r rhaglen hon yn cynnig gwaith ymarferol a theori mewn sgiliau cyfryngau proffesiynol a chyfoes, cysylltiadau cyhoeddus a chyfathrebu, a addysgir gan academyddion sydd â chefndir mewn diwydiant. Mae'r rhaglen yn galluogi graddedigion i ddysgu sgiliau cyfryngau a chyfathrebu proffesiynol gwerthfawr a dymunol ar gyfer gyrfaoedd ym myd busnes, cysylltiadau cyhoeddus a'r cyfryngau, darlledu, cyfathrebu, a marchnata. Mae hefyd yn galluogi gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant i feithrin sgiliau a chymwysterau cyfryngau newydd a fydd yn gwella eu datblygiad proffesiynol parhaus.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Busnes a Gwleidyddiaeth Cyfryngau Digidol
- Cyfathrebu Gweledol a Dylunio'r Cyfryngau
- Cyfryngau Byd-Eang
- Cysylltiadau Cyhoeddus, Brandio a Hyrwyddo
- Gwneud Fideos a Rhaglenni Dogfen
- Newyddiaduraeth Ar-Lein
- Y Chwyldro Digidol
- Y Fantais Ddigidol
- Ysgrifennu Hyrwyddo a Phroffesiynol

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

### CYFRYNGAU DIGIDOL MA AU RhA

Mae'r rhaglen yn cynnig amrywiaeth eang o themâu, gan gynnwys hanes, busnes, gwleidyddiaeth a datblygiad y cyfryngau cymdeithasol a digidol, materion cyfreithiol, rhyfel digidol, dronau, seiberhacio, ymarfer ym maes technoleg symudol, dylunio cyfryngau digidol, newyddiaduraeth ddigidol, cysylltiadau cyhoeddus, brandio a hyrwyddo ac ysgrifennu proffesiynol. Gelli ddewis prosiect sy'n canolbwyntio ar flogiau, allbynnau yn y cyfryngau cymdeithasol a lleoliad gwaith, neu draethawd ymchwil. Mae'r rhaglen yn cynnig cipolwg cyfoes ar rai o'r prif faterion sy'n wynebu cymdeithasau heddiw, gan fanteisio ar arbenigedd ym maes y Cyfryngau a Chyfathrebu.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Busnes a Gwleidyddiaeth Cyfryngau Digidol
- Cyfathrebu Gweledol a Dylunio'r Cyfryngau
- Cyfryngau a Newyddiaduraeth Fyd-Eang
- Cysylltiadau Cyhoeddus, Brandio a Hyrwyddo, gan gynnwys ar y Cyfryngau Cymdeithasol
- Prosiect MA gan gynnwys Lleoliad Gwaith
- Rhyfel Digidol
- Traethawd Hir
- Y Chwyldro Digidol
- Y Fantais Ddigidol: Materion Cyfoes mewn Cyfryngau Digidol
- Ymarfer ym maes Technoleg Symudol

### NEWYDDIADURAETH RYNGWLADOL MA AU RhA

Mae'r MA mewn Newyddiaduraeth Ryngwladol yn edrych ar newyddiaduraeth yn yr unfed ganrif ar hugain o safbwynt trawsddiwylliannol. Mae ar gyfer y rheini sydd â diddordeb mewn meithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rôl cymdeithas fyd-eang gyfoes, ac archwilio sut mae newyddiaduraeth yn datblygu yn yr amgylchedd cyfathrebu sy'n newid yn barhaus, a nodweddir gan dechnolegau digidol. Mae'r cwrs yn darparu gwybodaeth hanfodol am y ffordd y mae newyddiadurwyr yn gweithredu mewn gwahanol ddiwylliannau ledled y byd, yn ogystal ag ymateb i'w diddordeb mewn astudiaethau cymharol ym maes newyddiaduraeth ac astudiaethau cyfathrebu.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyfathrebu Gweledol a Dylunio'r Cyfryngau
- Cyfryngau Byd-Eang
- Gwneud Fideo a Rhaglenni Dogfen
- Newyddiaduraeth Gymharol
- Portffolio Newyddiaduraeth Ddigidol
- Rhyfel Digidol
- Terfysgaeth, Gwrthdaro a'r Cyfryngau
- Y Chwyldro Digidol

Papur Newydd Ar-lein Adran y Cyfryngau:

**swanseamumbler.com**




Y CYFRYNGAU, CYFATHREBU A CHYSYLLTIADAU CYHOEDDUS

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**PhD:** Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 ac MA mewn maes perthnasol, neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe.

**MA drwy Ymchwil neu MPhil:** Gradd anrhydedd 2:1 neu gymhwyster cyfatebol.

**ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU MA drwy Ymchwil** AU RhA

**ASTUDIAETHAU'R CYFRYNGAU A CHYFATHREBU MPhil/PhD** AU RhA

**CYFRYNGAU DIGIDOL MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD** AU RhA

**SGRINIO A LLWYFANNU YN EWROP MA drwy Ymchwil** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil sy'n canolbwyntio ar y grwpiau ymchwil canlynol:

**Hanes, Theori, Athroniaeth a Thechnoleg y Cyfryngau**
Mae'r grŵp hwn yn cyfuno ymchwil i'r cysylltiad rhwng hanes, theori ac athroniaeth technoleg a newid technolegol, gan fynd i'r afael â materion allweddol yn y byd digidol byd-eang sy'n datblygu. Mae'r grŵp yn ceisio meithrin dealltwriaeth feirniadol o'r cyfryngau digidol rhwydwaith ac arferion cymdeithasol ar-lein a'u dynameg cymdeithasol, economaidd a gwleidyddol er mwyn llywio ymchwil academaidd, materion polisi ehangach a thrafodaethau cyhoeddus. Caiff y cydberthnasau rhwng technoleg y cyfryngau, ffurf ddiwylliannol a'r newid o 'atomau i fitiau' eu harchwilio drwy amrywiaeth o ddulliau gweithredu methodolegol arloesol ynghyd â ffocws ar osod y datblygiadau hyn mewn cyd-destun hanesyddol a chymdeithasol.

**Globaleiddio, Newyddiaduraeth, y Cyfryngau, Gwleidyddiaeth a Chyfathrebu**
Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd arbenigedd mewn cyfryngau, newyddiaduraeth a chyfathrebu byd-eang o'r gwyddorau cymdeithasol a'r dyniaethau. Mae ei gryfderau penodol ym meysydd cyfathrebu gwleidyddol a'r sylw a roddir i etholiadau, dadansoddi tueddiadau a phatrymau, y newyddion gan amrywio o'r teledu a'r radio i flogio ar-lein a'r cyfryngau cymdeithasol, a materion economaidd, busnes, ariannol a gwleidyddol.

**Sinema'r Byd**
Mae'r grŵp hwn yn dwyn ynghyd arbenigedd sylweddol o ran hanes, theori a derbyniad Sinema'r Byd ac mae'n ymwneud ag amrywiaeth o ddadansoddiadau pryfoclyd o ffilmiau, gwneuthurwyr ffilm, mudiadau a chymunedau a chenhedloedd gwylio ffilmiau mewn perthynas â hanes, llenyddiaeth, athroniaeth, cyfryngau newydd a gwleidyddiaeth. Mae'r grŵp yn cynnig arbenigedd penodol mewn sinema trawswladol, sinema mudol a sinema Dwyrain Ewrop.

**Cysylltiadau Cyhoeddus a Brandio**
Mae'r grŵp hwn yn canolbwyntio ar effaith brandio a chysylltiadau cyhoeddus ar gymdeithas a diwylliant cyfoes, ochr yn ochr ag ystyried effaith cyfryngau digidol ar gysylltiadau cyhoeddus ac arfer brandio yn yr unfed ganrif ar hugain.

Mae'r Cyfryngau a Chyfathrebu hefyd yn cael budd o grwpiau ymchwil yn archwilio newyddiaduraeth rhywedd, technoleg, rhyfel, a byd-eang, ac mae'n ymgorffori gwaith ar banig moesol a'r cyfryngau a hunaniaeth mewn gwledydd bach, gan gyfeirio'n benodol at Gymru. Gellir cyflawni dy ymchwil ôl-raddedig drwy gyfrwng y Gymraeg. Ceir staff cyfrwng Cymraeg y Gyfadran sy'n arbenigo yn y cyfryngau.

Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil Cyfryngau a Chyfathrebu yn perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, a hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig y Gyfadran o 200 o fyfyrwyr.

Mae'r adran yn gartref i'r grŵp ymchwil Canolfan y Celfyddydau Digidol a'r Dyniaethau (CODAH).





# MEDDYLIAU MAWR

## Tudur Hallam

**CADAIR Y GYMRAEG**

Tudur Hallam yw Athro'r Gymraeg a Chyfarwyddwr Ymchwil Adran y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'n Brifardd, yn Gymrawd Fulbright ac yn aelod o fwrdd Cyngor Celfyddydau Cymru. Fe yw Cadeirydd Cymdeithas Astudiaethau'r Gymraeg ac mae'n aelod o fwrdd gweithredu'r Ganolfan Hyfforddi Ddoethurol ym maes Astudiaethau Celtaidd dan nawdd Cyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Fe'i penodwyd gan HEFCW/HEFCE yn asesydd ar gyfer panel Ieithoedd Modern ac Ieithyddiaeth y REF (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil) sy'n asesu gwaith ymchwilwyr ar draws Cymru a'r Deyrnas Unedig.

> "Rydw i'n rhan o dîm egnïol o staff dysgu yn Adran y Gymraeg. Yn 2020, cyhoeddodd Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr mai ein hadran ni oedd ar ben y rhestr yn genedlaethol o safbwynt boddhad myfyrwyr ym maes y Gymraeg."

Ymunodd ag Adran y Gymraeg, Abertawe yn 1999. Fe'i penodwyd i Gadair y Gymraeg yn 2011. Ei brif arbenigedd ymchwil yw iaith a chyfathrebu, ysgrifennu creadigol, drama a llenyddiaeth Gymraeg ar draws y canrifoedd.

Enillodd yr Athro Hallam ei ddoethuriaeth yn 2005. Cyfarwyddwyd ei draethawd gan yr Athro John Rowlands (Aberystwyth) a'r Athro Dafydd Johnston (Abertawe), a datblygodd y traethawd yn llyfr a'i gyhoeddi yn 2007, sef Canon Ein Llên. Cyhoeddodd ail fonograff yn 2013, Saunders y Dramodydd ac yn 2019, ei gasgliad cyntaf o gerddi, Parcio. Mae hefyd wedi cyhoeddi nifer o benodau ac ysgrifau ar wahanol agweddau o ddiwylliant y Gymraeg, gan gynnwys ambell un ar gyfer cynulleidfa ddi-Gymraeg, e.e. y ddarlith Chatterton ar farddoniaeth i'r Academi Brydeinig.

Yn 2016-2017, enillodd gymrodoriaeth Fulbright i fyw a gweithio yn UDA, gan gymharu sefyllfa'r Gymraeg â'r diwylliant Latino yn bennaf. Gellir gweld ei ymateb creadigol i'r cyfnod hwn yn ei gyfrol farddoniaeth, Parcio, ac mae'r elfen gymharol – cymharu diwylliant Cymru ag eiddo gwledydd eraill – yn hydreiddio ei waith.

Mae wedi cyfarwyddo ac arholi nifer o draethodau ymchwil MA a PhD ym maes ysgrifennu creadigol (barddoniaeth, drama a rhyddiaith), beirniadaeth a theori lenyddol, ôl-drefedigaethedd, cyfieithu, addysg a chynllunio ieithyddol, llenyddiaeth ganoloesol a chyfoes a llenyddiaeth deithio.

Yn ystod ei ugain mlynedd yn Abertawe, mae'r Athro Hallam wedi creu a dysgu pob math o fodiwlau i fyfyrwyr ym maes iaith a chyfathrebu, cyfieithu, dwyieithrwydd ymarferol, hanes Cymru a'r Gymraeg, llenyddiaeth, drama ac ysgrifennu creadigol.



# CYMRAEG
## CAMPWS PARC SINGLETON

1AF YNG NGHYMRU RHAGORIAETH YMCHWIL (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae ennill gradd uwch yn y Gymraeg drwy astudio unrhyw elfen o iaith, cymdeithaseg iaith, cyfraith a pholisi iaith, llenyddiaeth, hanes neu ddiwylliant modern Cymru, yn cynnig profiadau cyffrous ac amrywiol. Mae'n meithrin dealltwriaeth ac ysbryd creadigol wrth i ni chwilio am ffyrdd newydd a gwreiddiol o ddehongli diwylliant Cymru a'r iaith Gymraeg a chyfrannu atynt.**

**Dangosodd canlyniadau'r Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) 2014 i'r Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe ddod yn gyntaf o blith y sefydliadau o Gymru a gyflwynodd eu gwaith i'r is-banel Astudiaethau Celtaidd, ac yn ail yn y Deyrnas Unedig. Dynoda'r canlyniadau fod 100% o waith ymchwil y Gymraeg ym Mhrifysgol Abertawe o safon ryngwladol neu'n uwch na hynny, a bod 69% ohono o safon ragoriaeth yn rhyngwladol, neu'n arwain y maes yn rhyngwladol (3-4*). Mae ein harbenigedd yn cynnwys prosiectau iaith, cyfraith a pholisi iaith, llenyddiaeth o bob cyfnod, beirniadaeth lenyddol ac ysgrifennu creadigol.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gan amlaf, gradd anrhydedd 2:1 neu uwch yn y Gymraeg neu bwnc cysylltiedig. Gellir ystyried profiad perthnasol ochr yn ochr â phortffolio o waith diweddar hefyd.

**Gallu Ieithyddol**

Dylai cymwysterau a phrofiad yr ymgeisydd amlygu ei allu/gallu ieithyddol, ond gellir trafod hyn mewn cyfweliad. Gellir llunio traethawd ymchwil yn Gymraeg neu Saesneg ac mae modd i fyfyrwyr ôl-raddedig ddilyn cyrsiau iaith pwrpasol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd ariannu ar gyfer graddau a addysgir a graddau ymchwil. Mae ein myfyrwyr wedi cael eu hariannu yn y gorffennol gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau yn ogystal â sefydliadau Cymreig fel y Coleg Cymraeg Cenedlaethol ac Ymddiriedolaeth Pantyfedwen:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### CYFIEITHU PROFFESIYNOL MA

AU RhA

Dyma'r radd berffaith ar gyfer y rhai sydd am weithio ym maes cyfieithu. Mae'n tanlinellu pwysigrwydd sgiliau gramadeg ac ysgrifennu da a defnyddio meddalwedd cof cyfieithu. Bydd y cwrs yn ystyried cyfieithu ar gyfer y cyhoedd, dull mwy technegol o gyfieithu ar gyfer arbenigwyr, yn ogystal â chyfieithu ar y pryd. Defnyddir amrywiaeth o dechnegau i ddatblygu safonau cyfieithu, gan gynnwys profiad gwaith. Mae'r cyfuniad o gyfieithu gyda thechnoleg cof a datblygu meistrolaeth ieithyddol trwy adborth yn gaffaeliad mawr i raddedigion.

**Mae'r rhaglen yn cynnwys:**

- Modiwlau cyfieithu uwch ym meysydd addysg, iechyd cyhoeddus a'r gyfraith, lle rhoddir y pwyslais ar safon dy gyfieithu personol
- Modiwl ar dechnoleg gyfieithu, lle dysga sut i ddefnyddio gwahanol raglenni
- Nifer o fodiwlau eraill am theori a natur cyfieithu, ochr yn ochr â'r cyfle i ddysgu iaith newydd
- Cyfle i greu cysylltiadau gwerthfawr gyda chwmnïau cyfieithu ac i gael cyfnodau o brofiad gwaith.

### RHAGLENNI YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Gan amlaf, gradd anrhydedd 2:1 neu uwch yn y Gymraeg neu bwnc cysylltiedig. Byddai'n ddymunol i fyfyrwyr PhD feddu eisoes ar radd MA, ond cysyllta â ni ar bob cyfrif i drafod hyn.

**Gallu Ieithyddol**

Dylai cymwysterau a phrofiad yr ymgeisydd amlygu ei allu/gallu ieithyddol, ond gellir trafod hyn mewn cyfweliad. Gellir llunio traethawd ymchwil yn Gymraeg neu Saesneg ac mae modd i fyfyrwyr ôl-raddedig ddilyn cyrsiau iaith pwrpasol.

### CYMRAEG MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD

AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig sydd â diddordebau ymchwil sy'n cyfateb i'n meysydd rhagoriaeth ymchwil ni:

- Cymdeithaseg Iaith
- Cyfraith a Pholisi Iaith
- Cymraeg i Oedolion a Chaffael Iaith
- Diwylliant a Lle
- Dwyieithrwydd a Chynllunio Ieithyddol
- Hanesyddiaeth yr Iaith Gymraeg
- Technegau a Thechnoleg Cyfieithu
- Theatr, Ffilm a Drama
- Theorïau Llenyddol
- Ysgrifennu Creadigol



I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**




“Mae fy PhD yn archwilio’r canon llenyddol Cymraeg o’r oesoedd canol hyd at heddiw trwy lens theori gwiyr [queer theory], sy’n dadansoddi categorïau rhyw biolegol, rhywedd a rhywioldeb fel cyfres o sbectrymau hyblyg yn hytrach na bocsys neu labeli cyfyngol. Rwyf wedi bod yn lwcus i gael ysgoloriaeth ymchwil y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, felly mae'r Coleg yn ariannu’r PhD yn llawn.

Astudiais BA mewn Cymraeg a Llenyddiaeth Saesneg ym Mhrifysgol Abertawe. Penderfynais ddychwelyd i wneud ymchwil yn Adran y Gymraeg oherwydd ei bod yn adran mor gartrefol. Hefyd, mae arbenigeddau yn yr Adran yn gweddu efo fy arbenigeddau i fel ymchwilydd. Mae gan Brifysgol Abertawe gampws anhygoel, ac mae staff academaidd y Brifysgol hefyd yn gefnogol ac yn dangos empathi i dy sefyllfaoedd penodol. Ar ben hynny, mae darpariaeth a chefnogaeth mewn perthynas â defnydd y Gymraeg yn arbennig o dda.

Fy nghyngor i ddarpar fyfyrwyr yw cadw logiau ymchwil - hynny yw, noda bob un adnodd, dyfyniad, syniad, ac yn y blaen, sydd gen ti ar bapur. Mae cadw nodiadau ar bapur yn llythrennol yn hytrach na theipio popeth hefyd yn gweithio i mi er mwyn archwilio syniadau yn fanylach.

Hoffwn gael y cyfle i addysgu am rywedd a rhywioldeb ledled Cymru a’r byd, a hefyd hoffwn ysgrifennu mwy trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn ymestyn y negeseuon sydd gennyf i.”

## Dan Stevens

PhD CYMRAEG



# DAEARYDDIAETH

CAMPWS PARC SINGLETON

**10**
UCHAF YN Y DU
EFFAITH YMCHWIL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Fe'n cydnabyddir fel un o'r prif ganolfannau byd-eang am addysgu ac ymchwil ym maes daearyddiaeth ddynol a ffisegol. Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) diweddaraf (2014), cafodd yr Adran Ddaearyddiaeth ei rhoi yn yr 8fed safle yn y DU am effaith ymchwil ac yn yr 11eg safle am amgylchedd ymchwil. Nodwyd bod ein hamgylchedd ymchwil ac effaith ein hymchwil 100% yn 'arwain yn fyd-eang' neu'n 'rhyngwladol ardderchog'.**

**Mae ein staff ymchwil rhyngwladol weithgar a'n cymuned fawr o ymchwilwyr ôl-raddedig yn creu amgylchedd dynamig, llawn ysbrydoliaeth i astudio ynddo. Mae llawer o'r prosiectau a gyflawnir gan ein staff a'n myfyrwyr yn gwneud cyfraniad gwirioneddol at Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 (â 55% ar gyfartaledd) neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael. Gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### CYMDEITHAS, YR AMGYLCHEDD A NEWID BYD-EANG MSc (AU)

Bydd y rhaglen meistr hon yn cynnig safbwynt cymdeithasol a diwylliannol ar gwestiynau newid yn yr amgylchedd a newidiadau byd-eang eraill a geir yn y byd o’n cwmpas. Bydd yn cynnig ystod o ymagweddau damcaniaethol ac offer methodolegol i fyfyrwyr o ddaearyddiaeth ddynol i’r gwyddorau cymdeithasol i ddysgu sut i fynd i’r afael â newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau traws-doriadol, gan amrywio o fudo i newid yn yr hinsawdd, diogelwch dynol i anghyfartaledd byd-eang.

**Pynciau sy’n debygol o gael eu hastudio:**

- Cymdeithas
- Damcaniaeth Gymdeithasol
- Yr Amgylchedd
- Diwylliant
- Gwleidyddiaeth
- Argyfwng
- Cynaliadwyedd
- Newid
- Dulliau Ymchwil Ansoddol

### DEINAMEG AMGYLCHEDDOL A NEWID YN YR HINSAWDD MSc (AU) (RhA)

Mae'r cwrs rhyngddisgyblaethol hwn yn rhoi pwyslais arbennig ar sail wyddonol newid yn yr hinsawdd ranbarthol a byd-eang, a chyfyngiadau modelau a thechnegau casglu data. Byddi di'n meithrin gwybodaeth helaeth am y materion gwyddonol presennol sydd wrth wraidd newid amgylcheddol a dynameg ecosystemau, ynghyd â'r sgiliau datrys problemau, TGCh, a chyfathrebu sydd eu hangen er mwyn dilyn gyrfa lwyddiannus yn y diwydiant gwasanaethau amgylcheddol, cyrff rheoleiddio neu academia.

### GWYBODAETH DDAEARYDDOL A NEWID YN YR HINSAWDD MSc (AU) (RhA)

Mae'r cwrs hwn yn darparu hyfforddiant trawsddisgyblaethol mewn perthynas â sail wyddonol GIS, synhwyro lloeren o bell a modelu systemau daear ynghyd ag agweddau ar newid yn yr hinsawdd. Mae'r cwrs yn rhoi pwyslais arbennig ar agweddau technegol ar GIS ac arsylwi ar y ddaear, yn ogystal â newidiadau amgylcheddol a newid yn yr hinsawdd ranbarthol a byd-eang ddoe, heddiw ac yfory.

**Ar gyfer y cyrsiau uchod mae modiwlau opsiynol fel arfer yn cynnwys:**

- Ecosystemau: Ecoleg, Cadwraeth a Rheoli Adnoddau
- Egwyddorion Dynameg amgylcheddol
- Gwaith Asesu a Rheoli Amgylcheddol
- Gwyddor a Pholisi Hinsawdd
- Modelu Systemau Daear
- Newid yn yr Hinsawdd – y Gorffennol, y Presennol a'r Dyfodol
- Sgiliau Gwyddoniaeth a Dulliau Ymchwil
- Synhwyro Lloeren o Bell
- Systemau Gwybodaeth Ddaearyddol

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**



“Dewisais astudio MSc Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd oherwydd yr amryw o gyfleoedd gyrfa y byddwn yn eu hennill a'r set sgiliau eang y byddwn i'n ei chyflawni o'i hastudio. Mae'r cwrs yn ymdrin ag ystod eang o bynciau ac yn caniatáu i mi arbenigo yn fy hoff agweddau o ddaearyddiaeth yn ogystal â galluogi'r defnydd o feddalwedd gymhleth fel arcGIS, sy'n sgìl y mae cyflogwyr yn gofyn amdano'n benodol.

Fe wnes i astudio Daearyddiaeth ar lefel israddedig ym Mhrifysgol Abertawe gyda phwyslais ar ddaearyddiaeth ddynol. Mae Abertawe yn brifysgol wych oherwydd y lleoliad ger y môr ac mae hi mor agos at y Gŵyr. Ar ben hyn mae yna deimlad o gymuned yn deillio o fod yn brifysgol campws. Fe benderfynais i barhau gyda fy astudiaethau ôl-raddedig yn Abertawe er mwyn parhau i dderbyn cymorth i astudio yn y Gymraeg ac i brofi'r lleoliad hardd am flwyddyn ychwanegol.

Y peth rwy'n ei fwynhau mwyaf am y cwrs yw'r amrywiaeth o bynciau a'r sbectrwm eang o wybodaeth fanwl y mae'r modiwlau'n ei ddarparu. Mae astudio newid yn yr hinsawdd yn fwy perthnasol nawr nag erioed, ac mae yna gyflenwad diddiwedd o wybodaeth a data ffres ar gael sy'n gwneud y cwrs yn un hynod o gyfredol ar hyn o'r bryd.

Mae astudio yn y Gymraeg yn ddewis naturiol i mi. Roedd cyflawni fy nhraethawd estynedig yn y Gymraeg yn broses bleserus a syml. Byddaf yn derbyn Bwrsari Llywodraeth Cymru gwerth £1,000 am ddilyn elfen o'r cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

Yn y dyfodol dwi'n gobeithio parhau i weithio ym maes ymchwil, yn enwedig ymchwil amgylcheddol, neu efallai rhyw fath o swydd ymgynghori amgylcheddol. Dwi'n gobeithio dod o hyd i swydd yng Nghymru er mwyn parhau gweithio trwy'r iaith Gymraeg.”

# Morgan Lees

MSc DEINAMEG AMGYLCHEDDOL A NEWID YN YR HINSAWDD



**SYNHWYRO O BELL DRÔN AMHYLCHEDDOL MSc AR GYFER MYNEDIAD 2022**

Bydd y rhaglen MSc hon yn addysgu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth i greu a defnyddio data synhwyro o bell cydraniad uchel ar gyfer y byd go iawn, cymwysiadau ymarferol, gan ddefnyddio synwyryddion a hedfanir ar blatfformau dronau.

Byddi di'n ennill y sgiliau, y profiad a'r wybodaeth i weithredu drôn yn ddiogel ac o fewn rheoliadau presennol yr Awdurdod Hedfan Sifil (CAA). Bydd hyn yn cynnwys hyfforddiant ac asesu hediadau damcaniaethol ac ymarferol. Caiff yr elfen hon ei haddysgu'n rhannol gan ddarparwr hyfforddiant achredig allanol yr Awdurdod Hedfan Sifil, a bydd myfyrwyr yn graddio gydag achrediad cymhwysedd peilot o bell UAV/drôn CAA ychwanegol: Tystysgrif Gweledol Gyffredinol (GVC).

**Y modiwlau gorfodol yw:**

- Gweithredu Drôn
- Synhwyro o Bell â Drôn

Mae MSc mewn Gwybodaeth Ddaearyddol a Newid yn yr Hinsawdd a'r MSc mewn Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd wedi cael achrediad gan y Gymdeithas Ddaearyddol Frenhinol. Dim ond tri chwrs ôl-raddedig yn y DU sydd â'r achrediad hwn.

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu radd meistr neu gymhwyster cyfatebol. Mae cydnabyddiaeth hyfforddiant ymchwil ar gyfer cymwysiadau daearyddiaeth ddynol yn ddymunol.

**ARSYLWI'R DDAEAR**
**MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

**ASTUDIAETHAU TREFOL**
**MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

**CYFRYNGAU DAEARYDDOL**
**MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

**DAEARYDDIAETH DDYNOL**
**MPhil/PhD** ALl RhA

**DAEARYDDIAETH FFISEGOL**
**MPhil/PhD** ALl RhA

**DAMCANIAETH A GOFOD CYMDEITHASOL MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

**DEINAMEG AMGYLCHEDDOL**
**MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

**MODELU AMGYLCHEDDOL BYD-EANG MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

**RHEWLIFEG MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

**YMFUDO BYD-EANG**
**MSc drwy Ymchwil** ALl RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil sy'n canolbwyntio ar y grwpiau ymchwil canlynol:

**Grŵp Damcaniaeth Gymdeithasol a Gofod Trefol**

**Grŵp Deinameg Amgylcheddol**

**Grŵp Modelu Amgylcheddol Byd-eang ac Arsylwi'r Ddaear (GEMEO)**

**Grŵp Rhewlifeg**

**Grŵp Ymfudo, Ffiniau a Hunaniaethau**

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymchwil ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/daearyddiaeth/ymchwil-ac-effaith**

# MEDDYLIAU MAWR

## *Yr Athro Siwan Davies*

**PENNAETH ADRAN: YMCHWILYDD BLAENLLAW AR NEWID CYFLYM YN YR HINSAWDD**

Mae Siwan Davies yn Athro mewn Daearyddiaeth ac mae hi'n astudio lludw folcanig i ddatblygu ein dealltwriaeth o newidiadau sydyn yn ein hinsawdd dros y canrifoedd. Mae hi'n wyddonydd arloesol ac wedi derbyn Gwobr Philip Leverhulme (2011) a Chronfa Lyell (2013). Mae hi hefyd yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru.

Magwyd yr Athro Davies yn Nhrefdraeth, Sir Benfro, ac ar ôl graddio mewn Daearyddiaeth o Brifysgol Rhydychen, cwblhaodd radd Meistr a PhD yn y Royal Holloway, Prifysgol Llundain yn 2002. Yn dilyn penodiadau ôl-ddoethurol ym Mhrifysgol Stockholm a Phrifysgol Copenhagen, ymunodd â Phrifysgol Abertawe fel Darlithydd yn 2004 a chamodd ymlaen yn ei gyrfa academaidd yn gyflym, gan dderbyn Cadair Bersonol yn 2012.

Mae ei hymchwil wedi sicrhau cyllid gan NERC, Ymddiriedolaeth Leverhulme a Chyngor Ymchwil Ewrop (ERC). O uchelfannau llen iâ yr Ynys Las i ddyfnderoedd cefnfor Gogledd yr Iwerydd, mae'r Athro Davies yn dadansoddi ystod eang o gofnodion hinsoddol ac yn defnyddio haenau folcanig i glymu'r archifau at ei gilydd. Mae ei gwaith hefyd wedi datgelu gwybodaeth newydd am beryglon a maint cymylau lludw folcanig y gorffennol. Dywedodd yr Athro Davies: "Dwi wrth fy modd yn gwneud gwaith maes i ddrilio i grombil yr Ynys Las ond yn bennaf rwy' yn y labordy yn chwilio am ronynnau lludw microscopig. Mae'r gwaith yn gyffrous ond hefyd yn heriol. Yn fwy na dim, mae'n wefr bod yn rhan o dîm rhyngwladol sy'n ceisio datrys cwestiynau gwyddonol mawr."

Mae'r Athro Davies hefyd yn cyflwyno ei gwaith i'r cyhoedd ac yn gyflwynydd cyfres ddogfen hynod lwyddiannus ar S4C sef "Her yr Hinsawdd". Teithiodd ledled y byd er mwyn rhannu profiadau cymunedau sydd eisoes yn teimlo effaith newid yn yr hinsawdd a'u hymateb nhw i heriau'r dyfodol.

Ar ben hyn, mae'r Athro Davies hefyd yn cyfrannu at addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg yn Abertawe a ledled Cymru ac yn ymwneud â gwaith y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

> "Mae fy ngwaith ar ronynnau lludw microscopig yn gyffrous ond hefyd yn heriol a dwi wrth fy modd yn ei wneud. Mae hefyd yn wefr arwain ac ysbrydoli tîm o ymchwilwyr tuag at ein nodau gwyddonol."




# ECONOMEG

## CAMPWS PARC SINGLETON

**26ain YN Y DU**
**ANSAWDD YMCHWIL**
(*The Complete University Guide 2022)

**Mae ein cyrsiau MSc mewn economeg wedi'u cynllunio i dy baratoi ar gyfer gyrfa yn y llywodraeth neu fyd busnes, i weithio fel economegydd proffesiynol, neu i gwblhau PhD mewn economeg neu ddilyn gyrfa ymchwil.**

**Ym myd busnes, mae economeg yn helpu i feithrin dealltwriaeth o gymhellion a gweithredoedd cwsmeriaid, cyflenwyr, cystadleuwyr, cyflogwyr ac arianwyr. Mae'n hollbwysig o ran llywio penderfyniadau strategol a gweithredol rheolwyr a chyfarwyddwyr.**

**Cei dy addysgu gan arweinwyr diwydiant ac arbenigwyr ymchwil a gydnabyddir yn rhyngwladol, sy'n rhoi cyngor yn rheolaidd i sefydliadau ac asiantaethau'r llywodraeth ar ddatblygu polisïau ac ymchwil economaidd, yn ogystal â chyhoeddi gwaith mewn cyfnodolion ymchwil blaenllaw.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MSc Economeg; MSc Economeg a Chyllid:** Gradd anrhydedd 2:2 mewn disgyblaeth gysylltiedig. Er y disgwylir i fyfyrwyr feddu ar radd mewn Economeg, bydd myfyrwyr â chefndir mewn maes pwnc sy'n ymwneud â mathemateg, megis cemeg, mathemateg, cyfrifiadureg, peirianneg, ffiseg, cyllid, neu ystadegau yn gymwys i gael eu hystyried.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig cymorth ariannol i sêr mwyaf disglair y dyfodol. Nid dim ond rhagoriaeth academaidd a wobrwywn – rydym hefyd yn cydnabod ac yn annog angerdd dros astudio a chyfrannu at fywyd myfyrwyr.

Mae amrywiaeth o gyfleoedd cyllido ar gael ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

*Safle wedi'i ddyfarnu ar sail darpariaeth i is-raddedigion sy'n cynnwys asesiad o ansawdd ymchwil y sefydliad.

### ECONOMEG MSc (AU)

Mae'r rhaglen hon yn cyflwyno myfyrwyr i syniadau economaidd cyfoes, gan eu helpu i feithrin dealltwriaeth drylwyr o'r agweddau craidd ar ficro a macro-economeg ac econometreg uwch, wrth hefyd gyflwyno ystod arbennig o bynciau economeg arbenigol i'w hastudio i fyfyrwyr.

Gall graddedigion y rhaglen hon ddilyn nifer o lwybrau gyrfaol proffesiynol yn y diwydiannau cyllid neu ymgynghoriaeth reoli. Bydd y sgiliau trosglwyddadwy amrywiol a soffistigedig a gaiff eu meithrin ar y rhaglen hon hefyd yn fodd i gamu i mewn i ystod eang o yrfaoedd amgen ym myd masnach, diwydiant, gwasanaethau cyhoeddus ac academia.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dulliau Ymchwil
- Econometreg
- Macro-economeg
- Micro-economeg

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol yn cynnwys:**

- Economeg Ariannol
- Economeg Ddatblygu
- Economeg Iechyd
- Economeg Llafur
- Economeg Ynni

### ECONOMEG A CHYLLID MSc (AU)

Mae'r cynllun ar y cyd hwn yn rhoi sylfaen gynhwysfawr i fyfyrwyr mewn perthynas â llawer o'r cysyniadau allweddol, dulliau modelu a thechnegau ymchwil a ddefnyddir ym meysydd allweddol economeg (fel micro-economeg, macro-economeg ac econometreg), sydd â chymwysiadau pwysig hefyd o fewn cyllid.

Bydd y cwrs hwn o ddiddordeb arbennig os wyt yn bwriadu dilyn gyrfa yn y diwydiant cyllid neu weithio mewn rôl sy'n gofyn am sgiliau dadansoddi lefel uwch. Mae'r gydberthynas rhwng economeg a chyllid yn un agos, gyda chyllid weithiau yn cael ei ystyried yn arbenigedd o fewn economeg. Felly, yn ogystal â dy alluogi i archwilio pynciau o fewn y disgyblaethau cyllid ac economaidd, bydd yr agweddau amrywiol ar y rhaglen hon yn dy baratoi ar gyfer nifer o lwybrau gyrfaol gwahanol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyllid Empiraidd
- Econometreg
- Macro-economeg
- Marchnadoedd a Sefydliadau Ariannol Rhyngwladol
- Micro-economeg

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# ECONOMEG
## CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol yn cynnwys:**
- Bancio a Rheoleiddio Rhyngwladol
- Cyllid Ymddygiadol
- Economeg Ariannol
- Llywodraethu Corfforaethol Rhyngwladol a Moeseg

**GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD**

Mae gan Brifysgol Abertawe dîm gyrfaoedd penodedig sydd wedi'i deilwra'n benodol i ti fel myfyriwr rheoli. Nod y gwasanaeth hwn yw sicrhau bod cyflogadwyedd yn cael ei hybu ac yn parhau i fod yn ffocws pwysig drwy gydol dy astudiaethau. Mae gan y tîm hanes ardderchog o sicrhau cyflogaeth i fyfyrwyr ac eisoes wedi helpu llawer o fyfyrwyr i gael eu swyddi a'u lleoliadau delfrydol. Dyma ble y bydd angen i ti droi i gael:

- Cyngor ar leoliadau
- Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu CV
- Awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau (cyfweliadau cyffredinol a phrofion seicometrig)
- Bydd y tîm hyd yn oed yn ymchwilio i'r cwmnïau rwyt am weithio iddynt ac yn rhoi cyngor i ti ar fformat eu cyfweliadau

**CYRSIAU YMCHWIL**

**Gofynion Mynediad**

**MPhil**: Fel arfer gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu 2:1 mewn economeg neu gyllid neu bwnc cysylltiedig, neu gymhwyster cyfatebol.

**PhD**: Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr ar gyfer cwrs PhD feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf. Fel arall, bydd ymgeiswyr sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf (neu radd gyfatebol o'r tu allan i'r DU fel y'i diffinnir gan Brifysgol Abertawe) nad oes ganddynt radd meistr yn cael eu hystyried ar sail unigol.

**ECONOMEG MPhil/PhD** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o'n harbenigedd ymchwil.

Anogir ymgeiswyr i archwilio ein harbenigedd ymchwil er mwyn sicrhau cyfatebiaeth dda rhwng cynigion PhD a darpar oruchwylwyr. Gellir cael gwybodaeth am y grwpiau presennol ymchwil yr Ysgol yn:

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/ymchwil**

**AELODAETH:**

AACSB Business Education Alliance Member



# FFISEG
## CAMPWS PARC SINGLETON

**1AF YN Y DU DWYSEDD YMCHWIL** (*Complete University Guide 2022)

**Dyfarnwyd bod dros 80% o'n hallbwn ymchwil ffiseg o'r radd flaenaf neu'n rhyngwladol ardderchog yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) diweddaraf (2014). Mae ein cyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnwys: pelydryn positron ynni isel ag offeryniaeth benodol ar gyfer astudio positroniwm; systemau laser ton barhaus a phwlsedig, a thwnelu sganio; microsgopau optegol agosfaes a Raman. Rydym yn darparu adnoddau cyfrifiadura perfformiad uchel drwy glystyrau ac uwchgyfrifiaduron penodedig. Mae aelodau o staff yn arwain cydweithrediad ALPHA, a leolir yn CERN, sydd â'r nod o greu, dal a manipwleiddio gwrth-hydrogen. Mae rhaglen newydd SAM, sef Sêr, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a Chronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop yn canolbwyntio ar ffiseg defnyddiau uwch ag ynni ymgorfforedig isel i'w cymhwyso mewn optoelectroneg a bioelectroneg. Y meysydd arbenigedd yw lled-ddargludyddion y genhedlaeth nesaf, defnyddiau electronig-ïonig dargludo hybrid, ffotoleoli ac ynni'r haul.**

**CYRSIAU YMCHWIL**

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu radd meistr â 'Theilyngdod' mewn ffiseg neu bwnc cysylltiedig.

**YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU**

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir. Yn ddiweddar rydym wedi sicrhau cyllid gan sefydliadau fel Cyngor Ymchwil Gwyddorau Ffisegol a Pheirianneg (EPSRC), y Cyngor Cyfleusterau Gwyddoniaeth a Thechnoleg (STFC) a'r Gymdeithas Frenhinol ar gyfer ysgoloriaethau ôl-raddedig:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

*Safle wedi'i ddyfarnu ar sail darpariaeth i is-raddedigion sy'n cynnwys asesiad o ansawdd ymchwil y sefydliad.

**FFISEG MPhil/PhD** AU RhA

**FFISEG ARBROFOL MSc drwy Ymchwil** AU RhA

**FFISEG DDAMCANIAETHOL MSc drwy Ymchwil** AU RhA

**FFISEG GYMHWYSOL A DEFNYDDIAU MSc drwy Ymchwil** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn canolbwyntio ar feysydd Ffiseg Atomaidd, Moleciwlaidd a Chwantwm (AMQP), Ffiseg Gymhwysol a Defnyddiau (APM) a Theori Ffiseg Gronynnau a Chosmoleg (PPT).

Cefnogir y **Grŵp Ffiseg Atomaidd, Moleciwlaidd a Chwantwm (AMQP)** gan grantiau oddi wrth EPSRC, yr UE, y Gymdeithas Frenhinol, Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru a ffynonellau diwydiannol a llywodraethol amrywiol.

**Mae'r meysydd ymchwil yn cynnwys:**
- Dynameg, Delweddu a Microsgopeg Cyflym Iawn, Optomecaneg
- Ffiseg Atomau Oer
- Gwrth-Hydrogen, Positroniwm a Phositronau
- Sbectroscopi Laser Dadansoddol

Cefnogir y **Grŵp Ffiseg Gymhwysol a Defnyddiau** gan grantiau oddi wrth yr Undeb Ewropeaidd, Llywodraeth Cymru, y Sefydliad Gwyddoniaeth Cenedlaethol, Cyngor Ymchwil Awstralia, Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru, ac EPSRC.

**Mae'r meysydd ymchwil yn cynnwys:**
- Bioffotoneg: Defnyddiau nano a micro-strwythuredig, biomimetigau, synhwyro analytau a rhyngweithio meinwe golau
- Defnyddiau Cynaliadwy Uwch: lled-ddargludyddion y genhedlaeth nesaf, defnyddiau a dyfeisiau bioelectronig, optoelectroneg gan gynnwys ffotoleoli, trosi ynni'r haul, electro-optegau uwch a ffiseg cludo solidau anhrefnus
- Nanofeddygaeth

**Mae'r Grŵp Ffiseg Gronynnau a Theori Cosmoleg (PPCT)** yn un o'r pum grŵp ffiseg gronynnau mwyaf yn y DU. Caiff ei gefnogi'n bennaf gan STFC, ond mae hefyd yn cael grantiau oddi wrth EPSRC, yr UE, y Gymdeithas Frenhinol ac Ymddiriedolaeth Leverhulme.

**Mae'r meysydd ymchwil yn cynnwys:**
- Amlderau theorïau medryddu ac uwchddisgyrchiant
- Deuoliaeth medrydd/llinyn, Holograffeg sbin uwch, Natur Integradwy, Theorïau medrydd N-fawr, uwchgymesuredd a deuoliaeth
- Holograffeg a damcaniaethau dellt mewn ffiseg y tu hwnt i'r Model Safonol
- Mater Poeth a Dwys, Cyfrifiadura Perfformiad Uchel
- Meysydd cwantwm mewn gofod-amser crwm a chosmoleg ddamcaniaethol

Gellir dod o hyd i ragor o wybodaeth am ein hymchwil ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/ffiseg/ymchwil-ac-effaith**

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# GERONTOLEG AC ASTUDIAETHAU HENEIDDIO

CAMPWS PARC SINGLETON

**3YDD YN Y DU ALLBYNNAU YMCHWIL** (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Rydym yn dilyn dull cyfannol gan edrych y tu hwnt i'r model meddygol traddodiadol o heneiddio, yn archwilio iechyd a lles ymhlith pobl hŷn drwy amrywiaeth o ddisgyblaethau gan gynnwys seicoleg, cymdeithaseg a demograffeg.**

**Byddi di wedi dy leoli yn y Ganolfan Heneiddio Arloesol (CIA), sy'n adnabyddus ledled y byd. Hon yw'r ganolfan ymchwil gerontoleg fwyaf yng Nghymru ac mae'n un o'r mwyaf yn y DU, ac mae ganddi gysylltiadau digyffelyb â llunwyr polisïau yn y DU a thramor. Mae'r CIA hefyd yn gartref i'r Ganolfan Ymchwil Heneiddio a Dementia (CADR), sy'n mynd i'r afael â chwestiynau rhyngwladol bwysig am heneiddio a dementia.**

**Byddi di'n cael budd o amgylchedd addysgu ac ymchwil dynamig a llawer o gyfleoedd i ffurfio cysylltiadau ar draws disgyblaethau.**

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Byddai ymgeiswyr PhD fel arfer yn meddu ar radd meistr neu'n astudio ar ei chyfer, a byddai angen i ymgeiswyr ar gyfer ein rhaglenni MPhil feddu ar radd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil arfaethedig, neu gymhwyster ôl-raddedig perthnasol cymeradwy.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### GERONTOLEG AC ASTUDIAETHAU HENEIDDIO MPhil/PhD AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil.

Mae'r meysydd hyn yn cynnwys dylanwad yr amgylchedd naturiol ac adeiledig ar y boblogaeth sy'n heneiddio, a darpariaeth gofal pobl hŷn mewn meysydd fel gofal cymdeithasol, gofal iechyd, gofal preswyl, gofal lliniarol, cyflyrau cronig, a chwympiadau a'u hatal.

Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr yn archwilio pynciau fel effaith ffordd o fyw ar wybyddiaeth yn ddiweddarach mewn bywyd, amgylcheddau gofal dementia, cymunedau sy'n addas i bobl hŷn ag anawsterau symudedd a'r broses o roi'r gorau i yrru ymhlith gyrwyr hŷn.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**





# GWAITH CYMDEITHASOL A PHOLISI CYMDEITHASOL

CAMPWS PARC SINGLETON

**14EG YN Y DU ANSAWDD YMCHWIL** (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae Prifysgol Abertawe yn sicrhau buddiannau gwirioneddol i ofal cymdeithasol, y sector gwirfoddol a'r sector preifat. Mae ein gwaith yn arwain at effeithiau cadarnhaol ar ddefnyddwyr gwasanaethau, ymarferwyr, rheolwyr a llunwyr polisïau mewn amrywiaeth o feysydd, gan gynnwys: iechyd meddwl, cynhwysiant, lles, pobl hŷn, plant a theuluoedd, trefniadaeth gwasanaethau ac arferion y gweithlu. Mae ein tîm academaidd yn cynnwys gweithwyr proffesiynol uchel eu parch sydd wedi cyhoeddi gwaith yn rhyngwladol ac sy'n weithgar mewn amrywiaeth o feysydd ymchwil gan gynnwys troseddeg, gwaith cymdeithasol, daearyddiaeth ddynol, ac arwain a rheoli ymchwil. Mae ein rhaglenni wedi'u hachredu gan gyrff gan gynnwys Gofal Cymdeithasol Cymru a'r Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) ac mae gennym gysylltiadau ardderchog ag awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector gwirfoddol ledled y de a'r gorllewin.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gweler manylion cyrsiau unigol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd cyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### DULLIAU YMCHWIL CYMDEITHASOL MSc AU RhA

Bydd y rhaglen hon sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol (ESRC) yn dy alluogi i gael hyfforddiant uwch ar amrywiaeth o ddulliau ymchwil ansoddol a meintiol a ddefnyddir yn y gwyddorau cymdeithasol. Byddi di'n meithrin dealltwriaeth fanwl o foeseg a llywodraethu ymchwil, ac yn dysgu am bryderon ymchwil damcaniaethol ar draws y sbectrwm o ddisgyblaethau'r gwyddorau cymdeithasol.

Byddi di hefyd yn dysgu sut i ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ymchwil fel cronfeydd data, meddalwedd ystadegol a rhaglenni cyfrifiadur, ac yn meithrin sgiliau ymchwil ymarferol helaeth i'w cymhwyso at amrywiaeth o gyd-destunau yn y gwyddorau cymdeithasol. Mae'r radd hon yn darparu sail hyfforddiant gwych i ddilyn PhD. Mae ein hystod eang o fodiwlau dewisol yn golygu y gelli deilwra dy astudiaethau yn unol â dy ddiddordebau penodol a dy nodau ar gyfer astudiaethau pellach.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyflwyniad i Sgiliau Ymchwilio ac Astudio
- Dulliau Casglu Data
- Dulliau Ymchwil Ansoddol
- Dulliau Ymchwil Meintiol
- Moeseg ac Athroniaeth Ymchwil Gymdeithasol
- Traethawd hir

**Gofynion mynediad**

Gradd 2:1 (neu uwch) yn y DU mewn pwnc yn y gwyddorau cymdeithasol. Efallai y caiff gradd mewn disgyblaeth gysylltiedig ei hystyried hefyd. Caiff ceisiadau eu hystyried os oes gen ti o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith perthnasol.

### GWAITH CYMDEITHASOL MSc AU

Bydd ein cwrs gradd meistr dwy flynedd achrededig mewn Gwaith Cymdeithasol yn dy alluogi i feithrin y wybodaeth ddamcaniaethol ac ymarferol i ddechrau ar yrfa llawn boddhad fel gweithiwr cymdeithasol cofrestredig. Byddi di'n astudio moeseg a gwerthoedd gwaith cymdeithasol, ymarfer beirniadol mewn perthynas â'r gyfraith ar gyfer gofal plant ac oedolion, a'r damcaniaethau a'r safbwyntiau allweddol sy'n sail i bolisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol. Byddi di'n treulio hanner dy amser ar leoliad gydag asiantaethau gwaith cymdeithasol, yn dysgu drwy arsylwi ac ymarfer, a'r hanner arall yn cael dy addysgu ar gampws Parc Singleton. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n mireinio sgiliau ymchwil a sgiliau dadansoddi hanfodol mewn perthynas â pholisi ac ymarfer gwaith cymdeithasol ac yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol. Gall myfyrwyr Gwaith Cymdeithasol gyflawni rhai elfennau o'r rhaglen yn Gymraeg.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**



“Mae fy nghyfnod fel myfyriwr ôl-raddedig yn yr Adran Gwaith Cymdeithasol wedi bod yn un gwerth chweil a phleserus gyda staff cyfeillgar a chefnogol. Cefais swydd yn syth ar ôl cwblhau MSc mewn Gwaith Cymdeithasol, yn ogystal â dysgu'r wybodaeth, y sgiliau a'r ddealltwriaeth angenrheidiol i symud yn hyderus i amrywiaeth eang o leoliadau, o ofal plant i iechyd meddwl. Rwy'n teimlo'n ffodus iawn o fod wedi cael y cyfle i astudio a dechrau gyrfa newydd ym maes gwasanaethau cymdeithasol oedolion, a mwynheais y cwrs cyfan.

Rydw i bellach yn fyfyriwr PhD o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn astudio am ddoethuriaeth mewn trawma dirprwyol ymysg gweithwyr cymdeithasol, sef yr hyn sydd yn digwydd o ganlyniad i fod yn dyst i drawma. Rydw i'n astudio Cymraeg ochr yn ochr â'r ddoethuriaeth er mwyn cyflawni'r dystysgrif sgiliau iaith a chyflwyno fy noethuriaeth trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae gennyf gefndir mewn dysgu ysgol gynradd a gwaith cymdeithasol i oedolion. Hoffwn gyfuno'r profiadau a'r sgiliau rwyf wedi'u datblygu yn ystod fy ngyrfa er mwyn dysgu gwaith cymdeithasol a hyrwyddo'r Gymraeg yn y Brifysgol.

Os oes gen ti ddiddordeb yn y gwyddorau dynol ac iechyd ac eisiau astudio mewn prifysgol gyfeillgar a chefnogol ar lan y môr, yna rwy'n argymell dy fod yn dod i Abertawe!”

## Sian Eynon-Jones

PhD GWAITH CYMDEITHASOL



# GWAITH CYMDEITHASOL A PHOLISI CYMDEITHASOL

CAMPWS PARC SINGLETON

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyflawni a Defnyddio Ymchwil Gwaith Cymdeithasol ar gyfer Ymarfer
- Damcaniaethau a Safbwyntiau ar gyfer Llywio Gwaith Cymdeithasol
- Moeseg a Gwerthoedd mewn Gwaith Cymdeithasol
- Sgiliau a Gwybodaeth Gwaith Cymdeithasol a Safbwyntiau Defnyddwyr Gwasanaethau
- Sgiliau a Gwybodaeth Gwaith Cymdeithasol ar Waith
- Traethawd hir
- Ymarfer Beirniadol mewn Gofal Oedolion a'r Gyfraith
- Ymarfer Beirniadol mewn perthynas â Gofal Plant a'r Gyfraith

**Gofynion mynediad**

Gradd (2:2 neu uwch) yn y DU mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â gwaith cymdeithasol/gwyddor cymdeithasol, yn ogystal â gradd TGAU A*-C mewn Mathemateg a Chymraeg neu Saesneg neu gymwysterau cyfatebol. Bydd angen i ti ddangos ymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'r Cod Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol a bod wedi gweithio neu gael profiad gwaith gwerth o leiaf 300 o oriau ym maes gofal cymdeithasol. Gall hyn gynnwys gwaith gwirfoddol neu â thâl mewn gofal cymdeithasol gydag unigolion, grwpiau neu gymunedau.

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Byddai ymgeiswyr PhD fel arfer yn meddu ar radd meistr neu'n astudio ar ei chyfer, a byddai angen i ymgeiswyr ar gyfer ein rhaglenni MPhil feddu ar radd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil arfaethedig, neu gymhwyster ôl-raddedig perthnasol cymeradwy. Dylai ymgeiswyr MSc drwy Ymchwil feddu ar radd israddedig dosbarth cyntaf neu 2:1 (neu gymhwyster cyfatebol) o brifysgol yn y DU neu brifysgol gymeradwy arall.

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil.

**CYMDEITHASEG MPhil/PhD** ALl RhA

Adeilada dy ddiddordeb mewn cymdeithaseg gan ymestyn dy wybodaeth mewn amgylchedd ymchwil deinamig, gyda ffocws cryf ar hyfforddiant ymchwil. Gall ein staff gynnig goruchwyliaeth ar draws ystod eang o themâu a dulliau ymchwil gwyddorau cymdeithasol. Mae eu gwaith yn adlewyrchu egwyddorion cyffredin o hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb ac amrywiaeth fel sail i lesiant dynol. Mae'n hymchwil yn chwarae rhan hanfodol mewn meysydd deallusol sy'n dod i'r amlwg ac yn newydd ac yn mynd i'r afael â'r ystod ehangaf o dueddiadau, problemau a chyfyng-gyngor byd cymdeithasol sy'n newid yn gyflym.

**GWAITH CYMDEITHASOL A GOFAL CYMDEITHASOL MPhil/PhD** ALl RhA

Mae ein hymchwil yn meithrin gwybodaeth hanfodol newydd am ddatblygiadau sy'n effeithio ar y gweithlu gofal cymdeithasol a darpariaeth gwasanaethau, gan fynd i'r afael â chanlyniadau cymdeithasol fel ansawdd bywyd, cynhwysiant cymdeithasol a mesurau cyfalaf cymdeithasol.

**IECHYD MEDDWL MPhil/PhD** ALl RhA

Er mwyn datblygu a gwerthuso gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu pobl ar adegau anoddaf eu bywyd, rhaid cael ymchwil o safon uchel. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn edrych ar ymarfer seiliedig ar dystiolaeth mewn iechyd meddwl (yn enwedig gwasanaethau ymyriadau cynnar), cydlynu gofal mewn gofal iechyd meddwl fforensig a dylanwad cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu rôl broffesiynol.

**POLISI CYMDEITHASOL MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD** ALl RhA

Yr hyn sydd ei angen ar fodau dynol a'r ffordd y mae cymdeithasau'n diwallu'r anghenion hynny sydd wrth wraidd polisi cymdeithasol. Mae ein gwaith ymchwil yn mynd i'r afael â materion cymdeithasol allweddol o safbwyntiau cenedlaethol a rhyngwladol, gan archwilio themâu fel cyfiawnder cymdeithasol, cydraddoldeb, tegwch a dinasyddiaeth.

# GWEINYDDU BUSNES, MBA

CAMPWS Y BAE

**Bydd ein rhaglen MBA yn darparu gwybodaeth uwch am ymarferion busnes allweddol gan osod dy yrfa ar lwybr carlam tuag at ddod yn arweinydd busnes effeithiol. Mae hon yn rhaglen wahanol sy'n cynnig ymagwedd wahanol at reoli.**

**Gan ganolbwyntio ar gyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol mae'r rhaglen hon yn addas i weithwyr proffesiynol sy'n meddu ar dair blynedd o brofiad perthnasol mewn diwydiant. Wedi'i llunio er mwyn rhoi'r sgiliau i ti ar gyfer trefnu, cystadlu a chydweithio â'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector a gweithio yn y sectorau hyn, bydd y rhaglen hon yn sicrhau dy fod yn barod i wynebu heriau'r dyfodol.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gradd 2:1 o leiaf mewn unrhyw ddisgyblaeth ynghyd ag o leiaf tair blynedd o brofiad diwydiannol perthnasol.

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

YSGOLORIAETH MBA

Mae astudio MBA yn cynnig llawer o fuddion, o ddatblygu rhwydwaith proffesiynol cryf a dymunadwy a fydd yn dy baratoi ar gyfer swyddi rheoli uwch â chyflogau uwch mewn busnes.

Rydym yn gwybod bod cost cwrs yn ffactor pwysig wrth wneud penderfyniad, a dyma pam rydym ni'n gyffrous i gynnig ysgoloriaeth gwerth £5,000 i bedwar myfyriwr MBA.

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/mba/ysgoloriaeth-mba**

### GWEINYDDU BUSNES, MBA AU RhA


Lluniwyd y cwrs i ddysgu sgiliau byd-eang ar gyfer trefnu a chydweithio yn ogystal â chystadlu yn y sector preifat, y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i ddysgwyr. Rydym yn rhoi pwyslais ar ddychmygu posibiliadau yn y dyfodol – megis ffurfiau sefydliadol hybrid, arferion busnes newydd a thueddiadau defnyddio cyfrifol – i fodloni'r heriau o sicrhau gwerthoedd dynol mewn adeg gynyddol ansicr o drawsnewidiadau byd-eang.

Mae'r rhaglen MBA yn dy herio ti i feddwl yn feirniadol, gan fyfyrio ynghylch damcaniaeth ac arferion rheoli er mwyn nodi lle gellir gwneud newidiadau yn y dirwedd fusnes fyd-eang.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Archwilio Pwrpas Sefydliadol
- Arwain gyda Chywirdeb
- Creu Gwerth Cynaliadwy
- Dadansoddi Data a Gwneud Penderfyniadau
- Deall Cyllid
- Llywio Arloesi a Newid

**Pam dewis Prifysgol Abertawe i astudio dy MBA?**




**sgania i wylio**

**Llyfryn MBA:**




**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/mba**

**AELODAETH:**

AACSB Business Education Alliance Member

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**





# GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

CAMPWS Y BAE

**20**
UCHAF YN Y DU EFFAITH YMCHWIL
(Times & Sunday Times University Guide 2020)

**Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) diweddaraf (2014), rydym yn y 5ed safle yn y DU am effaith ymchwil ac yn y 15fed safle am ansawdd ymchwil cyffredinol. Barnwyd bod 72% o'n hymchwil o'r radd flaenaf (4%*) neu'n rhyngwladol ardderchog (3%*). Mae gennym gysylltiadau sefydledig â sefydliadau a phartneriaid masnachol fel Diabetes UK, y Sugar Bureau, Haemair, Haemaflow Ltd, Chwarae Cymru, Ymddiriedolaethau GIG Abertawe Bro Morgannwg a Hywel Dda, Undeb Rygbi Cymru, yr Uwch Gynghrair, ac Abertawe Actif.**

**Rydym hefyd yn gweithio gyda thimau chwaraeon elitaidd gan gynnwys UK Sport, Clwb Pêl-droed Abertawe, y Sgarlets, tîm rygbi Biarritz, y Gweilch, tîm rygbi saith bob ochr Cymru, corff nofio Prydain, a chorff bobsledio Prydain. Mae ein staff yn darparu gwasanaethau ymgynghorol rheolaidd mewn lleoliadau ymarfer corff ym maes clefydau cronig, gan gynnwys diabetes, adsefydlu cardiaidd a gofal yr arennau.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu 2:1 mewn disgyblaeth berthnasol.

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### MOESEG AC UNIONDEB CHWARAEON MA AU

Mewn ymateb i'r argyfwng byd-eang o ran uniondeb chwaraeon, mae'r cwrs hwn yn torri tir newydd ym maes gweinyddu a llywodraethu chwaraeon. Bydd y MAiSI yn paratoi myfyrwyr ar gyfer gyrfaoedd lefel uchel ym maes gweinyddu a llywodraethu chwaraeon, gyda ffocws ar chwaraeon moesegol, uniondeb a chydymffurfiaeth.

Caiff myfyrwyr hyfforddiant sy'n eu galluogi i nodi materion moesegol, meddwl yn foesol, a throsi penderfyniadau yn weithredoedd moesol – y tair sgil graidd sydd eu hangen i ddatblygu uniondeb chwaraeon.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dulliau a Sgiliau Ymchwil
- Gallu, Anabledd ac Uniondeb Chwaraeon
- Gwerthoedd Chwaraeon, Chwarae Teg ac Uniondeb
- Llywodraethu, y Gyfraith ac Uniondeb Chwaraeon
- Moeseg, Polisi ac Ymarfer Gwrth-ddopio
- Olympiaeth a'r Mudiad Olympaidd
- Rheoli Chwaraeon ac Uniondeb Chwaraeon
- Saesneg Uwch ar gyfer Moeseg ac Uniondeb Chwaraeon
- Theori Foesegol, Moeseg Chwaraeon ac Uniondeb Chwaraeon

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu uwch mewn gwyddor chwaraeon neu bwnc perthnasol, neu gymhwyster cyfatebol.

### GWYDDOR CHWARAEON

### MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil mewn chwaraeon elitaidd a phroffesiynol, ymarfer corff, meddygaeth ac iechyd neu foeseg chwaraeon, uniondeb a llywodraethu.

**Ymhlith y themâu ymchwil MSc drwy Ymchwil diweddar mae:**

- Delweddu Sgiliau Symudiad Sylfaenol (FMS): Proses Iterus Gan Ddefnyddio Tafliad Tros Ysgwydd
- Proffilio Corfforol a Ffisiolegol ym Maes Rygbi Menywod Elît
- Deall Anghymesureddau Niwrogyhyrol Rhannau Isaf y Corff mewn Athletwyr Undeb Rygbi

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# GWYDDOR CHWARAEON AC YMARFER CORFF

CAMPWS Y BAE

- Ymateb glwcos yn y gwaed i brofion ymarfer corff cardio-pwlmonaidd ar gyfer diabetes math 1.
- Dylanwad llyncu carbohydradau ar flinder a pherygl anafiadau ar gyfer chwaraewyr pêl-droed benywaidd.
- Effaith Hyfforddiant Gwytnwch Dwysedd Cyson (CIET) a Hyfforddiant Egwyl Dwysedd Uchel (HIIT) ar baramedrau aerobig ac anaerobig ymhlith ieuenctid.

**Ymhlith y traethodau ymchwil PhD diweddar mae:**

- Deall dylanwad ansawdd aer ar weithgarwch corfforol ymhlith ieuenctid er mwyn datblygu ysgogiadau penodol ar gyfer hyrwyddo gweithgarwch corfforol a lleihau pyliau o Asthma.
- Symud gyda'n gilydd: Ymyrraeth rhwng cenedlaethau ar sail technoleg i gynyddu gweithgaredd corfforol a lles ymysg oedolion hŷn a phlant.
- Ymarfer mewn ffibrosis systig - effeithiau ar baramedrau ffisiolegol a seicolegol.
- Strategaethau cyn cystadlu ac adfer mewn chwaraeon elitaidd: defnyddio achludiad fasgwlaidd ac isgemia.
- Tegwch a Gwahaniaeth: Fframwaith Moesegol ac Athronyddol ar gyfer Dosbarthu mewn Chwaraeon Paralympaidd.
- Amddiffyn Iechyd a Lles Plant mewn Chwaraeon.
- Deall, hyrwyddo a diogelu lles nofwyr cystadleuol.

Edrych ar ein gwefan ar gyfer y rhestr lawn o brosiectau ymchwil sydd ar gael.





# GWYDDORAU MEDDYGOL A BYWYD

CAMPWS PARC SINGLETON

AF YN Y DU
**1**
AMGYLCHEDD YMCHWIL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Fel un o brif ganolfannau'r DU am ymchwil feddygol sydd ymhith y deg uchaf yn y DU am feddygaeth, ansawdd ymchwil ac amgylchedd ymchwil yn gyson, mae Prifysgol Abertawe yn cynnig cyfleoedd rhagorol i ôl-raddedigion yn y gwyddorau meddygol yn ogystal â meddygaeth a gofal iechyd.**

**P'un a wyt yn dewis dilyn cwrs gradd ôl-raddedig er mwyn dilyn dy ddiddordebau, gwella dy yrfa neu newid cyfeiriad, mae ein fframwaith modiwlaidd yn dy alluogi i astudio'n llawn amser neu'n rhan amser, ar-lein, ar y campws neu drwy gyfuniad o'r rhain.**

**Gall ein myfyrwyr, ein hymchwilwyr a'n partneriaid fanteisio ein harbenigedd ymchwilwyr ac addysgwyr rhyngwladol a chael budd o gyfleusterau ymchwil ac addysgu o'r radd flaenaf, gan gynnwys y Sefydliad Gwyddor Bywyd gwerth miliynau o bunnau, y Ganolfan NanoIechyd a'r Adeilad Gwyddor Data.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gweler y cyrsiau unigol.

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

Am ragor o fanylion, gweler:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

## Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)

Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid yn y GIG ac mewn diwydiant i gynnig amgylchedd dysgu DPP bywiog ac arloesol er mwyn diwallu anghenion unigolion a busnesau gan ddilyn dull hyblyg o weithredu.

Am ragor o fanylion, gweler:

**abertawe.ac.uk/y-brifysgol/colegau/ysgol-feddygaeth-prifysgol-abertawe/dpd**

### FFISEG YMBELYDREDD MEDDYGOL MSc

Mae'r MSc mewn Ffiseg Ymbelydredd Meddygol wedi'i gynllunio i sicrhau bod graddedigion peirianneg a gwyddorau ffisegol yn meithrin y wybodaeth ddamcaniaethol angenrheidiol a dealltwriaeth o agweddau sylfaenol ar y defnydd o ymbelydredd mewn meddygaeth.

Byddi di'n manteisio ar ymarfer clinigol drwy hyfforddiant ymarferol ar ddefnyddio'r cyfarpar a ddefnyddir yn rheolaidd mewn ysbytai, gan gynnwys cyfleusterau MRI a CT o'r radd flaenaf, a chyflymyddion unionlin meddygol, a fydd yn dy baratoi ar gyfer hyfforddiant clinigol neu ymchwil yn y maes hwn sy'n newid yn gyflym. Byddi di hefyd yn dysgu am fodelu cyfrifiadurol, methodoleg ymchwil a'r dimensiynau moesegol sy'n gysylltiedig ag ymchwil feddygol.

Mae'r rhaglen wedi'i hachredu gan y Sefydliad Ffiseg a Pheirianneg ym maes Meddygaeth (IPEM).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyflwyniad i ymarfer Ffisegwyr Meddygol a Pheirianwyr Clinigol mewn Gofal Iechyd
- Delweddu Meddygol
- Diogelwch Ymbelydredd
- Diogelwch Ymbelydredd Uwch
- Dulliau Ymchwil
- Efelychu ar Raddfa Nano
- Ffiseg Radiotherapi
- Meddygaeth Niwclear a Radioleg Ddiagnostig
- Prosiect Ymchwil
- Radiotherapi Uwch
- Traethawd Hir MSc - Ffiseg Ymbelydredd Meddygol

**Gofynion mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi mewn peirianneg neu'r gwyddorau ffisegol.

### GWYBODEG IECHYD PGCert/PGDip/MSc

Mae polisïau'r llywodraeth, cyrff proffesiynol a strategaethau Ewropeaidd oll wedi cyfeirio'n benodol at yr angen i gael staff gofal iechyd sydd wedi cael addysg a hyfforddiant ar wybodeg iechyd er mwyn cyd-fynd â'r datblygiadau newydd a natur newidiol technoleg newydd.

Mae'r rhaglen hon ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a'r rheini sydd am feithrin eu gwybodaeth a'u sgiliau ym maes gwybodeg iechyd, ac a achredir gan Gyngor Proffesiynau Gwybodeg Iechyd y DU (UKCHIP).

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Cyfathrebu a Chodio
- Defnyddio Data Iechyd Eilaidd
- Gwybodeg Iechyd mewn Cyd-destun
- Rheoli Gwybodaeth
- Systemau a Thechnolegau
- Ymchwil Gwybodeg Iechyd

**Gofynion mynediad**
Croesewir ymgeiswyr â dwy flynedd o gyflogaeth berthnasol, yn ogystal â graddedigion disgyblaeth berthnasol â gradd anrhydedd 2:2, neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig.

### GWYDDONIAETH GLINIGOL (FFISEG FEDDYGOL) MSc RhA

Mae'r rhaglen MSc mewn Gwyddoniaeth Glinigol yn adeiladu ar y ffordd rydym yn cydweithio â'r GIG ar hyn o bryd i ddarparu'r prif lwybr i ennill y teitl proffesiynol Gwyddonydd Clinigol ym maes Ffiseg Feddygol.

Mae'r rhaglen wedi'i hachredu gan y GIG a rhydd elfen academaidd Rhaglen Hyfforddi Gwyddonwyr ar gyfer ffisegwyr meddygol dan hyfforddiant, o fewn y fframwaith Moderneiddio Gyrfaoedd Gwyddonol a ddiffinnir gan Adran Iechyd y DU. Mae'n cynnig y cyfle i fyfyrwyr arbenigo mewn ffiseg radiotherapi neu ddiogelwch ymbelydredd. **Dim ond ar gyfer hyfforddeion a noddir gan un o ddarparwyr gofal iechyd y GIG neu ddarparwr gofal iechyd cyfatebol y mae'r radd meistr hon yn addas.**

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Cyflwyniad i Ymarfer Ffisegwyr Meddygol a Pheirianwyr Clinigol mewn Gofal Iechyd
- Delweddu Meddygol
- Diogelwch Ymbelydredd
- Diogelwch Ymbelydredd Arbenigol
- Diogelwch Ymbelydredd Uwch
- Dulliau Ymchwil
- Ffiseg Radiotherapi
- Meddygaeth Niwclear a Radioleg Ddiagnostig
- Radiotherapi Arbenigol
- Radiotherapi Uwch

**Gofynion mynediad**
Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi mewn peirianneg neu'r gwyddorau ffisegol.

### GWYDDOR BIOFEDDYGOL (BIOCEMEG GLINIGOL) MSc/PGDip AU RhA

Bydd y cwrs hwn yn archwilio agweddau damcaniaethol ac ymarferol ar Fiocemeg Glinigol yng nghyd-destun disgyblaeth diagnosis ac archwiliol Gwyddor Biofeddygol. Drwy feithrin sgiliau gwyddonol biomeddygol a rhinweddau ymarfer proffesiynol trosglwyddadwy, bydd y cwrs yn darparu sylfeini cryf a allai wella rhagolygon cyflogaeth a dy baratoi fel graddedigion ar gyfer dysgu gydol oes drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sectorau gofal iechyd, gwyddor biofeddygol a gwyddor bywyd.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Cyflwyniad i Ymarfer Gwyddor Biofeddygol mewn Gofal Iechyd
- Datblygu Ymarfer Proffesiynol 1+2
- Sylfeini Gwyddor Biofeddygol
- Traethawd Hir - Ymchwil
- Ymchwil ac Arloesi mewn Gwyddor Biofeddygol

**Gofynion mynediad**
Gradd Anrhydedd BSc 2:2 o leiaf mewn pwnc pethnasol, fel: Bioleg Ddynol/Ffisioleg, Cemeg, Geneteg, Gwyddor Clinigol, Gwyddor Feddygol

Ystyrir ceisiadau sy'n rhan o gynllun ehangu mynediad at Addysg Uwch fesul achos. Disgwylir i ymgeiswyr amlinellu eu dysgu drwy brofiad blaenorol dros o leiaf 3 blynedd.

### GWYDDOR BIOFEDDYGOL (MICROBIOLEG GLINIGOL) MSc/PGDip AU RhA

Bydd y cwrs yn archwilio agweddau damcaniaethol ac ymarferol Microbioleg Glinigol yng nghyd-destun disgyblaeth ddiagnostig ac archwiliol Gwyddor Biofeddygol. Drwy feithrin sgiliau gwyddonol biofeddygol a rhinweddau ymarfer proffesiynol trosglwyddadwy, bydd y cwrs yn darparu sylfeini cryf a allai wella rhagolygon cyflogaeth a dy baratoi fel graddedigion ar gyfer dysgu gydol oes drwy ddatblygiad proffesiynol parhaus yn y sectorau gofal iechyd, gwyddor biofeddygol a gwyddor bywyd.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Cyflwyniad i Ymarfer Gwyddor Biofeddygol mewn Gofal Iechyd
- Datblygu Ymarfer Proffesiynol 1+2
- Selfeini Gwyddor Biofeddygol
- Traethawd Hir - Ymchwil
- Ymchwil ac Arloesi mewn Gwyddor Biofeddygol

**Gofynion mynediad**
Gradd Anrhydedd BSc 2:2 o leiaf mewn pwnc pethnasol, fel: Bioleg Ddynol/Ffisioleg, Cemeg, Geneteg, Gwyddor Clinigol, Gwyddor Feddygol.

Ystyrir ceisiadau sy'n rhan o gynllun ehangu mynediad at Addysg Uwch fesul achos. Disgwylir i ymgeiswyr amlinellu eu dysgu drwy brofiad blaenorol dros o leiaf 3 blynedd.

### GWYDDOR DATA IECHYD MSc/PGDip/PGCert AU RhA ION

Os wyt ti'n gweithio mewn rôl gofal iechyd sy'n cynnwys dadansoddi data iechyd, gallai'r radd hon roi mynediad i ti i un o'r meysydd sy'n tyfu gyflymaf yn y DU. Dyluniwyd y cwrs hwn i ddatblygu'r sgiliau a'r wybodaeth hanfodol y bydd eu hangen arnat fel Gwyddonydd Data Iechyd. Byddi di'n dysgu sut i brosesu'r data hwn er mwyn tynnu gwybodaeth werthfawr am boblogaeth (cymwysiadau epidemiolegol) sydd â'r potensial i wella ansawdd bywyd ar raddfa fawr.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Biowybodeg ar gyfer Dadansoddi Genomau
- Cyfrifiadura Gwyddonol a Gofal Iechyd
- Dadansoddi Data Iechyd Cysylltiedig
- Delweddu Data Iechyd
- Dysgu Peirianyddol mewn Gofal Iechyd
- Modelu Data Iechyd
- Traethawd Hir ar bwnc gwyddor data iechyd perthnasol

**Gofynion mynediad**
Croesewir ymgeiswyr â dwy flynedd o gyflogaeth berthnasol, yn ogystal â graddedigion disgyblaeth berthnasol â gradd anrhydedd 2:2, neu gymhwyster cyfatebol cydnabyddedig.

### MEDDYGAETH GENOMIG PGCert/PGDip/MSc AU RhA

Comisiynwyd y cwrs MSc mewn Meddygaeth Genomig gan Lywodraeth Cymru fel rhan o strategaeth Cymru gyfan i ddarparu hyfforddiant ar Genomeg. Mae'r cwrs hwn, a lywiwyd gan Addysg Iechyd Lloegr, GIG Lloegr a Genomig Lloegr Ltd, yn paratoi graddedigion, gwyddonwyr a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol i ddeall a dehongli data genomig er mwyn llywio ymchwil wyddonol ac ymarfer clinigol er mwyn gwella gofal cleifion yn y pen draw.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Biowybodeg ar gyfer Dadansoddi Genomau
- Cyflwyniad i Geneteg Ddynol a Genomeg
- Cymhwyso Genomeg mewn Clefyd Heintus
- Ffarmacogenomeg a Gofal Iechyd Haenedig
- Genomeg Canser
- Genomeg Clefydau Etifeddedig Cyffredinol a Phrin
- Materion Moesegol, Cyfreithiol, a Chymdeithasol (ELSI) mewn Genomeg Gymhwysol
- Prosiect Traethawd Hir
- Technegau 'Omic' a'u Cymhwyso i Feddygaeth Genomig

**Gofynion mynediad**
Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 mewn pwnc perthnasol megis biocemeg, geneteg, ffarmacoleg, fferylliaeth, biowyddorau meddygol neu nyrsio.

### NANOFEDDYGAETH PGCert/PGDip/MSc AU RhA ION

Mae'r rhaglen arloesol hon yn cyfuno dull gweithredu amlddisgyblaethol nanodechnoleg a gwyddor feddygol sy'n addo dwyn datblygiadau sylweddol wrth ddiagnosio, trin ac atal clefyd. Mae'n addas i unrhyw un â gradd sy'n gysylltiedig â'r gwyddorau bywyd sy'n anelu at gyflogaeth yn y diwydiant fferyllol, a bydd myfyrwyr yn mynd i'r afael ag arloesi â chymorth nanodechnoleg ym maes meddygaeth foleciwlaidd, datblygu cyffuriau, rhoi cyffuriau uwch a delweddu/diagnosteg.

**Mae modiwlau'n cynnwys:**
- Arloesi a Rheoli Ymchwil
- Dadansoddi Data ar gyfer Gwyddorau Iechyd a Meddygol
- Diagnosteg a Delweddu
- Gwenwyneg Nano (geno)
- Meddygaeth Adfywiol
- Nanofeddygaeth, Fferyllol a Therapiwteg Uwch
- Technegau Dadansoddol ar gyfer Cemeg Feddyginiaethol a Nanofeddygaeth
- Traethawd Hir

**Gofynion mynediad**
Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 neu uwch mewn gwyddor fiolegol neu bwnc cysylltiedig; peirianneg; ffiseg; cemeg neu gymhwyster cyfatebol.

# GWYDDORAU MEDDYGOL A BYWYD

CAMPWS PARC SINGLETON

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**PhD/MPhil/MRes/MSc drwy Ymchwil:** Rhaid bod gan ymgeiswyr radd o'r DU neu gymhwyster cyfatebol i ddechrau, a byddent fel arfer wedi cael o leiaf 2:1 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi, neu'n disgwyl cael hynny.

**Graddau MD:** Fel arfer dylai ymgeiswyr fod wedi cael dyfarniad Baglor Meddygaeth neu Lawfeddygaeth o leiaf dair blynedd cyn cyflwyno'r traethawd ymchwil.

### ASTUDIAETHAU MEDDYGOL A GOFAL IECHYD MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD/MD AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'r meysydd ymchwil arbenigol canlynol:

- Biofarcwyr a Genynnau
- Dyfeisiau Meddygol
- Iechyd a Gwybodeg Cleifion a Phoblogaeth
- Microbau ac Imiwnedd

Byddi di'n manteisio ar y cysylltiadau cryf â'r GIG ac rydym yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr sydd â diddordeb ymchwil glinigol mewn:

- Canser
- Clefyd Cardiofasgwlaidd
- Clefydau Heintus
- Damweiniau
- Diabetes
- Epilepsi
- Gastroenteroleg
- Gofal cyn Ysbyty
- Gofal Symudol
- Heneiddio
- Imiwnoleg
- Llawdriniaeth oherwydd Trawma
- Llosgiadau a Phlastigau
- Rhiwmatoleg
- Seiciatreg
- Ysbyty Gartref



### GWYBODEG IECHYD MRes RhA

Mae disgyblaeth gwybodeg iechyd, sy'n datblygu, yn dod yn rhan fwyfwy pwysig o ddarpariaeth iechyd yn yr 21ain ganrif. Cynlluniwyd y cwrs MRes mewn Gwybodeg Iechyd ar gyfer pobl sydd â phrofiad o wybodeg iechyd ac sydd am gyfrannu at y maes drwy helpu i ddatblygu'r sail wybodaeth.

Canolbwyntir ar ymchwil sylfaenol, gyda sgiliau'n cael eu datblygu dros ddwy flynedd. Gellir cyflawni'r prosiect ymchwil yn dy weithle dy hun.

**Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys:**

- Bydd yr ail flwyddyn yn cynnwys cwblhau traethawd ymchwil estynedig dan oruchwyliaeth
- Cefnogir yr ymchwil gan sefydliad sydd ag enw da am wneud ymchwil a chei dy oruchwylio ar sail un i un ar bob cam o'r broses ymchwil
- Drwy bartneriaethau â chyrff y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG) yng Nghymru, gallwn gynnig amrywiaeth o gyfleoedd ymchwil
- Dysgu seiliedig ar ymarfer
- Ffocws ar ymchwil sylfaenol
- Meithrin sgiliau ymchwil drwy dri modiwl byr wrth i ti ddatblygu dy brosiect ymchwil gwybodeg iechyd ei hun yn ystod naw mis cyntaf y cwrs.

### GWYDDONIAETH DDADANSODDOL GYMHWYSOL (LCMS) MRes AU RhA

Mae galw drwy'r byd am sbectrometreg màs a chromatograffaeth wedi cynyddu ar raddfa fawr, ac mae graddedigion cymwys yn brin ac yn unigolion y mae galw mawr iawn amdanynt.

Bydd y cyfuniad unigryw o gyfranogiad yn y diwydiant a chynnwys y cwrs yn dy alluogi i ennill cymhwyster galwedigaethol-berthnasol gyda hyfforddiant a phrofiad amhrisiadwy y mae galw amdano yn y DU ac yn fyd-eang. Mae'r rhaglen mewn dau gam:

**Modiwlau a Addysgir:**

- Dadansoddi Data a Datblygu Dulliau Gweithredu
- Gwyddor Gwahanu a Thrin Samplau
- Rheoli Arferion Labordy yn Broffesiynol
- Sbectrometreg Màs – Hanfodion a Phethau Sylfaenol

**Ymchwil:**

- Prosiect ymchwil lefel meistr, sy'n canolbwyntio ar dy ddiddordeb ymchwil dy hun ac ymarfer presennol

### YMCHWIL ADDYSG Y PROFFESIYNAU IECHYD MRes/DProf AU RhA

Mae'r graddau ymchwil Doethuriaeth Broffesiynol hyn yn anelu at gynhyrchu tystiolaeth ar gyfer addysg Gweithwyr Iechyd Proffesiynol. Maent yn addas ar gyfer unrhyw un sydd am wneud ymchwil drylwyr sy'n canolbwyntio ar ymarfer i addysg gweithwyr iechyd proffesiynol. Croesewir hyfforddeion hefyd. Gall ymgeiswyr gofrestru ar gyfer rhaglen meistr fer (MRes) neu radd ymchwil Lefel Ddoethurol hir (DProf) mewn rhaglen sy'n cyfuno cam addysgu cychwynnol ag ymchwil a oruchwylir. Fel arfer gwneir yr ymchwil yng ngweithle'r myfyriwr.

**Mae'r nodweddion allweddol yn cynnwys:**

- Cefnogi datblygiad cynnig ymchwil, gan gynnwys adolygiad o'r llenyddiaeth, dulliau gweithredu methodolegol a chymeradwyaeth foesegol
- Cymorth gan gymuned ragorol o ymchwilwyr profiadol er mwyn mynd i'r afael ag anghenion penodol o ran hyfforddiant ac ymchwil
- Dadansoddiad a addysgir â ffocws o'r sail dystiolaeth ar gyfer ymarfer presennol o fewn addysg proffesiynau iechyd
- Defnydd o dîm goruchwylio profiadol er mwyn sicrhau cymorth eang ar gyfer amrywiaeth o anghenion.
- Hyfforddiant a chymorth llawn mewn perthynas ag amrywiaeth eang o ddulliau ymchwil
- Rhoddir pwyslais ar ymchwil i ymarfer, sy'n golygu y gellir gwneud ymchwil mewn gweithle

# Y GYFRAITH
## CAMPWS PARC SINGLETON

**96%**
YMCHWIL O SAFON RYNGWLADOL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae Ysgol y Gyfraith Hillary Rodham Clinton yn gymuned fywiog, sy'n datblygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod ein graddedigion mewn sefyllfa i fodloni gofynion byd cyfreithiol modern sy'n newid yn barhaus. Fel myfyriwr ôl-raddedig, byddi di'n dilyn ystod gyffrous o fodiwlau sy'n torri tir newydd gyda chymorth academyddion sydd â phrofiad gwirioneddol ar flaen y gad yn eu meysydd ymchwil. Mae ein hymchwil yn mynd i'r afael â heriau mawr mewn cymdeithas, yn cael effaith, ac yn gwneud gwahaniaeth. Rydym wedi meithrin arbenigedd ym meysydd hawliau plant, seiberderfysgaeth, cyfraith amgylcheddol, hawliau dynol, eiddo deallusol, cyfraith ryngwladol, TechCyfreithiol a chyfraith morio a masnach.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MA:** Gradd anrhydedd 2:1 o leiaf mewn disgyblaeth gysylltiedig (troseddeg a chyfiawnder troseddol, y gyfraith, polisi cymdeithasol, seicoleg, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth neu gyfrifiadureg). Gall ymgeiswyr â 2:2 neu brofiad gwaith proffesiynol perthnasol gael eu hystyried hefyd.

**LLM:** Gradd anrhydedd 2:2, o leiaf 55% yn y gyfraith neu ddisgyblaeth gytras. (LLM TechCyfreithiol ac LLM Hawliau Dynol, gradd anrhydedd 2:1 o leiaf)

**MA Heriau Byd-eang: Y Gyfraith, Polisi ac Ymarfer:** Gweler tudalen we'r cwrs am ragor o wybodaeth: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig/addysgir/gyfraith/ma-heriau-byd-eang**

Caiff ymgeiswyr â chymwysterau neu brofiad proffesiynol amgen eu hannog i wneud cais hefyd.

### SEIBERDROSEDDU A THERFYSGAETH MA AU RhA

Mae'r MA mewn Seiberdroseddu a Therfysgaeth yn gwrs rhyngddisgyblaethol, sy'n tynnu ar wyddoniaeth wleidyddol, seicoleg, troseddeg, y gyfraith a hanes i ymgysylltu'n feirniadol â throsedd ar-lein a therfysgaeth. Trwy gydol y cwrs hwn byddi di'n dysgu am y bygythiadau, tueddiadau, materion, ymatebion a chwestiynau moesegol sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a seiberdroseddu. Mae'r staff yn ymchwilwyr profiadol yn y meysydd hyn ac mae cyfleoedd i fyfyrwyr ymgymryd â'u hymchwil wreiddiol fel rhan o'u traethodau terfynol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Atal Eithafiaeth Dreisgar Ar-Lein
- Dulliau Ymchwil a Moeseg
- Fforensig Ddigidol a Phlismona Digidol
- Hawliau Dynol a Therfysgaeth Ar-Lein
- Propaganda a Radicaleiddio Ar-Lein
- Seiberddiogelwch
- Troseddu yn y Seiberofod

### TECHCYFREITHIOL LLM AU RhA

Ennill sgiliau newydd ar groesffordd y gyfraith a gwyddoniaeth gyfrifiadurol i yrru arloesedd yn y proffesiwn cyfreithiol. Mae ein cwrs gradd LLM mewn Technoleg Gyfreithiol yn rhoi cyfle i ddarganfod a chymhwyso technolegau blaengar i ymarfer cyfreithiol.

Byddi di'n meithrin dealltwriaeth o hanfodion technegol technolegau allweddol newydd gan gynnwys dysgu peiriannyddol, Deallusrwydd Artiffisial esboniadwy, a blockchain, a chyfleoedd a heriau ynghylch eu cymhwyso yn y gyfraith ac mewn ymarfer cyfreithiol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Deallusrwydd Artiffisial a'r Gyfraith: Cymwysiadau
- Deallusrwydd Artiffisial a'r Gyfraith: Egwyddorion
- Eiddo Deallusol Digidol a Thechnoleg Gyfreithiol
- Hawliau Digidol
- Meddwl Cyfrifiadol

### HAWLIAU DYNOL LLM AU RhA

Ffocws ar heriau cyfoes sy'n wynebu hawliau dynol byd-eang a sut i ymateb drwy'r gyfraith, polisi ac arfer. Bydd myfyrwyr yn cyflawni astudiaethau uwch yng nghyfraith hawliau dynol, ymchwil a gweithredu.

**Modiwlau gorfodol:**
- Cyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol
- Dulliau Ymchwil a Moeseg
- Rhoi Hawliau Dynol ar Waith
- Traethawd Hir ar Bwnc Hawliau Dynol

**Mae modiwlau arbenigol dewisol fel arfer yn cynnwys:**
- Dulliau Datblygu Seiliedig ar Hawliau
- Hawliau Dynol a Therfysgaeth Ar-Lein
- Hawliau Dynol a'r Amgylchedd
- Hawliau Dynol Plant
- Hawliau Dynol, Lloches a Mewnfudo

### CYFRAITH FASNACHOL RYNGWLADOL LLM AU RhA

Dysga am heriau cyfreithiol ac ymarferol trafodion masnachol, rhyngwladol, amrywiol.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**



### CYFRAITH FASNACHOL A MORWROL RYNGWLADOL LLM AU RhA

Cer ati i feithrin dy wybodaeth am drafodion masnachol rhyngwladol amrywiol a heriau cyfraith forwrol.

### CYFRAITH FORWROL RYNGWLADOL LLM AU RhA

Nodi'r contractau gwahanol ar gyfer cludo nwyddau, yswiriant morol, masnach ryngwladol a chyfraith y môr.

### EIDDO DEALLUSOL AC ARLOESI LLM AU RhA

Archwilio asedau anniriaethol neu 'gudd' a sut y gall cwmnïau eu rheoli mewn ffordd fasnachol effeithiol.

### CYFRAITH FASNACH RYNGWLADOL LLM AU RhA

Meistroli masnach ryngwladol a chanolbwyntio ar y materion cyfreithiol a masnachol sy'n gysylltiedig â chontractau gwerthiannau rhyngwladol.

### CYFRAITH OLEW, NWY AC YNNI ADNEWYDDADWY LLM AU RhA

Cyfle i feithrin dealltwriaeth fanwl o'r gyfraith mewn perthynas â'r diwydiant olew a nwy a ffynonellau ynni newydd, yn enwedig ynni adnewyddadwy.

### HERIAU BYD-EANG: Y GYFRAITH, POLISI AC YMARFER MA AU

Bydd y cwrs gradd meistr hwn a ariennir yn llawn ac sy'n rhan allweddol o Raglen Heriau Byd-eang Hillary Rodham Clinton, yn datblygu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr rhagorol byd go iawn ym meysydd ysgolheictod, gweithredaeth ac ymarfer cyfreithiol. Mae'r rhaglen yn mynd i'r afael â heriau brys, gan gynnwys: newid yn y hinsawdd, anghyfiawnder ar sail hil, newid ar-lein, hawliau plant, a hawliau dynol a thechnoleg.

**Mae modiwlau gorfodol fel arfer yn cynnwys:**
- Cyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol
- Prosiect Ymchwil Heriau Byd-Eang
- Trawsnewid Cyfraith a Pholisi
- Wynebu Heriau Byd-Eang
- Ymchwil Gyfreithiol Uwch

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**
- Atal Eithafiaeth Dreisgar Ar-Lein
- Hawliau Dynol a Therfysgaeth Ar-Lein
- Hawliau Dynol a'r Amgylchedd
- Hawliau Dynol, Lloches a Ymfudo
- Troseddu yn y Seiberofod

**Mae ein cyfres o raddau LLM mewn Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol yn cynnig rhaglenni cyffredinol ac arbenigol. Mae'r tabl yn nodi'r modiwlau sydd ar gael ar bob rhaglen. Mae'r rhaglenni unigol fel a ganlyn:**

| Modiwlau sydd ar gael | LLM Cyfraith Fasnachol Ryngwladol | LLM Cyfraith Fasnachol a Morwrol Ryngwladol | LLM Cyfraith Forwol Ryngwladol | LLM Eiddo Deallusol ac Arloesi | LLM Cyfraith Fasnach Ryngwladol | LLM Cyfraith Olew, Nwy ac Ynni Adnewyddadwy |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cludo Nwyddau ar Fôr, Tir ac yn yr Awyr | | • | • | | | |
| Cyflafareddu Masnachol Rhyngwladol (a achredir gan Sefydliad y Cyflafareddwyr Siartredig (CIArb)) | • | • | • | • | • | • |
| Cyfraith a Llywodraethu Corfforaethol Rhyngwladol | • | • | | • | | |
| Cyfraith ac Ymarfer ym Maes Bancio Rhyngwladol a Thaliadau Masnachol | • | • | | | • | • |
| Cyfraith Cyllid yn Ymwneud â Llongau ac Asedau Symudol Eraill | • | • | • | • | | |
| Cyfraith Eiddo Deallusol Rhyngwladol | • | • | | • | | |
| Cyfraith Fasnach Ryngwladol | | • | • | | • | • |
| Cyfraith Morlys | | • | • | | | |
| Cyfraith Olew a Nwy: Contractau a Rhwymedigaethau | | • | • | | | • |
| Cyfraith y Môr | | • | • | | | • |
| Cyfraith Ynni Ryngwladol | | | | | | • |
| Cyfraith Yswiriant Morol | | • | • | | • | • |
| Eiddo Deallusol, Arloesi a'r Gyfraith | • | • | | • | | • |
| Masnach a Thaliadau Electronig | • | • | • | • | • | |
| Siartrau Llogi Llong: Cyfraith ac Ymarfer | | • | • | | • | |

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

## RHAGOLYGON GYRFA

Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i fod yn gyfreithwyr neu'n fargyfreithwyr arbenigol, gwneud ymchwil bellach neu ymuno â'r byd academaidd ac addysgu.

## CYRSIAU PROFFESIYNOL

**Gofynion Mynediad**

**LPC:** 2:2 neu uwch mewn gradd anrhydedd gymwys yn y DU yn y gyfraith (fel y nodir gan yr SRA) o brifysgol a gydnabyddir yn y DU neu Ddiploma yn y Gyfraith i Raddedigion (GDL) neu gymhwyster tebyg.

**LLM mewn Ymarfer Cyfreithiol ac Darfftio Uwch:** 2:2 neu uwch mewn gradd anrhydedd gymwys yn y DU yn y gyfraith (fel y nodir gan yr SRA) o brifysgol a gydnabyddir yn y DU neu Ddiploma yn y Gyfraith i Raddedigion (GDL) neu gymhwyster cyfatebol.

Caiff ymgeiswyr â chymwysterau neu brofiad proffesiynol amgen eu hannog i wneud cais hefyd.

## CWRS YMARFER CYFREITHIOL (LPC) AU RhA

Mae'r Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) yn gwrs ymarferol proffesiynol sy'n meithrin y sgiliau a'r wybodaeth allweddol sydd eu hangen ar gyfer gyrfa lwyddiannus yn y gyfraith yng Nghymru a Lloegr. Caiff myfyrwyr ofal a chymorth bugeiliol ardderchog gan staff cymwysedig proffesiynol, ynghyd ag arweiniad arfer da ar gyfer datblygiad personol a hyfforddiant.

Mae'r LPC wedi'i gynllunio ar gyfer y rhai meddu ar radd yn y gyfraith neu Ddiploma yn y Gyfraith i Raddedigion. Gweler ein gwefan i gael fanylion am gyrsiau os nad oes gen ti radd yn y gyfraith.

**Cam 1 – Pynciau Craidd**

- Cyfraith ac Ymarfer Busnes
- Cyfraith ac Ymarfer Eiddo
- Cyfrifon Cyfreithwyr
- Ewyllysiau a Gweinyddu Ystadau
- Ymddygiad Proffesiynol a Rheoleiddio
- Ymgyfreitha (Troseddol A Sifil)

**Cam 2 – Pynciau Dewisol (dewisa dri o'r canlynol)**

- Anafiadau Personol ac Esgeulustod Clinigol
- Cyfraith ac Ymarfer Teulu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Cyfraith Fasnachol Uwch
- Cyfraith Trosedd Uwch
- Datrys Anghydfodau Masnachol
- Lesau Busnes

**SUT I WNEUD CAIS**

**Amser llawn**

Gwna gais drwy'r Bwrdd Ceisiadau Canolog yn:

lawcabs.ac.uk

**Rhan amser**

Gwna gais yn uniongyrchol i:

abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais

## YMARFER CYFREITHIOL A DRAFFTIO UWCH LLM AU RhA

Gwella dy sgiliau cyflogadwyedd a chyfreithiol drwy uwchraddio dy Gwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) yn radd meistr.

**SUT I WNEUD CAIS**

**Amser llawn**

Gwna gais drwy'r Bwrdd Ceisiadau Canolog:

lawcabs.ac.uk

**Rhan amser**

Gwna gais yn uniongyrchol i:

abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MPhil/PhD:** O leiaf 2:1 ar lefel israddedig (heb fethu yn unrhyw fodiwlau), yn ogystal â gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf.

Ymuna â'n cymuned ffyniannus o fyfyrwyr ymchwil ôl-raddedig, lle y byddi di'n rhan o amgylchedd cefnogol sy'n ymroddedig i ddeall rhai o faterion mwyaf heriol cymdeithas.

Mae gradd ymchwil yn y gyfraith yn cynnig cyfle i ti gyflawni prosiect sy'n seiliedig ar dy hoffterau a dy ddiddordebau, gan arwain at gymhwyster sy'n gallu agor y drws i yrfa academaidd neu wella dy ragolygon cyflogaeth mewn amrywiaeth o feysydd eraill.

## Y GYFRAITH MPhil/PhD AU RhA


Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr y mae eu diddordebau yn cyfateb i'n meysydd ymchwil:

- Cyfraith a Pholisi Teuluol
- Cyfraith Amgylcheddol
- Cyfraith Feddygol
- Cyfraith Forwrol
- Cyfraith Gyffredin, gan gynnwys Cyfraith Contract a Masnachol
- Cyfraith Gyhoeddus
- Cyfraith Hawliau Dynol Rhyngwladol a Domestig
- Cyfraith Olew a Nwy
- Cyfraith Trosedd Gwrthderfysgaeth a Seiberdroseddu
- Hawliau Plant
- TechCyfreithiol

Efallai yr hoffet ti edrych ar ein hopsiynau PhD ym maes Troseddeg. Gweler tudalen 170 am ragor o wybodaeth.

## CANOLFAN HYFFORDDIANT DOETHUROL CYMRU ESRC

Fel rhan o Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC, mae'r adran yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant ôl-raddedig ardderchog. Darparwn gymysgedd o hyfforddiant ymchwil cyffredinol a hyfforddiant ymchwil pwnc-benodol sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu a chymhwyso dulliau ymholi troseddegol.



“Y peth gorau am astudio yn Ysgol y Gyfraith yw'r adnoddau academaidd. O ddeunyddiau addysgu syml, y seminarau rhyngweithiol, y cyfleoedd cyflogadwyedd sydd ar gael a'r sesiynau cyngor un-i-un gyda thiwtor personol.

Cymera ran weithredol yn dy astudiaethau academaidd, yn enwedig pan fo angen rheoli amser. Cyfranna at y modiwlau nad ydynt yn cael eu graddio.

Fodd bynnag, ceisia beidio â chyfyngu dy hun i'r ystafell ddosbarth yn unig. Ymuna â chymdeithas anacademaidd. Cysyllta dy gyfoedion a llunio cysylltiadau. Mae gan Ysgol y Gyfraith a'r Brifysgol staff a myfyrwyr o ystod o gefndiroedd diwylliannol ac addysgol sy'n cyfrannu at wella dy brofiad dysgu a dy brofiad fel myfyriwr.”

*Sean Ebenezer Marte Markwei*

LLM MEWN CYFRAITH FASNACHOL A MORWROL RYNGWLADOL

# HANES
CAMPWS PARC SINGLETON

**30**
UCHAF YN Y DU
ADRAN HANES
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Rydym yn arbenigo yn hanes Ynysoedd Prydain ac Ewrop, ac mae sawl aelod o staff yn archwilio cysylltiadau rhwng Prydain, Ewrop, a gweddill y byd. Rhydd Cymru ffocws ymchwil cryf i rai aelodau o'r adran.**

**Mae arbenigedd ein staff yn cwmpasu treftadaeth a hanes cyhoeddus; hanes cymdeithasol ac economaidd; hanes gwyddoniaeth a meddygaeth; hanes anabledd; hanes diwylliannol a deallusol; hanes rhywedd; hanes gwrthdaro a phŵer; astudiaethau'r cof; tirwedd ac archaeoleg; a hanes trefol a diwydiannol. Mae ystod gronolegol ein gwaith yn ymestyn o'r canoloesoedd cynnar i'r 21ain ganrif.**

**Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf Llywodraeth y DU (2014), cafodd ymchwil Hanes yn Abertawe ei graddio'n 27ain yn y DU a dyfarnwyd bod dros 80% o'r gwaith a gyflwynwyd yn 'arwain yn fyd-eang' (4*) neu'n 'rhyngwladol ardderchog' (3*).**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**
Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 mewn hanes neu bwnc cysylltiedig.

**MA mewn Astudiaethau'r Oesoedd Canol:**
Fel arfer, gradd anrhydedd 2:2 (55% neu uwch) mewn astudiaethau'r oesoedd canol, hanes neu lenyddiaeth neu gymhwyster cyfatebol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.
Am ragor o fanylion, gweler:
**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### ASTUDIAETHAU'R OESOEDD CANOL MA AU RhA

Mae'r MA mewn Astudiaethau'r Oesoedd Canol yn defnyddio arbenigedd staff sy'n gweithio ar hanes canoloesol ac iaith a llenyddiaeth ganoloesol. Mae'r MA yn cwmpasu'r Cynfyd Diweddar i'r Dadeni, ac Ynysoedd Prydain a Ffrainc i'r Eidal a'r Tir Sanctaidd. Ymhlith y meysydd y mae staff yn arbenigo ynddynt yn benodol mae rhywedd, crefydd a chred, diwylliannau trefol a gwledig, iechyd, meddygaeth a'r corff, iaith ac amlieithrwydd, a hunaniaethau cymdeithasol, ysbrydol a diwylliannol. Caiff myfyrwyr gyfle i ymgyfarwyddo â threftadaeth ganoloesol de Cymru a'r ardal gyfagos, drwy weithio gyda Swyddfa Cofnodion Gorllewin Morgannwg a llyfrgell Eglwys Gadeiriol Henffordd a thrwy fod mewn cysylltiad â'r sefydliadau sy'n gyfrifol am gadwraeth safleoedd hanesyddol yng Nghymru.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Agonïau ac Ecstasïau: Seintiau a Mystig yn yr Oesoedd Canol
- Cyflwyniad i Astudiaethau Canoloesol Uwch 1: Sgiliau a Dulliau Gweithredu
- Cyflwyniad i Astudiaethau Canoloesol Uwch 2: Themâu a Ffynonellau
- Darllen dan Gyfarwyddyd mewn Astudiaethau Canoloesol
- Enmity and Entanglement: Iddewon Lloegr yr Oesoedd Canol
- Lladin
- Llawysgrifau Canoloesol
- Lleoliad Gwaith Astudiaethau Canoloesol
- Y Canoloesoedd Cwiar: Cyrff, Testunoldeb a Gwrthrychau
- Y Da A'r Drwg yn y Cynfyd Diweddar Cristnogol

### HANES MA AU RhA

Mae'r MA mewn Hanes yn cwmpasu ystod eang o bynciau o'r Canoloesoedd ymlaen. Mae arbenigedd amrywiol haneswyr Prifysgol Abertawe yn cynnig y cyfle i astudio Hanes Prydain, Ewrop, America, a'r Byd. Mae'r MA yn galluogi myfyrwyr i archwilio hanes celf a diwylliant, ymerodraeth, rhywedd, gwleidyddiaeth, crefydd, rhywioldeb a gwyddoniaeth. Gan weithio gyda deunyddiau yn Archifau Richard Burton, caiff myfyrwyr y cyfle hefyd i feithrin eu gallu i gyflwyno ymchwil hanesyddol i'r cyhoedd.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Abertawe a'r Môr
- Arferion Newydd wrth Ysgrifennu Hanes
- Cymru ers 1945
- Cyrff Meddygol Modern: Prif Themâu yn Hanes Meddygaeth Fodern
- Dadleuon a Dulliau Gweithredu mewn Treftadaeth a Hanes Cyhoeddus
- Darllen dan Gyfarwyddyd mewn Hanes
- Dulliau Gweithredu Hanesyddol
- Enmity and Entanglement: Iddewon Lloegr yr Oesoedd Canol, 1066-1290
- Ffasgiaeth a Diwylliant
- Ffeministiaeth a Gweithredaeth Pobl Gwiar ym Mhrydain wedi Rhyfel

### HANES CYHOEDDUS A THREFTADAETH MA AU RhA

Mae'r MA mewn Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth yn rhaglen hyblyg sydd wedi'i chynllunio i gynnig cyfuniad o hyfforddiant academaidd a sgiliau cyflogadwyedd. Byddi di'n astudio modiwl sy'n archwilio dadleuon a dulliau gweithredu mewn hanes cyhoeddus a threftadaeth, ynghyd â lleoliad gwaith, ac yn dewis o blith amrywiaeth o opsiynau gan gynnwys modiwlau hanes yr henfyd, diwylliant yr hen Aifft, hanes, hunaniaethau Cymreig, themâu treftadaeth, arferion archifau/cyfathrebu ac arferion amgueddfeydd.

### HANES CYHOEDDUS A THREFTADAETH MA (ESTYNEDIG) AU RhA

Mae'r rhaglen MA Estynedig hon yn cyfuno'r MA Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth â chyfnod o astudio dramor. Treulir un tymor ychwanegol yn astudio dramor ym Mhrifysgol Daleithiol yr Appalachiaid yng Ngogledd Carolina. Mae'r tymor ychwanegol yn gwneud yr MAE yn gyfwerth ag MA Ewropeaidd o ran credydau.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Arferion Newydd wrth Ysgrifennu Hanes
- Cyrraedd y Cyhoedd: Amgueddfeydd a Thrin Gwrthrychau (Arferion Amgueddfeydd)
- Dadleuon a Dulliau Gweithredu mewn Treftadaeth a Hanes Cyhoeddus
- Deall Diwylliant yr Hen Aifft
- Dulliau Gweithredu Hanesyddol
- Hunaniaethau Cymreig: Llenyddiaeth a Chenedligrwydd
- Lleoliad Gwaith Treftadaeth
- Methodolegau Ymchwil ym Maes Hanes yr Henfyd
- O Drysor Tywysogaidd i Amgueddfeydd Cyhoeddus
- Treftadaeth Wenwynig

### HANES MODERN MA AU RhA

Mae'r cwrs MA mewn Hanes Modern yn manteisio ar arbenigedd eang iawn yr Adran Hanes mewn hanes modern. Mae'n galluogi myfyrwyr i archwilio hanes yr oes fodern o amrywiaeth o safbwyntiau, gan gynnwys gwrthdaro, y cof, rhywedd, diwylliant, treftadaeth, rhywioldeb, gwyddoniaeth a meddygaeth.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Arferion Newydd wrth Ysgrifennu Hanes
- Cymru ers 1945
- Cyrff Meddygol Modern: Themâu Pwysig yn Hanes Meddygaeth Fodern
- Dadleuon a Dulliau Gweithredu mewn Treftadaeth a Hanes Cyhoeddus
- Darllen dan Gyfarwyddyd mewn Hanes
- Dulliau Gweithredu Hanesyddol
- Ffasgiaeth a Diwylliant
- Ffeministiaeth a Gweithredaeth Pobl Gwiar ym Mhrydain wedi Rhyfel
- Treftadaeth Wenwynig

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**
Fel arfer mae disgwyl i ymgeiswyr MA trwy Ymchwil feddu ar radd israddedig mewn hanes neu bwnc cysylltiedig ar lefel 2:1, neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe. Dylai ymgeiswyr am MPhil neu PhD hefyd feddu neu ddisgwyl cyflawni gradd meistr gyda gradd isafswm 'Teilyngdod', neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe.

### HANES MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

Rydym yn gwahodd ceisiadau gan ymgeiswyr â chymwysterau da y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb â'n meysydd arbenigedd ymchwil. Rydym yn annog darpar ymgeiswyr i gysylltu â'r adran yn anffurfiol i drafod eu cynigion. Ymhlith y pynciau y gall haneswyr yn Abertawe eu goruchwylio mae:

**Hanes yr Oesoedd Canol**
- Archaeoleg a Hanes y Dirwedd
- Brenhiniaeth a Meddylfryd Wleidyddol Ganoloesol
- Bywyd Trefol
- Cyffingymdeithasau a Chyffindiroedd Canoloesol, a Chysyniadau'r Gororau o Ddiwedd yr Ymerodraeth Rufeinig hyd at Heddiw
- Ffrainc Gapetaidd, yn enwedig y Frenhiniaeth, Pendefigaeth, ac Urddau Crefyddol
- Hanes Anableddau, Meddygaeth, ac Iechyd
- Hanes y Gyfraith
- Lleiafrifoedd, Allgáu Cymdeithasol, Mewnfudo ac Integreiddio Ethnig
- Lloegr a Chymru yng Nghanol a Diwedd y Canoloesedd
- Rhyngnewidiadau Diwylliannol Rhwng Dwyrain a Gorllewin
- Rhywedd a'r Cylch Bywyd
- Siarteri a Chofnodion Dogfennol Ffrainc a Lloegr y Canoloesoedd

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

- 'Teyrnas' yr Eingl-Normaniaid ac Ymerodraeth Angevin
- Y Byd Naturiol
- Y Croesgadau a Christionogaeth Ladin
- Ysgrifennu Hanesyddol Canoloesol

**Hanes Modern Cynnar**

- Cynrychiolaethau Modern o'r Gorffennol Modern Cynnar
- Diwylliant Gwleidyddol a Chrefyddol Prydain yn yr Ail Ganrif ar Bymtheg
- Diwylliant Print a Hanes y Llyfr
- Gwyddoniaeth a Meddygaeth, Bywyd Deallusol, ac Amgueddfeydd a Diwylliant Materol
- Hanes Anableddau
- Hanes Cymdeithasol Rhyw a Phriodas Modern Cynnar
- Hanes Ewrop, yn enwedig Prydain, yr Eidal, Portiwgal, a Thiroedd Almaeneg eu Hiaith
- Hanes Morol ac Ymerodrol

**Hanes Modern**

- Addysg a Hanes Deallusol
- Allfudo a Threfoli ar Ynysoedd Prydain rhwng y Deunawfed Ganrif a'r Ugeinfed Ganrif
- Astudiaethau'r Cof a Hanes Llafar Ewrop yr Ugeinfed Ganrif
- Chwaraeon a Hamdden
- Cymru a Chymry Dramor
- Gorllewin Ewrop ar ôl 1945, gan gynnwys Ailadeiladu wedi'r Rhyfel
- Gwyddoniaeth, Meddygaeth, a Chlefyd
- Hanes a Threftadaeth Gyhoeddus
- Hanes Anableddau
- Hanes Cyfreithiol Prydain ac America, ar ôl 1750
- Hanes Protest ac Actifiaeth yn y 1960au a'r 1970au
- Hanes Syniadau Gwleidyddol
- Hanes Trawsgenedlaethol
- Hanes Trefol
- Hanes yr Holocost
- Prydain ac Ymerodraeth Prydain rhwng 1800 a Heddiw
- Rhyfel a Chymdeithas yn Ewrop rhwng 1750 ac 1815
- Trosedd, Plismona, a Chosb yn Ewrop yr Ugeinfed Ganrif
- Y Rhyfel Byd Cyntaf
- Y Rhyfel Oer a'r Oes Niwclear
- Yr Eidal yn yr Ugeinfed Ganrif; Ffasgiaeth yn yr Eidal

**Ymhlith y grwpiau ymchwil mae:**

- CECSAM, y Ganolfan ar gyfer Astudiaethau Cymharol Cyfandiroedd America
- CODAH, Canolfan y Celfyddydau a'r Dyniaethau Digidol
- CRAM: Grŵp Ymchwil ar gyfer Gwrthdaro, Ail-lunio a'r Cof
- MEMO: Y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Ganoloesol a'r Cyfnod Modern Cynnar
- Canolfan Astudiaethau Cymreig Richard Burton
- Y Grŵp Ymchwil ar gyfer Iechyd, Hanes, a Diwylliant

**Canolfan Graddedigion**

Fel myfyrwyr ymchwil Hanes, fe fyddi di'n perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, a hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig o 200 o fyfyrwyr.

**ARCHIFAU RICHARD BURTON (ARCHIFAU'R BRIFYSGOL)**

Mae cyhoeddi The Richard Burton Diaries, a olygwyd gan Chris Williams, cyn-Athro Hanes Cymru a chyn-Gyfarwyddwr Sefydliad Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, wedi cael sylw a chlod byd-eang ac wedi datgelu ochr wahanol iawn i bersona cyhoeddus yr actor adnabyddus.

Deilliodd y llyfr o ymchwil fanwl i ddyddiaduron Richard Burton, a ysgrifennwyd mewn llawysgrifen ganddo rhwng 1939 ac ychydig cyn ei farwolaeth yn 1984, ac a roddwyd i Brifysgol Abertawe yn 2005 gan ei wraig, Sally Burton.

Gelwir y dyddiaduron, ynghyd â phapurau personol eraill, yn Gasgliad Richard Burton, a heddiw maent yn rhan ganolog o gyfleuster £1.2 miliwn Archifau Richard Burton yn Llyfrgell y Brifysgol. Ymhlith eitemau eraill yr Archifau mae Casgliad Pyllau Glo De Cymru, casgliadau archifau lleol yn ymwneud â hanes diwydiannol, dinesig a chrefyddol Abertawe a'r ardal gyfagos, a phapurau'r Brifysgol ei hun.



# IEITHOEDD MODERN, CYFIEITHU A CHYFIEITHU AR Y PRYD

## CAMPWS PARC SINGLETON

**7FED YN Y DU EFFAITH YMCHWIL** (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae ein staff ymchwil yn arbenigo mewn Arabeg, Tsieinëeg (Mandarin), Ffrangeg, Almaeneg, Eidaleg a Sbaeneg. Mae gan ein cyrsiau MA a addysgir hanes hir o ysbrydoli ieithyddion cyffredinol ardderchog i ddod yn gyfieithwyr ac yn ddehonglwyr.**

**Mae diddordebau ymchwil ein staff yn amrywio o ieithyddiaeth (disgrifiadol, hanesyddol a damcaniaethol) i ystod eang iawn o bynciau ym meysydd llenyddiaeth, ffilm a hanes diwylliannol, i astudiaethau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd, terminoleg, cyfieithu llenyddol, ac adnoddau a thechnolegau cyfieithu.**

**Yn Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diwethaf (2014), cawsom ein rhoi yn y 7fed safle yn y DU am effaith ein hymchwil.**

**CYRSIAU A ADDYSGIR**

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 o leiaf neu'r hyn sy'n cyfateb iddi mewn ieithoedd modern, cyfieithu, cyfieithu ar y pryd neu bwnc cysylltiedig.

**(RHAGLENNI MA ESTYNEDIG)**

Rhaid bod gan ymgeiswyr Iaith neu bwnc cysylltiedig, fel arfer ail uchaf neu uwch (neu gyfwerth). Fel dewis arall, gallwn dderbyn o leiaf ddwy flynedd o brofiad proffesiynol perthnasol. Mae lleoedd yn gyfyngedig iawn ac yn cael eu dyrannu yn ôl teilyngdod gan Fwrdd Astudiaethau ar y cyd, yn seiliedig ar y ffurflen gais a'r trawsgrifiad (au), tystlythyrau, profion cyfieithu a chyfweliad. Telir ffioedd ar y gyfradd gyffredinol ar gyfer myfyrwyr y DU, Ewrop neu Ryngwladol i'r sefydliad rwyt ti'n astudio arno ar y pryd (h.y. ym Mlwyddyn 1 i Abertawe, ym Mlwyddyn 2 i UGA).

**YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU**

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael. Am ragor o fanylion, gweler:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

Caiff ein holl raglenni a addysgir eu cynllunio, gyda mewnbwn proffesiynol gan gyfranogwyr gweithredol yn y diwydiant gwasanaethau iaith, i fod mor gyfredol a phroffesiynol berthnasol â phosibl, gyda chyfran uchel o ddysgu ymarferol ac asesiadau seiliedig ar brosiect.

Mae'r adran yn cynnig dwy raglen MA a addysgir gysylltiedig, hynod ryngwladol, mewn Cyfieithu Proffesiynol (MAPT) ac mewn Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd (MATI). Rydym yn falch bod y ddwy raglen yn aelodau o Rwydwaith Graddau Meistr mewn Cyfieithu Ewropeaidd (EMT) y Comisiwn Ewropeaidd. Mae MAPT wedi bod yn aelod ers i'r rhwydwaith gael ei sefydlu yn 2009 a chafodd MATI ei derbyn fel aelod yn 2019. Mae'r ddwy radd MA hyn ar gael ar ddwy ffurf wahanol: Safonol (180 o Gredydau / 90 ECTS, Blwyddyn amser llawn, 3 blynedd rhan amser) ac Estynedig (240 o Gredydau / 120 ECTs, 16-21 mis amser llawn, 4 blynedd rhan amser). Mae'r cymwysterau MA Estynedig wedi'u cynllunio i fod o ddiddordeb arbennig i fyfyrwyr a leolir ar gyfandir Ewrop neu sy'n bwriadu gweithio neu astudio yno ar ôl graddio. Maent yn cydymffurfio â phatrwm addysg uwch yr UE, sef 'Bologna', ac felly fe'u cydnabyddir yn llawn yn Ewrop.

Caiff ein harbenigedd hir sefydledig mewn adnoddau a thechnolegau cyfieithu ei adlewyrchu yn y Dystysgrif Ôl-raddedig 60-credyd mewn Technoleg Cyfieithu (PGCTT), sydd o ddiddordeb penodol i gyfieithwyr sydd eisoes yn gweithio ac sy'n awyddus i ddiweddaru eu sgiliau technolegol.

**CYFIEITHU PROFFESIYNOL MA (ESTYNEDIG, GYDAG UNIVERSITÉ GRENOBLE, ALPES)** AU

**Blwyddyn 1, Abertawe (120 credydau/60ECTS)**

Mae'r cwrs gradd MA Dwbl ar agor i ieithyddion neilltuol os yw dy gymwysterau'n gysylltiedig ag ieithoedd neu mewn meysydd pwnc eraill y maent yn bwriadu datblygu arbenigedd cyfieithu yn y maes hwnnw. Ar ôl cwblhau'r cwrs gradd yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn graddio drwy ennill gradd Meistr gan y ddwy brifysgol. Yn ogystal â Saesneg a Ffrangeg, gall myfyrwyr hefyd ddewis dilyn trywydd cyfieithu mewn Almaeneg neu Sbaeneg, wedi'i chyfuno â Saesneg ym Mlwyddyn 1 a Ffrangeg ym Mlwyddyn 2.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**




“Mae gwneud PhD wedi bod yn uchelgais personol tymor hir i mi erioed.

Roeddwn yn fyfyriwr ym Mhrifysgol Abertawe bum mlynedd ar hugain yn ôl gan raddio gyda Dosbarth Cyntaf mewn Ffrangeg a Chymraeg! Mae atgofion bendigedig gen i o fy nyddiau fel myfyriwr israddedig yma. Yna cyflawnais Ddiploma ôl-raddedig yn y Gyfraith gyda Phrifysgol Morgannwg. Treuliais i bum mlynedd yn Adran Adnoddau Dynol Coleg Castell-nedd Port Talbot ac wedyn ar ôl penderfynu mynd yn rhan amser i fagu teulu, llwyddais i gael swydd fel cyfieithydd rhan amser yn y Coleg yn 2006 ac rwyf wrth fy modd yn dal i wneud yr un swydd heddiw.

Wrth i'r plant dyfu, dechreuais feddwl o ddifrif am ddychwelyd i addysg ac ar yr un pryd, gwelais yr hysbyseb am ysgoloriaeth ym maes yr anghyfieithadwy a phenderfynais achub ar y cyfle perffaith ac ymgeisio. Roeddwn i wrth fy modd i ennill ysgoloriaeth a ariennir gan Brifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Wrth gyfuno'r ysgoloriaeth gyda gwaith rhan amser, mae hyn yn fy ngalluogi i astudio heb effeithio ar fywyd teuluol ac rydw i'n ddiolchgar dros ben. Heb y gefnogaeth ariannol ni fyddai modd i mi gyflawni fy PhD ar hyn o bryd.

Teitl fy noethuriaeth yw Gwir Arwyddocâd yr Anghyfieithadwy parthed y Gymraeg: Ymagwedd Gyfannol o'r Theori i'r Gweithle. Rydw i'n astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ac mae hyn yn ddewis naturiol i mi ar ôl astudio fy ngradd israddedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd ysgrifennu'r PhD trwy gyfrwng y Gymraeg yn un o amodau'r ysgoloriaeth ond yn bwysig iawn i mi yn bersonol hefyd.

Mae Prifysgol Abertawe yn lle ffantastig heb unrhyw amheuaeth! Mae'r cyfleusterau o'r radd flaenaf. Mae'r llyfrgell yn cynnig gwasanaeth ffantastig ar-lein a llyfrgellwyr cymwynasgar. Cynhaliwyd nifer o sesiynau hyfforddi yn ddiweddar ac roeddwn i wrth fy modd i allu gwneud sawl un trwy gyfrwng y Gymraeg e.e. cyfeirnodi. Ac wrth gwrs, mae lleoliad y Brifysgol heb ei ail!

Mae haenau amrywiol i fy uchelgais mewn gwirionedd. Hoffwn ysgrifennu darn o waith dylanwadol o safon uchel. Yn fwy na dim, hoffwn wneud cyfraniad at ymchwil Cymraeg gan godi proffil yr iaith a diddordeb ym maes cyfieithu a dwyieithrwydd yng Nghymru. Erbyn diwedd y PhD, hoffwn deimlo fel fy mod wedi llwyddo i wneud rhyw fath o gyfraniad gwreiddiol at y maes a mân gyfraniad at ddyfodol ymchwil Cymraeg yn gyffredinol.”

# Rebecca Lavis

PhD, YSGOL IEITHOEDD MODERN, CYFIEITHU A CHYFIEITHU AR Y PRYD



**Modiwlau gorfodol:**

- Gwaith cyfieithu uwch mewn Ffrangeg a Saesneg (Almaeneg neu Sbaeneg a Saesneg yn ddewisol)
- Modiwl sylfaenol – yn cynnwys theori cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ac yn rhoi trosolwg cyfoes o'r diwydiant gwasanaethau iaith a'i rolau proffesiynol.

**Modiwlau opsiynol:**

- Cyfieithu clyweledol
- Modiwl Biwro Cyfieithu Efelychiadol
- Rheoli terminoleg
- Technolegau cyfieithu (gan gynnwys meddalwedd adnoddau lleoleiddio)

**Blwyddyn 2, Grenoble**
Meysydd arbenigedd UGA yw cyfieithu a therminoleg Technegol, Cyfreithiol, a Busnes a gefnogwyd gan seminarau ym maes Gwyddoniaeth a'r Gyfraith.

**Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill mae:**

- Cwmni cyfieithu Atlas a gynhelir gan fyfyrwyr sy'n cyflawni gwaith cyfieithu go iawn ar gyfer cyrff anllywodraethol, elusennau, a chleientiaid eraill;
- Lleoliad gwaith rhan amser am 3 i 6 mis (o fis Ebrill), a asesir yn UGA drwy adroddiad interniaeth ac arholiad llafar (yn Ffrangeg neu yn Saesneg).
- Partneriaeth ynghylch terminoleg â Sefydliad Eiddo Deallusol y Cenhedloedd Unedig (WIPO), Genefa;
- Prosiect Cyfieithu cydweithredol (3 diwrnod) (mis Rhagfyr);
- Prosiect ymchwil gorfodol a allai gynnwys cyfieithu terminoleg patent

## CYFIEITHU PROFFESIYNOL MA: MAPT AU RhA

Drwy gyfuno gwaith cyfieithu uwch mewn meysydd gweinyddol a thechnegol â hyfforddiant technoleg cyfieithu eang a gynorthwyir gan gyfrifiadur, mae'r rhaglen Meistr ymarferol hon yn helpu myfyrwyr i feithrin y sgiliau a'r profiad i fod yn gynhyrchiol mewn amgylchedd proffesiynol modern ar unwaith. Yn ogystal â gwaith cyfieithu a therminoleg ymarferol mewn un neu ddau bâr o ieithoedd, yn ystod y ddau semester cyntaf bydd myfyrwyr yn dilyn modiwl gorfodol mewn Sylfeini Cyfieithu a Dehongli, sy'n cynnig cyflwyniad i feysydd perthnasol o ieithyddiaeth a theori cyfieithu, cyflwyniadau gan weithwyr proffesiynol ar agweddau allweddol ar y diwydiant gwasanaethau iaith, ac ymarfer dulliau o ymchwilio i wybodaeth a therminoleg arbenigol. Y modiwlau gorfodol eraill yw Cyfieithu Uwch ac Adnoddau Cyfieithu. Mae'r modiwl Adnoddau Cyfieithu yn cynnwys prosiect cyfieithu amlieithog gan ddefnyddio SDL Trados Studio, Memsource, a meddalwedd arall, ac yn cynnig y cyfle i sefyll profion ardystio Trados ar bob lefel am ddim.

**Mae amrywiaeth o opsiynau eraill a addysgir ar gael gan gynnwys y modiwl Profiad Gwaith Cyfieithu, lle mae myfyrwyr yn sefydlu ac yn rhedeg eu hasiantaeth cyfieithu (efelychiedig) eu hunain.**

Gall Rhan 2 o'r rhaglen Safonol gynnwys Traethawd Hir, neu ddau Gyfieithiad Estynedig, neu Interniaeth 12 wythnos yn y DU neu dramor y byddwn yn dy helpu i'w threfnu gyda'n cysylltiadau amrywiol yn y diwydiant (bydd angen sefyll profion a chael cyfweliad). Gellir llunio ail hanner y rhaglenni Estynedig yn hyblyg o gyfuniad o fodiwlau a addysgir ychwanegol (yn Abertawe neu dramor), a/neu un neu ddau o opsiynau Rhan 2 o'r rhaglenni Safonol. Mae'r fersiwn 4 semester yn cynnig cyfle unigryw i astudio mewn dau sefydliad partner dramor, sy'n rhan o'r Consortiwm METS clodwiw, am un semester yr un, gan arwain at ennill Tystysgrif METS.

## CYFIEITHU A CHYFIEITHU AR Y PRYD MA (ESTYNEDIG, GYDAG UNIVERSITÉ GRENOBLE, ALPES) AU

Cynigir y Cyfieithu a Dehongli, MA (Estynedig) trwy bartneriaeth unigryw gydag ysgolion Cyfieithu mawreddog Prifysgol Abertawe ac Université Grenoble Alpes (UGA), Ffrainc. Rhaglen ddwy flynedd llawn amser a addysgir yw hon a ddarperir ym Mhrifysgol Abertawe (blwyddyn un) ac Université Grenoble Alpes (blwyddyn dau), gan adeiladu dy rwydweithiau cyfieithu yn y ddwy wlad. Mae'r cwrs gradd MA Dwbl ar agor i ieithyddion neilltuol os yw dy gymwysterau'n gysylltiedig ag ieithoedd neu mewn meysydd pwnc eraill y maent yn bwriadu datblygu arbenigedd cyfieithu yn y maes hwnnw. Ar ôl cwblhau'r cwrs gradd yn llwyddiannus, bydd myfyrwyr yn graddio drwy ennill gradd Meistr gan y ddwy brifysgol. Yn ogystal â Saesneg a Ffrangeg, gall myfyrwyr hefyd ddewis dilyn trywydd cyfieithu mewn Almaeneg neu Sbaeneg, wedi'i chyfuno â Saesneg ym Mlwyddyn 1 a Ffrangeg ym Mlwyddyn 2.

**Blwyddyn 1, modiwlau gorfodol ym Mhrifysgol Abertawe:**

- Cyfieithu ar y pryd ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus mewn amgylcheddau gofal iechyd
- Gwaith cyfieithu uwch mewn Ffrangeg a Saesneg (Almaeneg neu Sbaeneg a Saesneg yn ddewisol)

- Modiwl sylfaenol – yn cynnwys theori cyfieithu a chyfieithu ar y pryd ac yn rhoi trosolwg cyfoes o'r diwydiant gwasanaethau iaith a'i rolau proffesiynol.

**Blwyddyn 1, modiwlau gorfodol ym Mhrifysgol Abertawe:**

Meysydd arbenigedd UGA yw cyfieithu a therminoleg Technegol, Cyfreithiol, a Busnes a gefnogwyd gan seminarau ym maes Gwyddoniaeth a'r Gyfraith. Ymhlith yr uchafbwyntiau eraill mae:

- Cwmni cyfieithu Atlas a gynhelir gan fyfyrwyr sy'n cyflawni gwaith cyfieithu go iawn ar gyfer cyrff anllywodraethol, elusennau, a chleientiaid eraill;
- Lleoliad gwaith rhan amser am 3 i 6 mis (o fis Ebrill), a asesir yn UGA drwy adroddiad interniaeth ac arholiad llafar (yn Ffrangeg neu yn Saesneg).
- Partneriaeth ynghylch terminoleg â Sefydliad Eiddo Deallusol y Cenhedloedd Unedig (WIPO), Genefa;
- Prosiect Cyfieithu cydweithredol (3 diwrnod) (mis Rhagfyr);
- Prosiect ymchwil gorfodol a allai gynnwys cyfieithu terminoleg patent

### CYFIEITHU A CHYFIEITHU AR Y PRYD MA (MATI) AU RhA

Mae'r rhaglen hon yn adeiladu ar yr MA Cyfieithu Proffesiynol gyda phwyslais ychwanegol ar Ddehongli Gwasanaethau Cyhoeddus a Dehongli mewn Cynadleddau. Fel ei chwaer-raglen, mae ar gael ar ffurf Safonol (180 credyd, 90 ECTS) ac Estynedig (240 credyd, 120 ECTS) – gweler uchod. Bwriedir iddi roi cymhwyster i fyfyrwyr sy'n dilysu ystod eang o sgiliau proffesiynol, ac sy'n eu galluogi i ymateb yn hyblyg i heriau newidiol y farchnad gwasanaethau iaith. Yn ystod y ddau semester cyntaf, bydd myfyrwyr yn dilyn un neu fwy o fodiwlau ymarferol ar ddehongli mewn lleoliadau Gofal Iechyd, neu'r Heddlu a'r Llysoedd (nid yw pob opsiwn ar gael bob blwyddyn).

Mae modiwlau ar gael hefyd ar Ddehongli Olynol mewn Cynadleddau a Dehongli ar y Pryd mewn Cynadleddau (nid ydynt ar gael ym mhob cyfuniad iaith bob blwyddyn). Caiff y modiwlau hyn i gyd eu haddysgu gan dîm penodedig sy'n cynnwys ymarferwyr ac academyddion.

Mae Rhan 2 o'r radd Safonol ac ail hanner y rhaglen Estynedig union yr un peth â'r rheini yn y gradd MA mewn Cyfieithu Proffesiynol (gweler uchod).

### TECHNOLEG CYFIEITHU PGCert AU

Mae'r rhaglen hon, sy'n ddeniadol iawn i gyfieithwyr gweithredol sydd am wella eu cymwysterau a'u harbenigedd technegol, yn cynnwys tri modiwl o'r rhaglenni MA gyferbyn: mae Adnoddau Cyfieithu a Thechnolegau Cyfieithu (y ddau yn Semester 1) yn orfodol ac mae'r modiwl terfynol yn ddewis opsiynol.

**ec.europa.eu**
– chwilia am European master's in Translation

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 o leiaf neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe mewn ieithoedd modern, cyfieithu, dehongli neu bwnc cysylltiedig. I wneud PhD, fel arfer mae angen i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr (neu gymwysterau cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe).

### ASTUDIAETHAU LLADIN-AMERICANAIDD MA drwy Ymchwil AU RhA

### CYFIEITHU MPhil/PhD AU RhA

### CYFIEITHU LLENYDDOL MA drwy Ymchwil AU RhA

### IEITHOEDD MODERN MA drwy Ymchwil/PhD/MPhil AU RhA

### ALMAENEG

Mae ffocws cryn dipyn o'n gweithgarwch yn Almaeneg o fewn Canolfan Diwylliant Almaenaidd Cyfoes sydd wedi cynhyrchu mwy na dwsin o PhDs ers ei sefydlu yn 1993.

Ymhlith pynciau diweddar a chyfredol mae: 'Affective Affinities: Memory, Empathy and the Weight of History in the Work of Herta Müller'; 'Intercultural Encounters in the Writings of Michael Roes' bellach wedi'i gyhoeddi yng Nghyfres Traethodau Hir Bithell; 'Ambiguous Heroes: Re-visioning the Holocaust and Nazism in Hollywood and German Cinema since 1990'; a 'An Aesthetic for its Time? Currency and Anachronism in Heinrich Böll's "Ästhetik des Humanen"'. Mae ein myfyrwyr wedi derbyn cyllid gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a Choleg y Celfyddydau a'r Dyniaethau.

**Ymhlith pwyntiau ffocws y Ganolfan mae:**

- Baader Meinhof a'r Nofel
- Ffilmiau Andreas Dresen
- Ysgrifennu Almaeneg o Ddwyrain a Chanol Ewrop
- Ysgrifennu gan fenywod
- Ysgrifennu Twrcaidd-Almaenig ac Almaenig-Iddewig

**Mae arbenigeddau eraill staff yn cynnwys:**

- Baledi a diwylliant poblogaidd o'r ail ganrif ar bymtheg hyd at heddiw
- Realaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg, yn enwedig Stifter a Fontane

### ARABEG

**Mae meysydd arbenigol yn cynnwys:**

- Dadansoddi mynegiant testunau Arabeg modern a chlasurol
- Dadansoddi testun a mynegiant Qur'aneg
- Grŵp Islamaidd yr Aifft
- Islamyddion a'r Wladwriaeth
- Mudiadau poblyddol ac Islamaidd yn y byd Arabaidd
- Plismona cymunedau Arabaidd ac Islamaidd yn y DU a'r Aifft
- Pragmateg a chyd-destun wrth ddehongli Arabeg

### FFRANGEG

Mae arbenigeddau staff yn cwmpasu ystod eang o gyfnodau a themâu sy'n ymwneud â Ffrainc a rhannau o'r byd lle y siaredir Ffrangeg. Ymhlith pynciau PhD diweddar mae: 'Au carrefour des ruptures: une analyse de certains romans de Gisèle Pineau, de Tony Delsham et d'Axel Gauvin'; 'Malady and Mal(e)contents: Negotiations of Masculinity in Francophone Men's Writing' a 'Wales in Continental Guidebooks (1850-2013): A Country on the Imaginative Periphery'. Mae goruchwyliaeth ymchwil hefyd ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae ein myfyrwyr wedi derbyn cyllid gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

**Mae meysydd arbenigol yn cynnwys:**

- Astudio'r Cof / Astudio Gwrthdaro, e.e. Ffrainc Dan Oresgyniad, e Shoah, Rhyfel Algeria
- Barddoniaeth Gyfoes a'r Celfyddydau Gweledol
- Dada a Swrealaeth
- Dyniaethau Meddygol
- Llenyddiaeth a Drama o'r Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain
- Llenyddiaeth Ganoloesol a Chyfnod Modern Cynnar (gan gynnwys Marie de France, y Fabliaux, Rabelais)
- Llenyddiaeth Siaradwyr Ffrangeg a Diwylliannau Mudol
- Ysgrifennu Menywod a Theori Rhywedd (e.e. de Beauvoir, Duras, Darrieussecq)
- Ysgrifennu Teithio ac Astudiaethau Trawsgenedlaethol

### SBAENIG – CYFFREDINOL

- Diwylliannau a Llenyddiaeth Sbaenig a Lwsoffon o'r Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain
- Llenyddiaeth Gymharol; Semioteg Diwylliannol

### SBAENEG – SBAEN

Sbaeneg:

- Dysgu Sbaeneg yn Ddwyieithog neu fel Ail Iaith / Iaith Treftadaeth
- Ieithyddiaeth a Seicoieithyddiaeth Sbaeneg
- Naratifeg a Semioteg yr Argyfwng Sbaeneg
- Sbaeneg – America Ladin

Ymhlith pynciau llenyddol diweddar mae: 'Female Role-Play in Drama' a 'English Translations of Don Quixote'.

### SBAENEG – AMERICA LADIN

Cynhelir ymchwil yn y maes hwn drwy'r Ganolfan ar gyfer Astudiaethau Cymharol Portiwgal, Sbaen a Chyfandiroedd America (CEPSAM) mewn cydweithrediad â staff a myfyrwyr ymchwil Astudiaethau Americanaidd. Y Ganolfan yw'r prif sefydliad ymchwil yn ei maes yng Nghymru. Yn ddiweddar mae wedi derbyn Grant Cyfres Seminarau Rhanbarthol gan Sefydliad Astudio Cyfandiroedd America (Prifysgol Llundain) sydd wedi dwyn ynghyd Americanwyr Lladin yng Nghymru i weithio ar brosiect o'r enw 'Memory, Place and Space in Latin America'. Cymerodd aelodau CEPSAM ran hefyd yng Nghynhadledd Dyniaethau Gwyrdd 2019, ac maent yn ystyried mentro i feysydd ecofeirniadau amlddisgyblaethol a meysydd cysylltiedig.

**Mae meysydd o ddiddordeb arbennig yn cynnwys:**

- Adeiladu Cenhedloedd Sbaenaidd-Americanaidd
- Astudiaethau Americanaidd Affro-Lladin
- Ffilmiau Sbaenaidd-Amercanaidd Cyfoes
- Llenyddiaeth a Diwylliant Ciwba yn yr Ugeinfed Ganrif
- Llenyddiaeth a Diwylliant Colombia yn yr Ugeinfed Ganrif
- Llenyddiaeth a Diwylliant yr Ariannin yn yr Ugeinfed Ganrif
- Llenyddiaeth Wrwgwái o'r Ugeinfed Ganrif
- Llenyddiaeth yr Anialwch a'r Amgylchedd
- Patagonia Cymru
- Rhyddiaith a Barddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif
- Ysgrifennu gan Fenywod a Theori Ffeministaidd

**Pynciau PhD presennol a diweddar:** 'Welsh Travellers to Latin America'; 'Rosas and Perón in the Contemporary Argentine Novel'; a 'Insularity, translation and genre, the case of two Caribbean writers, Hazel Robinson and Edwidge Danticat.' Gellir goruchwylio ymchwil drwy gyfrwng y Gymraeg hefyd. Mae ein myfyrwyr wedi derbyn cyllid gan Gyngor Ymchwil y Celfyddydau a'r Dyniaethau, Cronfa Maney, Ymddiriedolaeth Pantyfedwen a SUSPRS, Ysgoloriaethau Rhagoriaeth Ymchwil Partner Strategol Prifysgol Abertawe.

**Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd**

Mae diddordebau ymchwil y staff ym maes Cyfieithu a Dehongli yn cwmpasu amrywiaeth o themâu, gan gynnwys:

- Adnoddau a Thechnolegau Cyfieithu
- Astudiaethau Cyfieithu Cymharol
- Cyfieithu a Thrafodaeth Gymdeithasol
- Cyfieithu a'r Lexican
- Cyfieithu Clyweledol
- Cyfieithu Llenyddol
- Cyfieithu Llenyddol â Chymorth Cyfrifiadur (CALT)
- Cyfieithu/Addasu ar gyfer y Theatr
- Dadansoddi Cyfieithiadau ar Sail Corpws
- Delweddu Cyfieithiadau
- Geiriaduraeth a Therminograffeg Gyfrifiadurol
- Hanes Cyfieithu
- Prosesau Cyfieithu: Seicoieithyddiaeth Cyfieithu, Llifoedd Gwaith Cyfieithu
- Theori Cyfieithu (gan gynnwys Theori nad yw o'r Gorllewin)

**Pynciau PhD presennol a diweddar:**

'Use of Translation Memory Systems in Wales'; 'Improving Translator Training in Saudi Arabian Universities'; 'A Study of English to Arabic TV Film Subtitling in the Kingdom of Saudi Arabia'; 'The Witcher 3 – Wild Hunt: Playability of Slavic Folklore in English- and Spanish-speaking Games'; 'A Comparative Assessment of the Performance of Computer-Aided and Machine Translation tools in English and Arabic'; 'An Evaluation of Translation Programmes in Saudi Arabian Universities'; 'Nominal Compounds in English and Their Translations into Spanish and Slovak.'

Caiff yr adran fudd o swm sylweddol o eitemau llyfrgell print ac ar-lein. Gall pob myfyriwr ôl-raddedig ddefnyddio dau labordy iaith cyfrifiadurol, labordai cyfrifiadurol cyfieithu uwch, sy'n cynnwys yr adnoddau digideiddio, dadansoddi corpws ac adnoddau cyfieithu â chymorth cyfrifiadur diweddaraf.

Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil yn perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, a hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig y Gyfadran o 200 o fyfyrwyr.

Mae gennym dair prif Ganolfan Ymchwil:

- Canolfan Astudiaethau Cymreig Richard Burton, fforwm rhyngddisgyblaethol sy'n canolbwyntio ar draddodiadau diwylliannol a hanesyddol y Gymraeg a'r Saesneg
- Mae'r Dyniaethau Digidol yn cynnal cyfres o brosiectau rhyngddisgyblaethol ar Dreftadaeth a Hanes, Llenyddiaeth, Ieithyddiaeth, Gwyddorau Gwleidyddol a Chymdeithasol, Astudiaethau'r Cyfryngau, Cyfryngau'r Dyfodol a Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron
- Mae'r Ganolfan Ymchwil Iaith yn ganolfan fyd-eang ar gyfer ymchwil empirig un ddisgyblaeth, rhyngddisgyblaethol ac amlddisgyblaethol i ddata a phrosesau iaith

Mae gennym ystod eang o grwpiau ymchwil eraill, sy'n canolbwyntio ar brosiectau arbenigol, ymchwil ôl-raddedig, ceisiadau grant, cyfres seminar, a chyswllt â phartneriaid allanol. Ymhlith y rheini y mae ymchwilwyr Ieithoedd Modern, Cyfieithu a Dehongli yn cyfrannu atynt mae:

- CCGC: y Ganolfan ar gyfer Diwylliant Almaenig Cyfoes
- CEPSAM: y Ganolfan ar gyfer Astudiaethau Cymharol Portiwgal, Sbaen a Chyfandiroedd America
- GENCAS: y Ganolfan Ymchwil i'r Rhywiau mewn Diwylliant a Chymdeithas
- MEMO: y Ganolfan Ymchwil Canoloesol a Chyfnod Modern Cynnar. Fel myfyriwr PhD neu MPhil, bydd disgwyl i ti fynychu digwyddiadau ymchwil (fel cynulliadau neu seminarau wythnosol) gyda siaradwyr gwadd.
- STING: yn sefyll ar gyfer Grŵp Cyfieithu a Dehongli Abertawe ac yn cynnal digwyddiadau wythnosol sy'n casglu'r rhai sydd â diddordeb mewn cyfieithu a dehongli. Mae croeso i fyfyrwyr, aelodau staff ac ymwelwyr cynnal sgwrs, rhannu syniadau, neu hyd yn oed drafod eu prosiectau cyfredol a derbyn adborth gwerthfawr gan eraill mewn awyrgylch cyfeillgar. I gael mwy o wybodaeth am y grŵp, dilyn y ddolen:

**tinyurl.com/stingswan**

- ARG: ARG yw ein cymuned myfyrwyr PGR Arabeg sy'n dwyn ynghyd yr holl fyfyrwyr PGR Arabeg yn y gyfadran ac unigolion â diddordeb o bob rhan o'r brifysgol a'r gymuned. Mae'r grŵp, dan arweiniad myfyrwyr Arabeg MLTI PGR, yn trefnu gweithgareddau cymdeithasol ac ymchwil gan gynnwys seminarau ymchwil, cynhadledd PGR Arabeg flynyddol, digwyddiadau cymdeithasol a chasglu, cysylltiadau cymunedol.
- QTL: Grŵp ymchwil ysgolheigaidd yw QTL sy'n dwyn ynghyd ysgolheigion o bob cwr o'r byd i hyrwyddo a gwella astudio iaith y Qur'an fel testun. Mae gweithgareddau ymchwil yn cynnwys cynadleddau, cyhoeddiadau academaidd, cyfnodolyn academaidd ar-lein.



# IEITHYDDIAETH GYMHWYSOL

## CAMPWS PARC SINGLETON

**7FED YN Y DU**
**EFFAITH YMCHWIL**
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Rydym wedi meithrin a chynnal enw da byd-eang am ymchwil a hyfforddiant ym maes ieithyddiaeth gymhwysol. Yn ogystal â'n hymchwil ddylanwadol i astudiaethau a phrofion geirfaol, mae ein harbenigedd yn cwmpasu caffael ail iaith, asesu iaith ac addysgeg, dwyieithrwydd, ieithyddiaeth corpws, ymarferoleg, dadansoddi mynegiant, ysgrifennu ail iaith, ac astudiaethau Tsieinëeg.**

**Yn rhestr REF rhagoriaeth ymchwil ddiweddaraf Llywodraeth y DU (2014), roedd ymchwil Saesneg yn Abertawe yn y 7fed safle yn y DU a'r safle 1af yng Nghymru, gyda chyfran uchel o ymchwil yn cael ei dyfarnu'n 'rhyngwladol ardderchog' neu 'o'r radd flaenaf'.**

**Caiff ein holl addysgu ei lywio gan weithgarwch ymchwil staff ac mae gennym gryfderau hirsefydledig ym mhob prif agwedd ar y pwnc. Mae rhaglen gyffrous o seminarau ymchwil, cynadleddau a gweithdai yn golygu bod yr adran yn lle ysgogol a chymdeithasol i astudio ynddo.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MA TESOL:** Fel arfer, gradd anrhydedd 2:2 neu gymhwyster cyfatebol. Ystyrir bod Tystysgrif DELTA Caergrawnt, Dip. TESOL Trinity College, a'r Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Addysgu Saesneg at Ddibenion Academaidd (TEAP) yn cyfateb. (Ni dderbynnir CELTA tuag at y gofyniad hwn.)

**MA Cyfieithu Tsieinëeg-Saesneg ac Addysgu Iaith:** Fel arfer, gradd anrhydedd 2:2 neu gymhwyster cyfatebol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### ADDYSGU SAESNEG I SIARADWYR IEITHOEDD ERAILL (TESOL) MA

Mae gan Brifysgol Abertawe un o'r canolfannau addysg a hyfforddiant TESOL mwyaf sefydledig yn y DU ac mae ganddi enw da rhyngwladol am ragoriaeth ym maes ymchwil i eirfa. Mae'r cwrs yn dy helpu ti i feithrin y sgiliau i fynd i'r afael â heriau damcaniaethol ac ymarferol addysgu Saesneg fel iaith dramor neu ail iaith. Gall myfyrwyr ddewis cwblhau traethawd hir neu brosiect seiliedig ar addysgu.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Addysgu Iaith Gyfathrebol
- Caffael Ail Iaith
- Dadansoddi Gramadegol
- Dadansoddi Mynegiant at Ddibenion Addysgu Iaith
- Dulliau Addysgu yn yr Ystafell Ddosbarth
- Dulliau Ymchwil ar gyfer Ieithyddiaeth Gymhwysol
- Geirfa: Dysgu ac Addysgu
- Ymarfer Myfyriol Proffesiynol

### CYFIEITHU TSIEINËEG-SAESNEG AC ADDYSGU IAITH MA

Mae'r MA mewn Cyfieithu Tsieinëeg-Saesneg ac Addysgu Iaith wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer siaradwyr Tsieinëeg (neu fyfyrwyr sydd bron yn siaradwyr iaith gyntaf) ac mae'n anelu at eu helpu i feithrin gwybodaeth a sgiliau iaith-benodol mewn astudiaethau cyfieithu ac ieithyddiaeth gymhwysol. Mae'r rhaglen yn cynnig modiwlau theori ac ymarferol, gan gynnwys arsylwi ar ddosbarthiadau addysgu Mandarin a chyfleoedd ymarfer addysgu posibl. Mae'r modiwlau cyfieithu hefyd yn hynod ymarferol ac ar lefel broffesiynol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Astudiaethau Tsieinëeg
- Dysgu ac Addysgu Iaith drwy Dechnoleg
- Egwyddorion Cyfieithu a Dehongli Tsieinëeg
- Sylfaen Ieithyddol ar gyfer Cyfieithu ac Addysgu Iaith
- Theori ac Ymarfer Cyfieithu Tsieinëeg-Saesneg
- Y Cyfryngau a Chyfieithu
- Ymarfer Addysgu yn yr Ystafell Ddosbarth (Tsieinëeg)

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# IEITHYDDIAETH GYMHWYSOL

CAMPWS PARC SINGLETON

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MA drwy Ymchwil mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol:** Fel arfer, gradd anrhydedd 2:1 neu uwch mewn Iaith Saesneg, Ieithyddiaeth, neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe, gyda pherfformiad cadarn yn elfen y traethawd hir. Mae angen cynnig ymchwil o ansawdd da ar bwnc sy'n berthnasol i gryfderau ymchwil yr adran hefyd.

**Rhaglenni MPhil/PhD mewn Ieithyddiaeth Gymhwysol:** Gradd israddedig 2:1 ac MA mewn Ieithyddiaeth, Ieithyddiaeth Gymhwysol, TESOL/ELT/TEFL, neu ddisgyblaeth gysylltiedig, gyda gradd gyffredinol â 'Theilyngdod' (neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe) a pherfformiad cadarn yn elfen traethawd hir yr MA.

Mae hefyd angen cynnig ymchwil o ansawdd da, ar bwnc sy'n berthnasol i gryfderau ymchwil yr adran.

### IEITHYDDIAETH GYMHWYSOL MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

Mae'r adran yn croesawu ceisiadau gan fyfyrwyr sydd am gyflawni ymchwil raddedig i ieithyddiaeth gymhwysol, yn enwedig pynciau sy'n ymwneud â: dysgu ac asesu geirfa, y gallu i ddysgu iaith, caffael ail iaith; ieithyddiaeth corpws, a dadansoddi mynegiant.

Mae gan yr adran hanes ardderchog o oruchwylio traethodau hir dylanwadol o ansawdd da, ac mae myfyrwyr ymchwil yn gweithio gyda staff i greu cymuned academaidd ddynamig.

**Ymhlith pynciau traethodau hir diweddar a chyfredol mae:**

- Arferion tystio disgyrsiol mewn darllediadau newyddion teledu o ymgyrch fomio Llundain yn 2005 a'i chôffáu
- Asesu trefniadaeth lecsicaidd mewn ail iaith
- Dwyieithrwydd strategol: nodi'r cyd-destun gorau posibl ar gyfer Cymraeg fel ail iaith yn y cwricwlwm
- Meithrin perthynas amhriodol ar-lein o batrymau cyfathrebu i broffiliau pedoffilyddion
- Modelu anawsterau a mesur cyfraddau caffael geiriadurol L2
- Piwristiaeth a phoblyddiaeth: rolau ymryson newid cod a benthyca yn esblygiad ieithoedd lleiafrifol.
- Y cysylltiad rhwng caffael geirfa a chystrawen L2
- Y lecsicon meddyliol: sut mae cynrychioliadau ieithyddol a chysyniadol yn rhyngweithio?
- Ymchwilio i'r gydberthynas rhwng maint a threfniadaeth lecsicon meddyliol L1 a datblygu geirfa L2

Mae'r adran, ar y cyd â phrifysgolion Bangor a Chaerdydd, yn cynnal Partneriaethau Hyfforddiant Doethurol ESRC ym meysydd thematig Ieithyddiaeth a Dwyieithrwydd. Mae'r partneriaethau hyn yn cynnig ysgoloriaethau er mwyn sicrhau llif pobl gymwysedig iawn i yrfaoedd ymchwil o fewn academia a thu hwnt.

Yn ogystal ag astudiaethau PhD ar y campws, mae'r adran yn cynnig rhaglen PhD dysgu o bell rhan amser sydd wedi'i hen sefydlu.

Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil yn perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, yn ogystal â hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig o 200 o fyfyrwyr.





# LLENYDDIAETH SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL

CAMPWS PARC SINGLETON

7FED YN Y DU
EFFAITH YMCHWIL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Rydym wedi bod yn ganolfan glodwiw am ymchwil i lenyddiaeth o'r cyfnod Canoloesol, cyfnod y Dadeni a'r 18fed ganrif ers bron i ganrif.**

**Heddiw cawn yr un gydnabyddiaeth am arbenigo mewn astudiaethau rhywedd, ysgrifennu Cymreig modern yn yr iaith Saesneg, llenyddiaeth gyfoes, ac ysgrifennu creadigol. Mae sawl aelod o'n staff yn ymddangos fel arbenigwyr ar y radio a'r teledu, ac yn ysgrifennu'n rheolaidd i bapurau newydd safonol a phrif adolygiadau.**

**Yn rhestr rhagoriaeth ymchwil (REF) diweddaraf Llywodraeth y DU (2014), cafodd ein hymchwil Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol ei graddio'n 7fed yn y DU ac yn 1af yng Nghymru, gyda chyfran uchel o'n hymchwil yn cael ei dyfarnu'n 'rhyngwladol ardderchog' neu 'o'r radd flaenaf'.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MA mewn Llenyddiaeth Saesneg ac MA mewn Ysgrifennu Cymreig yn yr iaith Saesneg:** Fel arfer rydym yn gofyn am radd anrhydedd 2:2 gydag o leiaf 55% yn gyffredinol, neu uwch mewn Llenyddiaeth Saesneg neu bwnc cysylltiedig, neu gymhwyster cyfatebol. Gallwn hefyd ofyn am weld enghreifftiau o waith ysgrifenedig.

**MA mewn Ysgrifennu Creadigol:** Byddwn fel arfer yn gofyn am radd anrhydedd 2:2 neu gymhwyster cyfatebol. Bydd angen cyflwyno portffolio byr o waith ysgrifenedig.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.
Am ragor o fanylion, gweler:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### LLENYDDIAETH SAESNEG MA AU RhA

Mae'r cwrs MA hwn yn cynnig ystod eang o opsiynau i fyfyrwyr o ran astudiaethau Llenyddiaeth Saesneg ac yn manteisio ar arbenigedd ymchwil unigol aelodau o staff. Gall myfyrwyr hefyd ddewis modiwlau o'r MA mewn Ysgrifennu Cymreig yn yr iaith Saesneg, yn ogystal â modiwlau llenyddiaeth o raglenni MA eraill.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Agonïau ac Ecstasïau: Seintiau a Mystig yn yr Oesoedd Canol
- Angela Carter
- Anufudd-dod Neo-Fictorianaidd: Rhywedd a Thrawma Hiliol mewn Ffuglen (a Ffilm) Neo-Fictorianaidd
- Ar ôl Macbeth: Addasu Llwyfan a Sgrîn
- James Joyce a Theori Lenyddol
- Traethawd Hir Llenyddiaeth Saesneg
- Y Canoloesedd Cwiar: Cyrff, Testunoldeb a Gwrthrychau
- Ymarfer Syniadau: Sgiliau Ymchwil Uwch
- Yr Aruchel Rhamantaidd
- Ysgrifennu Modernaidd yn Llundain, Paris ac Efrog Newydd

### YSGRIFENNU CREADIGOL MA AU RhA

Mae'r MA mewn Ysgrifennu Creadigol yn rhaglen unigryw sy'n cynnig addysgu integredig mewn ysgrifennu llenyddol a pherfformiad. Mae grŵp o staff sy'n awduron proffesiynol sydd wedi ennill gwobrau yn darparu'r addysgu craidd mewn ffuglen, barddoniaeth, ysgrifennu nad yw'n ffuglen a drama, ac yn llywio myfyrwyr ar hyd llwybrau unigol ym mhrif genres ysgrifennu cyfoes. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael budd o lu o weithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys sesiynau a arweinir gan awduron gwadd a gweithwyr proffesiynol yn y diwydiant.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Barddoniaeth (1 a 2)
- Celf y Stori Fer
- Ffuglen Hir (1 a 2)
- Sgriptio
- Traethawd Hir Ysgrifennu Creadigol
- Ysgrifennu Creadigol nad yw'n Ffuglen ac Ysgrifennu Teithio
- Ysgrifennu Drama Radio
- Ysgrifennu i'r Llwyfan
- Ysgrifennu'r Hunan

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# LLENYDDIAETH SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL

CAMPWS PARC SINGLETON



**YSGRIFENNU CREADIGOL (ESTYNEDIG) MA** AU RhA

Mae'r rhaglen MA Estynedig hon yn cyfuno'r MA Ysgrifennu Creadigol â chyfnod o astudio dramor yn UDA. Mae'r tymor ychwanegol yn gwneud yr MAE yn gyfwerth ag MA Ewropeaidd o ran credydau.

**YSGRIFENNU CYMREIG YN YR IAITH SAESNEG MA** AU RhA

Mae'r MA mewn Ysgrifennu Cymreig yn yr iaith Saesneg yn rhaglen unigryw a addysgir fel rhan o waith CREW (y Ganolfan Ymchwil i Lên ac Iaith Saesneg Cymru). Mae'r modiwlau yn cynnig cyd-destunau arloesol i fyfyrwyr eu harchwilio o ran amlygrwydd a datblygiad llên ac iaith Saesneg Cymru, wrth hefyd fynd i'r afael â dimensiynau gwleidyddol, cymdeithasol a rhyweddol y llenyddiaeth honno.

Gall myfyrwyr hefyd ddewis modiwlau o'r MA mewn Llenyddiaeth Saesneg a'r MA mewn Ysgrifennu Creadigol, yn ogystal â modiwlau llenyddiaeth o raglenni MA eraill.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dylan Thomas a Thwf Ysgrifennu Cymreig yn yr Iaith Saesneg
- Hunaniaethau Cymreig: Llenyddiaeth a Chenedligrwydd
- Rhywedd, Genre a'r Genedl: Menywod yn Ysgrifennu'r Gymru Fodern
- Traethawd Hir
- Ymarfer Syniadau: Sgiliau Ymchwil Uwch

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MA drwy Ymchwil/MPhil:** Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu uwch mewn Saesneg, neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe.

**PhD:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr ar gyfer cwrs PhD feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr (neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe).

**LLENYDDIAETH SAESNEG MA drwy Ymchwil/MPhil/PhD** AU RhA

Mae ymchwil Llenyddiaeth Saesneg yn Abertawe yn arloesol, yn gydweithredol ac yn aml yn rhyngddisgyblaethol. Mae'n cynnwys mentora agos gan arbenigwr yn dy bwnc dewisol neu feysydd astudio, a'r cyfle i gymryd rhan mewn diwylliant ymchwil cyffrous o ddarlithwyr gwadd, seminarau, gweithdai hyfforddiant academaidd a chynadleddau myfyrwyr ôl-raddedig. Ystyrir cynigion ymchwil ar gyfer unrhyw bwnc sy'n gysylltiedig â Llenyddiaeth Saesneg, ond dylent yn gyffredinol berthyn yn fras i arbenigeddau ymchwil ein staff.

Caiff rhaglenni PhD eu cefnogi gan Ganolfannau Ymchwil canlynol y Brifysgol:

**Y Ganolfan ar gyfer Ymchwil Canoloesol a Chyfnod Modern Cynnar (MEMO)**

Mae MEMO yn cynorthwyo staff academaidd a myfyrwyr ôl-raddedig sy'n gweithio ar bynciau hanesyddol, ieithyddol, a llenyddol o'r Cynfyd Diweddar i tua 1800. Mae ei haelodau wedi cael symiau sylweddol o gyllid gan AHRC, Ymddiriedolaeth Leverhulme, ac Ymddiriedolaeth Wellcome dros y blynyddoedd diwethaf.

Themâu ymchwil presennol y Ganolfan yw:

- Cymru, Lloegr a'r Gororau
- Gofod a Lle
- Natur a Magwraeth (gan gynnwys Rhywedd, Iechyd a'r Corff)
- Pŵer, Gwrthdaro ac Ymerodraeth
- Testunau a'u Cyd-destunau
- Y Gorffennol Parhaus

**Canolfan Ymchwil Llenyddiaeth ac Iaith Saesneg yng Nghymru (CREW)**

Fel yr arweinydd rhyngwladol cydnabyddedig yn y maes hwn o astudiaethau llenyddol a diwylliannol, mae CREW wedi datblygu rhaglen addysgu ac ymchwil helaeth.

Mae gan y Ganolfan gymuned ymchwil ôl-raddedig fywiog a chaiff fudd o adnoddau unigryw, gan gynnwys dyddiaduron Richard Burton, papurau Raymond Williams, a llyfr nodiadau a ailddarganfuwyd yn ddiweddar yn perthyn i Dylan Thomas. Mae prosiectau ymchwil CREW yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- Astudiaethau Ôl-drefedigaethol,
- Astudiaethau Rhywedd
- Cysylltiadau Trawsiwerydd
- Diwylliant Gweledol
- Y Dyniaethau Digidol
- Hanes Diwylliannol

**Y Ganolfan Ymchwil i'r Rhywiau a Diwylliant mewn Cymdeithas (GENCAS)**

Mae GENCAS yn gorff ymchwil rhyngddisgyblaethol sy'n dwyn ynghyd staff a myfyrwyr ôl-raddedig o bob rhan o'r Brifysgol sy'n ymchwilio i rywedd, gan alluogi aelodau i rannu eu harbenigedd a chydweithio.

Mae'r Ganolfan yn cynnal cynadleddau, symposia a gweithdai, gan ddarparu amgylchedd ysgogol i fyfyrwyr PhD. Mae gwaith ysgolheigaidd yn cwmpasu amrywiaeth o ddisgyblaethau gan gynnwys:

- Astudiaethau Busnes
- Astudiaethau Cyfieithu
- Y Cyfryngau a Chyfathrebu
- Hanes, y Clasuron ac Eifftoleg
- Ieithoedd Modern
- Llenyddiaeth Saesneg
- Meddygaeth a Bydwreigiaeth

**YSGRIFENNU CREADIGOL MPhil/PhD** AU RhA

Mae Abertawe yn cynnig rhaglen Ysgrifennu Creadigol ôl-raddedig arloesol a arweinir gan diwtoriaid o'r radd flaenaf. Bydd y cwrs yn dy helpu i feithrin ystod eang o sgiliau a deialog ymchwil ar draws y genres, o fyd barddoniaeth a gwaith ffuglen hir i ddramâu llwyfan, sgriptiau, ysgrifennu creadigol nad yw'n ffuglen ac ysgrifennu teithio. Bydd y PhD Ysgrifennu Creadigol yn dy dywys ar hyd llwybr tair blynedd o fentora agos gydag awdur-athro sy'n nodedig yn y genre rwyt yn ysgrifennu ynddo. Byddi di hefyd yn cael budd o'r cyfle cyfoethog i rannu gwybodaeth yn y gweithdai PhD Ysgrifennu Creadigol, a gynhelir bob mis.

Mae'r holl fyfyrwyr ymchwil yn perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, wrth hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig o 200 o fyfyrwyr.



# MEDDYLIAU MAWR

## Yr Athro Daniel Williams



### CADAIR BERSONOL, LLENYDDIAETH SAESNEG AC YSGRIFENNU CREADIGOL

> “Hunaniaethau – pwy ydym yn meddwl ydyn ni a pham? – yw fy mhrif ddiddordeb. Dyma un o gwestiynau mawr cyfnod Brexit a Yes Cymru ac mae gan lenyddiaethau Cymru lawer i’n dysgu ynghylch y berthynas rhwng rhyweddd ac iaith, dosbarth a chenedligrwydd.”

Mae’r Athro Daniel G. Williams yn feirniad diwylliannol ac yn un o ddeallusion cyhoeddus blaenllaw Cymru. Mae ei ddiddordebau ymchwil yn amrywio o'r 19eg ganrif hyd heddiw ac yn cwmpasu llenyddiaeth Gymraeg a Saesneg ar ddwy ochr yr Iwerydd. Mae'r diddordebau hyn yn gysylltiedig â’i ddiddordeb mewn cenedlaetholdeb, ethnigrwydd a hunaniaeth.

Mae'r Athro Williams yn Gymrawd Cymdeithas Ddysgedig Cymru ac yn Gymrawd Etholedig yr Academi Gymreig. Ef yw Cyfarwyddwr Canolfan Astudiaethau Cymreig Richard Burton ac mae wedi gwasanaethu fel Llywydd NAASWCH (Cymdeithas Gogledd America ar gyfer Astudio Diwylliant a Hanes Cymru). Ers 2016 mae'r Athro Williams wedi bod yn Gadeirydd Panel Dyfarnu Grantiau Cyngor Llyfrau Cymru (yn yr iaith Saesneg).

Wedi derbyn ei addysg yn Ysgol Gyfun Penweddig, a Phrifysgolion Dwyrain Anglia, Harvard (lle fu’n gymrawd Frank Knox) a Chaergrawnt, dechreuodd yr Athro Williams ddysgu ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Ionawr 2000. Roedd yn Gyfarwyddwr Cynorthwyol CREW (Canolfan Ymchwil i Lenyddiaeth ac Iaith Saesneg Cymru) rhwng 2001 a 2007 ac fe olynodd yr Athro M. Wynn Thomas fel Cyfarwyddwr rhwng 2007 - 2010. Dyfarnwyd Cadair Bersonol iddo yn 2013.

Mae'n dysgu ar draws y mwyafrif o gyfnodau, gyda ffocws penodol ar lenyddiaeth Affro-Americanaidd, Gwyddelig a Chymreig. Anela, yn ei ddysgu, at ddatblygu dulliau o gymharu traddodiadau llenyddol. Mae'n cydlynu cyrsiau ar yr MA Llên Saesneg Cymru ac wedi cyfarwyddo wyth PhD hyd at eu cwblhau, gyda’r pynciau'n amrywio o'r bardd Harri Webb i'r nofelydd Affro-Americanaidd Ishmael Reed, o Farcsiaeth Ewropeaidd i ôl-drefedigaethedd.

“Un o’r pynciau sydd wedi cymryd fy niddordeb yn arbennig yn ddiweddar yw’r modd y mae’r Cymry wedi cymharu eu hunain â phobloedd eraill. Gall hyn ymddangos yn or-ddramatig a di-chwaeth ar brydiau. Pwy yw’r Cymry i gymharu eu hunain â’r Iddewon (fel wna’r athronydd J. R. Jones), neu frodorion America (fel y gwna’r bardd R. S. Thomas)? Ar ba sail y gellid gwneud cymariaethau o’r fath? Y berthynas rhwng cymathu i ddiwylliant mwy a’r ymdrech i gynnal hunaniaeth leiafrifol yw’r cysylltiad. Yn wahanol i lyfrau hanes neu areithiau gwleidyddol, gall gwaith o lenyddiaeth gynnal sawl safbwynt ac hunaniaeth sydd yn ymrafael â’i gilydd, a hynny’n aml y tu hwnt i reolaeth yr awdur. Os am ddeall y modd y mae’r Cymry wedi meddwl am eu safle yn y byd, at ein llenyddiaeth - yn y ddwy iaith – y mae’n rhaid troi!”

Fe yw golygydd y gyfres ryng-ddisgyblaethol Safbwyntiau: Gwleidyddiaeth, Diwylliant, Cymdeithas a gyhoeddir gan Wasg Prifysgol Cymru. Mae fe wedi ysgrifennu tri llyfr: Ethnicity and Cultural Authority: from Arnold to Du Bois (2006), Black Skin, Blue Books: African Americans and Wales 1845 - 1945 (2012) a Wales Unchained: Literature and Politics in the American Century (2015) a gyrhaeddodd restr fer Gwobr Llyfr y Flwyddyn. Ar hyn o bryd mae'r Athro Williams yn cwblhau, ar y cyd â Damian Walford Davies, cyfrol olaf yr ‘Oxford Literary History of Wales’, Welsh Writing in English, 1914 to the Present: Deaths and Entrances.



# MARCHNATA
## CAMPWS Y BAE

**UCHAF YN Y DU**
**RHEOLI BUSNES A MARCHNATA**
(WhatUni 2019)

**Bydd ein cwrs MSc a ddatblygwyd ar y cyd â'r Sefydliad Marchnata Siartredig (CIM), yn rhoi dealltwriaeth ddatblygedig i ti o farchnata gyfoes y gelli ei chymhwyso mewn amrywiaeth o gyd-destunau a sefyllfaoedd. Ar ôl elfennau addysgedig y cwrs, gelli gwblhau prosiect marchnata seiliedig ar waith, gan gymhwyso dy sgiliau a dy wybodaeth newydd at fywyd go iawn.**

**Bydd y rhaglen yn dy baratoi ar gyfer gyrfa lwyddiannus ym maes marchnata neu ymchwil, drwy gwblhau PhD ar ôl i ti raddio. Mae ein staff academaidd yn cynnwys arbenigwyr ymchwil clodwiw a rhai â phrofiad helaeth mewn diwydiant, a daw ein cymuned o fyfyrwyr o bedwar ban byd, gan gynnig amrywiaeth ac ystod eang o safbwyntiau yn yr ystafell ddosbarth. Mae'r adran wedi'i chydleoli â diwydiant ar ein campws arloesol ar lan y môr, Campws y Bae.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MSc Marchnata Strategol:** Gradd anrhydedd 2:1 neu uwch mewn disgyblaeth gysylltiedig (busnes neu farchnata).

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig cymorth ariannol i sêr mwyaf disglair y dyfodol. Nid dim ond rhagoriaeth academaidd a wobrwywn – rydym hefyd yn cydnabod ac yn annog angerdd dros astudio a chyfrannu at fywyd myfyrwyr. Mae amrywiaeth o gyfleoedd cyllido ar gael ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

I gael rhagor o wybodaeth am MSc Rheoli Busnes (Marchnata), gweler tudalen 160.

### MARCHNATA STRATEGOL
**MSc** AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn rhoi sail gadarn i ti o ran yr agweddau ymarferol a damcaniaethol ar farchnata strategol gyfoes; deall materion moesegol a chyfrifoldeb cymdeithasol a helpu myfyrwyr i gyflawni strategaeth farchnata gynaliadwy, gynhwysol ac arloesol yn y dyfodol. Mae'r rhaglen wedi'i chynllunio yn unol â Diploma Ôl-raddedig CIM a bydd yn rhoi'r cyfle i ti ennill statws siartredig ar ôl cwblhau asesiadau achredegig CIM yn llwyddiannus. Byddi di hefyd yn cael y cyfle i gwblhau lleoliad tri mis, neu, yn fwy traddodiadol, ddewis cwblhau traethawd estynedig mewn maes marchnata arbenigol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyfathrebiadau Marchnata Integredig
- Lleoliad Gwaith neu Draethawd Hir
- Marchnata Digidol
- Marchnata mewn Cymdeithas
- Marchnata Strategol
- Seicoleg Defnyddwyr
- Ymchwil Farchnata

### CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MPhil:** Fel arfer gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu 2:1 mewn marchnata neu bwnc cysylltiedig, neu gymhwyster cyfatebol.

**PhD:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â ‘Theilyngdod’ cyffredinol o leiaf. Bydd ymgeiswyr sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf (neu radd gyfatebol o'r tu allan i'r DU fel y diffinnir gan Brifysgol Abertawe) nad oes ganddynt radd meistr yn cael eu hystyried ar sail unigol.

**MSc drwy Ymchwil:** Rhaid meddu ar radd anrhydedd 2:1.

**MAE'R ACHREDIADAU A'R DYFARNIADAU YN CYNNWYS:**

CIM Graduate Gateway

**AELODAETH:**

AACSB Business Education Alliance Member

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

**RHEOLI BUSNES MSc drwy Ymchwil** AU RhA

Cwrs gradd ymchwil blwyddyn o hyd sy'n cynnig hyblygrwydd llwyr drwy ei fodd astudio sy'n gwbl seiliedig ar ymchwil.

**RHEOLI BUSNES MPhil/PhD** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil.

Anogir ymgeiswyr i archwilio ein harbenigedd ymchwil er mwyn sicrhau cyfatebiaeth dda rhwng cynigion PhD a darpar oruchwylwyr. Ceir gwybodaeth am ein grwpiau ymchwil yn:

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/ymchwil**

**LLEOLIAD GWAITH MARCHNATA STRATEGOL**

Fel dewis amgen i'r modiwl traethawd estynedig traddodiadol, mae'r cyfle hwn i gael lleoliad gwaith yn galluogi myfyrwyr i ennill profiad ymarferol o weithio ar brosiect marchnata o fewn y diwydiant, heb ymestyn eu gradd nac aberthu credyd academaidd.

Caiff myfyrwyr dri mis o leoliad gwaith di-dâl mewn BBaCh lleol, gan weithio ar brosiect marchnata penodol. Ar ôl cwblhau'r prosiect seiliedig ar waith hwn, bydd myfyrwyr nid yn unig wedi cymhwyso'n feirniadol gysyniadau damcaniaethol a ddysgwyd yn y dosbarth mewn sefyllfa fusnes go iawn, ond byddant wedi gallu gwerthuso heriau gweithio yn y byd go iawn gyda chyfrifoldebau a chael cyfleoedd i ddatblygu cynlluniau datblygu personol yn y maes hwn yn y dyfodol.

Yn ogystal â chael cyfarfodydd gyda goruchwylydd drwy gydol y cyfnod, bydd angen i fyfyrwyr dreulio o leiaf 300 awr ar y prosiect marchnata lefel graddedig hwn. Bydd hyn yn cyfateb i 25 awr yr wythnos o leiaf dros y cyfnod o dri mis, sy'n galluogi myfyrwyr i neilltuo 10 awr yr wythnos i wneud yr ymchwil a'r astudiaethau angenrheidiol wrth baratoi ar gyfer yr asesiad o'r adroddiad diwydiannol.



"Cwblheais fy semester cyfnewid ym Mhrifysgol Abertawe pan oeddwn yn astudio fy ngradd israddedig yn Denmarc. Sylweddolais pa mor dda oedd Prifysgol Abertawe yn ystod y cyfnod hwn. Cefais y syniad o ddychwelyd i Abertawe i gwblhau gradd meistr ar ôl un ddarlith yn benodol. Cadwais mewn cysylltiad â'r brifysgol drwy gydol y broses gwneud cais ac roedd y tîm mor gymwynasgar.

Mae astudio cwrs ôl-raddedig yn golygu y gelli feithrin perthnasoedd hyd yn oed yn gryfach â darlithwyr, ac mae hyn yn wych. Roeddwn i'n dwlu ar y modiwlau roedd modd i mi eu dewis, a oedd yn cynnwys marchnata digidol a marchnata mewn cymdeithas.

Rwyf wedi cwrdd â chynifer o fyfyrwyr o bedwar ban byd ac erbyn hyn mae gennyf ffrindiau o Fongolia a Thsieina. Roedd ymgartrefu'n hawdd: mae Abertawe'n ddinas ddiogel sydd â chymuned gyfeillgar, ac mae'n wych bod mor agos at draeth mor hardd."

Bianca Kronemann

MSc MARCHNATA STRATEGOL



# MATHEMATEG
## CAMPWS Y BAE

FE FYDDI DI'N ASTUDIO'N EIN FFOWNDRI GYFRIFIANNOL GWERTH **£32.5m** GAN DDARPARU CYFLEUSTERAU ADDYSGU O'R RADD FLAENAF

**Mae ein Hadran Fathemateg yn ehangu ac mae bellach wedi'i lleoli yn adeilad newydd y Ffowndri Gyfrifiannol. Mae'r cyfleuster o'r radd flaenaf hwn, sy'n werth £32.5m, yn darparu'r cyfleusterau addysgu ac ymchwil mwyaf diweddar o ansawdd uchel, yn ogystal â gofod rhwydweithio ac ysbrydoli. Yn y Ffowndri, gall partneriaid mewn diwydiant weithio gyda ni, gellir profi syniadau newydd a gall ein myfyrwyr a'n hymchwilwyr weithio ar broblemau go iawn.**

**Rhown bwyslais cryf ar ddatblygu cyflogadwyedd graddedigion, ac mae ein graddedigion wedi cael eu cyflogi gan amrywiaeth eang o sefydliadau, gan gynnwys: AXA, BA, Deutsche Bank, Shell Research, awdurdodau iechyd, Zurich Financial Services, a llywodraeth leol.**

**CYRSIAU A ADDYSGIR**

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi mewn mathemateg neu bwnc cysylltiedig.

**YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU**

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ôl-raddedig ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**GWYDDOR ACTIWARAIDD MSc** AU RhA

Mae'r radd MSc mewn Gwyddor Actiwaraidd yn rhoi sylfaen i raddedigion disgyblaethau rhifol mewn damcaniaethau mathemategol ac ystadegol y mae eu hangen i fod yn actiwari cymwys. Bydd myfyrwyr yn astudio damcaniaethau mathemategol tebygolrwydd ac ystadegau a byddant yn dysgu sut mae'r rhain yn cael eu cymhwyso er mwyn modelu risg mewn amrywiaeth o gyd-destunau actiwaraidd. Mae ein maes llafur yn cyd-fynd â'r corff proffesiynol ar gyfer actiwariaid yn y DU (Sefydliad a Chyfadran Actiwaraidd) a dylai graddedigion llwyddiannus allu cael eithriadau rhag arholiadau proffesiynol dethol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyllid
- Mathemateg Actiwaraidd
- Modelu a Dysgu Peirianyddol
- Prosesau Stocastig a Modelau Goroesi
- Risg Yswiriant
- Sicrwydd a Blwydd-dal
- Tebygolrwydd ac Ystadegau
- Tebygolrwydd ac Ystadegau ar gyfer Cyllid

**MATHEMATEG A CHYFRIFIADUREG AR GYFER CYLLID MSc** AU RhA

Mae'r cwrs MSc mewn Mathemateg a Chyfrifiadureg ar gyfer Cyllid wedi'i gynllunio i ateb y galw cynyddol am fathemategwyr sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig i weithio ym marchnadoedd ariannol ac yswiriant y byd. Ar y cwrs byddi di'n astudio gwahanol elfennau o fathemateg, cyllid a chyfrifiadura yn ogystal â meithrin dy sgiliau cyfathrebu a chyflwyno drwy brosiect a gyflawnir gen ti. Cei gefnogaeth lawn er mwyn sicrhau bod dy brosiect yn cefnogi dy gynlluniau gyrfaol at y dyfodol yn y ffordd orau bosibl.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Calcwlws Itô a Hafaliadau Gwahaniaethol Stocastig
- Cyllid
- Dadansoddi Rhifyddol
- Dadansoddiad Fourier
- Damcaniaeth Tebygolrwydd
- Hafaliadau Gwahaniaethol
- Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol
- Mathemateg Actiwaraidd
- Mathemateg Ariannol
- Prosesau Stocastig
- Rhaglennu Java
- Rhifolion ODEs a PDEs
- Risg yswiriant

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

- Tebygolrwydd ac Ystadegau
- Theori Black-Scholes

**MATHEMATEG MSc** AU RhA

Mae'r cwrs MSc mewn Mathemateg wedi'i gynllunio i fyfyrwyr sydd am adeiladu ar eu BSc, ehangu eu hystod o arbenigedd mathemategol mewn mwy o bynciau, a dangos eu sgiliau ymchwil llenyddiaeth drwy draethawd hir estynedig.

Bydd cymhwyster o'r fath yn dangos bod gan raddedigion ddealltwriaeth ehangach a dyfnach o fathemateg, a'r sgiliau sydd eu hangen i gyflawni prosiect sylweddol gyda lefel uchel o annibyniaeth, gan gyflwyno eu canlyniadau mewn adroddiad ysgrifenedig. Bydd hyn yn rhoi mantais i raddedigion MSc Mathemateg yn y farchnad swyddi fwyfwy cystadleuol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Algebra Cymhwysol: Theori Codio
- Biofathemateg
- Calcwlws Itô
- Dadansoddi Rhifyddol
- Dadansoddi Swyddogaethau
- Dynameg Ddadansoddol
- Geometreg Wahaniaethol
- Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol
- Mathemateg Ariannol
- Prosesau Stocastig
- Theori Black-Scholes

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu radd meistr â 'Theilyngdod' mewn mathemateg neu bwnc cysylltiedig neu gymhwyster cyfatebol.

**PROSESAU STOCASTIG: DAMCANIAETH A CHYMHWYSO MRes** AU RhA

Cyflwynir yr MRes mewn Prosesau Stocastig drwy fodiwlau opsiynol ar gyfer yr elfen a addysgir a ddilynir gan brosiect ymchwil mawr sy'n cyfrannu at y maes mewn ffordd benodol, yn hytrach na dim ond cymhwyso gwybodaeth bresennol.

**Mae pynciau fel arfer yn cynnwys:**

- Dadansoddi Dimensiynol Anfeidraidd Stocastig
- Mathemateg Ariannol
- Prosesau Lévy a Phrosesau naid mwy Cyffredinol

**MATHEMATEG MSc drwy Ymchwil/ MPhil/PhD** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil sy'n canolbwyntio ar y grwpiau ymchwil canlynol.

**Grŵp Algebra, Geometreg a Thopoleg**

Mae ein gwaith ymchwil yn archwilio llawer o agweddau ar ddamcaniaethau geometreg modern a pheirianwaith algebraidd cysylltiedig.

**Grŵp Dadansoddi a Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol Aflinol**

Rydym yn grŵp bywiog sy'n gweithio ar ddadansoddi hafaliadau gwahaniaethol rhannol o amrywiaeth o safbwyntiau.

**Grŵp Biofathemateg**

Mae'r grŵp yn cymhwyso technegau mathemategol a chyfrifiannol arloesol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau ymchwil o'r biowyddorau, gwyddorau bywyd a meddygaeth.

**Grŵp Mathemateg Gyfrifiannol**

Rydym yn datblygu ac yn dadansoddi dulliau cyfrifiannol a rhifyddol newydd, gan astudio ffyrdd o'u cymhwyso at sawl maes, megis Topoleg Gyfrifiannol, Gwyddor Data, Damcaniaeth Medrydd Dellt, Bioleg Fathemategol, Ymchwil Canser a Geometreg Algebraidd Gymhwysol.

**Grŵp Tebygolrwydd**

Mae ein gwaith ymchwil yn archwilio llawer o agweddau ar ddamcaniaethau modern mewn perthynas â phrosesau stocastig ac, yn fwy cyffredinol, meysydd ar hap gan gymhwyso at gyllid, bioleg fathemategol, ffiseg fathemategol, efelychu data a thu hwnt.

**Addysg Mathemateg**

Ffurfiwyd y grŵp ymchwil addysg yn 2014 fel rhan o ddiddordeb cynyddol yr Adran Fathemateg mewn addysg mathemateg mewn ysgolion yng Nghymru, a'i dylanwad dros yr addysg honno.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am ein hymchwil ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/mathemateg/ymchwil-ac-effaith**



# MEDDYGAETH A GOFAL IECHYD

## CAMPWS PARC SINGLETON

1AF YN Y DU MEDDYGAETH (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Ym Mhrifysgol Abertawe, rydym yn cynnig cyfleoedd ôl-raddedig rhagorol ym meysydd meddygaeth a gofal iechyd gyda chyrsiau sy'n adeiladu ar ein cysylltiadau hirsefydlog â'r GIG yn y DU, gwasanaethau cymdeithasol a diwydiant. Mae ein staff ymchwil sy'n adnabyddus yn rhyngwladol yn gweithio'n barhaus i fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu'r system gofal iechyd ac mae ein staff addysgu yn weithgar o ran ymarfer ac ymchwil. Gyda'i gilydd, mae ganddynt brofiad proffesiynol cyfoethog gan gynnig cyfuniad dihafal o ragoriaeth academaidd ac arbenigedd ymarferol.**

**Mae ein hystafelloedd clinigol a'n labordai rhagorol yn paratoi ein myfyrwyr i ddatblygu i fod ymhlith y genhedlaeth nesaf o weithwyr gofal iechyd proffesiynol ac yn raddedigion sy'n barod ar gyfer y gweithle ac sydd â rhagolygon gyrfa ardderchog.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gweler manylion cyrsiau unigol.

**YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU**

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

I gael manylion, gweler:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Datblygiad Proffesiynol Parhaus (DPP)**

Rydym yn cydweithio'n agos â'n partneriaid yn y GIG ac mewn diwydiant i gynnig amgylchedd dysgu DPP bywiog ac arloesol er mwyn diwallu anghenion unigolion a busnesau gan ddilyn dull hyblyg o weithredu. I gael rhagor o fanylion, gweler:

**abertawe.ac.uk/dynolaciechyd/datblygiad-proffesiynol-yng-ngholeg-y-gwyddorau-dynol-ac-iechyd**

**abertawe.ac.uk/y-brifysgol/colegau/ysgol-feddygaeth-prifysgol-abertawe/dpd**

**MEDDYGAETH – RHAGLEN MYNEDIAD I RADDEDIGION MBBCh** AU

Mae'r Rhaglen Meddygaeth i Raddedigion (MBBCh) ym Mhrifysgol Abertawe yn un o grŵp bach o raglenni astudio meddygol tebyg yn y DU. Mae'n radd feddygol llwybr carlam pedair blynedd arloesol, cwbl integredig. Mae ganddi gwricwlwm meddygol integredig, sy'n golygu y caiff y gwyddorau biofeddygol sylfaenol eu dysgu yng nghyd-destun meddygaeth glinigol, iechyd cyhoeddus, patholeg, therapiwteg, moeseg a materion seicogymdeithasol wrth reoli cleifion. Bydd hyn, ynghyd â phwyslais mawr ar sgiliau clinigol a sgiliau cyfathrebu, yn sicrhau bod gen ti bopeth sydd ei angen arnat i ymarfer meddygaeth yn gymwys ac yn hyderus.

**Nodweddion allweddol yn cynnwys:**

Mae'r cwrs yn cael budd o lefel uchel o gyswllt clinigol strwythuredig, gan gynnwys:

- Cysylltiadau arbenigol, gan gynnwys llawfeddygaeth acíwt, meddygaeth acíwt, iechyd menywod, iechyd plant, iechyd meddwl, isarbenigeddau meddygaeth a llawfeddygaeth, ac eiddilwch.
- Dewisol
- Dysgu yn y gymuned
- Isddarlithyddiaeth Iau
- Isddarlithyddiaeth Uwch, yn cysgodi meddygon F1
- Prentisiaethau Clinigol, gan gynnwys wythnos o ymarfer nyrsio

**Gofynion mynediad**

Er mwyn bod yn gymwys i wneud cais am le ar y Rhaglen Meddygaeth – Mynediad i Raddedigion, rhaid dy fod wedi ennill, neu'n disgwyl ennill, y canlynol (neu gymwysterau cyfatebol) erbyn 31 Gorffennaf yn y flwyddyn rwyt yn dymuno dechrau'r rhaglen:

- **Naill ai** gradd ail ddosbarth uwch (2:1) neu ddosbarth cyntaf mewn unrhyw bwnc
- **Neu** 'Deilyngdod' neu anrhydedd (sy'n cyfateb i 2:1 neu ddosbarth cyntaf) mewn gradd meistr israddedig integredig
- **Neu** ail ddosbarth is (2:2) YN OGYSTAL Â gradd meistr ôl-raddedig neu PhD
- **A** gradd C neu uwch mewn TGAU Mathemateg a Chymraeg/Saesneg

Os bydd gen ti fwy nag un radd israddedig, ystyrir canlyniad y radd fwyaf diweddar.

**GAMSAT/MCAT**

Rhaid i bob ymgeisydd sefyll un o'r profion dethol canlynol ar gyfer ysgolion meddygaeth cyn gwneud cais:

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

- Rhaid i ymgeiswyr o'r DU/UE sefyll prawf GAMSAT. **Rhaid i ti gael sgôr GAMSAT o 50 o leiaf, ynghyd ag o leiaf 50 ym Mhapur 3 (Rhesymu mewn Gwyddorau Biolegol a Ffisegol) er mwyn cael dy ystyried.**

Cynigir cyfweliadau i ymgeiswyr sy'n bodloni sgôr gymhwyso gyffredinol yn eu harholiad mynediad, a bennir bob blwyddyn pan fydd pob sgôr wedi dod i law.

Mae pob cynnig a wneir yn amodol, yn dibynnu ar dystiolaeth o gymwysterau, geirdaon boddhaol, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd neu wiriad gan yr heddlu a chliriad iechyd galwedigaethol.

**Nid yw'r Rhaglen Meddygaeth - Mynediad i Raddedigion ar gael i fyfyrwyr sy'n trosglwyddo â chredydau o gyrsiau Meddygaeth eraill ond gall ymgeiswyr sydd wedi bod yn fyfyrwyr mewn ysgolion meddygaeth eraill wneud cais i ymuno â'r rhaglen o Flwyddyn 1, ar yr amod eu bod yn bodloni'r gofynion mynediad.**

Noder: Ar ddiwedd y cwrs hwn cei dy radd MBBCh (neu'r hyn sy'n cyfateb iddi), sy'n gymhwyster meddygol sylfaenol (PMQ). Mae'r cymhwyster hwn yn galluogi ein graddedigion i ymarfer yn y DU a llawer o wledydd eraill.

Cynghorir ymgeiswyr i sicrhau bod PMQ Prifysgol Abertawe yn cael ei gydnabod gan awdurdod safonau meddygol y wlad y maent yn dymuno ymarfer ynddi. Mae PMQ yn golygu y cei gofrestru â'r Cyngor Meddygol Cyffredinol dros dro, ar yr amod ei fod yn derbyn nad oes unrhyw bryderon Ffitrwydd i Ymarferydd y mae angen eu hystyried.

Am ragor o wybodaeth, gweler:

**abertawe.ac.uk/meddygaeth**

### ASTUDIAETHAU CYDYMAITH MEDDYGOL MSc AU

Bydd yr MSc mewn Astudiaethau Cydymaith Meddygol, sy'n radd dwy flynedd integredig, yn dy helpu i ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau clinigol i lwyddo yn y Dystysgrif Arholi Genedlaethol a dechrau dy rôl gofal iechyd newydd. Drwy gydol dy radd, cei gyfleoedd i weithio'n effeithiol gyda chleifion, datblygu ystod o sgiliau ymarferol a sgiliau rhesymu, ac adlewyrchu ar ymarfer er mwyn nodi dy anghenion dysgu unigol.

Mae mwy o alw am Gymdeithion Meddygol ledled y DU a bydd galw mawr am dy sgiliau a dy gymhwyster gradd mewn amryw o leoliadau. Mae'r rhaglen hon, sy'n un o'r cyntaf o'i math yng Nghymru, wedi'i datblygu yn unol â chanllawiau'r Llywodraeth er mwyn helpu i ddiwallu'r angen strategol am weithlu gofal iechyd modern.

Caiff y radd MSc mewn Astudiaethau Cydymaith Meddygol ei chefnogi ar hyn o bryd drwy fwrsari gan Lywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, mae 40 o leoedd a gyllidir ar y rhaglen hon bob blwyddyn.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyflwyniad i Gyfraith a Moeseg Gofal Iechyd
- Cyflwyniad i Ymchwil, Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth a Myfyrio
- Sgiliau Clinigol
- Sylfeini Meddygaeth Glinigol
- Traethawd Hir

**Gofynion mynediad**

TGAU Mathemateg a Chymraeg/Saesneg gradd C neu uwch (neu'r hyn sy'n cyfateb iddynt), ac o leiaf 2:2 anrhydedd mewn disgyblaeth fiofeddygol neu gysylltiedig ag iechyd. Gellir ystyried ymgeiswyr sydd â gradd uchel (2:1 anrhydedd neu uwch) mewn disgyblaeth anghysylltiedig ac a all gyflwyno tystiolaeth o brofiad gwaith perthnasol a gwerthoedd yn unol â chyfansoddiad y GIG ar sail unigol.

Mae rhaid i bob ymgeisydd ddarparu datganiad personol sy'n dangos tystiolaeth o brofiad gofalu, dealltwriaeth o rôl Cydymaith Meddygol a'r rhinweddau personol ac academaidd sy'n ofynnol ar gyfer y cwrs ac ymarfer yn y dyfodol.

Cynigir cyfweliadau i ymgeiswyr sy'n cwrdd â'r gofynion mynediad yn seiliedig ar eu datganiad personol.

Mae unrhyw gynnig a wneir yn amodol, yn amodol ar dystiolaeth o gymwysterau, tystlythyrau boddhaol, Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad yr heddlu a chliriad iechyd galwedigaethol.

### ADDYSG AR GYFER Y PROFFESIYNAU IECHYD PGCert/PGDip/MA RhA

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio'n benodol ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sy'n addysgu mewn lleoliadau academaidd neu glinigol ac sy'n awyddus i atgyfnerthu eu sgiliau. Bydd y rhaglen hon yn rhoi dealltwriaeth fanwl i ti o egwyddorion a gwerthoedd addysgol ac yn datblygu dy arbenigedd ym maes addysgu, asesu a goruchwylio. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n mireinio dy sgiliau ymchwil a sgiliau dadansoddi hanfodol ac yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol. Ar ôl cwblhau'r cwrs hwn yn llwyddiannus, byddi di'n gymwys i ddod yn Aelod o'r Academi Addysgwyr Meddygol (AoME), ac yn Gymrawd neu'n Gymrawd Cyswllt o'r Academi Addysg Uwch (HEA).

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Addysgu a Dysgu ar gyfer Arwain Ymarfer Addysgwyr y Proffesiynau Iechyd
- Addysgu a Dysgu mewn Ymarfer
- Addysg Seiliedig ar Dystiolaeth a Theori
- Arweinyddiaeth ar Waith
- Asesu ac Adborth
- Cynllunio a Gwerthuso dy Addysgu
- Mentora a Goruchwylio
- Traethawd Hir
- Ymchwilio i Ymarfer Addysgol

**Gofynion mynediad**

Bydd angen gradd briodol neu'r hyn sy'n cyfateb iddi gan sefydliad cymeradwy (2:2 neu uwch yn ddelfrydol) a thystiolaeth o astudiaethau academaidd diweddar ar gyfer cymhwyster proffesiynol, ynghyd ag o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith a chyfrifoldebau perthnasol. Ar hyn o bryd mae'n rhaid i ti fod wedi dy gofrestru fel gweithiwr gofal iechyd proffesiynol i wneud cais. Mae ceisiadau'n cael eu sgrinio am ddogfennaeth safonol ac yna'n cael eu cyfeirio at gyfarwyddwr y rhaglen i'w hadolygu.

### ADDYSG FEDDYGOL PGCert/PGDip/MSc AU RhA ION

Mae'r rhaglen amlddisgyblaethol hon yn addas i'r rhai sy'n gweithio ar hyn o bryd ym maes Addysg Feddygol neu sy'n gweithio tuag at rôl yn y maes hwnnw, gan gynnwys addysgwyr, meddygon, nyrsys a Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd.

Bydd y cwrs, a gynlluniwyd i adlewyrchu'r rolau amrywiol ym maes Addysg Feddygol, yn cysylltu damcaniaeth addysg â'r ffordd y caiff ei defnyddio ym maes meddygaeth, gan ymchwilio i



amrywiaeth o bynciau, o sgiliau addysgu ymarferol i arloesedd ac addysg feddygol ddigidol.

Mae'r MSc mewn Addysg Feddygol yn cyd-fynd â Fframwaith Safonau Proffesiynol y DU (UKPSF 2011) ar gyfer Addysg Uwch a Safonau'r Academi Addysgwyr Meddygol, sy'n fframweithiau cydnabyddedig ar gyfer Addysgu a Dysgu ardderchog yn y maes, a fframwaith cydnabod hyfforddwyr y GMC.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Addysg ar Sail Tystiolaeth
- Addysgu, Dysgu ac Asesu
- Arloesi a Thueddiadau mewn Addysg
- Asesu ac Adborth
- Datblygu'r Cwricwlwm mewn Addysg Feddygol
- Dau Brosiect Ymchwil (Dim traethawd hir)
- Dulliau Ymchwil mewn Addysg
- Mentora a Goruchwylio
- Technolegau Digidol mewn Addysg Feddygol

**Gofynion mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 neu'r hyn sy'n cyfateb iddi. Dylai ymgeiswyr hefyd gyflwyno CV a datganiad personol i ddangos eu bwriad o ran addysgu, hyfforddiant, addysg, ymchwil, rheoli neu arwain ym maes Addysg Feddygol nawr ac yn y dyfodol.

### DYFARNIAD YMARFER ARBENIGOL ASTUDIAETHAU IECHYD CYMUNEDOL MEWN NYRSIO ARDAL PGDip/MSc AU RhA

Nod y rhaglen hon yw paratoi nyrsys ardal i weithio'n annibynnol ac yn ymreolaethol mewn amgylchedd gymhleth sy'n newid yn gyflym, gan dy helpu i ddod yn un o arweinwyr ysbrydoledig y dyfodol, sy'n gweddnewid ymarfer ac yn cyfrannu at yr agenda gofal iechyd ehangach. Ar ôl cwblhau'r rhaglen hon yn llwyddiannus, bydd y sawl sydd wedi cofrestru'n gallu cyrraedd safonau'r NMC ar gyfer ymarfer arbenigol nyrsys ardal (SPDN) a chymhwyster V100 (nyrsys rhagnodi cymunedol). Mae 50% o'r cwrs yn waith ymarferol a 50% yn waith theori, a rhoddir pwyslais cryf ar y gydberthynas rhwng ymarfer a theori.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cymhwyso Profiad o Ragnodi gan Nyrsys at faes ymarfer arbenigol
- Datblygu arbenigedd clinigol ym maes Ymarfer Nyrs Ardal cyfoes
- Gweithio mewn Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol
- Rhagnodi gan Nyrsys ar gyfer Ymarferwyr Cymunedol (V100)
- Sgiliau Uwch ym Maes Rheoli ac Arwain ar gyfer Ymarfer Nyrs Ardal
- Traethawd hir ar ymarfer SPDN
- Ymchwil a Datblygu mewn Ymarfer Nyrs Ardal (SPDN)

**Gofynion mynediad**

I wneud cais am le ar y cwrs hwn, rhaid dy fod wedi cofrestru â'r NMC ar ran 1 o'r gofrestr a meddu ar radd anrhydedd BSc/BA/BN neu gymhwyster cyfatebol. Rhaid i ti ddangos tystiolaeth o brofiad ar ôl cofrestru yn y maes ymarfer arbenigol a chadarnhad o unrhyw astudiaethau diweddar (e.e. modiwl datblygiad proffesiynol parhaus, a hynny o fewn y pum mlynedd diwethaf yn ddelfrydol). Bydd hefyd angen i ti gael gwiriad cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a chyflwyno copïau o gymwysterau academaidd ac unrhyw ddogfennau eraill sy'n ofynnol gan yr adran derbyniadau, er mwyn eu gwirio yn ystod y broses ddethol. Os wyt yn ystyried trosglwyddo unrhyw ddysgu blaenorol, mae angen trawsgrifiad llawn o'r amlinelliad o fodiwlau yn y cyfweliad.

### GOFAL NEWYDDENEDIGOL UWCH PGCert RhA

Bydd y rhaglen hon yn helpu staff sy'n gweithio yn y maes clinigol arbenigol hwn i ddatblygu ac atgyfnerthu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth ymhellach. Byddi di'n dysgu'r sgiliau clinigol sydd eu hangen er mwyn diwallu anghenion iechyd a gofal cyfannol babanod sâl a babanod a gafodd eu geni'n gynnar gan gynnwys meysydd fel gwythïen-bigiadau a dadansoddi nwy gwaed, ac yn ymarfer y sgiliau hyn o dan oruchwyliaeth arbenigol. Ni yw'r unig brifysgol yng Nghymru sy'n cynnig y dystysgrif ôl-raddedig arbenigol hon.

**Mae modiwlau'n cynnwys:**

- Datblygu dy Sgiliau Clinigol Newyddenedigol
- Gwella dy Sgiliau Newyddenedigol Uwch

**Gofynion mynediad**

Dylai fod gen ti gymhwyster yn yr arbenigedd ynghyd â phrofiad o ofalu am fabanod newyddenedigol. Rhaid i ti fod yn gweithio gyda babanod newyddenedigol ar hyn o bryd, a dylai fod mentor clinigol addas ar gael i ti.

### GWEITHIWR PROFFESIYNOL IECHYD MEDDWL CYMERADWY PGCert AU

Bydd y rhaglen hon yn dy alluogi i feithrin y wybodaeth a'r sgiliau proffesiynol sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru i ddod yn Weithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy(AMHP). Mae AMHP yn gyfrifol am asesu person sydd ag anhwylder meddwl wrth ystyried yr angen i wneud cais iddo gael ei dderbyn yn ffurfiol i ysbyty seiciatrig.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Deall Iechyd Meddwl a Thrallod Meddwl
- Penderfyniadau a Phartneriaethau Proffesiynol mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Polisi a'r Gyfraith mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl
- Ymarfer Seiliedig ar Werthoedd a Phenderfyniadau Moesegol mewn Gwasanaethau Iechyd Meddwl

**Gofynion mynediad**

I wneud cais am le ar y cwrs hwn, bydd angen i ti fod yn weithiwr cymdeithasol, yn nyrs, yn seicolegydd neu'n therapydd galwedigaethol mewn iechyd meddwl neu anableddau dysgu. Dylet fod wedi cofrestru â chorff proffesiynol, bod wedi cael o leiaf ddwy flynedd o brofiad ar ôl cymhwyso a meddu ar brofiad perthnasol o weithio gyda phobl ag anhwylderau meddwl. Bydd angen i ti gael dy gyflogi yn un o'r 16 Awdurdod Lleol yng Nghymru neu'r Byrddau Iechyd cysylltiedig. Cei dy ddewis a chei dy ariannu gan dy gyflogwr i hyfforddi i ymgymryd â rôl statudol AMHP. Rhaid bod gen ti gefnogaeth dy gyflogwr a mynediad at gyfleoedd dysgu priodol. Mae angen gradd Baglor neu Feistr neu, mewn amgylchiadau eithriadol, lle na fodlonir y gofyniad academaidd hwn, rhaid i ti ddangos sut mae dy brofiad a dy gymwysterau yn eu galluogi i gwblhau astudiaethau ôl-raddedig. Gellir dangos tystiolaeth o hyn drwy Ddyfarniad Ôl-gymhwyso perthnasol, er enghraifft. Os nad oes gen ti radd, mae'n bosibl y bydd angen i ti gael cyfweliad.

### IECHYD CYHOEDDUS A HYBU IECHYD MSc AU RhA ION

Bydd y rhaglen hon yn dy alluogi i feithrin y wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd eu hangen arnat i ddylanwadu ar bolisi iechyd a'i newid ar bob lefel. Byddi di'n astudio'r cefndir hanesyddol, datblygiadau presennol, a chyfeiriad posibl iechyd cyhoeddus a hybu iechyd yn y dyfodol, ochr yn ochr â safbwyntiau athronyddol a damcaniaethol allweddol. Caiff dy sgiliau ymchwil a dadansoddi eu mireinio wrth i ti asesu'r sail dystiolaeth dros ymyriadau iechyd cyhoeddus, a bydd lleoliad arsylwi yn rhoi profiad gwerthfawr i ti o gymhwyso damcaniaeth hybu iechyd yn y byd go iawn. Mae'r cwrs wedi'i fapio yn ôl y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, Fframwaith Gyrfaoedd Iechyd Cyhoeddus. Ar ôl i ti gwblhau'r cwrs yn llwyddiannus, byddi di'n gymwys i wneud cais am statws ymarferydd cofrestredig a/neu arbenigwr ar Gofrestr Iechyd y Cyhoedd y DU.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Diogelu Iechyd
- Epidemioleg a Thystiolaeth Iechyd Cyhoeddus
- Maeth ar gyfer Gwella Iechyd y Cyhoedd
- Moeseg Iechyd Cyhoeddus
- Rheoli ac Arwain Ymarfer Iechyd Cyhoeddus
- Sylfeini mewn Hybu Iechyd
- Sylfeini mewn Ymchwil
- Traethawd hir
- Ymarfer Iechyd Cyhoeddus

**Gofynion mynediad**

Bydd angen gradd berthnasol 2:1 neu uwch arnat. Fel arall, bydd angen cymhwyster cydnabyddedig cyfatebol a/neu ddwy flynedd o brofiad gwaith perthnasol, gyda thystiolaeth o gyflawniadau addysgol/proffesiynol.

### NYRSIO CYN-GOFRESTRU (IECHYD MEDDWL) MSc

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd sydd heb eu cofrestru, yn rhoi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnat i lansio gyrfa werth chweil yn y proffesiwn hanfodol hwn. Byddi di'n dysgu i ddarparu gofal nyrsio tosturiol o safon uchel er mwyn gwella iechyd a lles meddwl. Yn ystod y cwrs, byddi di'n gwella'r gofal a'r driniaeth a roddir i bobl sy'n defnyddio gwasanaethau iechyd meddwl, eu gofalwyr a'u teuluoedd. Wrth i ti fynd drwy'r cwrs, byddi di'n meithrin sgiliau rhyngbersonol a chyfathrebu effeithiol er mwyn dy baratoi i weithio fel rhan o dîm sy'n cynnwys seiciatryddion, seicolegwyr, gweithwyr cymdeithasol, gweithwyr cymunedol a therapyddion galwedigaethol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Gwneud Penderfyniadau wrth Werthuso a Gwella Gwasanaethau
- Gofal Nyrsio Acíwt ac Heb ei Drefnu
- Gofal yr Unigolyn ag Anghenion Cymhleth
- Hanfodion Nyrsio
- Hybu Iechyd ac Atal Salwch
- Traethawd Hir
- Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth ac Ymchwil Nyrsio

**Gofynion mynediad**

Dim ond ar gyfer nyrsys sydd heb gofrestru mae'r cwrs MSc hwn. Nid yw'n addas i nyrsys cofrestredig. Mae'r rhaglen hon yn agored i raddedigion â gradd anrhydedd 2:2 neu uwch a TGAU gradd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg. Bydd angen i ti ddangos dy fod wedi gweithio 750 o oriau mewn rôl glinigol mewn amgylcheddau sy'n gysylltiedig ag iechyd, fel cartrefi gofal, ysbytai, gofal cymunedol neu ofal yn y cartref.

Mae pob cynnig a wneir yn amodol, yn dibynnu ar dystiolaeth o astudiaethau diweddar (o fewn y pum mlynedd diwethaf), geirdaon academaidd a phersonol boddhaol, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, neu gliriad iechyd galwedigaethol a chyfatebol cymeradwy.

### NYRSIO CYN-GOFRESTRU (OEDOLION) MSc

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd sydd heb eu cofrestru, yn rhoi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnat i lansio gyrfa werth chweil yn y proffesiwn hanfodol hwn. Byddi di'n dysgu am anghenion cyfannol pobl o oedolaeth gynnar i henaint ac yn datblygu'r sgiliau proffesiynol i roi gofal nyrsio o ansawdd uchel mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol a chymunedol. Wrth i'r cwrs fynd rhagddo, byddi di'n datblygu'r sgiliau i asesu, cynllunio, darparu a gwerthuso gofal

yn seiliedig ar dystiolaeth sy'n hybu iechyd a lles oedolion sydd â chyflyrau acíwt a chronig.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Gwneud Penderfyniadau wrth Werthuso a Gwella Gwasanaethau
- Gofal Nyrsio Acíwt ac Heb ei Drefnu
- Gofal yr Unigolyn ag Anghenion Cymhleth
- Hanfodion Nyrsio
- Hybu Iechyd ac Atal Salwch
- Traethawd Hir
- Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth ac Ymchwil Nyrsio

**Gofynion mynediad**

Dim ond ar gyfer nyrsys sydd heb gofrestru mae'r cwrs MSc hwn. Nid yw'n addas i nyrsys cofrestredig. Mae'r rhaglen hon yn agored i raddedigion â gradd anrhydedd 2:2 neu uwch a TGAU gradd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg. Bydd angen i ti ddangos dy fod wedi gweithio 750 o oriau mewn rôl glinigol mewn amgylcheddau sy'n gysylltiedig ag iechyd, fel cartrefi gofal, ysbytai, gofal cymunedol neu ofal yn y cartref.

Mae pob cynnig a wneir yn amodol, yn dibynnu ar dystiolaeth o astudiaethau diweddar (o fewn y flwyddyn diwethaf), geirdaon academaidd a phersonol boddhaol, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), neu gliriad iechyd galwedigaethol a chyfatebol cymeradwy.

### NYRSIO CYN-GOFRESTRU (PLANT) MSc

Bydd y cwrs dwy flynedd hwn ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd sydd heb eu cofrestru, yn rhoi'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnat i lansio gyrfa werth chweil yn y proffesiwn hanfodol hwn. Byddi di'n dysgu am anghenion iechyd a llesiant holistaidd plant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Wrth i ti fynd drwy'r cwrs, byddi di'n meithrin y sgiliau proffesiynol sydd eu hangen arnat i ddarparu gofal nyrsio o safon uchel sy'n seiliedig ar dystiolaeth a mesurau diogelu iechyd mewn amrywiaeth o leoliadau clinigol a chymunedol, a hynny'n aml wrth weithio fel rhan o dîm amlddisgyblaethol yn y sectorau iechyd a gofal cymdeithasol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Arweinyddiaeth, Rheolaeth a Gwneud Penderfyniadau wrth Werthuso a Gwella Gwasanaethau
- Gofal Nyrsio Acíwt ac Heb ei Drefnu
- Gofal Plentyn a Phobl Ifanc ag Anghenion Cymhleth
- Hanfodion Nyrsio
- Hybu Iechyd ac Atal Salwch
- Traethawd Hir
- Ymarfer sy'n Seiliedig ar Dystiolaeth ac Ymchwil Nyrsio

**Gofynion mynediad**

Dim ond ar gyfer nyrsys sydd heb gofrestru mae'r cwrs MSc hwn. Nid yw'n addas i nyrsys cofrestredig. Mae'r rhaglen hon yn agored i raddedigion â gradd anrhydedd 2:2 neu uwch a TGAU gradd C neu uwch mewn Mathemateg a Saesneg/Cymraeg. Bydd angen i ti ddangos dy fod wedi gweithio 750 o oriau mewn rôl glinigol mewn amgylcheddau sy'n gysylltiedig ag iechyd, fel cartrefi gofal, ysbytai, gofal cymunedol neu ofal yn y cartref.

Mae pob cynnig a wneir yn amodol, yn dibynnu ar dystiolaeth o astudiaethau diweddar (o fewn y pum mlynedd diwethaf), geirdaon academaidd a phersonol boddhaol, gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS), neu gliriad iechyd galwedigaethol a chyfatebol cymeradwy.

**GOFYNION MYNEDIAD AR GYFER POB CWRS NYRSIO IECHYD CYHOEDDUS CYMUNEDOL ARBENIGOL:**

**I wneud cais am y rhaglenni hyn, bydd angen:**

- I ti fod yn nyrs neu'n fydwraig sydd wedi cofrestru â'r NMC
- Gradd anrhydedd o'r DU
- Tystiolaeth o astudiaethau academaidd diweddar
- Datgeliad manwl cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)
- Sefydliad lletya presennol o fewn y Bwrdd Iechyd a lleoliad ymarfer addas ag archwiliad addysgol cyfredol a chymorth gan Athro Ymarfer sy'n bodloni gofynion yr NMC
- I ti fod wedi negodi secondiad
- I ti fod wedi sicrhau cyllid (dim ond i nyrsys neu fydwragedd sy'n gweithio i'r GIG yng Nghymru mae lleoedd a ariennir gan AaGIC yn agored). Rhaid i nyrsys/bydwragedd sy'n gweithio y tu allan i'r GIG neu'r tu allan i Gymru roi tystiolaeth o gyllid yn eu cais.

### NYRSIO IECHYD CYHOEDDUS CYMUNEDOL ARBENIGOL (NYRSIO MEWN YSGOL) PGDip/MSc AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn datblygu ymarferwyr Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol i weithio'n annibynnol mewn ystod o leoliadau cymunedol. Bydd y cwrs yn dy baratoi i weithio mewn lleoliadau cymhleth ac amrywiol gan gynnwys cartrefi, ysgolion a'r gymuned ehangach. Byddi di'n dod yn ymarferydd gwybodus â sgiliau rheoli a rhyngbersonol gwych. Os byddi di'n llwyddo i gwblhau'r rhaglen hon, byddi di'n ennill y cymhwyster cofnodadwy Nyrs Ysgol Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol a bydd yn dy alluogi i gofrestru ar ran SCPHN o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Datblygiad Proffesiynol o ran Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Diogelu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Hwyluso Iechyd a Lles Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
- Hybu Iechyd Cyhoeddus Poblogaethau
- Hybu Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc
- Traethawd Hir ar Ymarfer SCPHN
- Ymchwil a Datblygu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)

### NYRSIO IECHYD CYHOEDDUS CYMUNEDOL ARBENIGOL (NYRSIO MEWN YSGOL) GYDA V100 INTEGREDIG PGDip/MSc AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn datblygu ymarferwyr Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol i weithio'n annibynnol mewn ystod o leoliadau cymunedol. Bydd y cwrs yn dy baratoi i weithio mewn lleoliadau cymhleth ac amrywiol gan gynnwys cartrefi, ysgolion a'r gymuned ehangach. Byddi di'n dod yn ymarferydd gwybodus â sgiliau rheoli a rhyngbersonol gwych. Os byddi di'n llwyddo i gwblhau'r rhaglen hon, byddi di'n ennill cymhwyster cofnodadwy Nyrs Ysgol Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol a chymhwyster V100 (nyrsys rhagnodi cymunedol).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Datblygiad Proffesiynol o ran Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Diogelu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Hwyluso Iechyd a Lles Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd
- Hybu Iechyd Cyhoeddus Poblogaethau
- Rhagnodi i Nyrsys ar gyfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Llyfr Fformiwlâu Cymunedol V100)
- Traethawd Hir ar Ymarfer SCPHN
- Ymchwil a Datblygu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)

### NYRSIO IECHYD CYHOEDDUS CYMUNEDOL ARBENIGOL (YMWELIADWYR IECHYD) PGDip/MSc AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn datblygu ymarferwyr Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol i weithio'n annibynnol mewn ystod o leoliadau cymunedol. Bydd y cwrs yn dy baratoi i weithio mewn lleoliadau cymhleth ac amrywiol gan gynnwys cartrefi, ysgolion a'r gymuned ehangach. Byddi di'n dod yn ymarferydd gwybodus â sgiliau rheoli a rhyngbersonol gwych. Os byddi di'n llwyddo i gwblhau'r rhaglen hon, bydd yn arwain at ddyfarniad proffesiynol mewn ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol ym maes Ymweliadau Iechyd a bydd yn dy alluogi i gofrestru ar ran SCPHN o gofrestr y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Datblygiad Proffesiynol o ran Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Diogelu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Hwyluso Iechyd a Lles Unigolion a Theuluoedd (Ymwelwyr Iechyd)
- Hybu Iechyd Cyhoeddus Poblogaethau
- Hybu Lles Emosiynol Plant a Phobl Ifanc
- Traethawd Hir ar Ymarfer SCPHN
- Ymchwil a Datblygu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)

### NYRSIO IECHYD CYHOEDDUS CYMUNEDOL ARBENIGOL (YMWELIADAU IECHYD) GYDA V100 INTEGREDIG PGDip/MSc AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn datblygu ymarferwyr Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol i weithio'n annibynnol mewn ystod o leoliadau cymunedol. Bydd y cwrs yn dy baratoi i weithio mewn lleoliadau cymhleth ac amrywiol gan gynnwys cartrefi, ysgolion a'r gymuned ehangach. Byddi di'n dod yn ymarferydd gwybodus â sgiliau rheoli a rhyngbersonol gwych. Os byddi di'n llwyddo i gwblhau'r rhaglen hon, byddi di'n ennill cymhwyster cofnodadwy Ymwelydd Iechyd Nyrsio Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol a chymhwyster V100 (nyrsys rhagnodi cymunedol).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Datblygiad Proffesiynol o ran Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Diogelu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)
- Hwyluso Iechyd a Lles Unigolion a Theuluoedd (Ymwelwyr Iechyd)
- Hybu Iechyd Cyhoeddus Poblogaethau
- Rhagnodi i Nyrsys ar gyfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (Llyfr Fformiwlâu Cymunedol V100)
- Traethawd Hir ar Ymarfer SCPHN
- Ymchwil a Datblygu ym Maes Ymarfer Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol (SCPHN)

### RHAGNODI ANFEDDYGOL I FFERYLLWYR PGCert RhA

Bydd y rhaglen hon, sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (GPhC), yn dy wneud yn gymwys i ymarfer yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol fel rhagnodwr anfeddygol annibynnol neu atodol. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnat i ragnodi'n ddiogel ac yn briodol yn dy faes ymarfer.

MEDDYGAETH A GOFAL IECHYD

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Egwyddorion ac Ymarfer Ffarmacoleg
- Rhagnodi Anfeddygol (GPHC)

**Gofynion mynediad**

Gelli wneud cais am y cwrs hwn:

- Os oes gen ti gyllideb ragnodi
- Os wyt yn bodloni gofynion mynediad penodol a bennir gan y Cyngor Fferyllol Cyffredinol (gweler isod)
- Os wyt wedi cael dy gymeradwyo gan Reolwr Clinigol ac Arweinydd Rhagnodi'r Bwrdd Iechyd
- Os oes gen ti archwiliad cofnodion troseddol cyfredol i fodloni gofynion penodol y corff proffesiynol
- Os wyt wedi nodi ymarferydd meddygol dynodedig cymwys a phriodol
- Os wyt yn dangos y gallu i astudio ar lefel academaidd 7.

Nid yw'r rhaglen hon yn cydnabod dysgu blaenorol. Nid oes modd achredu rhan o fodiwl, waeth beth fo dy brofiad neu dy ddysgu blaenorol.

Rhaid i fferyllwyr sy'n gwneud cais i ddilyn rhaglen ragnodi annibynnol fod wedi cofrestru â'r Cyngor Fferyllol Cyffredinol neu Gymdeithas Fferyllol Gogledd Iwerddon a rhaid bod ganddynt o leiaf ddwy flynedd o brofiad priodol gyda chleifion mewn ysbyty, lleoliad cymunedol neu leoliad gofal sylfaenol yn y DU ar ôl eu blwyddyn cyn-gofrestru.

### RHAGNODI ANFEDDYGOL I WEITHWYR PROFFESIYNOL PERTHYNOL I IECHYD PGCert RhA

Bydd y rhaglen hon, sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC), yn dy wneud yn gymwys i ymarfer yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol fel rhagnodwr anfeddygol annibynnol neu atodol. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnat i ragnodi'n ddiogel ac yn briodol yn dy faes ymarfer.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Asesu Clinigol a Gwneud Penderfyniadau ym Maes Rhagnodi Anfeddygol (HCPC)
- Egwyddorion ac Ymarfer Ffarmacoleg (HCPC)

**Gofynion mynediad**

Gelli wneud cais am y cwrs hwn:

- Os oes gen ti gyllideb ragnodi
- Os wyt yn bodloni gofynion mynediad penodol a bennir gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (gweler isod)
- Os wyt wedi cael dy gymeradwyo gan Reolwr Clinigol ac Arweinydd Rhagnodi'r Bwrdd Iechyd
- Os oes gen ti archwiliad cofnodion troseddol cyfredol i fodloni gofynion penodol y corff proffesiynol
- Os wyt wedi nodi ymarferydd meddygol dynodedig cymwys a phriodol
- Os wyt yn dangos y gallu i astudio ar lefel academaidd 7

Nid yw'r rhaglen hon yn cydnabod dysgu blaenorol. Nid oes modd achredu rhan o fodiwl, waeth beth fo dy brofiad neu dy ddysgu blaenorol. Nid oes gan y Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal (HCPC) unrhyw ofynion penodol ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol Perthynol i Iechyd ond rhaid bod ganddynt brofiad addas a'u bod wedi ymsefydlu yn y rôl y maent am ragnodi ynddi.

### RHAGNODI ANFEDDYGOL I NYRSYS A BYDWRAGEDD PGCert RhA

Bydd y rhaglen hon, sydd wedi'i hachredu gan y Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth (NMC), yn dy wneud yn gymwys i ymarfer yn unol â'r ddeddfwriaeth bresennol fel rhagnodwr anfeddygol annibynnol neu atodol. Bydd yn rhoi'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnat i ragnodi'n ddiogel ac yn briodol yn dy faes ymarfer.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Asesu Clinigol a Gwneud Penderfyniadau ym maes Rhagnodi Anfeddygol (NMC)
- Egwyddorion ac Ymarfer Ffarmacoleg (NMC)

**Gofynion mynediad**

Gelli wneud cais am y cwrs hwn:

- Os wyt yn nyrs gofrestredig (Lefel 1), bydwraig gofrestredig neu Nyrs Iechyd y Cyhoedd Cymunedol Arbenigol
- Mae'r strwythurau llywodraethu angenrheidiol ar waith yn dy faes ymarfer (gan gynnwys cymorth clinigol, amser dysgu neilltuedig a chefnogaeth cyflogwr lle bo'n briodol) i dy alluogi ymgymryd â'r rhaglen a chael dy gefnogi'n ddigonol drwy gydol y rhaglen
- Rwyt ti'n gallu ymgymryd ag ymarfer diogel ac effeithiol ar lefel hyfedredd sy'n briodol i'r rhaglen. Dylai dy faes ymarfer rhagnodi arfaethedig fod yn un o'r meysydd canlynol: clinigol/asesu iechyd/diagnosteg/rheoli gofal neu gynllunio a gwerthuso gofal.
- Os wyt yn dangos y gallu i astudio ar lefel academaidd 7

Mae ymgeiswyr am raglenni rhagnodi ategol/annibynnol V300 wedi bod yn gofrestredig gyda'r Cyngor Meddygol Cyffredinol am o leiaf 5 mlynedd cyn cyflwyno cais am le.

### RHEOLI CYFLYRAU CRONIG A HIRDYMOR MSc AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn rhoi'r wybodaeth a'r profiad sydd eu hangen arnat i ddeall anghenion pobl sy'n byw gyda chyflyrau hirdymor a chronig a phobl y mae cyflyrau o'r fath yn effeithio arnynt, a chynllunio a rheoli gwasanaethau iechyd a gofal yn unol â hynny. Byddi di'n astudio mewn modd amlddisgyblaethol a chei dy annog i gydweithio â'r proffesiynau amrywiol sy'n ymwneud â rheoli cyflyrau hidymor a chronig.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Agweddau Cymdeithasol ar Salwch Hirdymor a Chronig
- Seicoleg Iechyd Salwch Hirdymor a Chronig
- Sylfeini Hybu Iechyd
- Sylfeini mewn Ymchwil
- Theori ac Ymarfer Rheoli Cyflyrau Hirdymor a Chronig
- Traethawd Hir

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol yn cynnwys:**

- Anatomeg a Phathoffisioleg Gymhwysol ar gyfer Rheoli Cyflyrau Hirdymor Cronig
- Rheoli Cyflyrau Cronig: Diabetes
- Rheoli Cyflyrau sy'n Gysylltiedig â Chlefyd Parkinson
- Rheoli Poen Cronig neu Barhaus

**Gofynion mynediad**

Bydd angen gradd briodol neu'r hyn sy'n cyfateb iddi gan sefydliad cymeradwy yn y DU (2:1 neu uwch yn ddelfrydol) a thystiolaeth o astudiaethau academaidd diweddar. Gallai fod gen ti hefyd gymhwyster proffesiynol ac o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith a chyfrifoldebau perthnasol.

### RHEOLI GOFAL IECHYD MSc

AU RhA ION

Os wyt yn gweithio fel rheolwr yn y maes iechyd ar hyn o bryd ac yn awyddus i adeiladu ar dy brofiad neu ddatblygu dy yrfa yn y maes hwn, bydd y rhaglen hon yn rhoi sylfaen berffaith i ti. Byddi di'n dysgu sut i gynllunio a gwneud gwelliannau i wasanaethau, rheoli newid, gweithio gydag eraill i gyflawni nodau sefydliadol, cyfathrebu'n effeithiol a defnyddio adnoddau yn y ffordd orau bosibl. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n meithrin sgiliau arwain y gellir eu cymhwyso mewn amrywiaeth eang o rolau rheoli yn y maes gofal iechyd a meysydd cysylltiedig.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Cyd-destun Cymdeithasol, Diwylliannol ac Economaidd o Iechyd
- Gwleidyddiaeth a Pholisïau
- Theori ac Ymarfer Arwain a Rheoli ym Maes Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Traethawd Hir
- Trefnu Gofal Iechyd
- Tystiolaeth ac Ymchwil ar gyfer Rheoli Gofal Iechyd

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**

- Gwella Ansawdd
- Gwerthusiadau Economaidd mewn Gofal Iechyd
- Seicoleg Rheoli Gofal Iechyd
- Sylfeini Iechyd y Cyhoedd a Gofal Iechyd Sylfaenol

**Gofynion mynediad**

Bydd angen gradd 2:2 gan brifysgol neu gorff dyfarnu cydnabyddedig yn y DU, neu'r hyn sy'n cyfateb iddi. Byddwn hefyd yn ystyried cymwysterau proffesiynol mewn maes perthnasol neu o leiaf ddwy flynedd o brofiad gwaith perthnasol.

### TRALLWYSO CYDRANNAU GWAED PGCert RhA

Bydd y rhaglen arloesol hon, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd anfeddygol, yn dy alluogi i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth i wneud y penderfyniad clinigol a rhoi'r cyfarwyddyd ysgrifenedig i drallwyso cydrannau gwaed i gleifion o fewn dy arbenigedd clinigol. Rydym wedi datblygu'r cwrs achredig hwn sy'n seiliedig ar waith mewn cydweithrediad â Gwasanaeth Gwaed Cymru ar ran Llywodraeth Cymru i gefnogi Polisi Cymru Gyfan ar awdurdodi trallwyso cydrannau gwaed yn anfeddygol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Datblygu dy Ymarfer dy hun ym Maes Trallwyso Cydrannau Gwaed
- Egwyddorion Ymarfer Diogel wrth Reoli Trallwysiadau Clinigol

**Gofynion mynediad**

Dylet feddu ar gymhwyster proffesiynol perthnasol a gweithio mewn maes lle mae angen clinigol wedi'i nodi. Dylai fod gen ti o leiaf dair blynedd o brofiad ar ôl cofrestru yn dy faes clinigol arbenigol, gan ddod i gysylltiad â thrallwyso cyfansoddion gwaed yn aml. Dylai fod gen ti gefnogaeth dy reolwr llinell a bydd angen bod gen ti fentor meddygol dynodedig sy'n gyfrifol am gefnogi dy ddysgu seiliedig ar waith a dy asesiadau.

### YMARFER BYDWREIGIAETH PROFFESIYNOL UWCH PGCert/PGDip/MSc RhA

Bydd y rhaglen seiliedig ar waith hon yn gwella dy wybodaeth, dy resymeg glinigol a dy sgiliau gwneud penderfyniadau fel bydwraig. Mae'r cwrs modiwlaidd hwn yn hynod hyblyg ac yn cael ei arwain gan dy amcanion datblygu proffesiynol a dy amcanion dysgu fel myfyriwr a bydwraig brysur. Byddi di'n astudio pynciau allweddol sy'n ymwneud â pholisi ac ymarfer ac yn mireinio dy sgiliau ymchwil a dadansoddi hanfodol mewn perthynas â bydwreigiaeth.

Gyda chymorth mentor academaidd, byddi di hefyd yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Dechrau dy Ddatblygiad Proffesiynol
- Portffolio Ymarfer Bydwreigiaeth Proffesiynol

**Mae modiwlau opsiynol fel arfer yn cynnwys:**

- Astudiaethau Proffesiynol ac Arweinyddiaeth ym Maes Bydwreigiaeth
- Datblygu Arbenigedd ym Maes Goruchwylio Bydwragedd

- Datblygu Arbenigedd ym Maes Goruchwylio Bydwragedd (DPP)
- Datblygu dy Ymarfer dy Hun
- Dylanwadau Polisi ar dy Ymarfer
- Goruchwyliaeth Glinigol
- Sut y Gallaf Newid Ymarfer?

**Gofynion mynediad**
Mae'r cwrs hwn ar gyfer bydwragedd sydd wedi graddio ac sydd wedi cofrestru â'r NMC. Bydd y gofynion o ran profiad clinigol yn dibynnu ar yr unigolyn; ond, byddai disgwyl i'r rhan fwyaf o fydwragedd atgyfnerthu eu hymarfer fel bydwragedd newydd gymhwyso cyn ceisio cyfleoedd ym maes addysg bellach. Caiff y rhan fwyaf o ymgeiswyr eu derbyn ar y cwrs astudio os bydd eu cyflogwr yn cytuno darparu cyllid neu absenoldeb astudio ond byddwn hefyd yn dy ystyried os byddi di'n dewis ariannu dy hun ac astudio yn dy amser dy hun.

## YMARFER DIABETES PGCert/ PGDip/MSc (AU) (RhA)

Mae hon yn rhaglen dysgu o bell hyblyg i ôl-raddedigion sydd wedi'i chynllunio ar gyfer gweithwyr gofal iechyd proffesiynol sydd â diddordeb arbennig mewn Diabetes. Ei nod yw darparu gwybodaeth sylfaenol a datblygedig, sgiliau clinigol a phrofiad i bontio'r bwlch mewn gwybodaeth ym maes gofal diabetes er mwyn diwallu anghenion iechyd a gofal pobl â diabetes, gan gynnwys cefnogi dulliau rheoli hunanofal yn effeithiol.

Yn y rhaglen hon, gellir manteisio ar yr opsiwn i gyflawni portffolio seiliedig ar waith yn lle traethawd hir. Mae hwn yn gyfle unigryw i Weithwyr Proffesiynol Gofal Iechyd adolygu, arfarnu a gwerthuso'r ffordd y maent yn cymhwyso eu gwybodaeth newydd yn eu hamgylchedd gwaith clinigol eu hunain. Ceir modiwl preswyl bob blwyddyn hefyd, sy'n cynnwys gweithdai sgiliau ymarferol a symposia siaradwyr gwadd.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Cymhlethdodau Diabetes
- Digwyddiadau Diabetes
- Hanfodion Diabetes
- Rheoli Diabetes
- Sefyllfaoedd Diabetes
- Traethawd Hir neu Bortffolio Seiliedig ar Waith

**Gofynion mynediad**
Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 mewn pwnc perthnasol, a hynny'n ddelfrydol gyda phrofiad clinigol.

## YMARFER GOFAL IECHYD, MSc / PGDip (RhA)

Mae'r Ymarfer Gofal Iechyd MSc wedi'i anelu at weithwyr proffesiynol gofal iechyd cofrestredig sy'n dymuno ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus. Mae gan y rhaglen hyblyg hon ddull sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a bydd gan fyfyrwyr fynediad at ystod eang o fodiwlau DPP a fydd yn eu galluogi i adeiladu eu cymhwyster o amgylch eu hanghenion proffesiynol, eu diddordebau personol a'u dyheadau gyrfaol. Adeilada'r rhaglen ar wybodaeth, profiad a sgiliau cyfredol myfyrwyr, gan eu galluogi i nodi a gweithredu ffyrdd gwell o weithio a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ofal cleifion.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**
- Gwella Ansawdd
- Prosiect Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth
- Rheoli ac Arwain
- Sylfeini mewn Ymchwil

**Gofynion mynediad**
Rhaid cael cofrestriad cyfredol gyda Chorff Proffesiynol perthnasol e.e. NMC, HCPC neu GPhC a 3 blynedd o brofiad clinigol cyfredol ac o leiaf gradd anrhydedd 2:1.

Rhaid i fyfyrwyr heb radd israddedig ddangos eu bod wedi cyflawni 120 credyd ar lefel 6. Bydd matriciwleiddio yn cael ei ystyried ar gyfer myfyrwyr aeddfed gyda thystiolaeth o astudiaeth academaidd lwyddiannus ddiweddar.

Rhaid i fyfyrwyr fod yn gweithio mewn amgylcheddau gofal iechyd a fydd yn cefnogi trosi dysgu damcaniaethol yn ymarfer.

## YMARFER GOFAL IECHYD CYMUNEDOL A SYLFAENOL PGCert/PGDip/MSc (RhA)

Mae'r cwrs hwn wedi'i gynllunio ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd wrth eu gwaith sy'n dymuno gwella eu harbenigedd o ran arweinyddiaeth, ymchwil ac addysg a bydd yn dy alluogi i feithrin y sgiliau a'r wybodaeth sydd eu hangen arnat i symud ymlaen yn dy yrfa ac archwilio ymchwil ac ymarfer trawsddisgyblaethol arloesol i wella iechyd y cyhoedd. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n mireinio sgiliau ymchwil a sgiliau dadansoddi hanfodol mewn perthynas â pholisi ac ymarfer gofal iechyd ac yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**
- Parhau â dy Ddatblygiad Proffesiynol mewn Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol
- Sylfeini Ymchwil
- Traethawd hir

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**
- Gweithio gydag Unigolion, Teuluoedd a Chymunedau mewn Ymarfer Gofal Iechyd Sylfaenol
- Gweithio mewn Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol
- Gweithio mewn Ymarfer Gofal Iechyd Meddwl Cymunedol a Sylfaenol

**Gofynion mynediad**
Dylai fod gen ti radd anrhydedd ail ddosbarth (2:2) o leiaf, neu gymhwyster cydnabyddedig cyfatebol, a rhaid i ti fod yn ymarferydd cofrestredig sy'n gweithio mewn rôl yn y gymuned. Gall profiad perthnasol hefyd gael ei ystyried lle bo'n briodol.

## YMARFER NYRSIO MSc / PGDip (RhA)

Mae'r Ymarfer Nyrsio MSc wedi'i anelu at nyrsys cymwys a chofrestredig sy'n dymuno ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus, symud ymlaen i astudiaethau lefel uwch ac ennill cymhwyster ôl-raddedig.

Mae gan y rhaglen hyblyg hon ddull sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr a bydd gan fyfyrwyr fynediad at ystod eang o fodiwlau DPP a fydd yn eu galluogi i adeiladu eu cymhwyster o amgylch eu hanghenion proffesiynol, eu diddordebau personol a'u dyheadau gyrfaol. Adeilada'r rhaglen ar wybodaeth, profiad a sgiliau cyfredol myfyrwyr, gan eu galluogi i nodi a gweithredu ffyrdd gwell o weithio a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar ofal cleifion.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**
- Gwella Ansawdd
- Prosiect Ymarfer Seiliedig ar Dystiolaeth
- Rheoli ac Arwain
- Sylfeini mewn Ymchwil

**Gofynion mynediad**
Rhaid bod gan yr ymgeiswyr gofrestriad cyfredol gyda'r NMC gyda 3 blynedd o brofiad clinigol cyfredol, yn ogystal â gradd anrhydedd 2:1. Rhaid i fyfyrwyr heb radd israddedig ddangos eu bod wedi cyflawni 120 credyd ar lefel 6. Bydd matriciwleiddio yn cael ei ystyried ar gyfer myfyrwyr aeddfed gyda thystiolaeth o astudiaeth academaidd lwyddiannus ddiweddar.

Rhaid i fyfyrwyr fod yn gweithio mewn amgylcheddau gofal iechyd a fydd yn cefnogi trosi dysgu damcaniaethol yn ymarfer.

## YMARFER PROFFESIYNOL UWCH MSc/PGDip/PGCert (RhA)

Os wyt yn ymarferydd iechyd a gofal cymdeithasol sy'n dysgu wrth weithio, mae'r rhaglen hon yn ffordd wych i ti gael cydnabyddiaeth academaidd ffurfiol am dy ddatblygiad proffesiynol. Mae'r cwrs modiwlaidd hwn yn hynod hyblyg ac yn cael ei arwain gan dy anghenion fel myfyriwr a gweithiwr proffesiynol prysur. Byddi di'n astudio pynciau allweddol sy'n ymwneud â pholisi ac ymarfer ac yn mireinio dy sgiliau ymchwil a dadansoddi hanfodol mewn perthynas ag iechyd a gofal cymdeithasol. Gyda chymorth mentor academaidd, byddi di hefyd yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol.

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**
- Addysgu a Dysgu mewn Ymarfer
- Asesu dy Ymarfer Presennol
- Datblygu dy Ymarfer dy Hun
- Dechrau dy Ddatblygiad Proffesiynol
- Dylanwadau Polisi ar dy Ymarfer
- Rheoli ac Arwain Ymarfer Gofal Iechyd (Dysgu Seiliedig ar Waith)
- Sut y Gall y Sail Dystiolaeth dy Helpu i Newid dy Ymarfer
- Sut y Gallaf Newid Ymarfer?

**Gofynion mynediad**
Bydd angen gradd briodol neu'r hyn sy'n cyfateb iddi gan sefydliad cymeradwy (2:2 neu uwch yn ddelfrydol) a thystiolaeth o astudiaethau academaidd diweddar a/neu Ddatblygiad Proffesiynol Parhaus. Dylet fod yn gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol a dylai fod gen ti o leiaf ddwy flynedd o brofiad a phortffolio proffesiynol perthnasol.

## YMARFER UWCH MEWN GOFAL IECHYD PGDip/MSc (RhA)

Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio ar gyfer ymarferwyr gofal iechyd profiadol sydd am atgyfnerthu eu sgiliau a datblygu i lefel uwch. Byddi di'n meithrin sgiliau gwell ym meysydd asesu, diagnosteg a rheoli clefydau, ac yn cael cyfle i ymgymryd ag astudiaethau ar gyfer rhagnodi anfeddygol. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n mireinio sgiliau ymchwil a sgiliau dadansoddi hanfodol mewn perthynas ag ymarfer clinigol ac yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**
- Anatomeg, Ffisioleg a Phathoffisioleg ar gyfer Ymarfer Clinigol Uwch
- Diagnosis Clinigol a Rheoli Cleifion ar gyfer Ymarfer Uwch
- Sgiliau Asesu Clinigol
- Sylfeini Ymchwil
- Ymarfer ac Addysg Uwch

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**
- Asesu Clinigol a Gwneud Penderfyniadau ym Maes Rhagnodi Anfeddygol
- Egwyddorion ac Ymarfer Ffarmacoleg
- Traethawd Hir Portffolio Ymarfer Uwch

**Gofynion mynediad**
I wneud cais am le ar y cwrs hwn, mae angen i ti fod wedi cymhwyso ers o leiaf dair blynedd a meddu ar radd 2:2 yn y DU neu gymhwyster cyfatebol mewn pwnc perthnasol. Efallai y gelli gofrestru heb radd gyntaf a/neu efallai y bydd angen i ti ymgymryd ag astudiaethau rhagofynnol ar lefel 6. Cyn gwneud cais, mae angen i ti drafod a yw dy gyflogwr yn fodlon cefnogi dy gais. Caiff y penderfyniad i dy dderbyn ar y cwrs ei wneud ar y cyd rhwng y Brifysgol a dy gyflogwr a chaiff pob ymgeisydd ei gyfweld ar y cyd â'i briod fwrdd iechyd.

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MPhil:** Fel arfer byddai gan ymgeiswyr radd anrhydedd (2:1 neu uwch) mewn disgyblaeth sy'n ymwneud â'r dewis arbenigedd, neu gymhwyster ôl-raddedig cymeradwy, perthnasol.

**PhD:** Fel arfer byddai gan ymgeiswyr radd israddedig dosbarth cyntaf mewn disgyblaeth berthnasol, neu 2:1 a/neu radd Meistr mewn disgyblaeth berthnasol.

**MSc drwy Ymchwil:** Dylai ymgeiswyr feddu ar radd israddedig dosbarth cyntaf neu 2:1 (neu gyfwerth) gan brifysgol yn y Deyrnas Unedig neu brifysgol arall a gymeradwywyd.

Yn amodol ar y prosiect ymchwil, mae rhai cynigion yn amodol ar dderbyn Gwiriad Datgelu a Gwahardd (DBS) neu wiriad rhyngwladol cyfatebol gan yr Heddlu.

### DYNIAETHAU IECHYD MPhil/PhD AU RhA

Cymhwyso cysyniadau a dulliau gweithredu hanes, llenyddiaeth a'r celfyddydau gweledol wrth ddadansoddi iechyd a gofal iechyd. Mae hanes anabledd yn faes arbenigol penodol, gyda hanes llafar pobl y mae'r cyffur, thalidomid, wedi effeithio arnynt ar waith ar hyn o bryd. Mae prosiectau ymchwil diweddar gan fyfyrwyr yn cynnwys ymchwil i naratifau rhoi genedigaeth i ddelweddau o anabledd yn llenyddiaeth Saesneg Cymru wedi'r rhyfel.

### ECONOMEG IECHYD MSc drwy Ymchwil/MPhil /PhD AU RhA

Mae Economeg Iechyd yn greiddiol i arloesi, asesu technoleg iechyd, blaenoriaethu a chyllidebu rhaglenni yn y GIG yn y DU ac yn fyd-eang. Mae PhD neu MPhil mewn Economeg Iechyd yng Nghanolfan Economeg Iechyd Abertawe (SCHE) yn cynnig cyfle gwych i wneud cyfraniad gwreiddiol i ddatblygu a chymhwyso ymchwil ym maes economeg iechyd a chanlyniadau i faterion go iawn sy'n ymwneud â pholisi a darparu gofal iechyd. Byddi di'n datblygu sgiliau ym maes gwaith dadansoddi a dulliau economeg iechyd craidd ac yn cyflawni dy brosiect ymchwil dy hun, a gefnogir gan raglen oruchwylio a hyfforddiant a gaiff ei theilwra'n arbennig i ti. Gall hyn gynnwys datblygu gwybodaeth a sgiliau mewn agweddau ar ddefnyddio epidemioleg, dadansoddi data arferol ac ymchwil feintiol yn ogystal â chymhwyso dadansoddiadau economeg iechyd fel rhan o asesiadau o dechnoleg iechyd, iechyd cyhoeddus a gwerthuso ymyriadau a gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol. Mae gennym arbenigedd penodol ym maes blaenoriaethu a dylunio, defnyddio a dehongli canlyniadau a nodir gan gleifion.

### GWYDDOR IECHYD MPhil/PhD AU RhA

Drwy gynllunio a chyflawni'r gwaith ymchwil biowyddonol sy'n rhoi'r sail dystiolaeth ar gyfer polisïau ac ymarfer iechyd, mae ein hymchwilwyr yn helpu i wella gwasanaethau i gleifion ac ymarferwyr. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn archwilio nodweddion gwrthffyngaidd secretiadau cynrhon a nodweddion gwrthficrobaidd infertebratau, ac effeithiau ffisiolegol rhaglen adsefydlu cardiaidd ar gleifion cnawdychiad myocardaidd yn Kuwait.

### IECHYD CYHOEDDUS MPhil/PhD AU RhA

Drwy roi sail dystiolaeth drwy waith ymchwilio empirig, archwilio a gwerthuso, mae ein hymchwil yn cyfrannu at welliannau ar bob lefel ym maes polisi ac ymarfer iechyd y cyhoedd. Mae prosiectau ymchwil diweddar gan ein myfyrwyr yn cynnwys effaith pecyn addysg strwythuredig ar wybodaeth ac ymarfer nyrsys mewn achosion Hepatitis B a Hepatitis C yn Sawdi-Arabia, a dealltwriaeth ymwelwyr iechyd o egwyddor 'dylanwadu ar bolisïau sy'n effeithio ar iechyd', yn cyfrannu at ffyrdd newydd o feddwl am ofal, gwasanaethau a pholisi iechyd meddwl. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn edrych ar arferion sy'n seiliedig ar dystiolaeth ym maes iechyd meddwl (yn enwedig gwasanaethau ymyrraeth gynnar), cydgysylltu gofal mewn gofal iechyd meddwl fforensig a dylanwad cyfranogiad defnyddwyr gwasanaeth wrth ddatblygu rôl broffesiynol.

### IECHYD A LLES MSc drwy Ymchwil AU RhA

Mae systemau iechyd a gofal cymdeithasol y DU yn parhau i ddarparu gofal o ansawdd uchel. Er hynny, mae'n hanfodol ein bod yn archwilio technolegau newydd a dull o weithio i sicrhau bod y safonau gofal yr ydym wedi dod i'w disgwyl yn cael eu cynnal. Mae'r cwrs hon yn rhoi'r cyfle i ti ddilyn dy ddiddordebau ymchwil personol neu broffesiynol dy hun yn y maes eang hwn, sy'n cwmpasu meysydd polisi mor amrywiol ag iechyd, addysg, tai, anabledd, trosedd, tlodi, a'r teulu. Cynigia'r cyfle rhagorol i wneud cyfraniad gwreiddiol at ddatblygu a chymhwyso ymchwil canlyniadau i faterion bywyd go iawn wrth ddarparu polisi a gofal iechyd.

### IECHYD MEDDWL MPhil/PhD AU RhA

Er mwyn datblygu a gwerthuso gwasanaethau iechyd meddwl effeithiol sy'n seiliedig ar dystiolaeth i helpu pobl ar adegau anoddaf eu bywyd, rhaid cael ymchwil o safon uchel. Bydd astudio am MPhil/PhD mewn Iechyd Meddwl yn rhoi'r cyfle i ti ddilyn dy ddiddordebau ymchwil personol neu broffesiynol dy hun yn y maes pwysig hwn, gan gyfrannu at ffyrdd newydd o feddwl am ofal, gwasanaethau a pholisïau iechyd meddwl. Ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn edrych ar ymarfer seiliedig ar dystiolaeth mewn iechyd meddwl (yn enwedig gwasanaethau ymyriadau cynnar), cydlynu gofal mewn gofal iechyd meddwl fforensig a dylanwad cyfranogiad defnyddwyr gwasanaethau wrth ddatblygu rôl broffesiynol.

### NYRSIO MPhil/PhD AU RhA

Gan ganolbwyntio'n glir ar drosi theori academaidd yn ganlyniadau ymarferol cadarnhaol i ymarferwyr, cleifion a gofalwyr, mae ein hymchwil nyrsio o'r radd flaenaf yn edrych ar amrywiaeth eang o faterion o weithio proffesiynol a gofal cleifion, i ddatblygu triniaethau ac ymyriadau newydd. Ar hyn o bryd mae ein myfyrwyr yn ymchwilio i bynciau sy'n cynnwys profiadau emosiynol nyrsys plant sy'n gofalu am blant â chyflyrau sy'n cyfyngu ar fywyd, a gofal myfyrwyr nyrsio tuag at gleifion gordew.

### POLISI IECHYD MPhil/PhD AU RhA

Mae ein gwaith ymchwil, sy'n edrych ar brosesau gwneud penderfyniadau yn y gwasanaethau iechyd yn y DU a thramor, yn cefnogi newidiadau polisi sy'n gwella canlyniadau i gleifion ac ymarferwyr gofal iechyd. Mae gennym arbenigedd penodol ym maes cyllid a chontractau gwasanaeth, astudiaethau gweithredu polisi, systemau ansawdd a chynnwys y cyhoedd. Mae prosiectau ymchwil diweddar gan ein myfyrwyr yn cynnwys diwygiadau prynwyr darparwyr, cynllunio'r system yswiriant iechyd gwladol, sector yswiriant meddygol preifat y DU, a chynnwys cleifion a'r cyhoedd.

### RHEOLI GOFAL IECHYD MPhil/PhD AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn rhoi'r cyfle i ti ddilyn dy ddiddordeb personol neu broffesiynol dy hun ym maes arwain a gwella gwasanaethau iechyd, sut maent yn rhoi triniaeth i bobl â salwch corfforol a meddyliol, a sut y gallant helpu i wella iechyd drwy ymyriadau wedi'u targedu. Mae prosiectau ymchwil diweddar gan fyfyrwyr Rheoli Gofal Iechyd yn cynnwys ymchwil i gynnwys y cleifion a'r cyhoedd, diogelwch data mewn systemau gwybodaeth, a dulliau gwell o werthuso gwariant cyfalaf mawr mewn gofal iechyd.

### SEICOLEG IECHYD MPhil/PhD AU RhA

Mae pwysigrwydd ffactorau seicolegol wrth hybu iechyd da a rheoli salwch a risgiau iechyd yn faes astudio cynyddol bwysig. Mae myfyrwyr ymchwil wrthi'n edrych ar y ffactorau seicolegol sy'n hybu iechyd da, a datblygu ymyriadau er mwyn annog plant, pobl ifanc a merched beichiog i fyw bywyd iach.

# MEDDYLIAU MAWR

## Yr Athro Angharad Puw Davies

**MAE'R ATHRO ANGHARAD PUW DAVIES YN FICROBIOLEGYDD MEDDYGOL ACADEMAIDD AC YN IS-LYWYDD ER DYSG COLEG BRENHINOL Y PATHOLEGWYR. MAE EI GWAITH YN ABERTAWE YN CWMPASU ADDYSGU, YMCHWIL A GWAITH CLINIGOL.**

Graddiodd fel meddyg o Brifysgol Caergrawnt gan arbenigo mewn microbioleg feddygol yn ysbyty'r Royal Free yn Llundain, cyn gwneud doethuriaeth yng Ngholeg y Brifysgol Llundain. Mae'n addysgwr blaenllaw mewn microbioleg a phatholeg glinigol, yn goruchwylio cwricwla ac arholiadau ôl-radd proffesiynol Coleg Brenhinol y Patholegwyr, ac yn cynghori nifer o bwyllgorau a phrosiectau addysgol cenedlaethol y DU. Mae'n un o Brif Gymrodorion yr Academi Addysg Uwch ac yn aelod o gyngor Academi'r Addysgwyr Meddygol.

Mae'r Athro Davies yn arbenigwr mewn addysg ôl-radd a rhyngbroffesiynol ym maes iechyd, yn enwedig mewn ymwrthedd a stiwardiaeth gwrthficrobaidd, ar gyfer meddygon, fferyllwyr, gwyddonwyr biofeddygol ac eraill.

'Mae'r dechnoleg newydd i astudio dilyniannau genomeg dynol ac organebau wedi agor y drws i ddatblygiadau cyffrous tu hwnt, ac mae angen hyfforddiant a sgiliau newydd ar weithwyr iechyd er mwyn defnyddio'r dechnoleg yma i'w llawn botensial. Un arall o brif heriau gofal iechyd heddiw yw ymwrthedd gwrthfiotig. Mae cyfran fwyfwy o'r triniaethau sydd gennym ar gyfer heintiau yn dod yn llai effeithiol o ganlyniad i orddefnydd, ac mae angen gweithlu arbenigol i sicrhau defnydd cyfrifol ohonynt. Mae'n faes sy'n symud yn gyflym ac yn newid yn gyson. Mae fy mhractis proffesiynol fel meddyg yn hollbwysig i sicrhau bod yr addysg rwy'n ei darparu'n parhau'n gyfredol.'

Mae'r Athro Davies yn ymgynghorydd microbioleg feddygol er anrhydedd ar gyfer Uned Gyfeiriol Cryptosporidium Genedlaethol Iechyd Cyhoeddus Cymru. Heintiau Cryptosporidium yw ei phrif ddiddordeb ymchwil ac mae hi wedi cyhoeddi'n eang yn y maes. Hi yw Arweinydd Arbenigedd Haint Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru a chafodd ei hymchwil ei ariannu gan Sefydliad Bill a Melinda Gates, ymysg eraill. Mae hi hefyd yn cefnogi'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol fel darlithydd cysylltiol ac yn aelod o'r Pwyllgor Ymchwil a Chyhoeddi.

> "Y chwyldro genomeg, ac ymwrthedd gwrthfiotig yw dau o brif heriau meddygaeth fodern. Ar gyrsiau ôl-radd Abertawe cei gyfle i archwilio'r heriau yma mewn dyfnder, efo athrawon clinigol sy'n gweithio yn y maes."





# PEIRIANNEG
CAMPWS Y BAE

**10fed yn y DU am beirianneg** (Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Ein nod yw dy helpu i ddatblygu'r potensial i ddod yn arweinydd neu'n hyrwyddwr diwydiant yn y dyfodol, a dy baratoi i allu wynebu'r heriau a'r cyfleoedd sy'n gysylltiedig â gyrfa ym maes ymchwil.**

**Rydym yn y 10fed safle yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil (REF) diweddaraf (2014), gyda 94% o ymchwil yn cael ei hystyried yn ymchwil 'o'r radd flaenaf' (4*) neu'n 'rhyngwladol ardderchog' (3*).**

**Peirianwyr yn Abertawe a wnaeth baratoi'r ffordd o ran datblygu technegau rhifiadol fel y dull elfen feidraidd chwyldroadol, a gydnabyddir fel un o'r 100 o brif ddarganfyddiadau a datblygiadau ym mhrifysgolion y DU sydd wedi newid y byd.**

**Gyda'n canolfannau ymchwil o'r radd flaenaf a rhaglen fuddsoddi barhaus, mae'r Gyfadran Peirianneg a Gwyddoniaeth yn cynnig amgylchedd rhagorol i dy astudio neu wneud gwaith ymchwil.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 neu uwch. Gweler ein gwefan i weld gofynion mynediad rhaglenni unigol a manylion pellach.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

*Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.*

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### ARWAIN A RHEOLI PEIRIANNEG MSc (ALl)

Mae'n dra hysbys y gall peirianwyr, gwyddonwyr a graddedigion technegol gyrraedd y lefel uchaf ym maes arwain a rheoli mewn diwydiant. Bydd y rhaglen MSc hon yn ehangu dy orwelion ac yn atgyfnerthu dy ddealltwriaeth a dy sgiliau ym meysydd arwain, rheoli a strategaeth, yn ogystal â rhoi cefndir technegol craidd mewn pynciau arloesol fel Gweithgynhyrchu Deallus, Systemau Ymdrochol a Dadansoddi Amgylcheddol.

Caiff y rhaglen ei haddysgu mewn blociau byr a dwys dros ddau semester a bydd pwnc dy draethawd hir yn canolbwyntio ar ddadansoddi senario go iawn mewn ffordd strategol, dan arweiniad mentoriaid sy'n flaenllaw mewn diwydiant. Mae hefyd yn ceisio dy helpu i ddatblygu fel unigolyn, drwy fentora proffesiynol un i un drwy gydol y rhaglen. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Arwain, Datblygu Tîm, Cyfathrebu ac Ymgysylltu
- Economi Gylchol a Pheirianneg Gynaliadwy
- Gweithgynhyrchu Deallus
- Mentergarwch, Arloesedd ac Eiddo Deallusol
- Prosiect/Traethawd Hir
- Rheoli Asedau
- Rheoli Gweithrediadau
- Rheoli Prosiectau
- Rhith-systemau
- Strategaeth

### MECANEG GYFRIFIADUROL MSc (ALl)

Mae hon yn rhaglen ôl-raddedig dwy flynedd a gaiff ei drefnu rhwng Prifysgol Abertawe, Universitat Politècnica de Catalunya (Sbaen), mewn cydweithrediad â'r Ganolfan Ryngwladol ar gyfer Dulliau Rhifiadol mewn Peirianneg (CIMNE, Sbaen).

Byddi di'n derbyn hyfforddiant amlddisgyblaethol dwfn wrth gymhwyso'r dull elfen gyfyngedig, yn ogystal â thechnegau rhifiadol a chyfrifiadol o'r radd flaenaf i ddatrys ac efelychu problemau heriol.

Bydd dy wybodaeth gyffredinol am theori mecaneg gyfrifiadol yn cael ei datblygu ochr yn ochr â gwerthfawrogiad o efelychiad cyfrifiadol mewn diwydiant a'r byd academaidd.

Darperir hyfforddiant hefyd ar ddatblygu meddalwedd newydd ar gyfer efelychu gwell problemau peirianneg cyfredol.

Caiff y cwrs MSc ei achredu gan Gyd-fwrdd y Cymedrolwyr (JBM). Mae JBM yn cynnwys Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE), Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol (IStructE), Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth (CIHT), a Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd (IHE).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dadansoddiadau Cyfrifiadurol Elfennau Meidraidd

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

- Dulliau Rhifiadol ar gyfer Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol
- Dynameg a Dadansoddi Dros Dro
- Entrepreneuriaeth i Beirianwyr
- Mecaneg Continwwm
- Mecaneg Continwwm Aflinol
- Mecaneg Hylifau Uwch
- Modelu ac Efelychu Cronfeydd Dŵr
- Rhyngweithio Strwythurau Hylifau
- Sgiliau Cyfathrebu mewn Iaith Dramor (Almaeneg/Ffrangeg/Sbaeneg)

### NANOWYDDONIAETH I NANODECHNOLEG MSc AU RhA

Mae'r cwrs hwn yn cwmpasu ystod eang o bynciau, o'r dechnoleg llunio lled-ddargludyddion ddiweddaraf i gymwysiadau biolegol a meddygol, gyda'r pwyslais drwyddo draw ar nodweddu a rheoli defnyddiau ar raddfa nano.

Yn Abertawe, cei fudd o gyfleusterau'r Ganolfan Nanoiechyd gwerth £22 miliwn a'r Ganolfan Defnyddiau Lled-ddargludo Integreiddiol newydd gwerth £30 miliwn sy'n cynnwys ystafell lân o'r radd flaenaf a chyfleusterau llunio a nodweddu arloesol. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Bio-Nanodechnoleg
- Cynllunio Prosiect Strategol
- Efelychu ar Raddfa Nano
- Egwyddorion Nanofeddygaeth
- Electroneg Bwlch Band Eang
- Gwyddor Coloidau a Rhyngwynebau
- Nanodechnoleg Feddal
- Stilio ar Raddfa Nano
- Strwythurau a Dyfeisiau Nanoraddfa
- Systemau Electro-Fecanyddol Micro a Nano

### PEIRIANNEG AWYROFOD MSc AU RhA ION

Mae'r cwrs hwn yn paratoi myfyrwyr ar gyfer y broses o ddylunio, dadansoddi, profi a hedfan yr ystod lawn o gerbydau awyrennol, gan gynnwys gleiderau, hofrenyddion ac awyrennau a yrrir gan bropelorau a jetiau.

Bydd myfyrwyr ar y cwrs yn ennill profiad ymarferol drwy gael defnyddio un o efelychwyr hedfan peirianyddol mwyaf datblygedig y byd. Caiff y cwrs ei achredu gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE), y Gymdeithas Awyrennol Frenhinol (RAeS), a Sefydliad y Dylunwyr Peirianyddol (IED).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Aerodynameg Uwch
- Cyfanrwydd Strwythurol Metelau Awyrofod
- Dadansoddiadau Cyfrifiadurol Elfennau Meidraidd
- Defnyddiau Cyfansawdd
- Dulliau Rhifiadol ar gyfer Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol
- Dynameg a Rheolaeth Hediadau
- Strwythur Fframiau Awyr Uwch

### PEIRIANNEG BŴER AC YNNI CYNALIADWY MSc AU RhA

Mae gan y gyfadran enw da rhyngwladol am ymchwil drydanol ac electroneg i ynni a defnyddiau a dyfeisiau lled-ddargludo uwch.

Mae'r cwrs Peirianneg Bŵer ac Ynni Cynaliadwy yn rhoi pwyslais cadarn ar ddyfeisiau a thechnolegau lled-ddargludo o'r radd flaenaf, ynghyd â gyriannau ac electroneg pŵer uwch, a systemau pŵer uwch. Mae'r cwrs hefyd yn cwmpasu technolegau cynhyrchu ynni confensiynol ac adnewyddadwy. Caiff datblygiadau newydd cyffrous, fel electroneg bwlch band eang, cynaeafu ynni, celloedd solar a biodanwydd eu trafod ac amlygir datblygiadau diweddar mewn electroneg pŵer. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Astudiaeth Achos Cyfrifiadurol
- Dadansoddiadau a Deddfwriaeth Amgylcheddol
- Dyfeisiau Lled-ddargludo Pŵer
- Electroneg Bwlch Band Eang
- Gyriannau ac Electroneg Pŵer Uwch
- Labordy Ynni ac Electroneg Pŵer
- Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Peirianwyr Ymchwil
- Systemau Cynhyrchu Pŵer
- Systemau Pŵer Uwch
- Systemau Rheoli Modern

### PEIRIANNEG DEFNYDDIAU MSc AU RhA

Mae Peirianneg Defnyddiau yn sail i bob cymhwysiad peirianyddol bron. Mae gan Brifysgol Abertawe gryfderau ymchwil allweddol ym maes defnyddiau ar gyfer cymwysiadau awyrofod, technoleg dur a defnyddiau ffotofoltäig, ac mae wedi sefydlu cydweithrediadau ymchwil hirsefydlog â rhai o'r sefydliadau amlwladol mwyaf ym maes Defnyddiau. Bydd myfyrwyr yn meithrin y wybodaeth a'r gallu i fodloni gofynion diwydiant defnyddiau rhyngwladol.

Mae'r cwrs yn darparu hyfforddiant a phrofiad mewn ystod eang o bynciau gan gynnwys: defnyddiau awyrofod datblygedig, technoleg dur ddatblygedig, cerameg, polymerau a chyfansoddion, dethol defnyddiau, dulliau modern o ddylunio a dadansoddi peirianneg, y gydberthynas strwythur-prosesu-priodweddau mewn defnyddiau, ac egwyddorion rheoli busnes modern. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan y Sefydliad Defnyddiau, Mwynau a Mwyngloddio (IOM3).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cerameg
- Cynllunio Prosiect Strategol
- Dadansoddiadau a Deddfwriaeth Amgylcheddol
- Defnyddiau Cyfansawdd
- Dylunio Cynnyrch ar sail Efelychu
- Gweithgynhyrchu Ychwanegol
- Meteleg Ffisegol Dur
- Peirianneg Defnyddiau Awyrofod
- Polymerau: Nodweddion a Dyluniad
- Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Peirianwyr Ymchwil

### PEIRIANNEG ELECTRONIG A THRYDANOL MSc AU RhA

Mae'r cwrs hwn ar gyfer myfyrwyr sydd eisoes wedi ennill gradd israddedig ym maes Peirianneg Drydanol neu ddisgyblaeth beirianyddol neu wyddonol berthnasol debyg.

Byddi di'n meithrin sgiliau arbenigol sy'n gyson â diddordebau ymchwil y Coleg Peirianneg ac sy'n adlewyrchu anghenion y diwydiant electroneg. Byddi di'n gallu defnyddio cyfarpar o safon diwydiant, fel microsgop twnelu sganio ar gyfer gwaith stilio ar raddfa atomaidd neu ddadansoddwr paramedr hp4124 ar gyfer dyfeisiau trydanol a ddefnyddir at ddibenion efelychu, gweithredu a chyfathrebu. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyfathrebu Diwifr
- Cyfathrebu Optegol
- Dyfeisiau Lled-ddargludo Pŵer
- Electroneg Bwlch Band Eang
- Gyriannau ac Electroneg Pŵer Uwch
- Labordy Electronig Ynni a Phŵer
- RF a Microdonnau
- Strwythurau a Dyfeisiau Nanoraddfa
- Systemau Pŵer Uwch
- Systemau Rheoli Modern

### PEIRIANNEG FECANYDDOL MSc AU RhA ION

Mae'r rhaglen ysgogol a gwobrwyol hon ar gyfer ymgeiswyr sydd eisoes wedi ennill gradd israddedig ac sydd am feithrin eu gwybodaeth ymhellach. Bydd yn galluogi myfyrwyr i wneud penderfyniadau gwybodus ynghylch y ffordd fwyaf priodol o ddatrys amrywiaeth o broblemau peirianneg fecanyddol, gan sicrhau bod gan raddedigion ragolygon gyrfa ardderchog.

Mae'r cwrs yn cwmpasu datblygu adnoddau, dulliau a thechnegau peirianneg fecanyddol er mwyn datrys problemau, y gallu i lunio cynrychiolaeth ddigonol o setiau o ddata arbrofol a'r defnydd o'r adnoddau a'r technegau hyn yn y byd go iawn. Mae'r prosiect ymchwil yn hynod berthnasol i'r diwydiant. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan Sefydliad y Peirianwyr Mecanyddol (IMechE).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cynllunio Prosiect Strategol
- Dylunio Cynnyrch ar sail Efelychu
- Entrepreneuriaeth i Beirianwyr
- Gweithgynhyrchu Ychwanegol
- Mecaneg Hylifau Thermo Uwch
- Mecaneg Solet Uwch
- Meteleg ac Optimeiddio Prosesau
- Monitro, Rheoli, Dibynadwyedd, Goroesoldeb, Cyfanrwydd a Chynnal a Chadw Systemau
- Optimeiddio
- Prosesu Polymer

### PEIRIANNEG GEMEGOL MSc AU ION

Mae'r cwrs hwn wedi'i deilwra i fod yn addas i raddedigion sydd â diddordeb mewn ymchwil ar lefel uwch a/neu yrfa yn y sector peirianneg prosesau. Mae'r cwrs yn ymhelaethu ar bynciau a gaiff eu hastudio ar lefel baglor fel arfer, gan ganolbwyntio ar themâu peirianneg prosesau pwysig, megis prosesau gwahanu, systemau hylif, trosglwyddo màs a phriodweddau defnyddiau, gyda phwyslais cryf ar dechnolegau prosesu dŵr ac agweddau datblygedig ar gynllunio ac efelychu prosesau. Fel myfyriwr ar y cwrs meistr mewn Peirianneg Gemegol, cei gyfle i ddatblygu dy wybodaeth dechnegol drwy astudio modiwlau sy'n seiliedig ar ddarlithoedd, a datblygu cymwyseddau dadansoddi beirniadol ymhellach drwy waith ymchwil unigol a phrosiectau dylunio mewn grŵp. Mae'r cwrs wedi'i achredu gan Sefydliad y Peirianwyr Cemegol (IChemE).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cludo Llygryddion drwy Lifau Dŵr Daear
- Dadansoddiadau a Deddfwriaeth Amgylcheddol
- Dihalwyno
- Egwyddorion Nanofeddygaeth
- Entrepreneuriaeth i Beirianwyr
- Hylifau Cymhleth a Rheoleg
- Peirianneg Dŵr a Dŵr Gwastraff
- Polymerau: Nodweddion a Dyluniad
- Strwythurau a Dyfeisiau Nanoraddfa
- Technoleg Pilen

**PEIRIANNEG GYFATHREBU MSc**

Ar y cwrs hwn byddi di'n meithrin dealltwriaeth fanwl o dechnoleg a seilwaith cyfathrebu cyfrifiadurol, ffotoneg a rhwydweithiau telathrebu, telathrebu diwifr a thechnolegau gwybodaeth diwifr cysylltiedig. Mae'r cwrs yn cynnwys elfen hanfodol systemau cyfathrebu optegol modern yn seiliedig ar ffibrau optegol modd unigol o'r craidd i'r mynediad, gan werthuso dulliau gweithredu cyfoes lledband-gyfoethog.

Cei dy gyflwyno i dechnolegau sy'n sail i gywasgu a darlledu fideo digidol dros lwyfannau rhwydweithio, gan feithrin gwybodaeth am y modelau sianel a'r diffygion cysylltiedig sydd fel arfer yn cyfyngu ar berfformiad systemau di-wifr. Byddi di hefyd yn dysgu sut i ddylunio derbynyddion cyfathrebu digidol optimwm ar gyfer rhai modelau sianel cyfathrebu sylfaenol. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyfathrebu Digidol
- Cyfathrebu Diwifr
- Cyfathrebu Ffibr Optegol
- Cynllunio Prosiect Strategol
- Entrepreneuriaeth i Beirianwyr
- Laserau a Chymwysiadau
- RF a Microdonnau
- Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Peirianwyr Ymchwil
- Signalau a Systemau
- Systemau Electro-Fecanyddol Micro a Nano

**PEIRIANNEG GYFRIFIADUROL MSc**

Rydym wedi bod ar flaen y gad ym maes ymchwil gyfrifiadurol ers cryn dipyn o amser, ac rydym wedi datblygu proffil rhyngwladol sylweddol fel un o'r canolfannau ymchwil a hyfforddiant rhyngwladol allweddol mewn mecaneg gyfrifiadurol a pheirianneg. Gan ddefnyddio modelu mathemategol fel sail, mae dulliau gweithredu cyfrifiadurol yn darparu gweithdrefnau sydd, gyda chymorth cyfrifiadur, yn helpu i ddatrys problemau cymhleth.

Mae'r cwrs hwn yn darparu sail gadarn mewn modelu cyfrifiadurol a'r dull elfen feidraidd yn arbennig, ac mae'n defnyddio arbenigedd staff academaidd i ddarparu hyfforddiant ôl-raddedig o ansawdd uchel. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan JBM.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dadansoddiadau Cyfrifiadurol Elfennau Meidraidd
- Dulliau Rhifiadol ar gyfer Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol
- Dynameg a Dadansoddi Dros Dro
- Mecaneg Continwwm Aflinol
- Mecaneg Hylifau Uwch
- Mecaneg Solet
- Modelu ac Efelychu Cronfeydd Dŵr
- Plastigrwydd Cyfrifiadurol
- Rhyngweithio Strwythurau Hylifau
- Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Peirianwyr Ymchwil

**PEIRIANNEG SIFIL MSc**

Mae'r cwrs yn darparu hyfforddiant ym maes dadansoddi a dylunio peirianneg sifil, yn enwedig technegau modelu a dadansoddi. Cei brofiad cyfrifiadurol ymarferol drwy'r defnydd o dechnegau cyfrifiadurol, gan ddefnyddio meddalwedd fodern, er mwyn cynnig datrysiad i amrywiaeth o gymwysiadau peirianneg sifil ymarferol cyfredol gan dy alluogi weithredu'n hyderus mewn cyd-destun diwydiannol. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan Gyd-fwrdd y Cymedrolwyr (JBM). Mae JBM yn cynnwys Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE), Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol (IStructE), Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth (CIHT), Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd (IHE), a'r Permanent Way Institution (PWI).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dadansoddi Strwythurol Uwch
- Dadansoddiadau Cyfrifiadurol Elfennau Meidraidd
- Dulliau Rhifiadol ar gyfer Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol
- Dynameg a Dadansoddi Dros Dro
- Entrepreneuriaeth i Beirianwyr
- Modelu ac Efelychu Cronfeydd Dŵr
- Plastigrwydd Cyfrifiadurol
- Prosesau a Pheirianneg Arfordirol
- Rheoli Perygl Llifogydd
- Rhyngweithio Strwythurau Hylifau

**PEIRIANNEG STRWYTHUROL MSc**

Bydd myfyrwyr ar y cwrs MSc mewn Peirianneg Strwythurol yn meithrin gwybodaeth fanwl ac yn cael profiad o syniadau a thechnegau confensiynol ac arloesol er mwyn eu galluogi i ddatblygu datrysiadau cadarn i broblemau ym maes peirianneg strwythurol.

Bydd y cwrs yn cwmpasu natur amrywiol peirianneg strwythurol drwy integreiddio gwybodaeth o feysydd mecaneg, defnyddiau, dadansoddi strwythurol a dylunio strwythurol. Bydd y rhaglen hefyd yn edrych ar y duedd dechnegol ddiweddaraf ym maes Peirianneg Sifil a Strwythurol gan gynnwys sgiliau modelu cyfrifiadurol uwch a bydd yn ymdrin yn fras â'r heriau technegol sy'n codi mewn gwaith seilwaith mawr a'r datrysiadau.



# MEDDYLIAU MAWR

## Yr Athro Geraint Williams



**ATHRO MEWN PEIRIANNEG, PENNAETH CANOLFAN YMCHWIL DEUNYDDIAU (MRC)**

> "Amcangyfrifir bod colledion blynyddol byd-eang o achos problemau cyrydu oddeutu dau driliwn o bunnoedd. Felly mae gwella ein dealltwriaeth o'r broses er mwyn datblygu technoleg newydd mwy effeithiol ar gyfer atal cyrydu yn her holl bwysig ym maes peirianneg deunyddiau."

Mae Geraint Williams yn Athro yn y Gyfadran Gwyddoniaeth a Pheirianneg ac ar hyn o bryd yn Bennaeth ar y Ganolfan Ymchwil Deunyddiau (MRC). Yn wreiddiol o Fynachlogddu, Sir Benfro, bu'n astudio am radd a doethuriaeth Cemeg ym Mhrifysgol Abertawe cyn ymuno â'r staff ymchwil ar ddiwedd yr wythdegau. Fe'i benodwyd yn ddarlithydd Peirianneg a Gwyddoniaeth Deunyddiau yn 2007 ac yna i Gadair Bersonol yn 2014.

Gwyddoniaeth Cyrydu (corrosion science) yw prif ddiddordeb ymchwil Geraint ac mae'n arloeswr ym maes deunydd technegau electrocemegol sy'n sganio i ddatblygu technoleg newydd er mwyn atal cyrydu mewn metelau megis dur, alwminiwm a magnesiwm. Mae'n arwain grŵp sy'n cynnwys dwsin o fyfyriwr ôl-radd ac aelodau staff ôl-ddoethurol yn gweithio ar brosiectau sydd wedi'u hariannu gan gwmnïau Tata cyf, BASF, Chemetall, Beckers cyf, Lufer MEL Technologies a'r NNL. Mae hefyd ganddo ddiddordeb mewn gwyddoniaeth fforensig, yn enwedig technoleg sy'n medru datgelu olion bysedd cudd ar wynebau metel.

Mae Geraint wedi ysgrifennu dros 160 o erthyglau mewn cyfnodolion rhyngwladol ac mae fe wedi ennill gwobr menter (venture prize) y cwmni Armourers and Brasiers ar gyfer technoleg newydd atal cyrydu.



# PEIRIANNEG
## CAMPWS Y BAE

Caiff y cwrs MSc ei achredu gan Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE), Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol (IStructE), Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth (CIHT), Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd (IHE) a'r Permanent Way Institution (PWI).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dull Elfen Feidraidd
- Dylunio a Dadansoddi ar gyfer Gwaith Dros Dro
- Dylunio Strwythurol Uwch
- Dynameg a Dadansoddi Strwythurau mewn perthynas â Daeargrynfeydd
- Dynameg Hylifau Cyfrifiadurol
- Plastigedd mewn Peirianneg Strwythurol a Geotechnegol
- Prosesau a Pheirianneg Arfordirol
- Rheoli Peirianneg Strategol
- Rhyngweithio Strwythurau Hylifau

### REALITI RHITHWIR MSc AU RhA

Mae'r cwrs hwn, sy'n croesawu graddedigion o bob maes pwnc, yn manteisio ar yr wybodaeth rwyt wedi'i meithrin eisoes ac yn ei rhoi ar waith mewn amgylchedd rhithwir y gellir ei ddefnyddio mewn ffordd gyffrous, ryngweithiol ac ymdrochol, at ddibenion masnachol, meddygol, ymchwil, addysgu neu hyd yn oed adloniant. Bydd yn ehangu dy sgiliau deallusol o sylfaen gul o wybodaeth israddedig i ddatblygu set sgiliau amlddisgyblaethol.

Nodau'r rhaglen hon yw:

- Archwilio safbwyntiau damcaniaethol ar y cyfryngau, marchnata, diwylliant a dylunio sy'n canolbwyntio ar bobl drwy'r broses cynllunio prosiect
- Darparu trosolwg o dechnoleg a chymwysiadau Realiti Rhithwir
- Diffinio a datblygu cymwysiadau cyfrifiadurol effeithiol
- Galluogi graddedigion i ddeall a defnyddio technoleg Realiti Rhithwir yng nghyd-destun heriau cymdeithasol, economaidd a thechnegol a mabwysiadu ymagwedd gyfannol ac amlddisgyblaethol at ddatrys problemau

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Astudiaeth Achos o'r Technegau Realiti Rhithwir Diweddaraf
- Datblygu Amgylcheddau Realiti Rhithwir 1
- Datblygu Amgylcheddau Realiti Rhithwir 2
- Rheoli Marchnata
- Traethawd Hir MSc – Realiti Rhithwir
- Y Chwyldro Digidol (Realiti Rhithwir)
- Ymarfer Technoleg Symudol (Realiti Rhithwir)

### RHEOLI PEIRIANNEG GYNALIADWY AR GYFER DATBLYGIADAU RHYNGWLADOL MSc AU

Mae'r rhan fwyaf o adeiladwaith y byd bellach yn anffurfiol ac fe'i lleolir yn y De Byd-eang, sef "gwledydd datblygol a leolir yn bennaf yn Hemisffer y De", yn ôl (UNDP). Mae'r amgylcheddau byd newydd hyn yn wynebu llawer o heriau, o leihau tlodi difrifol a darparu bwyd ar gyfer y 10 biliwn o bobl a ddisgwylir erbyn 2050, i ymdrin â bygythiadau newid yn yr hinsawdd a achosir gan ddynol ryw a cholled ddi-droi'n-ôl bioamrywiaeth a chynefinoedd naturiol.

Yn wyneb hyn oll, mae angen i ni fynd ati'n ddybryd i ddatblygu cenhedlaeth newydd o ymarferwyr a all feddwl yn gyflym ac yn hyblyg a gweithredu yn absenoldeb gwybodaeth gyflawn er mwyn cefnogi a gwella ansawdd bywyd pobl sy'n byw mewn ardaloedd trefol a gwledig yn y dyfodol. Bydd angen i'r ymarferwyr hyn ddeall a gallu gwella amgylcheddau drwy'r llu o faterion peirianneg a datblygu dyluniadau ar y cyd â'r cymunedau a wasanaethir ganddynt. Bydd y rhaglen drawsddisgyblaethol hon yn datblygu cenhedlaeth newydd o ymarferwyr a all arwain y gwaith datblygu hwn, gan lunio atebion peirianyddol ymarferol i wneud cymunedau lleol yn wydnwch yn wyneb trefoli cyflym. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan y Sefydliad Peirianneg a Thechnoleg (IET).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Adnoddau ar gyfer Datblygu Rhyngwladol
- Arwain, Datblygu Tîm a Meddwl yn Arloesol
- Cyflwyniad i Astudiaethau Datblygu
- Cymhlethdod, Ansicrwydd, Risg a Methiant
- Datblygu a Chymhwyso Cysyniadau
- Economi Gylchol a Pheirianneg Gynaliadwy
- Goblygiadau Economaidd-gymdeithasol a Gwleidyddol Datrysiadau Peirianneg
- Monitro a Gwerthuso Effaith ar gyfer Datblygu Rhyngwladol
- Rheoli Prosiectau
- Ymgysylltu â'r Gymuned

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MPhil/PhD:** Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu radd meistr neu gymhwyster cyfatebol.

**MRes:** Fel arfer gradd anrhydedd 2:1 neu uwch mewn pwnc sy'n berthnasol i'r maes ymchwil.

Cer i'r wefan i weld y gofynion mynediad diweddaraf a manylion pellach.

### DOETHURIAETH PEIRIANNEG EngD AU RhA

Caiff ein prosiectau EngD eu diffinio gan ein noddwyr diwydiannol hirsefydledig ac maent yn bodloni gofynion gweithredol a nodir gan y cwmnïau hynny. Mae prosiectau yn canolbwyntio ar ein meysydd arbenigol peirianyddol sefydledig.

Rydym yn arweinydd wrth ddatblygu prosesau a chynhyrchion gweithgynhyrchu newydd, fel araenau swyddogaethol. Caiff ein hymchwil yn y maes hwn ei harwain gan brosiect SPECIFIC, ar y cyd â Tata Steel.

Cyflawnir ymchwil i ddefnyddiau strwythurol uwch ar y cyd â Chanolfan Dechnoleg Rolls-Royce (UTC) mewn Defnyddiau a leolir yn Abertawe. Caiff y prosiectau hyn eu hariannu gan Bartneriaeth Strategol EPSRC mewn Metelau Strwythurol ar gyfer Tyrbinau Nwy.

Cynigiwn raglenni EngD ym meysydd ymchwil araenau swyddogaethol a gweithgynhyrchu uwch.

abertawe.ac.uk/peirianneg/engd

### ARLOESEDD YNNI MSc drwy Ymchwil/PhD AU RhA

### DIHALWYNO AC AILDDEFNYDDIO DŴR MSc drwy Ymchwil AU RhA

### DYLUNIO CYNNYRCH AR SAIL FELYCHU MSc drwy Ymchwil AU RhA

### MODELU CYFRIFIADUROL MEWN PEIRIANNEG MRes AU

### NANODECHNOLEG MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### NANOELECTRONEG MSc drwy Ymchwil AU RhA

### PEIRIANNEG AWYROFOD MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### PEIRIANNEG BIO-BROSES MSc drwy Ymchwil AU RhA

### PEIRIANNEG DEFNYDDIAU MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### PEIRIANNEG DRYDANOL AC ELECTRONIG MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### PEIRIANNEG FECANYDDOL MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### PEIRIANNEG FEDDYGOL MSc drwy Ymchwil AU RhA

### PEIRIANNEG GEMEGOL MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### PEIRIANNEG SIFIL MSc drwy Ymchwil/MPhil/PhD AU RhA

### PEIRIANNEG MEINWEOEDD A MEDDYGAETH ATGYNHYRCHIOL MSc drwy Ymchwil AU RhA

### TECHNOLEG PILENNI MSc drwy Ymchwil AU RhA

### TECHNOLEG TANWYDD MSc drwy Ymchwil AU RhA

Cer i'n gwefan ymchwil am ragor o wybodaeth am:

- Ein canolfannau technoleg strategol o'r radd flaenaf
- Ein grwpiau a chanolfannau ymchwil thematig
- Ein prosiectau a meysydd ymchwil presennol

abertawe.ac.uk/peirianneg/ymchwil

**Defnyddio Ynni**

Roedd SPECIFIC yn un o saith Canolfan Arloesedd a Gwybodaeth a sefydlwyd yn 2011 er mwyn meithrin diwydiannau newydd trwy gau'r bwlch rhwng ymchwil wyddonol a'i masnacheiddio.

Seilir eu gwaith ar dechnolegau a systemau ynni, o wyddoniaeth sylfaenol deunyddiau a chynhyrchion i'w rhoi ar waith ar raddfa lawn mewn adeiladau. Daw hyn oll ynghyd mewn un cysyniad dylunio o'r enw Adeiladau Gweithredol lle y caiff adeiladau eu dylunio er mwyn cynhyrchu, storio a rhyddhau eu hynni adnewyddadwy eu hunain.

Eu nod yw datblygu technolegau fforddiadwy y gellir eu gweithgynhyrchu ar raddfa fawr a'u hail-ddefnyddio neu eu hailgylchu ar ddiwedd eu hoes.

## RHAGOR O WYBODAETH

specific.eu.com

### MODELU CYFRIFIADUROL MEWN PEIRIANNEG MRes AU

Mae'r cwrs MRes hwn yn addas i'r rheini sydd â diddordeb mewn meithrin dealltwriaeth gadarn o fodelu cyfrifiadurol, gan arbenigo mewn strwythurau neu hylifau. Ar y cwrs hwn, cei fynediad i gyfleusterau cyfrifiadura ardderchog yng Nghanolfan Peirianneg Gyfrifiadurol Zienkiewicz, gan gynnwys uwch-gyfrifiadur amlbrosesydd o'r radd flaenaf sydd â chyfleusterau rhith-realiti a rhwydweithio cyflymder uchel. Caiff y cwrs hwn ei achredu gan Gyd-fwrdd y Cymedrolwyr (JBM). Mae JBM yn cynnwys Sefydliad y Peirianwyr Sifil (ICE), Sefydliad y Peirianwyr Strwythurol (IStructE), Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Thrafnidiaeth (CIHT), Sefydliad y Peirianwyr Priffyrdd (IHE) a'r Permanent Way Institution (PWI).

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dulliau Rhifiadol ar gyfer Hafaliadau Gwahaniaethol Rhannol
- Dynameg a Dadansoddi Dros Dro
- Elfen Feidraidd a Dadansoddi Cyfrifiadurol
- Mecaneg Hylifau Uwch
- Mecaneg Solet
- Sgiliau Cyfathrebu ar gyfer Peirianwyr Ymchwil

# PLANT A PHOBL IFANC

## CAMPWS PARC SINGLETON

**150**
UCHAF YN Y BYD
IECHYD Y CYHOEDD
(Academic Ranking of World Universities, ARWU, 2021)

**Mae ein staff academaidd yn gweithio i gynnig buddion bywyd go iawn i'r sectorau gofal iechyd, gofal cymdeithasol, gwirfoddol a phreifat gan arwain, yn y pen draw at welliannau ar gyfer plant, rhieni, ymarferwyr, rheolwyr, a llunwyr polisi. Mae gan ein staff academaidd gysylltiadau cryf ag amrywiaeth o rwydweithiau rhyngwladol ac adrannau tebyg mewn prifysgolion yn Ewrop ac ym mhedwar ban byd, felly caiff dy ddysgu ei lywio gan y datblygiadau diweddaraf mewn polisi ac ymarfer. Maent yn hwyluso gwaith ymchwil a gwerthuso manwl o adeg geni i fod yn oedolyn ifanc, a'r thema ganolog yw iechyd a lles.**

**Yn y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2014), barnwyd bod dros 75% o'n hymchwil o ansawdd rhyngwladol neu o'r radd flaenaf.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gradd anrhydedd 2:2 (neu uwch) yn y DU mewn disgyblaeth gysylltiedig, neu gymhwyster cyfatebol. Caiff ceisiadau eu hystyried os oes gen ti brofiad gwaith perthnasol sylweddol. Efallai y gofynnir i ti gael cyfweliad a bydd angen i ti gael Gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS).

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Pam dewis ein cwrs Ôl-raddedig Astudiaethau Plentyndod?**



**sgania i wylio**

### ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD PGCert/PGDip/MA (ALl) (RhA)

Bydd y rhaglen hon yn meithrin y wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen arnat i gefnogi plant a'u teuluoedd mewn amrywiaeth o amgylcheddau. Byddi di'n meithrin dealltwriaeth gadarn o faterion sy'n ymwneud â datblygiad plant mewn cymdeithas gyfoes a'r ffordd y caiff polisïau a gwasanaethau ar gyfer plant a theuluoedd eu cynllunio a'u darparu. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n mireinio sgiliau ymchwil a sgiliau dadansoddi hanfodol y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Deall ac Arsylwi ar Ddatblygiad Plant
- Hawliau Plant a Diogelu Plant a Phobl Ifanc
- Plentyndod a Phlant: Persbectifau Cymdeithasegol
- Traethawd Hir
- Ymchwilio i Blentyndod

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**

- Gwaith Therapiwtig gyda Phlant
- Maeth a Thwf yn ystod Plentyndod
- Mathau Cyffredin o Salwch yn ystod Plentyndod
- Safbwyntiau ar Chwarae
- Ymarfer Uwch gyda Phlant

### CHWARAE DATBLYGIADOL A THERAPIWTIG PGCert/PGDip/MA (ALl) (RhA)

Mae'r rhaglen hon yn cynnig cyfle cyffrous i feithrin dealltwriaeth ddatblygedig o'r ffordd mae plant yn dysgu ac yn datblygu drwy chwarae. Byddi di'n archwilio ymarfer seiliedig ar dystiolaeth mewn chwarae mewn amrywiaeth o gyd-destunau proffesiynol, gan gyfuno gwaith theori manwl â phrofiad o waith maes. Mae hyn yn cynnwys y ffordd mae'r amgylchedd a rhyngweithio cymdeithasol yn cefnogi cyfres gynyddol plant o sgiliau chwarae, gyda phwyslais arbennig ar werth cynhenid profiadau chwarae hunangyfeiriedig plant. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n mireinio sgiliau ymchwil a sgiliau dadansoddi hanfodol y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Deall ac Arsylwi ar Ddatblygiad Plant
- Gwaith Therapiwtig gyda Phlant
- Safbwyntiau ar Chwarae
- Theori ac Ymarfer Chwarae
- Traethawd Hir ar Chwarae
- Ymchwilio i Blentyndod

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**







"Mae'r MA mewn Astudiaethau Plentyndod yn ffordd wych i roi'r sylfaen ddamcaniaethol a'r ddealltwriaeth i ti o ddatblygiad plentyn. Mae'r ymagwedd amlddisgyblaethol yn helpu i ehangu dealltwriaeth o ddatblygiad y plentyn ac archwilio'r materion cyfredol sy'n ymwneud â datblygiad cynnar plentyn (hynny yw plant sydd wedi'u geni yn yr oes ddigidol) o safbwyntiau rhyngwladol.

Mae Prifysgol Abertawe hefyd yn dy annog i wneud gwaith gwirfoddol gyda phlant ac mae hyn yn gyfle i weld, i ddeall ac i gymhwyso'r hyn rwyt yn ei ddysgu yn yr ystafell ddosbarth. Mae'n wych pan rwyt yn darganfod sut mae theori ac yr ymarfer yn gweithio."

*Ashelle Paras*

MA ASTUDIAETHAU PLENTYNDOD

# PLANT A PHOBL IFANC
CAMPWS PARC SINGLETON

### IECHYD CYHOEDDUS PLANT
**PGCert/PGDip/MSc** AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn archwilio'r ffactorau cydgysylltiedig niferus sy'n effeithio ar iechyd babanod, plant a theuluoedd. Byddi di'n archwilio'r sail dystiolaeth sy'n ategu polisi iechyd y cyhoedd presennol mewn perthynas â phlant 0-11 oed yn y DU ac yn rhyngwladol, gan gwmpasu pynciau megis iechyd amenedigol, maeth ac imiwneiddio. Bydd dy astudiaethau'n dilyn dull integredig gan gwmpasu'r dylanwadau biolegol, seicolegol a chymdeithasol sy'n effeithio ar ddatblygiad addysgol ac emosiynol hirdymor plant a'r polisïau ac ymyriadau iechyd y cyhoedd a all eu cefnogi. Drwy gydol dy astudiaethau, byddi di'n mireinio sgiliau ymchwil a sgiliau dadansoddi hanfodol y mae cyflogwyr yn eu gwerthfawrogi ac yn datblygu technegau ymarfer myfyriol proffesiynol.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Dylanwadau ar Iechyd Plant
- Maeth a Thwf yn ystod Plentyndod
- Mathau Cyffredin o Salwch yn ystod Plentyndod
- Traethawd hir
- Ymchwilio i Blentyndod

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**

- Deall ac Arsylwi ar Ddatblygiad Plant
- Gwaith Therapiwtig gyda Phlant
- Hawliau Plant a Diogelu Plant a Phobl Ifanc
- Plentyndod a Phlant: Persbectifau Cymdeithasegol
- Ymarfer Uwch gyda Phlant

### CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Byddai ymgeiswyr PhD fel arfer yn meddu ar radd meistr neu'n astudio ar ei chyfer, a byddai angen i ymgeiswyr ar gyfer ein rhaglenni MPhil feddu ar radd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil arfaethedig, neu gymhwyster ôl-raddedig perthnasol cymeradwy.

### PLANT A PHOBL IFANC
**MPhil/PhD** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y grwpiau ymchwil canlynol:

**Iechyd a Lles**

Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr ymchwil yn ymchwilio i ffactorau sy'n dylanwadu ar les plant a phobl ifanc fel darpariaeth gofal iechyd, cam-drin ac esgeuluso plant, anableddau dysgu, chwarae a digartrefedd. Mae'r prosiectau ymchwil a gyflawnwyd gan fyfyrwyr yn ddiweddar yn trafod dewisiadau chwarae rhydd plant yn yr ysgol a'r cartref, dulliau addysgu o fewn y Cyfnod Sylfaen, a phlant sy'n derbyn gofal.

**Hunaniaeth Plant a Phobl Ifanc**


Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr ymchwil yn archwilio'r rhyngweithio rhwng pobl ifanc fel asiantiaid unigol, eu hamgylcheddau cymdeithasol a strwythurau cymdeithasol ehangach sy'n llywio eu dewisiadau a'u cyfleoedd.

**Datblygiad Plentyn**

Ar hyn o bryd, mae myfyrwyr ymchwil yn mynd i'r afael â'r amrywiaeth o ffactorau sy'n dylanwadu ar y ffordd mae plant yn dysgu ac yn datblygu o'r blynyddoedd cynnar tan y glasoed diweddarach, a'r ffyrdd y gellir monitro effeithiau'r ffactorau hyn yn chwarae plant.







"Yn ystod fy ngradd israddedig, cefais gyfnod o brofiad gwaith lle wnes i weithio gyda thîm marchnata'r Scarlets. Roedd y profiad hwn yn un bythgofiadwy ac wedi newid fy meddwl i ba faes yr hoffwn weithio ynddo yn y dyfodol. Roedd y profiad wedi fy annog i astudio MSc Rheoli yn y Brifysgol.

Astudiais BA Cymraeg ym Mhrifysgol Abertawe. Doedd dim amheuaeth fy mod i eisiau astudio gradd ôl-raddedig yma oherwydd cefais brofiad anhygoel wrth astudio ar lefel israddedig ac roeddwn yn awyddus i barhau ym Mhrifysgol Abertawe am flwyddyn arall! Mae Prifysgol Abertawe yn wahanol i Brifysgolion eraill gan fod yna ymdeimlad o berthyn i gymuned, mae yna olygfeydd rhagorol a thraethau arbennig sydd yn hynod o agos i gampysau'r Brifysgol.

Mae astudio MSc Rheoli yn brofiad arbennig. Rydw i wedi mwynhau dysgu am y maes rheoli (marchnata) yn benodol. Fel myfyriwr iaith gyntaf Cymraeg doedd dim amheuaeth fy mod i am barhau i astudio fy ngradd ôl-raddedig trwy gyfrwng y Gymraeg, ac roedd yr holl gyfleoedd a gefais wedi rhoi mwy o hyder i mi wrth gyflwyno fy ngwaith. Byddaf hefyd yn derbyn Bwrsariaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer astudio gwerth 40 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg.

Ar ôl cwblhau fy nghwrs MSc Rheoli Busnes, hoffwn weithio yn y maes marchnata, yn enwedig gyda thîm chwaraeon!"

## Drew Hodgson

MSC RHEOLI BUSNES (MARCHNATA)

# RHEOLI BUSNES
## CAMPWS Y BAE

27ain YN Y DU
ANSAWDD YMCHWIL
(The Complete University Guide 2019)

**Mae ein rhaglenni busnes a addysgir wedi'u cynllunio i wella dy gyflogadwyedd, gan dy roi mewn cysylltiad â thîm o gynghorwyr gyrfaoedd ochr yn ochr â dy gwrs. Rydym wedi datblygu'r rhaglenni MSc Rheoli ar gyfer myfyrwyr o unrhyw gefndir gradd israddedig, gydag addysgu ymarferol a arweinir gan ymchwil gan dîm o arbenigwyr yn y diwydiant.**

**Daw ein cymuned ffyniannus o fyfyrwyr ôl-raddedig o bob cwr o'r byd a byddi di'n manteisio o'r ffaith ein bod ni wedi'i chyd-leoli â'r diwydiant ar Gampws arloesol y Bae, lle ceir gofod addysgu penodedig ac ystafelloedd astudio ôl-raddedig, cyfleusterau TG helaeth sydd â'r galedwedd ddiweddaraf ac amrywiaeth o feddalwedd arbenigol.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MSc Rheoli a Llwybrau Rheoli:** Gradd anrhydedd 2:2 neu uwch mewn unrhyw bwnc neu gymhwyster cyfatebol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig cymorth ariannol i sêr mwyaf disglair y dyfodol. Nid dim ond rhagoriaeth academaidd a wobrwywn – rydym hefyd yn cydnabod ac yn annog angerdd dros astudio a chyfrannu at fywyd myfyrwyr. Mae amrywiaeth o gyfleoedd cyllido ar gael ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**MAE'R ACHREDIADAU'N CYNNWYS:**

CIM Graduate Gateway
CMI Chartered Management Institute

**AELODAETH:**

AACSB Business Education Alliance Member

### RHEOLI MSc

Caiff y rhaglen blwyddyn o hyd hon ei chynnig fel cwrs trosi i reoli, a gall gael ei hastudio gan fyfyrwyr o unrhyw ddisgyblaeth israddedig. Mae'n cwmpasu cysyniadau rheoli craidd fel marchnata rhyngwladol, rheoli gweithrediadau, strategaeth fyd-eang, cyllid a rheoli adnoddau dynol er mwyn rhoi sylfaen gadarn i ti mewn amrywiaeth o egwyddorion busnes dynamig.

Mae'r MSc mewn Rheoli ar gael fel rhaglen gyffredinol, sy'n rhoi'r rhyddid i ti ddewis o amrywiaeth o fodiwlau opsiynol yn dy ail dymor. Mae'r radd hon hefyd ar gael gyda llwybrau penodol sy'n dy alluogi i arbenigo yn ystod yr ail dymor a bydd yn ymddangos ar dy dystysgrif gradd derfynol. Y llwybrau sydd ar gael yw:

- **Busnes Digidol** – ar gyfer myfyrwyr sydd eisiau datblygu sgiliau i reoli busnesau'n effeithiol trwy'r oes ddigidol newydd.
- **Chwaraeon** – canolbwyntio ar reoli chwaraeon, gan gynnwys prif ddyletswyddau sefydliadau chwaraeon i weithwyr a rhanddeiliaid yn ogystal â rheoliadau sy'n ymwneud â materion hanfodol megis diogelu, cynwysoldeb, atal dopio, a threfnu digwyddiadau.
- **Cyllid** – ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb yn yr agweddau ariannol ar reoli
- **Dadansoddeg Fusnes** – sydd wedi'i gynllunio i feithrin dealltwriaeth myfyrwyr o'r elfennau dynamig o'r byd busnes a lywir gan ddata
- **Entrepreneuriaeth ac Arloesi** – ar gyfer myfyrwyr sydd â diddordeb yn nynameg dechrau eu busnes eu hunain
- **Marchnata** – canolbwyntio ar yr heriau sy'n gysylltiedig â gweithgareddau marchnata byd-eang
- **Rheoli Adnoddau Dynol** – canolbwyntio ar yr heriau sy'n gysylltiedig ag arwain a rheoli gweithlu byd-eang
- **Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwadau** – canolbwyntio ar reoli gweithrediadau byd-eang a rhwydweithiau cyflenwi
- **Rheoli Rhyngwladol** – ystyried ymarfer rheoli cyfoes mewn cyd-destun byd-eang
- **Technoleg Meddalwedd** – ar gyfer myfyrwyr sy'n chwilio i wneud penderfyniadau allweddol am dechnoleg meddalwedd a'r effaith ar sefydliad.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**



Gelli newid llwybr hyd at ddiwedd y tymor cyntaf felly gelli roi cynnig ar wahanol feysydd o reoli cyn dewis arbenigedd terfynol (dylai myfyrwyr sydd am ddewis yr opsiwn hwn gofrestru ar yr MSc Rheoli cyffredinol i ddechrau).

### RHEOLI ADNODDAU DYNOL MSc

Bydd y rhaglen hon yn rhoi'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth arbenigol y mae eu hangen yn y maes hwn. Gan adolygu gofynion ymarferol arferion gwaith yr 21ain Ganrif, ein nod yw datblygu rheolwyr ymaddasol, strategol ac arloesol sy'n deall goblygiadau tymor byr a hirdymor eu penderfyniadau.

Gan fod datblygiad a lles gweithwyr wrth wraidd y rhaglen, mae ein graddedigion yn sicrhau cynaliadwyedd y sefydliad drwy reoli unigolion a gweithluoedd yn ofalus.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**
- Arwain a Datblygu Pobl
- Dadansoddeg Pobl
- Dadansoddi Gweithle a Sgiliau Arweinyddiaeth
- Rheoli Adnoddau Dynol: Trefniadaeth a Chyd-destun
- Ymarfer Cyflogaeth Gyfoes

**Gyrfa mewn Rheoli Adnoddau Dynol**



**sgania i wylio**

### CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MPhil:** Fel arfer gradd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch mewn rheoli busnes neu bwnc cysylltiedig.

**PhD:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1 a gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf.

**MSc drwy Ymchwil:** Fel arfer, rhaid i ymgeiswyr feddu ar radd israddedig ar lefel 2:1. Bydd ymgeiswyr sydd â gradd anrhydedd dosbarth cyntaf (neu radd gyfatebol o'r tu allan i'r DU fel y diffinnir gan Brifysgol Abertawe) nad oes ganddynt radd meistr yn cael eu hystyried ar sail unigol.

**DBA:** Fel arfer rhaid i ymgeiswyr y DBA feddu ar radd israddedig o brifysgol gymeradwy a rhaid iddynt fod wedi ennill ail ddosbarth uwch (2:1) neu well, neu gymhwyster cyfwerth. Hefyd, fel arfer bydd gan ymgeiswyr radd meistr neu gymhwyster tebyg o brifysgol gymeradwy, neu dylent fod yn astudio am gymhwyster o'r fath.

Fel arfer disgwylir y bydd gan ymgeiswyr o leiaf bum mlynedd o brofiad mewn rôl uwch.

### RHEOLI BUSNES MPhil/PhD

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil.

### RHEOLI BUSNES MSc drwy Ymchwil

Cwrs gradd ymchwil blwyddyn o hyd sy'n cynnig hyblygrwydd llwyr drwy ei fodd astudio sy'n gwbl seiliedig ar ymchwil.

Anogir ymgeiswyr i archwilio ein harbenigedd ymchwil er mwyn sicrhau cyfatebiaeth dda rhwng cynigion PhD a darpar oruchwylwyr. Gellir cael gwybodaeth am grwpiau ymchwil presennol yr Ysgol yn:

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/ymchwil**

### DOETHUR MEWN GWEINYDDU BUSNES

Mae ein DBA yn ddoethuriaeth broffesiynol ran amser a gynlluniwyd ar gyfer uwch-reolwyr ac arweinwyr ym mhob sector, preifat, cyhoeddus a'r sector nid er elw. Mae ymagwedd strwythuredig wedi'i chynllunio i feithrin meddylwyr ac ymarferwyr beirniadol ac yn seiliedig ar chwe modiwl dros dair blynedd, cyfuniad o ddarlithoedd, siaradwyr gwadd, trafodaethau mewn gweithdai a chyflwyniadau myfyrwyr. Byddi di'n datblygu traethawd ymchwil y ddoethuriaeth dan arweiniad tîm goruchwylio a gaiff ei ddynodi ar ddechrau'r rhaglen.

### GYRFAOEDD A CHYFLOGADWYEDD

Mae gan Brifysgol Abertawe dîm gyrfaoedd penodedig sydd wedi'i deilwra'n benodol i ti fel myfyriwr rheoli. Nod y gwasanaeth hwn yw sicrhau bod cyflogadwyedd yn cael ei hybu ac yn parhau i fod yn ffocws pwysig drwy gydol dy astudiaethau. Mae gan y tîm hanes ardderchog o sicrhau cyflogaeth i fyfyrwyr ac eisoes wedi helpu llawer o fyfyrwyr i gael eu swyddi a'u lleoliadau delfrydol. Dyma ble y bydd angen i ti droi i gael:

- Cyngor ar leoliadau
- Awgrymiadau ar gyfer ysgrifennu CV
- Awgrymiadau ar gyfer cyfweliadau (cyfweliadau cyffredinol a phrofion seicometrig)

Bydd y tîm hyd yn oed yn ymchwilio i'r cwmnïau rwyt am weithio iddynt ac yn rhoi cyngor i ti ar fformat eu cyfweliadau.



> Mae astudio fy nghwrs ôl-raddedig trwy gyfrwng y Gymraeg yn brofiad gwych, ac yn fuddiol dros ben wrth i ddatblygu fy sgiliau Cymraeg ar lafar ac yn ysgrifennedig wrth fynd ymlaen i chwilio am swydd. Yn ogystal, mae fy nhiwtor ar gyfer y traethawd hir yn rhugl yn y Gymraeg sy'n hynod o werthfawr wrth i mi allu trafod syniadau yn fy mamiaith ar gyfer fy ymchwil.
>
> Mae Bwrsari Llywodraeth Cymru ar gyfer astudio trwy gyfrwng y Gymraeg ar lefel ôl-raddedig yn hynod o ddefnyddiol yn ystod amseroedd caled ofnadwy. Yn ogystal â rhoi'r cyfle i mi ddatblygu sgiliau gyrfaol hollbwysig, a defnyddio'r iaith Gymraeg, mae'r cymorth ariannol wedi galluogi i mi astudio cwrs ôl-raddedig heb orfod poeni am chwilio am swydd gall effeithio ar fy amser astudio wrth gwblhau fy nhraethawd hir.

## Dafydd Manley

MSc RHEOLI



# RHEOLI IECHYD A GOFAL UWCH

## CAMPWS Y BAE

**Mae Prifysgol Abertawe yn ysgogi trawsnewid mewn gofal iechyd byd-eang trwy ei Hacademïau Dysgu Dwys (ILA) a ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru, a fydd yn helpu i greu'r genhedlaeth nesaf o arweinwyr arloesol byd-eang mewn iechyd a gofal cymdeithasol.**

**Mae'r Academïau; Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth (VBHC) ac Academi Dysgu Dwys Cymru Gyfan ar gyfer Arloesi mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol - yn canolbwyntio ar feysydd polisi hollbwysig ar gyfer systemau gofal iechyd cynaliadwy, gan gynnwys Iechyd a Gofal sy'n Seiliedig ar Werth ac Arloesi a Thrawsnewid.**

**Mae cyrsiau wedi'u hanelu at weithwyr proffesiynol sy'n gweithio ym maes iechyd, gofal cymdeithasol, y trydydd sector a'r diwydiannau gwyddorau bywyd gyda'r nod o rymuso gweithluoedd ledled y byd gyda'r arbenigedd, sgiliau a hyder i arwain ail-ddylunio systemau iechyd a gofal er gwell, gan wella canlyniadau a phrofiadau i gleifion, wrth roi hwb i effeithlonrwydd a chynaliadwyedd gwasanaethau.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gradd 2:1 mewn gradd israddedig a chaiff unrhyw radd ei hystyried. Rhaid i fyfyrwyr hefyd gael o leiaf blwyddyn o brofiad gwaith perthnasol.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Fel rhan o'r rhaglen hon, rydym yn gallu cynnig sawl ysgoloriaeth ffioedd llawn, sy'n canolbwyntio ar ddysgwyr proffesiynol ar draws Cymru, sy'n gweithio yn y meysydd canlynol:

- GIG Cymru
- Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdod Lleol
- Sefydliadau Gofal Cymdeithasol yng Nghymru
- Sefydliadau Trydydd Sector yng Nghymru

Am ragor o wybodaeth, cer i'r ddolen ganlynol:

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/add**

### MSc RHEOLI IECHYD A GOFAL UWCH (ARLOESI A THRAWSNEWID) AU RhA


Nod y cwrs hwn yw arfogi rheolwyr canol ac uwch yn well yn systemau iechyd a gofal cymdeithasol y DU ac yn fyd-eang, i arwain newid trawsffurfiol a gyrru arloesedd mewn systemau, prosesau a thechnolegau gofal iechyd. Byddi di'n gwella dy sgiliau rheoli er mwyn cyfateb i ofynion lleoliad iechyd a gofal modern, sy'n allweddol i sicrhau dy fod yn gallu arwain sefydliadau'n llwyddiannus drwy heriau arloesol a thrawsffurfiol.

Byddi di hefyd yn galw ar sefydliadau a rhwydweithiau rhyngwladol, cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Bydd cwmpas yr ymchwil, yr addysgu a'r arbenigedd proffesiynol hyn yn cyfoethogi dy ddatblygiad yn fawr ym maes arloesi a thrawsffurfiol yn y system iechyd a gofal.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Llywio Arloesi a Newid
- Iechyd a Gofal Darbodus – Polisi ac Ymarfer
- Iechyd a Gofal Darbodus - Arloesi
- Iechyd a Gofal Cymhleth, Pobl a Systemau
- Ymchwil mewn Cyd-destun Iechyd a Gofal

**Darllena Lyfryn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch (Arloesi a Thrawsnewid)**




I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# RHEOLI IECHYD A GOFAL UWCH
## CAMPWS Y BAE

### RHEOLI IECHYD A GOFAL UWCH (AR SAIL GWERTH) MSc AU RhA


Nod y rhaglen meistr hon yw galluogi unigolion i ymdrochi ym mharadigm newydd gwerth mewn iechyd a gofal; sut i'w roi ar waith ar lefel poblogaeth ac yn unigol, gan gasglu canlyniadau o bwys, gan ddefnyddio technolegau digidol, cymhwyso modelau cost newydd, ymagweddau caffael arloesol a mabwysiadu ymagwedd llwybr i ofal cyflawn.

Byddi di'n datblygu'r sgiliau angenrheidiol i roi strategaeth arloesol sy'n seiliedig ar werth ar waith mewn sefydliad.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Archwilio Diben Sefydliadol
- Iechyd a Gofal Darbodus – Polisi ac Ymarfer
- Iechyd a Gofal yn seiliedig ar Werth: Datblygu Strategaeth
- Iechyd a Gofal yn seiliedig ar Werth: Gweithredu Strategaeth
- Ymchwil mewn Cyd-destun Iechyd a Gofal

**Darllena lyfryn Rheoli Iechyd a Gofal Uwch sy'n Seiliedig ar Werth**




**WYDDET TI?**

Rydyn ni hefyd yn cynnig cyrsiau datblygiad proffesiynol Addysg Weithredol a rhaglenni Ymchwil Ôl-raddedig pwrpasol ar gyfer arweinwyr a darpar arweinwyr sy'n gweithio yn y sectorau Iechyd, Gofal Cymdeithasol, a'r Trydydd Sector yn ogystal ag yn y diwydiant Gwyddor Bywyd.

Am ragor o wybodaeth, cer i:

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/add**

### CYRSIAU YMCHWIL
**GOFYNION MYNEDIAD**

**DBA:** Fel arfer rhaid i ymgeiswyr y DBA feddu ar radd israddedig o brifysgol gymeradwy a rhaid iddynt fod wedi ennill ail ddosbarth uwch (2:1) neu well, neu gymhwyster cyfwerth. Hefyd, fel arfer bydd gan ymgeiswyr radd meistr neu gymhwyster tebyg o brifysgol gymeradwy, neu dylent fod yn astudio am gymhwyster o'r fath.

Fel arfer disgwylir y bydd gan ymgeiswyr o leiaf bum mlynedd o brofiad mewn rôl uwch.

### DOETHUR MEWN GWEINYDDU BUSNES PT

Mae ein DBA yn ddoethuriaeth broffesiynol ran amser a gynlluniwyd ar gyfer uwch-reolwyr ac arweinwyr ym mhob sector, preifat, cyhoeddus a'r sector nid er elw.

Mae ymagwedd strwythuredig wedi'i chynllunio i feithrin meddylwyr ac ymarferwyr beirniadol ac yn seiliedig ar chwe modiwl dros dair blynedd, cyfuniad o ddarlithoedd, siaradwyr gwadd, trafodaethau mewn gweithdai a chyflwyniadau myfyrwyr. Byddi di'n datblygu traethawd ymchwil y ddoethuriaeth dan arweiniad tîm goruchwylio a gaiff ei ddynodi ar ddechrau'r rhaglen.

**Gwylia drosolwg o Iechyd a Gofal yn Seiliedig ar Werth ym Mhrifysgol Abertawe:**




sgania i wylio





# RHEOLI TWRISTIAETH RYNGWLADOL
## CAMPWS Y BAE

**Yn seiliedig ar yr egwyddorion sy'n sylfaen i Nodau Datblygu Cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig, bydd rhaglen MSc mewn Rheoli Twristiaeth Ryngwladol Prifysgol Abertawe yn rhoi i ti'r sgiliau a'r wybodaeth sy'n angenrheidiol i werthuso dyfodol y diwydiant twristiaeth yn feirniadol, boed yn y DU neu dramor. Gan gyfuno cysyniadau allweddol o feysydd busnes, rheoli a'r gwyddorau cymdeithasol ac enghreifftiau byd-eang, bydd y rhaglen yn dy baratoi i eirioli dros fathau mwy cyfrifol o dwristiaeth yn lleol, yn rhyngwladol ac yn fyd-eang.**

### CYRSIAU A ADDYSGIR
**Gofynion Mynediad**

Gradd 2:1 neu'n uwch mewn pwnc sy'n ymwneud â thwristiaeth neu fusnes

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig Ysgoloriaeth Datblygu Dyfodol ar gyfer myfyrwyr ôl-raddedig (rhaglenni a addysgir) sydd wedi derbyn cynnig i astudio. Mae'r ysgoloriaeth yn werth £3,000 am un flwyddyn academaidd a chaiff y cyfanswm ei ddidynnu'n awtomatig o ffioedd dysgu'r deiliad.

**abertawe.ac.uk/ysgol-reolaeth/ysgoloriaeth-datblygu-dyfodol**

### RHEOLI TWRISTIAETH RYNGWLADOL MSc FT RhA

Os hoffet ddatblygu'r wybodaeth a'r sgiliau uwch i wneud penderfyniadau hollbwysig sy'n dylanwadu ar ddyfodol y diwydiant twristiaeth yn lleol ac yn rhyngwladol, mae ein MSc mewn Rheoli Twristiaeth Ryngwladol yn berffaith i ti.

Mae'r rhaglen MSc mewn Rheoli Twristiaeth Ryngwladol yn cynnwys Taith Astudio Twristiaeth orfodol a chodir tâl ychwanegol am hon. Mae teithiau blaenorol wedi cynnwys ymweliadau â Chwisgi Penderyn – distyllfa chwisgi premiwm, stadiwm rygbi'r Scarlets a thaith i Nepal. Amcan teithiau maes yw helpu myfyrwyr i ddeall cymhlethdodau a gofynion rheoli cyrchfan twristiaeth. Gweler tudalennau gwe'r cwrs am yr wybodaeth ddiweddaraf.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Busnes Twristiaeth Rhyngwladol
- Cyd-destun Byd-eang Twristiaeth
- Cynllunio a Pholisi Twristiaeth
- Marchnata Profiadau Twristiaeth
- Twristiaeth Ddigidol

**AELODAETH:**

AACSB Business Education Alliance Member




I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

# RHYFEL A CHYMDEITHAS

CAMPWS PARC SINGLETON

7FED YN Y DU
EFFAITH YMCHWIL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae rhyfel wedi bod yn gyfrwng grymus newid drwy hanes. Mae'n peri dioddefaint a diraddio ofnadwy, ond eto mae'n esgor ar ddewrder anhygoel ac yn ysbrydoli gwaith celf gwych.**

**Mae'r rhaglen hon yn gofyn cwestiynau hollbwysig am wrthdaro, cymdeithas, rhyfel, diwylliant a gwleidyddiaeth. Ai gweithgaredd diwylliannol neu wleidyddol yw rhyfel? A all rhesymeg heddwch arwain at resymeg rhyfel? I ba raddau y mae technoleg yn pennu pwy sy'n ennill mewn rhyfel fodern? A oes byth achos o blaid 'rhyfel cyfiawn'? Beth yw profiad pobl gyffredin o ryfel, a beth yw'r ymatebion diwylliannol ac artistig i ryfel? Ymhlith ein diddordebau ymchwil mae milwreiddio cymdeithas a diwylliant, cyfreithiau a moeseg rhyfel, y Rhyfel Byd Cyntaf a'r Ail Ryfel Byd, Rhyfel Cartref Sbaen, ac ailadeiladu yn dilyn rhyfel.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:2 neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe (gyda 55% neu uwch ar gyfartaledd) gofynion mynediad arferol yw gradd mewn unrhyw gefndir.

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### RHYFEL A CHYMDEITHAS MA AU RhA

Mae'r MA mewn Rhyfel a Chymdeithas yn radd ryngddisgyblaethol uwch sydd wrth groestoriad hanes, astudiaethau'r cof, gwyddor wleidyddol, ac astudiaethau strategaeth. Fel rhan o'r Adran Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol, mae Rhyfel a Chymdeithas yn defnyddio cryfder hanes, astudiaethau americanaidd, y clasuron, hanes yr henfyd ac eifftoleg, gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol, yn ogystal â llenyddiaeth a'r cyfryngau a chyfathrebu.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cyflwyniad i Astudiaethau Canoloesol Uwch
- Diogelwch Critigol
- Ffasgiaeth a Diwylliant
- Hawliau Dynol ac Ymyriad Dyngarol
- Rhyfel, Hunaniaeth a Chymdeithas
- Rhyfel, Technoleg a Chymdeithas
- Rhyfel Digidol
- Trais, Gwrthdaro a Datblygu
- Terfysgaeth, Gwrthdaro a'r Cyfryngau

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

Fel arfer gradd anrhydedd 2:1, neu radd uwch, neu gymhwyster cyfatebol a gydnabyddir gan Brifysgol Abertawe.

### RHYFEL A CHYMDEITHAS MA drwy Ymchwil AU RhA

Croesawn geisiadau gan fyfyrwyr sydd am wneud ymchwil lefel graddedig. Anogir darpar fyfyrwyr MA a'r rhai sydd â diddordeb yn y cwrs MPhil/PhD, i gysylltu â chyfarwyddwr ymchwil ôl-raddedig Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol, Dr Dennis Schmidt – (d.r.schmidt@abertawe.ac.uk) i drafod timau goruchwylio a phynciau posibl. Mae cysylltiad agos rhwng rhaglen MA mewn Rhyfel a Chymdeithas a chryfderau ymchwil staff academaidd sy'n cyfrannu at grŵp ymchwil Astudiaethau Rhyngwladol, Gwrthdaro a Diogelwch (ISCAS). Mae ei aelodau yn cyflawni ymchwil o'r radd flaenaf ym meysydd gwrthdaro a diogelwch, yr ymerodraeth ac ôl-wladychiaeth, gwrthdaro a datblygu, y rhyfel 'digidol', a rhyfel a diwylliant. Mae ISCAS hefyd yn ceisio hyrwyddo cydweithredu rhwng ysgolheigion, llunwyr polisi a darparwyr diwylliannol.

Fel myfyriwr ymchwil Rhyfel a Chymdeithas, fe fyddi di'n perthyn i'r Ganolfan Graddedigion sy'n darparu cymorth bugeiliol yn ogystal â chymorth gweinyddol ac mae hefyd yn gyfrifol am hyfforddiant a chymorth ym maes sgiliau ymchwil, a hwyluso amgylchedd deallusol bywiog i gymuned ymchwil ôl-raddedig o 200 o fyfyrwyr.

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**





# SEICOLEG

CAMPWS PARC SINGLETON

SGÔR O 100%
I'R ADRAN SEICOLEG AM EFFAITH YMCHWIL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Rydym wedi ein lleoli mewn amgylchedd ymchwil sy'n tanio brwdfrydedd staff academaidd, swyddogion ymchwil a myfyrwyr fel ei gilydd, ac rydym wedi ennill enw rhagorol yn y DU ac yn rhyngwladol. Yn ôl y Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil diweddaraf (2014), rydym yn un o ddim ond pedair Adran Seicoleg yn y DU a gafodd sgôr 4* 100% (y sgôr uchaf posibl) am gyrhaeddiad ac arwyddocâd ein gwaith mewn meysydd fel seicoffarmacoleg, maeth, perfformiad dynol, cwsg a niwrowyddoniaeth wybyddol a chlinigol. Mae ein cyfleusterau ymchwil o'r radd flaenaf yn cynnwys ystafell electroenceffalograffeg (EEG) dwysedd uchel, labordy cwsg â'r holl adnoddau, ystafell arsylwi cymdeithasol, tracio llygaid, seicoffisiolegol, efelychu cerrynt union trawsgreuanol (tDCS), a labordai cyflyrau, labordy hyd oes ac ystafell babanod, yn ogystal â mwy nag 20 o ystafelloedd ymchwil pob pwrpas.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

Gradd 2:1 neu 2:2 yn y DU mewn seicoleg neu ddisgyblaeth gysylltiedig, neu'r hyn sy'n cyfateb iddi.

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Rydym yn cynnig amrywiaeth o gyllid ar gyfer graddau ymchwil a graddau a addysgir.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

**Astudio Seicoleg ym Mhrifysgol Abertawe**



**sgania i wylio**

### DULLIAU YMCHWIL MEWN SEICOLEG MSc AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn darparu hyfforddiant ar ddulliau ymchwil seicoleg uwch. Byddi di'n dysgu sut i gyflawni prosiectau ymchwil sylfaenol a chymhwysol, gan ddefnyddio amrywiaeth o adnoddau ymchwil megis cronfeydd data, meddalwedd ystadegol, a rhaglenni cyfrifiadur. Byddi di'n meithrin sgiliau ymchwil ymarferol helaeth i'w cymhwyso mewn unrhyw gyd-destun lle mae ymddygiad pobl yn bwysig. Byddi di'n meithrin dealltwriaeth fanwl o natur a chyfyngiadau'r dull gwyddonol a'r prif ddewisiadau amgen, ochr yn ochr â gwybodaeth am y materion hanesyddol, damcaniaethol ac athronyddol sy'n sail i wyddor seicolegol ac ymddygiadol.

Gallwn dy helpu i sicrhau lleoliadau clinigol i ddarparu profiad gwerthfawr a gwella dy ragolygon cyflogaeth.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Athroniaeth Seicoleg
- Dulliau Ansoddol
- Dulliau Ystadegol
- Prosiectau Empirig
- Sgiliau Cyfrifiadurol
- Sgiliau Ymchwil ar gyfer Dulliau Ymchwil mewn Seicoleg
- Traethawd Hir

**Mae modiwlau arbenigol opsiynol fel arfer yn cynnwys:**

- Adeiledd a Swyddogaeth yr Ymennydd
- Dadansoddi Ymddygiad Cymhwysol

### NIWROWYDDONIAETH WYBYDDOL MSc AU RhA

Cynlluniwyd y rhaglen hon er mwyn pontio'r bwlch rhwng astudiaethau israddedig ac ymchwil PhD mewn niwrowyddoniaeth wybyddol, seicoleg arbrofol a dulliau delweddu. Byddi di'n dysgu sut i ddylunio, dadansoddi a gwerthuso arbrofion niwroddelweddu sy'n cyfrannu at ein dealltwriaeth o systemau'r ymennydd sy'n sail i agweddau ar wybyddiaeth ac ymddygiad fel y cof, sylw, adnabod gwrthrychau, niwroddirywiad a thrawma i'r ymennydd. Byddi di'n cael hyfforddiant manwl ar ymchwil niwrowyddoniaeth wybyddol, gan gyflwyno egwyddorion niwroddelweddu, ac yn cael profiad ymarferol o ddelweddu cyseiniant magnetaidd strwythurol a swyddogaethol (sMRI ac fMRI), electroenceffalograffeg (EEG), ac efelychu cerrynt union trawsgreuanol (tDCS).

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Cyflwyniad i Python ar gyfer Seicoleg
- Dadansoddiad EEG
- Dadansoddiad fMRI sylfaenol
- Dulliau Ystadegol
- Dyluniad Arbrofol: Ysgogi'r Ymennydd, Cofnodi'r Ymennydd a Niwroddelweddu

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**


"Ar hyn o bryd rwy'n fyfyrwraig PhD ac yn gyd-gyfarwyddwr y Grŵp Ymchwil Dementia yn yr Adran Seicoleg. Cefais gynnig y cyfle i wneud PhD, sydd wedi'i ariannu gan Brifysgol Abertawe a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, pan oeddwn ar fin gorffen fy ngradd meistr ac roedd hi'n gyfle rhy dda i'w golli. Roedd pwnc y PhD, sef dwyieithrwydd Cymraeg-Saesneg yng nghyd-destun heneiddio a dementia, wedi bod o ddiddordeb i mi erioed ac wedi bod yn amlwg trwy gydol fy ngyrfa academaidd. Rwyf hefyd yn eiriolwr cryf dros hawliau unigolion Cymraeg yng nghyd-destun darparu gwasanaethau gofal sylfaenol trwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y PhD yma yn gyfle i mi gael effaith uniongyrchol ar ymarfer clinigol yng Nghymru ac ateb gofynion nifer o bobl Gymraeg.

Yn gyffredinol, mae fy ngwaith ymchwil yn edrych ar sut mae dwyieithrwydd yn effeithio ar brosesu gwybyddol wrth i ni heneiddio. Mae prif astudiaeth y PhD yn ceisio dilysu asesiadau clinigol niwroseicolegol yn Gymraeg fel y gall siaradwyr Cymraeg sy'n byw â chlefyd Alzheimer gael mynediad at asesiadau Cymraeg yn y dyfodol.

Astudiais fy ngradd israddedig a gradd meistr ym Mhrifysgol Abertawe. Graddiais gydag anrhydedd dosbarth cyntaf mewn BSc Seicoleg yn 2017, a chefais ragoriaeth yn fy ngradd MSc Seicoleg Annormal a Chlinigol yn 2018. Penderfynais ddychwelyd i gwblhau PhD oherwydd faint wnes i fwynhau yn Abertawe trwy gydol fy ngraddau blaenorol. Roedd y staff academaidd bob tro yn barod i helpu ac roeddwn yn hyderus y buaswn yn medru cwblhau PhD i'r safon orau bosib o ganlyniad i hynny.

Un o'r rhesymau yr oeddwn yn awyddus i geisio am Ysgoloriaeth Ymchwil y Coleg Cymraeg oedd i gyfrannu at y rhwydwaith o ymchwilwyr Cymraeg yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r gallu i gynnal ymchwil ac ymdrin â syniadau cymhleth yn ddwyieithog yn fantais fawr wrth chwilio am swydd.

Mae Prifysgol Abertawe yn lle arbennig i astudio. Rwy'n dal i fod yma ar ôl saith mlynedd, dyna'r cyfan sydd angen ei ddweud."



# Hanna Thomas

PhD SEICOLEG

- Materion Beirniadol mewn Niwrowyddoniaeth Wybyddol
- Niwroseicoleg
- Strwythur a Swyddogaeth yr Ymennydd

**SEICOLEG FFORENSIG MSc** AU

Dyluniwyd y radd feistr hon i ddarparu sylfaen drylwyr mewn Seicoleg Fforensig fel sy'n ofynnol ar gyfer hyfforddiant Cam 1 fel seicolegydd fforensig.

Byddi di'n datblygu ac yn cymhwyso gwybodaeth seicoleg i brosesau ymchwilio troseddol, gan weithio gyda'r rhai sy'n troseddu ac yn gweithio gyda gweithwyr proffesiynol eraill yn y system cyfiawnder troseddol. Mae gan y cwrs hwn gysylltiadau rhagorol â gwasanaethau statudol a thrydydd sector, gan gynnwys y gwasanaeth prawf, carchar, iechyd meddwl fforensig a gwasanaethau'r trydydd sector. Mae staff o'r timau hyn yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o ddarparu addysgu a chyfleoedd i fyfyrwyr ymchwilio ar y rhaglen hon.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Deall a Gweithio gyda'r rhai sy'n Troseddu
- Materion Proffesiynol mewn Ymarfer Seicoleg Fforensig
- Prosiect Ymchwil
- Sgiliau Ymchwil ar gyfer Seicoleg Fforensig
- Ymchwil Seicoleg Gyfreithiol a Throseddegol a Dulliau Ystadegol

**SEICOLEG GLINIGOL AC IECHYD MEDDWL MSc** AU RhA

Bydd y rhaglen hon yn dy alluogi feithrin lefel uchel o ddealltwriaeth o theori ac ymarfer seicoleg glinigol o fewn lleoliadau gofal iechyd, gan dy baratoi ar gyfer hyfforddiant clinigol proffesiynol pellach ar lefel ddoethurol. Mae llawer o'n staff academaidd yn arweinwyr yn eu meysydd ymchwil arbenigol, gan gynnwys seicoleg glinigol ac iechyd, anafiadau i'r ymennydd, cwsg, gwybyddiaeth, niwrowyddoniaeth a seicoleg ddatblygiadol. Gallwn dy helpu i sicrhau lleoliadau clinigol er mwyn rhoi profiad gwerthfawr i ti a gwella dy ragolygon gyrfa.

**Mae modiwlau craidd fel arfer yn cynnwys:**

- Anhwylderau Affeithiol a Thrawma
- Anhwylderau Bwyta
- Dulliau Ystadegol ac Ymchwil
- Niwroseicoleg
- Prosiect Ymchwil
- Seicopathi a Throseddau Rhyw
- Seicosis
- Seicotherapi
- Sgiliau Ymchwil Generig mewn Seicoleg Glinigol ac Iechyd Meddwl
- Ymdopi â Chlefyd Cronig

Mae angen gradd 2:1 yn y Du mewn Seicoleg neu ddisgyblaeth gysylltiedig, neu'r hyn sy'n cyfateb iddi.

## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

**MPhil/PhD:** Fel arfer, byddai ymgeiswyr PhD ac MPhil yn meddu ar radd meistr neu gymhwyster ôl-raddedig perthnasol cymeradwy, neu'n astudio ar ei chyfer, a byddai angen iddynt feddu ar radd ail ddosbarth uwch mewn disgyblaeth sy'n gysylltiedig â'r prosiect ymchwil arfaethedig.

**MSc drwy Ymchwil:** Dylai ymgeiswyr feddu ar radd israddedig dosbarth cyntaf neu 2:1 (neu gymhwyster cyfatebol) o brifysgol yn y DU neu brifysgol gymeradwy arall.

**SEICOLEG MSc drwy Ymchwil/ MPhil/PhD** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil. Mae'r rhain yn canolbwyntio ar y grwpiau ymchwil canlynol:

**Ymddygiad Clinigol ac Iechyd**
Mynd i'r afael â'r ffordd y mae ymddygiadau'n datblygu ac yn dylanwadu ar benderfyniadau pobl mewn perthynas â'u hiechyd a'u lles, ac effaith ymyriadau iechyd. Mae prosiectau ymchwil diweddar gan fyfyrwyr wedi archwilio rôl marchnata cymdeithasol o ran atal gordewdra ymhlith plant, a thrawma yn dilyn salwch acíwt.

**Gwybyddiaeth a Chanfyddiad**
Ymdrin â meysydd fel canfyddiad, adnabod, a phrosesu gwrthrychau a digwyddiadau, a'r sail wybyddol a niwrol dros ddatblygiad iaith. Mae'r pynciau ymchwil presennol yn cynnwys cynrychioli lliw a siâp yn y cof, ac adnabod a llunio geiriau.

**Yr Ymennydd ac Ymddygiad**
Archwilio'r ffordd y mae niwrowyddoniaeth ac ymddygiad yn integreiddio, gan gynnwys cemeg yr ymennydd, niwroseicoleg ac anafiadau i'r ymennydd. Mae'r gwaith ymchwil y mae myfyrwyr yn ymgymryd ag ef ar hyn o bryd yn cynnwys ffactorau mewn perthynas â chamddefnyddio sylweddau sy'n effeithio ar sylw, a dysgu, y cof a darllen ymhlith unigolion ag anhwylderau ar y sbectrwm awtistig.

**Seicoleg Fforensig**
Archwilio'r rhyngweithio rhwng seicoleg a'r gyfraith. Mae ymchwil mewn Seicoleg Fforensig yn cynnwys llawer o agweddau, fel proses gyfreithiol, asesu, goruchwylio a thrin y rhai sydd wedi troseddu, gweithio gyda dioddefwyr troseddau, a mynd i'r afael â risg ac aildroseddu.

**SEICOLEG IECHYD MPhil/PhD** AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr cymwysedig y mae eu diddordebau ymchwil yn cyfateb i'n meysydd o arbenigedd ymchwil ym maes Seicoleg Iechyd. Mae pwysigrwydd ffactorau seicolegol wrth hybu iechyd da a rheoli salwch a risgiau iechyd yn faes astudio cynyddol bwysig. Mae myfyrwyr ymchwil wrthi'n edrych ar y ffactorau seicolegol sy'n hybu iechyd da, a datblygu ymyriadau er mwyn annog plant, pobl ifanc a merched beichiog i fyw bywyd iach.

# TROSEDDEG

CAMPWS PARC SINGLETON

**96%**
YMCHWIL O SAFON RYNGWLADOL
(Fframwaith Rhagoriaeth Ymchwil 2014)

**Mae'r Adran Troseddeg yn gartref i gymuned academaidd ac ymchwil fywiog, sy'n datblygu'n barhaus er mwyn sicrhau bod ein graddedigion mewn sefyllfa i ateb yr heriau a wynebir mewn tirweddau troseddeg a chyfiawnder troseddol sy'n newid yn barhaus.**

**Fel myfyriwr ôl-raddedig, byddi di'n astudio ystod gyffrous o fodiwlau sy'n torri tir newydd, gyda chymorth academyddion sydd â phrofiad gwirioneddol ar flaen y gad yn eu meysydd ymchwil.**

**Mae ein hymchwil yn mynd i'r afael â heriau mawr mewn cymdeithas, yn cael effaith, ac yn gwneud gwahaniaeth i gymdeithas. Rydym wedi meithrin arbenigedd mewn amrywiaeth o feysydd arbenigol gan gynnwys hawliau plant, seiberdroseddu, adsefydlu troseddwyr, astudiaethau rhywioldeb, terfysgaeth a chyfiawnder ieuenctid.**

## CYRSIAU A ADDYSGIR

**Gofynion Mynediad**

**MA:** Gradd anrhydedd 2:1 o leiaf mewn disgyblaeth gysylltiedig (troseddeg a chyfiawnder troseddol, y gyfraith, polisi cymdeithasol, seicoleg, cymdeithaseg, gwleidyddiaeth neu gyfrifiadureg). Gall ymgeiswyr â 2:2 neu brofiad gwaith proffesiynol perthnasol gael eu hystyried hefyd.

### YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU

Mae amrywiaeth o ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

### CYFIAWNDER TROSEDDOL CYMHWYSOL A THROSEDDEG MA AU RhA

Mae’r cwrs gradd MA mewn Cyfiawnder Troseddol Cymhwysol a Throseddeg yn galluogi myfyrwyr i ddarganfod sut mae’r system cyfiawnder troseddol yn gweithredu yn ymarferol, dysgu damcaniaethau allweddol ac archwilio themâu cyfoes blaengar ym maes troseddeg. Bydd myfyrwyr hefyd yn cael cyfle i ddatblygu sgiliau hanfodol megis dysgu sut i gynnal ymchwil droseddeg. Mae’r addysgu ar y cwrs gradd meistr yn amlddisgyblaethol a chaiff ei lywio gan ddiddordebau maes ymchwil y staff.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Cam-drin Rhywiol a Chamfanteisio ar Blant
- Datblygu Ymchwil Droseddol
- Dealltwriaeth Feirniadol o Blismona
- Masnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern
- Materion Datblygedig ym Meysydd Cyffuriau, Alcohol a Chyfraith Droseddol
- Pobl Ifanc a Chyfiawnder Ieuenctid

### SEIBERDROSEDDU A THERFYSGAETH MA AU RhA

Mae'r MA mewn Seiberdroseddu a Terfysgaeth yn gwrs rhyngddisgyblaethol, sy'n tynnu ar wyddoniaeth wleidyddol, seicoleg, troseddeg, y gyfraith a hanes i ymgysylltu'n feirniadol â throseddu ar-lein a therfysgaeth. Trwy gydol y cwrs hwn byddi di'n dysgu am y bygythiadau, tueddiadau, materion, ymatebion a chwestiynau moesegol sy'n gysylltiedig â therfysgaeth a seiberdroseddu. Mae'r staff yn ymchwilwyr profiadol yn y meysydd hyn ac mae cyfleoedd i fyfyrwyr ymgymryd â'u hymchwil wreiddiol fel rhan o'u traethodau terfynol.

**Mae modiwlau fel arfer yn cynnwys:**

- Dulliau Ymchwil a Moeseg
- Fforensig Ddigidol a Phlismona Digidol
- Gwrthweithio Eithafiaeth Dreisgar Ar-lein
- Hawliau Dynol a Therfysgaeth Ar-lein
- Propaganda Ar-lein a Radicaleiddio
- Seiberddiogelwch
- Trosedd yn y Seiberofod

I gael gwybodaeth fanylach am gynnwys y cwrs, gan gynnwys rhestr lawn o'r modiwlau, gweler: **abertawe.ac.uk/ol-raddedig**





## CYRSIAU YMCHWIL

**Gofynion Mynediad**

O leiaf 2:1 ar lefel israddedig, yn ogystal â gradd meistr â 'Theilyngdod' cyffredinol o leiaf.

### RHAGOLYGON GYRFA

Gelli wella dy CV drwy gymryd rhan mewn gweithgareddau cyflogaeth yn yr adran neu ar draws y Brifysgol. Mae ein graddedigion wedi mynd ymlaen i ddilyn ystod eang o yrfaoedd mewn asiantaethau cyfiawnder troseddol, gan gynnwys y Swyddfa Gartref, timau troseddwyr ifanc, a'r Gwasanaeth Prawf. Mae graddedigion hefyd wedi cael swyddi o fewn llywodraeth leol a Llywodraeth y DU, ac yn y trydydd sector.

### CANOLFAN HYFFORDDIANT DOETHUROL CYMRU ESRC

Fel rhan o Bartneriaeth Hyfforddiant Doethurol Cymru ESRC, mae'r adran yn canolbwyntio ar ddarparu hyfforddiant ôl-raddedig ardderchog. Darparwn gymysgedd o hyfforddiant ymchwil cyffredinol a hyfforddiant ymchwil pwnc-benodol sy'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu a chymhwyso dulliau ymholi troseddegol.

Ymuna â'n cymuned ffyniannus o fyfyrwyr ôl-raddedig, lle y byddi di'n rhan o amgylchedd cefnogol sy'n ymroddedig i ddeall rhai o faterion mwyaf heriol cymdeithas.

Mae gradd ymchwil mewn Troseddeg yn cynnig cyfle i ti gyflawni prosiect sy'n seiliedig ar dy hoffterau a dy ddiddordebau, gan arwain at gymhwyster sy'n gallu agor y drws i yrfa academaidd neu wella dy ragolygon cyflogaeth mewn amrywiaeth o feysydd eraill.

### TROSEDDEG MPhil/PhD AU RhA

Gwahoddwn geisiadau gan ymgeiswyr y mae eu diddordebau'n cyfateb i'n meysydd arbenigedd, sy'n cynnwys:

- Cyfiawnder Ieuenctid
- Gwaith Rhyw a Rhywioldeb
- Hawliau Dynol a Pholisi Cyffuriau
- Hawliau Plant
- Mewnfudo a Lloches
- Seiberdroseddu a Therfysgaeth

Efallai yr hoffet hefyd edrych ar ein hopsiynau PhD yn y Gyfraith. Gweler tudalen 112 am ragor o wybodaeth.

# Cyrsiau newydd

## YN DOD YN FUAN

**DADANSODDEG ARIANNOL, MSc**
**GWYDDOR BIOFEDDYGOL (GENETEG GLINIGOL), MSc / PGDip**
**GWYDDOR BIOFEDDYGOL (PATHOLEG CELLOEDD A MOLECIWLAIDD), MSc / PGDip**
**GWYDDOR BIOFEDDYGOL (YMARFER PROFFESIYNOL), MSc / PGDip**
**GWYDDOR PERFFORMIAD CHWARAEON UWCH, MSc**
**GWYDDORAU BIOFEDDYGOL CYMHWYSOL, MSc**

**DARGANFYDDA FWY**

abertawe.ac.uk/ol-raddedig/addysgir/cyrsiauol-raddedigaddysgiryndodynfuan





# Cadw MEWN CYSYLLTIAD

Mae Cymdeithas Cyn-fyfyrwyr Prifysgol Abertawe yn sicrhau y gelli gadw cysylltiad agos â'r Brifysgol ymhell ar ôl i sŵn y cymeradwyo yn dy seremoni raddio bylu.

Mae ein holl raddedigion yn dod yn aelodau oes yn awtomatig o'r Gymdeithas, cymuned gynnes a chroesawgar o raddedigion sy'n cael eu huno gan eu profiad o astudio yn Abertawe.

Mae'r Gymdeithas yn rhwydwaith bywiog o 80,000 o aelodau gweithgar sy'n gweithio ar bob lefel mewn diwydiant, masnach, chwaraeon, a'r sector cyhoeddus.

Mae rhai yn arwain adrannau cwmnïau rhyngwladol, ond mae eraill yr un mor debygol o reoli'r busnesau llai a mentrus sy'n ysgogi'r economi, neu'n darparu gofal iechyd mewn ysbytai, neu'n addysgu mewn ysgolion.

Y mae hefyd cymuned gynyddol fawr o gyn-fyfyrwyr rhyngwladol, sy'n golygu y byddi di'n dod o hyd i gyfeillion a chydweithwyr o'r un anian lle bynnag ei di yn y byd. Gwna'r gorau o'r rhwydwaith hwn. Pwy a ŵyr pa ddrysau allai agor i ti yn y DU neu dramor o ganlyniad i'r perthnasoedd a grëwyd trwy fod yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Abertawe.

Cadw mewn cysylltiad:

**swanseauniconnect.com**

**WYT TI'N GYN-FYFYRIWR PRIFYSGOL ABERTAWE?**

Mae ein cyn-fyfyrwyr yn helpu i lunio a mireinio ein cyrsiau ac mae dy adborth yn bwysig i ni. Darganfydda fwy a chymryd rhan yn yr arolwg Canlyniadau Graddedigion cenedlaethol a chadwa dy fanylion cyswllt yn gyfredol yma:

**abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr/graddedigion-newydd/hynt-graddedigion**

**Mae ein cyn-fyfyrwyr yn cynnwys:**

- **Alun-Wyn Jones**, capten rhyngwladol Cymru a'r Llewod
- **Andy Hopper CBE FRS**, Cyd-sefydlydd Acorn Computers Ltd
- **Annabelle Apsion**, Actores
- **Anne Boden**, Prif Swyddog Gweithredol a Sylfaenydd Banc Starling
- **Carol Robinson**, Llywydd y Gymdeithas Cemeg Frenhinol
- **Christina Macfarlane**, Cysylltwr Chwaraeon a Newyddion ar gyfer CNN Rhyngwladol
- **Jason Mohammad**, Cyflwynydd Teledu
- **John Maidens**, Awdur/Cyfarwyddwr, Holby City, Casualty, Doctors
- **Lana Haddad**, COO Pwyllgor Olympaidd Rhyngwladol
- **Liam Dutton**, Cyflwynydd y Tywydd ar Channel 4
- **Liz Johnson**, Nofiwr ac enillydd Medal Aur yn y Gemau Paralympaidd
- **Dr Lyn Evans CBE**, Arweinydd Prosiect, Large Hadron Collider, CERN
- **Richey Edwards and Nicky Wire**, Cerddorion, Manic Street Preachers
- **Syr Terry Matthews OBE**, biliwnydd cyntaf Cymru
- **Sylvia Heal MP**, Dirprwy Siaradwr Tŷ'r Cyffredin (2000-10)

DILYNA NI: **abertawe.ac.uk/cyn-fyfyrwyr** **@Swansea_Alumni** **SwansAlumni** **Prifysgol Abertawe Rhwydwaith Cyn-fyfyrwyr**

# FFIOEDD AC Ariannu

Rydym yn ymrwymo i fuddsoddiad sylweddol mewn addysg ôl-raddedig. Yn 2020/21 roedd dros £8 miliwn mewn ysgoloriaethau a bwrsariaethau ar gael i astudio cyrsiau ôl-raddedig ym Mhrifysgol Abertawe.

Mae ein hysgoloriaethau meistr ar gael ar draws yr holl Golegau ac Ysgolion academaidd ac yn cael eu hysbysebu trwy gydol y flwyddyn, gan gynnig cyllid i fyfyrwyr y DU, yr UE a Rhyngwladol.

## FFIOEDD DYSGU

Caiff ffioedd dysgu eu pennu yn ôl dy flwyddyn astudio, y math o gwrs rwyt yn ymgymryd ag ef a dy wlad breswyl.

Gofynnir i ti dalu dy ffioedd, neu ddangos tystiolaeth o nawdd, cyn cofrestru neu yn ystod y broses gofrestru. Gelli ddod o hyd i fanylion am ffioedd dysgu pob cwrs ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

Mae ffioedd dysgu yn destun codiadau blynyddol a chyhoeddir y cyfraddau newydd ar ein gwefan cyn gynted ag y byddant ar gael.

Os hoffet gael rhagor o wybodaeth am y ffioedd sy'n daladwy ar gyfer dy raglen benodol, cysyllta â'r Swyddfa Cyllid Myfyrwyr ar:

**+44 (0)1792 602700**
**studentfinance@abertawe.ac.uk**

Edrych ar ein tudalen we Ffioedd a Chyllid cyn gwneud cais i astudio yn Abertawe.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu**

Sylwer bod angen talu 'ffi fainc' o £1,000 yn ogystal â'r ffi ddysgu ar gyfer y rhaglen MRes yn y Biowyddorau.

## DULLIAU ARIANNU

Yn ogystal â'r ysgoloriaethau a'r bwrsariaethau y mae Prifysgol Abertawe yn eu darparu, gall ôl-raddedigion gael arian gan amrywiaeth o sefydliadau, gan gynnwys Y Cwmni Benthyciadau i Fyfyrwyr, cynghorau ymchwil, diwydiant ac elusennau. Mae llawer o fyfyrwyr ôl-raddedig yn ariannu eu hastudiaethau drwy 'arian portffolio', gan gasglu arian o amrywiaeth o ffynonellau. Mae enghreifftiau o'r mathau o arian sydd ar gael yn cynnwys:

## BENTHYCIADAU I ÔL-RADDEDIGION

Mae cyllid ôl-raddedig y llywodraeth ar gael i bob myfyriwr sy'n byw yn y DU a'r UE sy'n astudio cyrsiau lefel meistr a PhD mewn prifysgol yn y DU. Mae'r dull o gymhwyso a'r swm y gelli ei dderbyn yn dibynnu ar dy wlad breswyl. Gelli ddod o hyd i'r holl wybodaeth ddiweddaraf ar ein gwefan:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu/benthyciadau-ol-raddedig**

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU MEISTR PRIFYSGOL ABERTAWE

Rydym yn hysbysebu ystod o ysgoloriaethau a bwrsariaethau meistr trwy gydol y flwyddyn academaidd. Bydd yr holl gyfleoedd yn cael eu rhestru ar y wefan ganlynol, ac yn cael eu diweddaru'n rheolaidd:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau/meistr-a-addysgir**

## YSGOLORIAETHAU'R RHAGLEN YMCHWIL

Gellir dod o hyd i ysgoloriaethau ymchwil yn Abertawe drwy ddilyn y ddolen isod. (Noder y caiff y dudalen hon o'r wefan ei diweddaru drwy gydol y flwyddyn.)

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau/ysgoloriaethau-ymchwil-**

Caiff manylion ynghylch sut i gyflwyno cais am ysgoloriaeth eu rhestru ar bob hysbyseb unigol.

## YSGOLORIAETHAU A BWRSARIAETHAU'R CYFADRANNAU

Mae llawer o'n cyfadrannau academaidd hefyd yn cynnig ysgoloriaethau a bwrsariaethau ychwanegol ar gyfer rhaglenni a addysgir a rhaglenni ymchwil.

Caiff ysgoloriaethau a bwrsariaethau eu cynnig drwy gydol y flwyddyn a byddwn yn eu hysbysebu ar ein gwefan. Gelli sicrhau dy fod ymhlith y cyntaf i gael gwybod am y cyfleoedd ariannu a gynigir gennym drwy edrych ar:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ysgoloriaethau**

## ELUSENNAU, SEFYDLIADAU AC YMDDIRIEDOLAETHAU

Mae nifer fawr o elusennau, sefydliadau ac ymddiriedolaethau yn dyfarnu arian i gefnogi astudiaethau ôl-raddedig. Gellir cael manylion yn The Grants Register (a gyhoeddir gan Palgrave Macmillan) a The Directory of Grant Making Trusts (a gyhoeddir gan y Sefydliad Cymorth Elusennau), y dylai'r ddau ohonynt fod ar gael o wasanaeth gyrfaoedd dy brifysgol a dy lyfrgell leol.

## ENNILL TRA BYDDI DI'N DYSGU

Mae digon o swyddi rhan amser ar gael yn Abertawe a'r ardal leol, ac mae gan Academi Cyflogadwyedd Abertawe wybodaeth am amrywiaeth eang o gyfleoedd ar gyfer gwaith dros dro a gwaith rhan amser, yn ogystal â lleoliadau haf ac interniaethau. Am ragor o wybodaeth, gweler:

**myuni.abertawe.ac.uk/gyrfaoedd/parth-cyflogaeth**

## CYNORTHWYO UNIGOLION SY'N GADAEL GOFAL

Rydym yn gweinyddu ac yn darparu'r Pecyn Cynorthwyo i Bobl sy'n Gadael Gofal, sef amrywiaeth gynhwysfawr o fesurau er mwyn helpu pobl sy'n gadael gofal i ymgartrefu ac i ganolbwyntio ar eu hastudiaethau. Gall myfyrwyr ôl-raddedig cymwys dderbyn bwrsariaeth Gadael Gofal ôl-raddedig sy'n daliad untro y cwrs.

## GWOBR CYFLE PRIFYSGOL ABERTAWE

Bwriad y gronfa galedi yw cefnogi myfyrwyr trwy unrhyw amgylchiadau ariannol annisgwyl neu anodd tra byddant yn y Brifysgol. Bydd pob cais yn cael ei ystyried a'i asesu ar sail unigol, gyda'r cyfrinachedd llymaf gan ein cynghorwyr arbenigol.

Am fwy o wybodaeth, cer i:

**abertawe.ac.uk/arian-bywydcampws/cronfeydd-caledi**

## BWRSARIAETH MEISTR STEMM LLYWODRAETH CYMRU

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer cynllun bwrsariaeth newydd i ddenu myfyrwyr o Gymru i astudio graddau Meistr yng Nghymru. Mae'r Bwrsariaeth gwerth £2,000 yr un tuag at ffioedd dysgu ar gyfer graddedigion sy'n aros yng Nghymru neu'n dychwelyd i Gymru i astudio ar gyfer gradd Meistr mewn Gwyddoniaeth, Technoleg, Peirianneg, Mathemateg neu Feddygaeth, neu bynciau 'STEMM'.

## BWRSARIAETH MEISTR LLYWODRAETH CYMRU AR GYFER 60+

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ar gyfer cynllun bwrsariaeth newydd i ddenu myfyrwyr o Gymru sy'n 60 oed a hŷn i wneud eu gradd meistr yng Nghymru. Mae pob bwrsariaeth werth £4,000 tuag at y ffioedd dysgu.

## BWRSARIAETH MEISTR CYFRWNG CYMRAEG LLYWODRAETH CYMRU*

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi cyllid ychwanegol ar gyfer cynllun bwrsariaeth newydd i ddenu myfyrwyr o Gymru i astudio graddau Meistr trwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r Bwrsariaeth gwerth £1,000 yr un ac ar gael ar gyfer myfyrwyr sy'n astudio gradd Meistr a addysgir gwerth 180 credyd llawn ac sy'n dewis astudio 40 credyd neu fwy o'u cwrs trwy gyfrwng y Gymraeg.

## CYNGOR A CHYMORTH ARIANNOL

Mae'r Tîm Arian@BywydCampws yn cynnig arweiniad ar bob agwedd ar gyllid myfyrwyr, gan gynnwys:

- Grantiau, benthyciadau, bwrsariaethau a budd-daliadau lles
- Dy helpu i reoli dy arian
- Cynorthwyo unigolion sy'n gadael gofal
- Gwobr Cyfle
- Dy helpu i lunio cyllideb realistig
- Cyngor ar ddyledion

**+44 (0)1792 606699**
**money.campuslife@abertawe.ac.uk**

*Mae'r manylion ar gyfer cyllid 2022-23 i'w gadarnhau

# SUT I Wneud Cais

Y ffordd gyflymaf a mwyaf effeithlon o wneud cais am un o'n rhaglenni ôl-raddedig yw gwneud cais ar-lein. Drwy wneud hyn, gelli hefyd olrhain dy gais yn ystod pob cam o'r broses.

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais**

Cysyllta â'r Swyddfa Dderbyn os byddai'n well gen ti gwblhau cais papur:

**+44 (0)1792 295358**
**astudio@abertawe.ac.uk**

Pan fyddwn yn derbyn dy gais, byddwn yn:

- Sicrhau dy fod yn bodloni ein gofynion mynediad academaidd a'n gofynion anacademaidd (os yw'n briodol)
- Cadarnhau dy fod yn meddu ar y profiad a'r sgiliau sydd eu hangen i astudio'r pwnc.
- Edrych am dystiolaeth o dy ymrwymiad a dy gymhelliant, a dy gyflawniadau.
- Ystyried dy eirdaon.

### CEISIADAU AM RADD MEISTR A ADDYSGIR

Unwaith y byddwn wedi derbyn yr holl ddogfennaeth ategol angenrheidiol, byddwn yn anelu at dy hysbysu o'n penderfyniad (neu anfon gwahoddiad i ti ddod am gyfweliad) o fewn 9 diwrnod gwaith o'r dyddiad y byddwn yn cydnabod ein bod wedi derbyn dy gais.

### CEISIADAU AM GYRSIAU GRADD YMCHWIL

Er mwyn sicrhau bod digon o amser i staff academaidd ystyried dy gais a bodloni amodau cynnig posib a gofynion teithio/adleoli, rydym yn argymell y caiff ceisiadau eu gwneud cyn y dyddiadau a amlinellwyd isod.

Sylwer ei bod hi'n bosib gwneud cais y tu hwnt i'r dyddiadau a awgrymwyd isod ond ei bod hi'n bosib y bydd angen symud dy gais/cynnig posib i'r ffenestr dderbyn briodol nesaf.

Cofrestru ym mis Hydref

- Ymgeiswyr o'r DU – 15 Awst

Cofrestru ym mis Ionawr

- Ymgeiswyr o'r DU – 15 Tachwedd

Cofrestru ym mis Ebrill

- Ymgeiswyr y DU – 15 Chwefror

Cofrestru ym mis Gorffennaf

- Ymgeiswyr y DU – 15 Mai

### CYFWELIADAU

Ni fydd angen cynnal cyfweliad fel rhan o'r broses ddethol ar gyfer y rhan fwyaf o raglenni. Os bydd angen cynnal cyfweliad, cei dy hysbysu o ddiben a fformat y cyfweliad er mwyn i ti wybod beth i'w ddisgwyl a pha ran y mae'r cyfweliad yn ei chwarae yn y broses ddethol gyffredinol. Mae rhai rhaglenni (er enghraifft, MA mewn Ysgrifennu Creadigol) yn gofyn i ymgeiswyr ddarparu gwaith ysgrifenedig ychwanegol i ategu cais.

Ar ôl ystyried dy gais, cei wybod y canlyniad:

- Ein bod yn bwriadu cynnig lle i ti
- Ein bod yn bwriadu dy wahodd am gyfweliad
- Ni allwn gynnig lle i ti

Byddi di naill ai'n derbyn cynnig amodol neu gynnig diamod gennym, neu byddwn yn rhoi gwybod i ti na allwn gynnig lle i ti. Byddwn yn dy hysbysu o'n penderfyniad drwy neges e-bost.

Noder mai dim ond Swyddfa Dderbyn y Brifysgol sy'n gwneud cynigion ffurfiol, yn dilyn argymhellion gan yr adran academaidd berthnasol. Bydd dy lythyr cynnig yn cynnwys manylion llawn telerau ac amodau'r cynnig. Os wyt yn gwneud cais i astudio'n llawn amser, byddi di hefyd yn cael manylion sut i wneud cais am lety'r Brifysgol.

Os oes gen ti anabledd, cyflwr meddygol neu anhawster dysgu penodol, fe dy wahoddir i gysylltu â Swyddfa Anabledd y Brifysgol neu'r Gwasanaeth Lles fel y gallwn fod yn siŵr ein bod yn rhoi'r cymorth angenrheidiol i ti drwy gydol dy astudiaethau.

Ar ôl derbyn ein cynnig, os na fyddi di'n bodloni union amodau ein cynnig, mae'n bosibl y caiff dy gais ei ailystyried gan ddibynnu ar y lleoedd gwag sydd ar gael, ac mae'n bosibl y caiff dy le ei gadarnhau o hyd.

Os na fydd dy gais yn llwyddiannus, a dy fod o'r farn ein bod wedi gwneud camgymeriad, gelli ofyn i ni ailystyried dy gais. Cysyllta â'r Swyddfa Dderbyn am ragor o fanylion.

### PROSES ANSAFONOL AR GYFER GWNEUD CAIS

Mae gan rai rhaglenni proses cyflwyno cais wahanol. Cer i'r wefan i dderbyn gwybodaeth am y broses cyflwyno cais ar gyfer dy raglen ti:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/sut-i-wneud-cais/proses-gwneud-cais**

### BETH SYDD EI ANGEN ARNAT?

Er mwyn astudio rhaglen ôl-raddedig yn Abertawe, fel arfer bydd angen gradd anrhydedd neu gymhwyster ôl-raddedig priodol arnat. Mae'n bosibl y caiff profiad gwaith perthnasol hefyd ei ystyried er mwyn cael dy dderbyn i raglenni gradd a addysgir. Gweler manylion y rhaglen am ofynion mynediad manwl.

### DYDDIADAU A DYDDIADAU CAU

Mae gan rai o'n hadrannau ddyddiadau cau sefydlog ar gyfer eu rhaglenni a addysgir. Gweler manylion rhaglenni unigol am ragor o wybodaeth. Rydym yn argymell y dylet gyflwyno dy gais cyn gynted â phosibl, ac yn ddelfrydol erbyn diwedd mis Gorffennaf ar gyfer derbyniad mis Medi ac erbyn diwedd mis Tachwedd ar gyfer derbyniad mis Ionawr, yn ystod y flwyddyn rwyt yn awyddus i ddechrau astudio ar gyfer rhaglenni Meistr a addysgir. Sylwer ar derfynau amser ysgoloriaethau gan fod llawer o'n hysgoloriaethau a'n bwrsariaethau a addysgir ddyddiadau cau yn gynharach na'r dyddiadau a grybwyllwyd uchod.

### COFRESTRU

Caiff gwybodaeth am y broses gofrestru ei hanfon atat cyn i ti ddechrau astudio. Fel arfer, cynhelir y broses gofrestru ar gyfer rhaglenni a addysgir ddechrau mis Medi ar gyfer mynediad ym mis Medi ac ar ddechrau mis Ionawr ar gyfer mynediad ym mis Ionawr.

Noder ei bod yn ofynnol i bob myfyriwr gydymffurfio â gweithdrefnau cofrestru'r Brifysgol a pharchu Rheoliadau Cyffredinol ac Academaidd y Brifysgol – gweler:

**myuni.abertawe.ac.uk/bywyd-academaidd/rheoliadau-academaidd**

### EIN POLISI DERBYN

Mae'r Brifysgol yn croesawu ceisiadau ac ymholiadau gan bob unigolyn ni waeth beth fo'i oedran, hil, tarddiad ethnig neu genedlaethol, credoau crefyddol neu wleidyddol, rhywedd, dewisiadau rhywiol, statws priodasol, cyfrifoldeb teuluol, ac anabledd corfforol neu synhwyraidd, onid yw'r gweithgareddau hyn yn anghyfreithlon neu'n mynd yn groes i bolisi'r Brifysgol.

Mae'r Brifysgol yn trin pob ymgeisydd yn ôl ei rinweddau unigol ac yn croesawu ceisiadau gan ymgeiswyr ag amrywiaeth o gymwysterau a phrofiad gwaith.

Gellir cael y manylion llawn am ein polisïau yma:

**abertawe.ac.uk/astudio/derbyn-myfyrwyr/polisi-derbyn**

## DIWRNODAU AGORED

Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni Ôl-raddedig trwy archebu lle ar un o'n diwrnodau agored sydd ar ddod*.

CADWA DY LE HEDDIW:

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**

*edrycha ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.

# Gradd wedi'i Haddysgu

## LLINELL AMSER Y CAIS

P'un a yw dy gwrs yn dechrau ym mis Medi neu ym mis Ionawr, mae'n syniad da i ti ddechrau meddwl am opsiynau astudio ôl-raddedig o leiaf chwe mis cyn i'r cwrs ddechrau.



### 01 DECHRAU CYNLLUNIO

Wyt ti am barhau i astudio dy bwnc presennol neu astudio mewn maes hollol wahanol? Byddai'n syniad da meddwl hefyd beth fyddai orau i ti – gradd wedi'i haddysgu neu radd ymchwil. Bydd ein Diwrnodau Agored Ôl-raddedig yn rhoi cyfle i ti archwilio dy holl opsiynau ar ein campysau sydd ger y traeth. Mae Prifysgol Abertawe'n cynnig amrywiaeth o gynlluniau astudio, cyflogadwyedd a chyllid gwych.

Mae'n syniad da cysylltu â dy ganolwyr a pharatoi datganiad personol cyn dechrau dy gais.

### 02 GWNA GAIS A DERBYN DY GYNNIG

Gelli wneud cais yn uniongyrchol i Brifysgol Abertawe ar gyfer y rhan fwyaf o'n cyrsiau ôl-raddedig (mae rhai rhaglenni'n eithriadau). Fel arfer, byddi di'n clywed a ydym wedi cynnig lle i ti astudio ar y cwrs neu'r cyrsiau rwyt wedi'u dewis o fewn pum niwrnod gwaith.

Gelli wneud cais erbyn diwedd mis Gorffennaf (ar gyfer mynediad ym mis Medi) ac ar ddiwedd mis Tachwedd (ar gyfer mynediad ym mis Ionawr) fan bellaf ond paid â'i adael yn rhy hwyr oherwydd y gelli golli cyfleoedd am ysgoloriaethau.



### 03 DERBYN DY GYNNIG

Rho wybod i ni o fewn 28 diwrnod i sicrhau dy fod yn cael lle ar y cwrs o dy ddewis.






### 04 GWNA GAIS AM GYLLID

Rydym yn cynnig amrywiaeth o ysgoloriaethau ôl-raddedig ym mhob maes pwnc, yn ogystal â ffynonellau eraill o gyllid. Mae'r broses ymgeisio am gyllid myfyriwr yn agor ym mis Mehefin fel arfer.

### 05 PARATOI

Efallai yr hoffet ddechrau ystyried ble rwyt ti am fyw pan fyddi di'n astudio gyda ni. Mae dewis eang o opsiynau llety hyblyg yn y Brifysgol a'r sector preifat ar gael yn Abertawe.





### 06 CANLYNIADAU

Os wyt yn sefyll arholiadau, byddi di'n derbyn y canlyniadau ac, ar yr amod dy fod yn bodloni telerau dy gynnig, caiff dy le i astudio ym Mhrifysgol Abertawe ei gadarnhau. Byddi di hefyd yn clywed a wyt wedi bod yn llwyddiannus os gwnaethost gais am ysgoloriaethau.

### 07 COFRESTRU

Cyn i ti gyrraedd Abertawe, byddi di'n derbyn cyfarwyddiadau llawn am y broses gofrestru. Gwahoddir yr holl fyfyrwyr ôl-raddedig i ddod i ddigwyddiad sefydlu yn eu cyfadran hefyd - cyfle gwych i gwrdd â ffrindiau newydd!



# Gwneud Gais AM PhD?

Gelli gychwyn dy PhD ym Mhrifysgol Abertawe ym mis Hydref, Ionawr, Ebrill neu Orffennaf. Rho 3 i 6 mis i dy hun i gynllunio ac ymchwilio cyn i ti gyflwyno dy gais.

Yn Abertawe, rydym yn cynnig dau brif fath o brosiect PhD:

- Y rhai sydd wedi'u cynllunio ymlaen llaw gan academydd (sy'n fwy cyffredin mewn pynciau gwyddoniaeth a pheirianneg)
- Y rhai rwyt ti'n eu dylunio dy hun

## Prosiectau a gynlluniwyd ymlaen llaw:

Bydd prosiect a gynlluniwyd ymlaen llaw yn aml yn rhan o waith ymchwil ehangach a wneir gan academydd neu grŵp ymchwil. Fel arfer bydd teitl a nodau ac amcanion penodol i'r mathau hyn o brosiectau, a byddi di fel rheol yn cael dy oruchwylio gan yr academydd a gynlluniodd y prosiect. Mae Prifysgol Abertawe yn hysbysebu nifer fawr o'r cyfleoedd hyn drwy gydol y flwyddyn academaidd ym mhob maes pwnc.



### CYLLID:

Mae ysgoloriaethau ymchwil yn Abertawe fel arfer yn cynnig cyllid ar gyfer cyfnod dy astudiaethau.

Mae benthyciadau PhD ar gael hefyd trwy Gyllid Myfyrwyr Lloegr a Chyllid Myfyrwyr Cymru.

### GWNEUD CAIS:

Mae gwneud cais am brosiect a gynlluniwyd ymlaen llaw yn syml – yr unig beth y bydd angen i ti ei wneud bydd dilyn y cyfarwyddiadau ar hysbyseb y prosiect.

Fel arfer bydd gan y rhain dyddiad cau penodol felly rho ddigon o amser i dy hunan i gwblhau unrhyw waith papur a chasglu geirdaon os oes angen.

## Graddau PhD a hunangynlluniwyd:

Bydd angen ychydig mwy o ymdrech a meddwl i gychwyn ar PhD a hunangynlluniwyd, ond yn y bôn, dylet fod â thema i dy brosiect sydd wirioneddol yn dy gyffroi ac o ddiddordeb i ti.

### CYSYLLTA Â DARPAR ORUCHWYLWYR:

Ar ôl creu syniad cychwynnol ar gyfer prosiect, bydd angen i ti ddod o hyd i oruchwyliwr academaidd priodol.

Man dechrau da yw dod o hyd i'r adran yn y Brifysgol sydd â'r meysydd cryf sydd fwyaf perthnasol i dy waith ymchwil. Gelli hefyd chwilio cyfeiriadur arbenigedd Prifysgol Abertawe ar-lein, siarad â dy oruchwyliwr presennol, cer i ffair astudio neu Ddiwrnod Agored Ôl-raddedig.

### CYLLID:

Ceir nifer o ffyrdd y gelli ariannu dy PhD gan gynnwys benthyciadau sydd ar gael trwy Cyllid Myfyrwyr Cymru a Chyllid Myfyrwyr Lloegr.

**DARGANFYDDA FWY**

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/ffioedd-ac-ariannu/benthyciadau-ol-raddedig**

### GWNEUD CAIS:

Ar ôl i ti adnabod darpar oruchwyliwr ar gyfer dy syniad ymchwil, bydd angen i ti gysylltu ag ef cyn cyflwyno cais ffurfiol. Mae academyddion yn croesawu ceisiadau anffurfiol gan ddarpar fyfyrwyr a byddant hefyd yn dy helpu ti i ffurfio dy gynnig ymchwil. Dylet ti gynnal dy ymchwil cyn i ti gyflwyno dy gais a threulio amser yn ei baratoi.

Pob lwc!



# MYNEGAI


**A**

Addysg **60**
Addysg ar gyfer y Proffesiynau Iechyd **136**
Addysg Feddygol **137**
Addysgu Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (TESOL) **125**
Almaeneg **122**
Arabeg **123**
Arloesedd Ynni **155**
Arwain a Rheoli Peirianneg **149**
Arsylwi'r Ddaear **95**
Athroniaeth **69**
Astudiaethau Americanaidd **65**
Astudiaethau Cydymaith Meddygol **136**
Astudiaethau Gwleidyddol a Diwylliannol **67**
Astudiaethau Heneiddio **100**
Astudiaethau Iechyd Cymunedol **138**
Astudiaethau Lladin-Americanaidd **122**
Astudiaethau Plentyndod **156**
Astudiaethau Trefol **95**
Astudiaethau'r Cyfryngau **88**
Astudiaethau'r Oesoedd Canol **116**

**B**

Bancio a Chyllid Rhyngwladol **80**
Bioleg Amgylcheddol **70**
Biowyddorau **70**
Busnes Digidol **160**
Bydwreigiaeth **143**

**C**

Cadwraeth a Rheoli Adnoddau **70**
Cemeg **73**
Cwrs Ymarfer Cyfreithiol (LPC) **114**
Cyfathrebu a Newyddiaduraeth Chwaraeon **86**
Cyfathrebu, Ymarfer y Cyfryngau a Chysylltiadau Cyhoeddus **86**
Cyfiawnder Troseddol Cymhwysol a Throseddeg **170**
Cyfieithu **119**
Cyfieithu ar y Pryd **121**
Cyfieithu Tsieinëeg-Saesneg ac Addysgu Iaith **125**
Cyfraith Eiddo Deallusol a Masnachol **113**
Cyfraith Fasnachol Rhyngwladol **112**
Cyfraith Forwrol Ryngwladol **113**
Cyfraith Hawliau Dynol **112**
Cyfraith Olew a Nwy ac Ynni Adnewyddadwy **113**
Cyfrifeg a Chyllid **78**
Cyfrifeg a Chyllid Rhyngwladol **78**
Cyfrifeg Broffesiynol **79**
Cyfrifeg Strategol **79**
Cyfrifiadura a Thechnolegau Rhyngweithio'r Dyfodol **85**
Cyfrifiadura Gweledol **85**
Cyfrifiadureg **82**
Cyfrifiadureg Ddamcaniaethol **85**
Cyfrifiadureg Uwch **83**
Cyfryngau, Cyfathrebu a Chysylltiadau Cyhoeddus **86**
Cyfryngau Daearyddol **95**
Cyfryngau Digidol **87**
Cyllid **78, 79, 80**
Cyllid a Dadansoddeg Data Mawr **78**
Cymdeithas, Amgylchedd a Newid Byd-Eang **93**
Cymdeithaseg **103**
Cymraeg **90**
Cysylltiadau Rhyngwladol **67**

**CH**

Chwarae Datblygiadol a Therapiwtig **156**

**D**

Dadansoddeg Fusnes **160**
Daearyddiaeth **93**
Daearyddiaeth Ddynol **95**
Daearyddiaeth Ffisegol **95**
Data Mawr a Deallusrwydd Artiffisial o Safbwynt Defnyddwyr **83**
Datblygu a Hawliau Dynol **67**
Datblygu Rhyngwladol **69**
Deinameg Amgylcheddol a Newid yn yr Hinsawdd **93, 95**
Dihalwyno ac Ailddefnyddio Dŵr **155**
Diogelwch a Datblygu Rhyngwladol **68**
Doethur mewn Gweinyddu Busnes **161, 164**
Dulliau Ymchwil Cymdeithasol **101**
Dylunio Cynhyrchion ar sail Efelychu **155**
Dyniaethau Iechyd **146**

**E**

Ecoleg **70**
Economeg **97**
Economeg a Chyllid **97**
Economeg Iechyd **146**
Eifftoleg **76**
Entrepreneuriaeth ac Arloesi **160**

**FF**

Ffiseg **99**
Ffiseg Arbrofol **99**
Ffiseg Ddamcaniaethol **99**
Ffiseg Gymhwysol **99**
Ffiseg Ymbelydredd Meddygol **107**
Ffrangeg **123**

**G**

Gerontoleg ac Astudiaethau Heneiddio **100**
Gofal Cymdeithasol **103**
Gofal Newyddenedigol **138**
Gwaith Cymdeithasol **101**
Gweithiwr Proffesiynol Iechyd Meddwl Cymeradwy **139**
Gwleidyddiaeth **68**
Gweinyddu Busnes MBA **104**
Gwybodaeth Ddaearyddol a Newid yn yr Hinsawdd **93**
Gwybodeg Iechyd **107**
Gwyddoniaeth Glinigol (Ffiseg Feddygol) **108**
Gwyddor Actiwaraidd **133**
Gwyddor Biofeddygol **108**
Gwyddor Chwaraeon ac Ymarfer Corff **105**
Gwyddor Data **83**
Gwyddor Data Iechyd **108**
Gwyddorau Biolegol **71**
Gwyddorau Meddygol a Bywyd **107-111**

**H**

Hanes **116**
Hanes Cyhoeddus a Threftadaeth **117**
Hanes Modern **117**
Hanes yr Henfyd **75**
Hanes yr Henfyd a Diwylliant Clasurol **75**
Heriau Byd-eang: Cyfraith, Polisi ac Ymarfer **113**

**I**

Iechyd Cyhoeddus **139**
Iechyd Cyhoeddus Plant **158**
Iechyd Meddwl **103**
Ieithoedd Modern, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd **119**
Ieithyddiaeth Gymhwysol **125**

**LL**

Llên Naratif yr Henfyd **76**
Llenyddiaeth Saesneg ac Ysgrifennu Creadigol **127**

**M**

Marchnata **131, 160**
Marchnata Strategol **131**
Mathemateg **133**
Mathemateg a Chyfrifiadureg ar gyfer Cyllid **133**
MBA Gweinyddu Busnes **104**
Mecaneg Gyfrifiadol **149**
Meddygaeth Genomig **109**
Meddygaeth i Raddedigion **135**
Meddygaeth a Gofal Iechyd **135-147**
Modelu Amgylcheddol Byd-eang **95**
Modelu Cyfrifiadurol mewn Peirianneg **155**
Moeseg ac Uniondeb Chwaraeon **105**

**N**

Nanodechnoleg **155**
Nanoelectroneg **155**
Nanofeddygaeth **109**
Nanowyddoniaeth i Nanodechnoleg **150**
Newid yn yr Hinsawdd **93**
Newyddiaduraeth Ryngwladol **87**
Niwrnowyddoniaeth Wybyddol **167**
Nyrsio **139**
Nyrsio Iechyd Cyhoeddus Cymunedol Arbenigol **140**

**P**

Peirianneg **149**
Peirianneg Awyrofod **150, 155**
Peirianneg Bŵer ac Ynni Cynaliadwy **150**
Peirianneg Bio-broses **155**
Peirianneg Defnyddiau **150, 155**
Peirianneg Electronig a Thrydanol **151, 155**
Peirianneg Fecanyddol **151, 155**
Peirianneg Feddygol **155**
Peirianneg Gemegol **151, 155**
Peirianneg Gyfathrebu **152**
Peirianneg Gyfrifiadurol **152**
Peirianneg Meinweoedd **155**
Peirianneg Sifil **152, 155**
Peirianneg Strwythurol **152**
Plant a Phobl Ifanc **156**
Polisi Cyhoeddus **68**
Polisi Cymdeithasol **103**
Polisi Iechyd **147**
Prosesau Stocastig: Damcaniaeth a Chymhwyso **134**

**R**

Realiti Rhithwir **154**

**RH**

Rhagnodi Anfeddygol **141, 142**
Rheoli **160**
Rheoli Busnes **160**
Rheoli Adnoddau Dynol **160**
Rheoli Ariannol **79**
Rheoli Ariannol Rhyngwladol **79**
Rheoli Buddsoddiadau **80**
Rheoli Chwaraeon **160**
Rheoli Cyflyrau Cronig a Hirdymor **142**
Rheoli Gofal Iechyd **143**
Rheoli Gweithrediadau a Chyflenwadau **160**
Rheoli Iechyd a Gofal Uwch **163**
Rheoli Peirianneg Gynaliadwy **154**
Rheoli Rhyngwladol **160**
Rheoli Twristiaeth Ryngwladol **165**
Rhesymeg a Chyfrifiannu **85**
Rhewlifeg **95**
Rhyfel a Chymdeithas **166**
Rhyngweithio rhwng Pobl a Chyfrifiaduron **85**

**S**

Sbaenig **123**
Sbaeneg **123**
Seiberddiogelwch **83**
Seiberdroseddu a Therfysgaeth **112, 170**
Seicoleg **167**
Seicoleg Fforensig **169**
Seicoleg Glinigol **169**
Seicoleg Iechyd **169**
Synhwyro o Bell Drôn Amgylcheddol **95**

**T**

TAR **61**
TechGyfreithiol **112**
Technoleg a Chymwysiadau Lled-ddargludyddion **73**
Technoleg Ariannol **79**
Technoleg Meddalwedd Uwch **84**
Technoleg Pilenni **155**
Technoleg Tanwydd **155**
Trallwyso Cydrannau Gwaed **143**
Troseddeg **170**
Twristiaeth **165**

**Y**

Y Clasuron, Hanes yr Henfyd ac Eifftoleg **75**
Y Gyfraith **112**
Ymarfer Cyfreithiol a Drafftio Uwch **114**
Ymarfer Diabetes **144**
Ymarfer Gofal Iechyd **144**
Ymarfer Gofal Iechyd Cymunedol a Sylfaenol **145**
Ymarfer Uwch mewn Gofal Iechyd **145**
Ymfudo Byd-eang **95**
Ysgrifennu Creadigol **127, 129**
Ysgrifennu Cymreig yn yr Iaith Saesneg **128**


**ALLWEDD**

- AU – Rhaglen llawn amser
- ION – Mynediad ym mis Ionawr ar gael
- RhA – Rhaglen rhan amser
- – Bwrsariaethau Meistr Cyfrwng Cymraeg Llywodraeth Cymru ar gael

## GWYBODAETH BWYSIG

Mae'r neges ganlynol yn cynnwys gwybodaeth bwysig iawn. Cafodd y prosbectws hwn ei argraffu yn ystod haf 2021. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y rhaglenni ôl-raddedig y mae Prifysgol Abertawe yn bwriadu eu cynnig i fyfyrwyr sy'n bwriadu dechrau'r brifysgol ym mis Ionawr 2022 ac ym mis Medi 2022. Rydym wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod y wybodaeth a roddir yn ddefnyddiol ac yn gywir ar y dyddiad cyhoeddi.

Fodd bynnag, gall fod angen gwneud rhai newidiadau, er enghraifft i raglenni, lleoliadau astudio, cyfleusterau neu ffioedd am resymau staffio, ariannol, rheoliadol ac academaidd dilys.

Pe bai gweithredu diwydiannol, ffactorau allanol y tu hwnt i reolaeth y brifysgol neu Ddeddfwriaeth a/neu Ganllawiau gan y Llywodraeth yn ymyrryd â'i gallu presennol i ddarparu'r gwasanaethau (ar adeg cyhoeddi'r ddogfen), bydd y Brifysgol yn sicrhau ei bod yn cymryd pob cam rhesymol er mwyn lleihau lefel y tarfu ar y gwasanaethau. Ar adeg cyhoeddi'r ddogfen hon, rydym yn wynebu tirwedd sy'n newid yn barhaus a byddwn yn adolygu'r sefyllfa yn barhaus/yn gyfnodol.

Ceisiwn wneud cyn lleied o newidiadau â phosibl bob amser a sicrhau bod darpar fyfyrwyr yn cael gwybod amdanynt yn briodol. Caiff unrhyw newidiadau i'r wybodaeth yn y prosbectws hwn eu diweddaru ar dudalennau'r cyrsiau ar-lein yn: **www.abertawe.ac.uk/ol-raddedig**

Rydym ni'n annog myfyrwyr i ymweld â'n gwefan i wirio am wybodaeth sydd wedi'i diweddaru yn y prosbectws hwn cyn gwneud cais.

Mae'r prosbectws hwn wedi'i argraffu ar bapur a wnaed o bwlp o ffynonellau cynaliadwy gan ddefnyddio inc o lysiau.

Mae fformatau amgen, gan gynnwys copi print bras ar gael ar gais, cysyllta â:
**+44(0)1792 604625 creativeservices@swansea.ac.uk**


Cynhyrchwyd gan yr adran Marchnata, Recriwtio a Rhyngwladol, Prifysgol Abertawe
Dylunio: Icon Creative Design, IconCreativeDesign.com



**Mae Prifysgol Abertawe yn elusen gofrestredig. Rhif.1138342**
**© Prifysgol Abertawe 2021**


MYNEGAI




## DIWRNODAU AGORED ÔL-RADDEDIG

Darganfydda fwy am Brifysgol Abertawe a'n rhaglenni Ôl-raddedig trwy gadw lle ar un o'n diwrnodau agored sydd ar ddod*.

Rydym yn cynnal Diwrnodau Agored Rhithwir Ôl-raddedig trwy gydol y flwyddyn academaidd. I gael mwy o wybodaeth ac i gadw lle ar gyfer ein digwyddiad nesaf, cer i:

*Cadwa dy le heddiw:*

**abertawe.ac.uk/ol-raddedig/diwrnodagored**

*edrych ar ein gwefan i gael manylion llawn, dyddiadau a fformat y diwrnodau agored sydd ar ddod.

## TAITH RITHWIR

Bron cystal â bod yma!

**abertawe.ac.uk/rhith-daith**



## YMWELIADAU UNIGOL

Efallai y gelli drefnu ymweliad unigol i weld ein campysau a'n hadrannau academaidd. Am fwy o wybodaeth, cysyllta â:

**astudio@abertawe.ac.uk**

## UNIBUDDY

UNIBUDDY

Sgwrsia ag un o'n myfyrwyr ôl-raddedig cyfredol trwy ein sgwrs Unibuddy ar-lein:

**abertawe.ac.uk/astudio/bywyd-myfyriwr/sgwrsio-llysgennad**

**DILYNA NI I DDARGANFOD MWY:** prifysgol.abertawe | Prif_Abertawe | prifysgol_abertawe | Prifysgol Abertawe



# ASTUDIO YN *Abertawe*

**AWR** O GAERDYDD

**2 AWR** O BRYSTE

**3 AWR** O LLUNDAIN

**3 AWR** O BIRMINGHAM







## EDRYCH A PHORI TRWY'R PROSBECTWS UNRHYW BRYD...

Sgania i lawrlwytho fersiwn ddigidol o'r prosbectws.